† It is owing to the surprising copiousness of the Welsh language that our rules of versifying on the principle of concatenation alone

And it was the opinion of our learned countryman, the late Lewis Morris, Esq. that the bards, by means of these intricate setters, though they might have clogged their genius, yet they unalterably preserved the pronunciation and etymology of the language; as not a single sound, or letter, could be changed by any means, without confounding the whole structure.

Here it may be necessary to observe that the order of the bards was considered as a branch of the constitution; and their poetry was the sacred repertory of history, agreeable to the direct injunction of the laws; and therefore it was requisite it should be, as we find it is, free from overcharged imagery which might be liable to obscure truth in the blaze of splendid fable. They generally did not deviate from this system, but considered it the principal object of their institution, until the dissolution of the order in that final catastrophe, the death of Dafydd ab Gruffydd, in the year 1283, which put a period to the independency of the ancient Britons. When that event took place, the bards were at liberty to follow the flights of their fancy; which of course produced

is practicable; and that copiousness arises not so much from verbosity as from the nature of its inflections, and above all from that perfection of the language, its regular system of the mutations of initial letters. Some idea of the difficulty of the Welsh versification, may be conveyed by shewing that it requires perfect literal exactness in the concatenation and in the rhyme; and some idea also of the means by which that difficulty is surmounted may be learnt from the following circumstance:—

“Gorddwy clau tónau Talgarth yslyr”—

Is a verse wherein no change by inflection of verbs could be required, which has been fixed upon to try how many different ways those same words could be varied, by means of such initial mutations and other peculiarities, without altering the idea; and the result of the enquiry proves that this verse of five words is capable of above one hundred variations.

produced a great revolution in their poetry. But it is worthy of remark that they still wished to avoid imitating other nations; for the mythology of the Greeks and Romans, and the gawdy fables of the Arabs, those fruitful sources that furnished the rest of Europe with poetic machinery, were never regarded by the Welsh bards. But to return—

By the fall of the Cambro-British power, the original object being done away, to which the order of the bards had hitherto paid attention, their genius was left unrestrained, as has been before hinted, which caused a revolution in their poetry; and consequently this period gave birth to several new laws of versification and composition; which, though not capable of that great effect produced by the flowing and animated harmony of the old metres, were melodious, and congenial with the nature of the lighter subjects to which they were adapted. But the bands being dissolved in which the bards had been united, these new laws were variable and wanted stability, which induced subsequent congresses to select those that were best constructed, and to give them their sanction of authority for being regular; and this selection was called the *new twenty-four measures of vocal song.*

It was at the time when our poetry was in this unsettled state, that DAFYDD AB GWILYM appeared, therefore, in estimating the merits of his works, if we find them possessed of invention, harmony, perspicuity, and elegance of language, which has not been excelled by any of his successors, we must allow the powers of his mind to have been great, that rose superior to the disadvantages

vantages of the period in which he lived, and illumined the gloom of an ignorant and superstitious age. That our Bard has excelled in those instances must be evident to every one who reads his compositions, but yet, to fulfil the intention of this commentary, it is requisite briefly to point out a few of his most striking beauties.

Nothing can afford a stronger proof of the fruitfulness of his invention, than his having traced out a new species of poetry, which has stood a model for the imitation of his countrymen. Disdaining to adopt the poetical machinery of strangers, he supplied their place by personifying and conferring new attributes on various objects of animate and inanimate nature. A beautiful poem, in this style, is that wherein the wind is animated and arrayed with power—this fleet messenger is commissioned to bear the sighs of our Bard to his beloved Morfudd, despairing that any other should succeed, so as to elude the vigilance of his enemies\*. His description of the fog, which in more than one instance had misled him on his journey to his mistress, is fine†. And the two poems, one invoking the sun, the other the summer, to proceed with all the blessings of their influence, as messengers of his gratitude to Glamorgan, are master-pieces in their kind‡. In his love poems, our Bard delighted most in the agency of the animal creation—very numerous are his dialogues with birds and beasts, and even the finny tribe are employed on his love errands.—These compositions are so peculiarly attractive, that most of the succeeding

\* N<sup>o</sup>. 69.

+ N<sup>o</sup>. 54.

‡ N<sup>o</sup>. 93 and 11 of the appendix.

ing poets of Wales have taken them as a model : and this forms the most prominent feature in the poetry of that country, in which it differs from that of other nations.

In speaking of the harmony of versification in Dafydd ab Gwilym's poems, it may be sufficient to observe that many of them will bear to be examined by all the laws of composition which have been made or settled subsequent to his time ; nay, they will stand as a model of perfection, though he wrote, as has been observed, when most of the laws were in a state of fluctuation, and others even unknown. It seems very probable, therefore, that his verse furnished the idea for many rules which were afterwards settled. Our Bard may be also considered as the inventor of that form of composition called a *Cywydd*, in which the greatest part of his works were written ; at any rate the origin of it must be attributed to his time, for we find nothing similar among the productions of earlier bards.

Before we notice another striking beauty in the works of our Bard, it may not be amiss to observe what appears extraordinary, that in the formation of the Welsh language, some uncommon precaution must have been taken in assorting its words by their sound to the sense, and that in all the different gradations ; but so it is, and to such minuteness, as to confound one in attempting to trace the cause. Dafydd ab Gwilym being sensible of this advantage, and being also a master of the language, and possessed of feeling and judgement, selected words the most suitable to his subject—thus we find softness and melody in his love poems, in all their variations,

from

from the lively to the plaintive; and we trace this quality of the language through all his works, from the lightest sallies of his muse, to that scene which strikes us in his thunder storm as terrible, awful, and grand\*.

It is the wish of the editors to avail themselves of the indulgence of the publick, hoping that those who are acquainted with the poetry of Dafydd ab Gwilym, will, by giving a translation of his works, do their favourite that justice, in the eye of the world, which it is not possible he should receive from such an imperfect attempt as this before them. The editors have only to add, that, to fulfil their duty as members of the Gwyneddigion Society†, they undertook this publication with the sole view of preserving the remains of the works of a celebrated bard‡, to whom his countrymen have given the appellation of the Ovid of Wales; and fearing if they

\* N<sup>o</sup>. 44.

† Instituted in London, in 1772, to enable its members, being absent from their country, to enjoy their own peculiar customs, and to promote whatever might tend to illustrate the history of Wales.—The appearance of this work was a favourite wish of all the members of the society, but particularly cherished by Mr. JOHN EDWARDS the bard of the society, the two brothers, MELLIS, EDWARD and OWEN JONES of Môn, and Mr. MEREDITH JONES, to whom we are obliged for assistance in completing this work; and Mr. EDWARD JONES author of the Musical and Poetical Relics of the Welsh Bards, who favoured us with copies of some of the poet's works from his collection.

‡ That a great many pieces are lost we clearly find from several accounts, and from hints in his works. But it is a wonder that so many have been preserved, when we consider their precarious state for some time.—It is said that they were so admired for a long while after his death, that the bards and others could repeat a great part of them from memory, and were so generally known this way that many of them were neglected to be written, until Bedo Brwynnllys, a bard who flourished about 1460, made a collection of those floating poems; and that collection was preserved for a long time at Rhaglan in Monmouthshire, but is now lost.

they had not done so, that this collection, notwithstanding the fame of the author, would have shared the fate of many other valuable remains of the poetry of the Welsh bards that have perished year after year within their memory; and which will be the destiny of many more, unless some of their patriotic countrymen will stretch forth their hands, ere it be too late, for their preservation.

LONDON,  
July 1, 1789.

WILLIAM OWEN.

PAN GLYBU GRUFFYDD GRYG FARW O'I ANWYL  
GYFAILL DAFYDD AB GWILYM CYMMERODD  
DAITH O FÔN I YSTRAD-FFLUR I'W GLADDED-  
IGAETH\* BR CYFLAWNÎ Y PWTYH OLAF O'R  
CAREDIGRHYDD RHYNGDDYNT: A CHANODD Y  
CYWYDD CANLYNOL I'R YWEN OEDD UWCH  
BEN EI FEDD.

**Y**R Ywen i oren-was,  
Ger mur Ystrad Fflur, a'i phlas,  
Da Duw wrthyd, gwynfyd gwŷdd  
Dy dyfu yn dy Dafydd!—  
Dafydd, gwedi dy dyfu,  
A'th wnaeth o'i faboliaeth fu.

Dafydd Llwyd a'th brophwydawdd  
Er cyn dy dyfu rhag cawdd,  
Dy urddo yn dy irddail,  
Ty a phob llwyn yn dwyn dail

c

Castell

\* Rhai a ddywed mai ym Mon y bu farw, a Gr. Gryg ai hebryngodd  
i Ystrad-Fflur.

Castell eudd meirw rhag eirwynt,  
 Cystal a'r pren gwial gynt;  
 Dy lëau, bu deulüaidd  
 Dy wrysg, dy gangau, dy wraidd:  
 Mae danud y mudaniaeth,  
 Beddrwym—nid o'm bodd yr aeth!

Byda o englynion bydodd,  
 Bu ddewr ri mewn rhieni rhodd,  
 A synwyr cerdd naws unud,  
 A gwaes Ddyddgu pan fu fud!—  
 Gwnaeth ei theuluwas las ryw  
 I'w hael dyfu tra fu fyw,  
 Gwna dithau, geingciau dethol,  
 Gywirder i Ner yn ol.

Addfwyn warchadwai wyddfa,  
 Drybedd i'w fodrabaid da;  
 Na ddôs gam, na ddysg omedd,  
 Ywen, odduwchben y bedd.—  
 Ni'th lysg tân, anian un-erch,  
 Ni'th dîr faer, ni'th dyfriw ferch,  
 Ni'th bilia crydd, mewn dydd dyn,  
 Dy duddled yn dy dyddyn.  
 Ni thîr hefyd, mewn bryd braw,  
 A bwyall, rhag ei bwyaw  
 (Ir dy fauch i ar dy fon)  
 Taeog, na chynyteion.  
 Dail yw'r to, da le yw'r tau,  
 Diwartho Duw dy wrthiau!

MARWNAD DAFYDD AB GWILYM, A GANT  
GRUFFYD GRYG.

**D**AFYDD ab Gwilym, ymy  
Y bu farw, am na bai fry  
Yn nhir Deheubarth yn hardd,  
Ac aerfa rh'of ac eur-fardd!

Gwae'r beirdd am eu penceiddwalch,  
A gwae'r byd am y gwr balch;  
Gwae finnau, myn creiriau cred!  
Troes boon dwfn tros baun Dwyfed!  
Dewiswn dduchan glanbryd  
O ben Dafydd, brydydd bryd,  
Cyn pryd, ym gloywrym glod,  
O arall, angall yngod.

Disgybl wylf, ef a'm dyfgawdd,  
Dyfgawdr cywydd heawdr hawdd:  
Cyn ei farw bu gyfarwas,  
Rh'of ac ef, neud rhyfu gas.  
Pwybynag, ddewin ddinam,  
O ferw cerdd fu ar y cam,  
Maddau i'r prisardd hardd-faeth  
Hoyw Dduw nef heddyw a wnaeth:  
Rhof finnau, gweuadau gwawd,  
Maddeuant am y ddywawd.—  
Ar y gwir y bu hirynt,  
A minnau ar y gau gynt:  
Bum, myn Cynddelw! ar gelwydd,  
Gwawr ferch ar y gwir y fydd.

Brenhin haul a goleu-loer,  
Bu nad, ac irad, ac oer,

Dwyn Dafydd, dioer, dyn difai,  
 Dwbiwr cerdd dau Abercái;  
 Fab Gwilym, wawdrym wiwdrefn,  
 Fardd pencerddradd lifnadd lefn:  
 Un tlysfair, enw Taliefin,  
 Ynad gwiw, enaid y gwin;  
 Cyw Merddyn, cywiw mawrddof,  
 Cadair y gerdd, cadr ei gof.  
 Ymlyn-gof aml ei angerdd,  
 Angel yftor cyngor cerdd;  
 Cywirdant mwyn a gwynir,  
 Colofn cerddau'r Déau dir!  
 Cad o'i ben bob cymmhendawd,  
 Cynddelwaidd ei weddaidd wawd;  
 Hoywlan aur hael Aneurin,  
 Hael o was a heiliai wín:  
 Dôr dur-arf, dewr, a diriaid,  
 Yn llwybro'r aur lle bu raid.  
 Maes o wawd gwr masf ydoedd,  
 A doeth pan ofynid oedd;  
 Mal Trahaearn y barnwn,  
 Neu fal Llywarch, hirbarch hwn:  
 Neu Gafnodyn, dyn difas,  
 Neu Addaf, frwysgaf, Fras.

Cywraint y gwnaeth Mabmaeth Mair,  
 Dan gôr gwydr, dwyn dyn gwawdair,  
 A gado Bleddyng idwm,  
 Fforddrych druan cryman crwm:  
 Iawn y gwnaeth Crist ddewis-tad,  
 Ac yn cael gafael y gad,  
 Yn ddilys ddewis o'r ddau,  
 Ddoniog wr, ddwyn y gorau!

Dewisodd

Dewisodd Duw dealuwias,  
 A gwirthod cydfod y cas.—  
 Trifwch weithian bob cantref;  
 Bellach naw llawenach nef!

---

MARWNAD DAFYDD AB GWILYM, A GANT MADOG  
 BENFRAS.

**D**A ar feirdd dewr wr a fu,  
 Y dewisodd Duw Jesu;  
 Poen, bae dwys baun bedysfawd,  
 Pan aeth a gwawr pênaeth gwawd!

Porthloedd gwawd, parthlywydd gwiwder,  
*Parlament* clod, a moliant cler;  
 Poen seirffaer, pensaer hoff-wawd;  
 Pen sylwayw paun y feilwawd;  
 Pentref cerdd, paun tyrra cad,  
 Paentiwr cur, pwyntiwr cariad;  
 Penial cerdd ddyfal ddefawd,  
 Paun ar y gwyr, pânwr gwawd,  
 Penygai glod penigamp,  
 Pennod, a chwmpod, a champ;  
 Pensael y wen-gaer wingerdd,  
 Pênaeth penceirddiaeth, paun cerdd;  
 Perging ei duddled purgoch,  
 Perllan cerdd, parllinon coch.

Aml cwyn am ei ddwyn o'i ddydd;  
 Ymddifad cerdd am Ddafydd  
 Fab Gwilym, febyd gwawlyw,  
 Gwanas clod, gwae ni, na's clyw!  
 Gwawr ar gryd, gwayw ar grwydr,  
 Gwawd Dafydd, frawd disudd frwydr;

Gwedi ef pob gwawd a oedd,  
Gweadur cerdd gwiw ydoedd!

Gwedi fy mrawd, hyf gwayw-dwn,  
Gwiw fu ef, gwaefi, a wn  
O hirnyc, gwyth ni'm gweheirdd  
O hiraeth am bënaeth beirdd!  
Digrif oedd! deigr a foddes  
Deutu fy ngrudd; ni'm lludd lles!  
Mawr ar fy ngrudd llawrudd llif,  
Mesur deigr—masfw wr digrif!

Mal yn arial, neu eurin,  
Molt gwawd hael, a milt y gwin;  
Maer y ferch, mawr yw y son,  
Mawr ammod clod morwynion!  
Molwr cerdd, milwr ai cant,  
Milwr y glod, a'i moliant!  
Ieueingtid maddeuid Mair,  
A Duw Jesu, dewis-air!  
A maswedd, trawswedd traferch,  
I Ddafydd, filltydd y ferch!—  
Dafydd, degan rhianedd,  
Dyfyn clod daufiniog cledd:  
O rwyf hoed, ni rifo hen,  
Rhaid yw yn ol rhwyd awen.  
O darfu awdlifardd gwawdlwydd  
Ado'r gerdd fal yn dir gwÿdd,  
Egin fawl clod i gein-ferch,  
Ac yn dir fied, deryw ferch!

Och! na fu hir, gohir ged,  
Oes Dafydd, Eos Dyfed!

Ys gwag yr haf am Ddafydd;  
 Ys gwir gwawd, *ysgwier* gwŷdd:  
 'Troes *bryces* mal Taliesin,  
 Rhol o wawd, yr hael a'i win.  
 Da athro beirdd, dieithrach  
 Na dyn a fu, a Duw'n fach!  
 Dioer! ferchðcaf su Ddafydd,  
 Dyn o'r gwyr, dan oror gwŷdd;  
 Dadlwawd awdl, didlawd ydoedd,  
 Dioer, baun dihareb oedd!  
 Dwyn naf nod, Duw nef a wnaeth,  
 Da lawrydd cerdd daylwriaeth!

Dafydd ei ddydd oedd eddyw,  
*Doctor* clod, digter a'i clyw;  
 Da hebog doeth, coeth i'm cof,  
 Deheubarth, nid â hebof!

MARWNAD DAFYDD AB GWILYM, A GANT IOLÒ GOCH.

**H**UDOL dwf fu hoedl Dafydd;  
 Hoywaf, pe hwy fai ei ddydd!  
 Di-ungor awdl, da angerdd,  
 Fab Gwilym Gam, gwlm y gerdd.  
 Lluniai fawl wrth y llinyn,  
 Llyna arfer dda ar ddyn:  
 Gem oedd i firoedd, a'u fwch,  
 A thegan gwlad, a'i thegwch;  
 Mold y digrifwch, a'i modd,  
 Ymwared ym am wiw-rodd!

Mau darpar, mi ai dirpwr,  
 Marwnad o gariad y gwr.

Hebog

**H**ebog merched Deheubarth,  
**H**eb hwn, od gwn, aed yn garth  
**C**ynnydd pob cethlydd coethlawn,  
**C**anys aeth cwynofus iawn!

**T**aw di i gyd, tydi gywydd!  
**N**id da'r byd, hir y bydd;  
**T**ra fu Ddafydd, gelfydd gân.  
**Y**dd oeddid barchus ddiddan;  
**A**c ni bydd, o herwydd hyn,  
**G**wedi ef, gwiw dy osyn!  
**B**wrir a weuir o wawd,  
**A**'i deu-flaen ar y daflawd!

**E**uthyw pensaer yr ieithoedd,  
**E**ithr pei byw, athraw pawb oedd?  
**U**thr fy nghwyn o frwyn fraw,  
**A**thronddyfsg, oedd uthr ynddaw;  
**A** thailiwr ferch i ferch fu,  
**A** thelyn llys, a'i thealu;  
**A** thryfor er cler, a'n clod,  
**A** thyfer brwydr, a'i thrasod;  
**A** thruan, heb athrowyn,  
**A** thraha fu difa'r dyn!  
**A** thrawst beirdd, athrist yw byd,  
**A** thrachefn na thrachyfyd  
**A**thro gym, glewlyn gloywlef,  
**A** theyrn oedd—aeth i'r nef!

AT Y

BEIRDD, AC EREILL A GARANT  
FARDDONIAETH CYMREIG.

**Y**R ydym yn eich cyfarch â Gwaith yr hynod fardd Dafydd ab Gwilym, yn y diwyg gorau â allasom ni iddo.—Y Bardd hwn, fal y gwyddoch, sydd yn haeddu yn dda ymgeledd a chadwraeth, canys pa un o'r Beirdd Cymreig sydd yn rhagori arno? Pwy burach a chyfoethocach ei iaith, lyfnach a gwaftatach ei ymadrodd? Neu, pwy mwy melus ei beroriath nag ef? Ond gan ddarfod i'r cyfaill Gwilym Owain osod allan ei odidawgrwydd a'i gynneddfau awenyddol yn y Rhagymadrodd Seisnig, afreidiol yma ail adrodd, ond rhoddi rhyw ychydig hanes am drefn y casgliad a'r cyhoeddriad.

Corph y gwaith â ysgrifennwyd allan o lyfrau y brodyr Lewys, Rhisiart, a Gwilym Morris o Fôn, cynneddfau a godidog gampau y gwyr hynny n's anghofir tra bo barddoniaeth yn yr iaith Gymraeg. Pan dderyw ini gyntaf ymdrin â'r gwaith amcanasom osod allan yr amrywiaeth yn yr ysgrifyfrau; ond pan deimlasom eu pwys ac ystyriad eu hanferth rifedi fe orfu ini ymadael â'r ymgais, ac ymeginio i ddethol y darleniad gorau o ran purdeb iaith, synwyr, a chynghanedd. Ac fe allai i ni yn hynny gamsyniad a chamfarnu mewn llaweroedd o fânau, ond boed hynny fal y mynno, gwnaethom ein gorau yn ol yr hamdden,

‘a gorffwysfdra oddiwrth amcanion a fwyddau rheidiol ereill. Nid yw y cynnulliad yma, er ei fod yn helaeth, yn cynnwys fawr dros hanner gwaith Dafydd ab Gwilym; ac etto rhyfedd fod cynnifer wedi ymachub rhag disgyn i drigfanau anghof.

Argenfydd gwyr cyfarwydd mewn barddoniaeth laweroedd o anafau cerdd yn y gwaith, yn enwedig os barnant yn ol rheolau y pedwar-mesur-ar-hugain, mewn grym yn y ddwy ganfed ddiweddaf; ond ystyriant hwy nad chwarau teg fyddau mesur y gerdd wrth y llath nad oedd gyfreithiol yn amser y Bardd. Y mae yn ddiddadl y beiau, neu'r anafau hyn yn fynych, sef tòr-mesur, twyllodl, gormododl, twyllgyngghanedd, ac ereill o is radd; ac yn ddiamau i lios o naddynt ymlithro i'r gwaith wrth ei aml ddadysgrifenu; megis y dywaid y diweddar Lewys Morris yswain, fod cywyddau Dafydd mor felus a chymmeradwy gan y gyffredin fal y medrai laweroedd eu treuthu ar dafod leferydd; ac fe allai adysgrifenu rhai o ben yn fynych, ac wrth hynny colli rhai breichiau, anafu ereill, a chamosod y lleill. Dyna'r achos fod cymaint o amrywiaeth yn y llyfrau; rhai beiau cynhenid hefyd, nid o ran anwybodaeth y Bardd, canys yr oedd yn—

“ Lluniwr pob deall uniawn  
“ A llyfr cyfraith yr iaith iawn—”

Ond gwammalrwydd a diosfalwch yn y cerddi masw carüaidd, weithiau yn dibrisio cynghanedd, yn enwedig y braich cyntaf, megis “ Clo a roed ar ddrws y ty\*”. Yr oedd awen Dafydd mor ffrochwyllt

\* Rhif 53.

ffrochwyllt a gwibio yn hedeg yn aml uwch ben rheolau.

Chwi welwch ddarfod ini wahanu y casgliad yn ol y defnyddiau a'r testunau, sef yn canlyn eu gilydd, canuau i Ifor Hael, Dyddgu, a Mor-fudd, &c. oddieithr y chwanegiad, yr hyn a dderbyniwyd yn rhy ddiweddar i'w gosod yn eu lle perthynasol.—Er mwyn yr anhyfsbys mewn hanefion, defodau, ac arferion y cynamseroedd y mae yn niwedd y llyfr hanes byr o naddyt, ac eglurhâd geiriau anghyfaith.—Crefrir ar ychydig amrywiaeth yn ysgrifyddiaeth yn y llyfr hwn —y mae y golywyr yn bwrw eu bod yn gyttun â chynneddfau 'r iaith; ac mai afreidiol iddynt osod argau i gadw, ac i amddiffyn y cyfryw.

Bellach y mae y cyhoeddwyr yn tynu tua'r diwedd, ac yn dymuno i'r barddoniaeth byrwydd lwyddiant a chroeso gan eu cydwladwyr tra par-häont ym meddiant yr iaith a dderbyniasant o enau eu hynafiaid drwy dreiglau a damweiniau rhan fawr o oed y Byd.

LUNDAIN,  
Gorff 1, 1789.

OWEN JONES;

CYNHWYSIAD,

## C Y N H W Y S I A D.

	D.
<i>Canuau i Ifor Hael</i>	1
<i>I Dddyddgu</i>	25
<i>I Forfudd (a 9 yn y chwanegiau)</i>	40
<i>Ymryson â Gruffydd Gryg</i>	237
<i>Ar amryw deitlunau caruaidd (a 6 yn y chwanegiad)</i>	260
<i>Molawd, a Marwnadau ei Gyfeillion, &amp;c.</i>	448
<i>Duvioldeb</i>	476



## BARDDONIAETH DAFYDD AB GWILYM.

---

CANIADAU I'W GYNNORTHYDD IFOR HAEL  
A'I DEULU.

### I.

CYWYDD MAWL I IFOR HAEL.

**I**FOR aur ei fawrwriaeth,  
Deg yw'r fau diagr faeth;  
Dewraf wyt, a gwreddaf gwr,  
Dy ddilyn dieiddilwr.

4

Myfi yw (ffraethlyw ffirwythlawn)  
Maer dy dda, mawr yw dy ddawn;  
Ys dewr lid ystyriol ydwyd,  
Ysdôr ym, ys da ior wyd.

8

B

Telais

- Telais yt wawd tafawd hoyw,  
Telaist ym fragawd duloyw;  
Rhoist ym swllt, rhyw ystum ferch,—  
Rhoddaif yt brif enw Rhydderch. 12
- Cyfarf arf, eirf ni'th weheidd,  
Cyfaillt a mab aillt y beirdd.  
Cadarn wawr, cedynn wiwryw,  
Caeth y gler, cywaethog lyw. 16
- Da oedd a syber dy âch,  
Duw ni fedd dyn ufuddach:  
Wyt i'th fardd pellgardd pwylgall,  
Llywiwr llu, fal llaw i'r llall. 20

- O'm iaith y rhyluniaethir  
Air, nid gwael arnad y gwir;  
Hyd yr ymdaith dyn eithaf,  
Hyd y try hwyl hy haul haf, 24
- Hyd yr henir y gwenith,  
A hyd y gwlych hoywdeg wlith;  
Hyd y gwyl golwg ddigust,  
Hydr yw, ac hyd y clyw clust; 28
- Hyd i mae iaith Gymräeg,  
A hyd y tyf hadau teg,—  
Hardd Ifor, hoywryw ddefod,  
Hir dy gledd, heuir dy glod! 32

## II.

CENNAD O FAESALEG, LLYS IFOR HAEL YM  
MORGANWG, I FON; YN DEISYF I'W GYM-  
DEITHION EI HEPCOR YNO, O HERWYDD EI  
FAWR GROESO GAN IFOR.

**C**ERDDA was, câr ddewis-ffyrdd,  
Canfod gwypm uwch cein-fedw gwyrd;  
O Forganwg dwg dydd da,  
I Wynedd, haelfedd hwylfa ! 4  
Ac anwyl wyd, befrnwyd byd,  
Ag annerch gwlad Fon gennyd.

Dywaid o'm gwlad na'm gwadwyd,  
Diog wyl,—dieuog wyd, 8  
A'm bod er's talm, salm Selyf,  
Yn caru Dyn uwch Caerdyf.  
Nid falw na cham fy namwain,  
Ac nid ferch ar un ferch fain :— 12  
Mawrferch Ifor a'm goryw,  
Mwy na ferch ar ordderch yw.  
Serch Ifor a glodforais;  
Nid fal ferch anfadful Sais: 16  
Ac nid af, berffeithiaf bor,  
O'i ferch ef, os eirch Ifor;  
Nag undydd i drefydd drwg,  
Nag unnos o Forganwg. 20

Pand digrif y' ngwydd nifer,  
 Caru clae'r, nod-seuthu cler.  
 Goludog hebog hybarch,  
 Gwr ffyrif iawn ei gorff ar farch :      24  
 Campiwr aer cyflymder coeth,  
 Cwmpasfddadl walch campusddoeth.  
 Carw disfarw Deifr ni oddef;  
 Cywir iawn y cae wyr ef.      28

Mawr anrhymedd a'm deddyw,  
 Mi a gaf, o byddaf byw,  
 Hel a chwn, nid haelach ior,  
 Ac yfed gydag Ifor.      32  
 Seuthu ei geirw faethynt,  
 A bwrw ei weilch i'r wybr wynt;  
 A cherddau cildannau'n deg,  
 A solos ym Maesaleg.      36  
 Chwarau ffristial, a thawlbwrdd,  
 Yn un gyflwr a'r gwr gwrrd.

O cai neb gytundeb coeth,  
 Rhagor rhag y llaw rhygoeth,—      40  
 Rhugl a cherdd yr anrhegaf,—  
 Rhagor gan Ifor a gaf!  
 Nid hael wrth gael ei gyfri,  
 Nid dewr neb ond ein teyrn ni.      44  
 Nid af o'i lys, diful ior,—  
 Nid ufudd neb ond Ifor!

## III.

I IFOR HAEL,—Y BARDD YN YMADAW A'  
LYS, I FYNED I GLERA I WYNEDD.

**U**FUDD ferchogion ofeg,  
Ifor täyrnaidd ior teg.

Myned fal y dymunwyf,  
Ar iawn, i Wynedd yr wyf;  
Nid myned, ddwyged ddigel  
Oddyn, i ymdaith a ddel:  
Deufis yn nwylan Dyfi,  
Ni allwn fod hebot ti.

4

8

Y galon, bedroglron bor,  
Ni chyfyd,—yn iach Ifor!  
Na llygad, graddwlad gruddwlych,  
Na llaw, na bawd, lle ni bych!  
Nid difudd rym ym yma,  
Nid oedd gall, na deall da,  
I neb, a garai o naw  
Diodydd gwin, dy adaw.  
Rhwyddyn, cyhafal Rhydderch,  
Rhagod synwyr wybod ferch;  
Rhyfel llid, rhyw ofal llawn,  
A heddwch Ifor hoywddawn.  
Maith i'th ragoriaeth gerir,  
Mawr ior teg y mor a'r tir:

12

16

20

## [ 6 ]

Naf coedsedw nefau cydsod,  
Nef a phrefen cledren clod.  
Cawn o ddawn a eiddunwyf,  
Cywaethog ac enwog wyf,  
O eiriau teg, o ariant,

24

Ag aur coeth, fal y gwyr cant;  
O ddillad, nid bwriad bai,  
Ac arfau Ffrengig erfai:  
Ufudd goft o fedd a gwin,  
O dlysfau ail Daliesin.

28

Tirion grair, tarian y gred,  
Tydi Ifor, tad yfed;  
Enw tefyrn, ynad hoywfoes,  
Wyneb y rhwydd-deb a'u rhoes.

32

36

## IV.

I DDIOLCH AM FENIG I IFOR HAEL,

**I**FOR ydoedd afradaur;—  
O'i lys nid ai bys heb aur.

Doe'r oeddwn, gwn, ar giniaw,  
I'w lys yn cael gwin o'i law.—  
Mi a dyngaf a'm tafawd,  
Ffordd y trydd gwehydd gwawd,  
Gorau gwraig hyd Gaer Geri;  
A gorau gwr yw d' wr di:

4

Tra

Tra fu'n trfael trwy fod,  
Trwy foliant y trfaeliodd.

Y dydd y daethum o'i dai,  
A'i Fenig dwbl o fwnai ; 12  
Benthig ei Fenig i'w Fardd,  
A roe Ifor oreufardd !  
Menig gwynion tewion teg,  
A mwnai ym mhob maneg : 16  
Aur yn y naill, diaill dau,  
Arwydd yw i'r llaw orau ;  
Ac ariant, moliant miloedd,  
O fewn y llall, f'ennill oedd. 20

Merched a fydd yn erchi  
Benthig fy menig i mi ;—  
Ni cheiff merch er ei herchi,  
Mwy na gwr, fy menig i. 24  
Ni roddaf,—dygaf yn deg,  
Rodd Ifor, rwydd ei ofeg.  
Ni wisgaf faneg nigys,  
O groen mollt, i grino 'mys. 28  
Gwisgaf, ni fynaf ei fâr,  
Hyddgen y gwr gwahoddgar :  
Menig gwyl am fy nwylaw,  
Ni bydd mynch i gwlych gwlaw. 32

- Rhoddaf i hwn (gwn ei ged,  
Nawdd rhugl Neuadd Rheged)  
Bendith Taliefin winboſt,  
A bery byth, heb air boſt :   36  
I ben y bwrdd erbyn bwyd,  
Yno'r el yn yr aelwyd,  
Lle y troſa rhan o'm traſerch,  
Lle dewr mab, lle diwair merch ;                                   40  
Lle trig y bendefigaeth,  
Yn wleddau, yn foethau'n faeth ;  
Yn wragedd teg eu hegin,  
Yn feirch, yn weilch, ac yn win ;                                   44  
Aml drwsiad, rhad rhydeg,  
Yn aur tawdd, yn eiriau teg !
- Nid oes bren yn y Wenallt,  
Na bo'n wyrdd ei ben a'i wallt,                                   48  
A'i gangau yn ogyngerth,  
A'i wñ a'i bais yn un berth :  
Pand digrif yw i brifardd  
Weled hoyw gynired hardd,  
Arglwyddiaeth, dugiaeth deg,   52  
A feiliwyd ym Maesaleg.
- Menig o'i dref a gefais,  
Nid fal menig farug Sais ; —  
Menig pur galènig por,  
Mwyngyfoeth, menig Ifor. —   56  
Menig

Menig pendefig Dafydd,  
Ifor Hael, pwy'n fwy a'i rhydd.— 60  
Fy mendith wedi nithiaw,  
I dai Ifor Hael y daw !

---

## V.

## AWDL I IFOR HAEL.

O Haelder fy Ner, fy Nudd ar ei gyrch  
Am aur, gorchaw y budd ;  
Arfer yw goethryw gythrudd :  
Ofer un wrth Ifor udd. 4

O ddewrder hyder hoywdaer ymadrodd,  
A medru troi yr aer ;  
O fawrgyrch hylithr feurgaer :  
Ofer dau wrth Ifor daer. 8

O ddoethineb neb nid oes attaw,—Ffrangc,  
Neu o Ffraingc i Fanaw,  
I fwrw dadl fwrth oddiwrthaw ;  
Ofer dri wrth Ifor draw. 12

O ufudd-dawd ffawd, a ffydd, wych eiriau,  
A charu ei brydydd,  
Wrth Ifor euriaith Ofydd ;  
Ofer bedwar, roddbar rydd.

O fonedd

O fonedd trofedd, wr trafyfth, a ffyn  
A ffyniant aml dilyth;

O weilch digel wehelyth:  
Ofer bump wrth Ifor byth.

20

O gryfder a ffer ffyrfdeyrn, eirdeg,  
Yn dwyn eurdo heiyrn;

A'i far coed i fwrw cedryn;  
Ofer chwech wrth Ifor chwyrn.

24

O degwch prifflwch, prafflyw urddedig,  
Bendefig ryfig ryw;

Ei fardd wyf, astrus yftryw;  
Ofer faith wrth Ifor syw.

28

O ddifymrwydd swydd gyfansoddwr, hardd  
Enaid beirdd a'u clydwyr;

O ferw brwydr i fwrw bradwr,  
Ofer wytli wrth Ifor wr.

32

O gampau gorau a garaf, ar wr  
Eryraidd, y barnaf,

I roddi pan fai rwyddaf,  
Ofer naw wrth Ifor naf.

36

O wychder fy ner, un arial a Ffswg  
Morganwg mur gynnal;

O fwrw dyn o fryd anial,  
Ofer deg wrth Ifor däl.

40

## VI.

MOLAWD IFOR HAEL.

**D**A rhed ar wared arw oror olwyn,  
 Neu'r wylan ar rydfor;  
 Deuwell y rhed (buddged bor—  
 Diwyd wyf) dy wawd Ifor. 4

Os da plethiad mâd ym mor, a hir-wlych  
 Am herw-long, raff angor;  
 Gwell y plethaf, ddewraf ddoor,  
 Gwawd y tafawd yt Ifor. 8

Ni thyf cae'n Llenmaen, llanw mor rhyferthwy,  
 Rhwyf Arthur, neu Hector;  
 Mygr atteb ddihareb ddoor,  
 Mal y tyf mawl yt Ifor. 12

Cyfyd yt hawddsyd, f'addien bor, gênyf,  
 Ac anwyl hawddamor;  
 Cad ddychrynn darf ddur-arf ddoor,  
 Cedyrn ofn,—cadarn Ifor! 16

Ner byd, wryd bedeiroror giwdawd,  
 A naf olygawd nef oleugor;  
 Neirthiad fo efo ar for, a llawr llen,  
 Nen y ffurfasen i ffyrif Ifor!

Newidiwr

Newidiwr trwsiwr trysor y moliant;

Normant glud goddiant, glod 'gwyddor;

Naddiad arf oergad, deirf eurgor, Eingl gawdd;

Nawdd mur a rwyfawdd Mair ar Ifor! 24

Nerth braisg Ercwlf, waisg wisgi borphor, llorsiamp,

Nudd oreugamp, naddai ragor!

Neud berth a chyngerth, wrth angor deyrnlas,

Nid bas rygafas rywiog Ifor. 28

Ni byddai lle bai bell hepcor arnaw,

Ni byddwyf hebddaw, barodlaw bor:

Ni bydd anrhegydd neb yn rhagor, nag uwch,

Ni bu ogyfuwch neb ag Ifor! 32

Hardd effillydd rhydd, rhodd ddidor meddlyn;

Heilyn win Lewelyn, wawl-gylchwin ior;

Heddyw nid ydyw, didwyll ior gwyndâl

Hyfal hael ddyfal hylwydd Ifor 36

Hawdd ddydd, nid rhydd rwydd gyngor ddangos;

Hawdd nos, hedd agos, hoyw eiddigor!

Hawdd ymmwrddym mwrdd, hawddàmor beunydd,

Hawdd fydd bryd brawd ffydd, ufudd Ifor! 40

Hawl mawl, mal wych-dâl Echdor yn nherfysg,

Harddfysg Deifr un-ddysg a'r dew frondor;

Hwyliais a chefais, a chyfor durfing,

Hail diogyfing hael-deg Ifor.

Heirdd

Heirdd digeirdd i feirdd fawrddor darian-grwydr,  
 Hoyw franarwr brwydr Hafren oror!  
 Hiroesawg fu Nöe, aeraesor faccwy,  
 Hwy, huawdl ofwy, fo hoedl Ifor! 48

---

## VII.

## I WALLT MERCH IFOR HAEL.

**Y** Fun a'r Gwallt o fanaur,  
 A roe lawnt ar wiail aur  
 Un radd a llwyn o ruddaur,  
 Lliw Non dan y llwyn o aur. 4  
 Gwisg angel o wallt melyn,  
 Yn wrŷdd aur am war y ddyn.  
 Fal goddaith yn ymdaith nos,  
 Yw'r llwyn uch pryd yllinos: 8  
 Uwch feinir goldwir a gaid,  
 Hyd dwyraff o het euraid.  
 Iarlles dan gnwd o eurllin,  
 Banadl aur o ben hyd lin :  
 Lliw'r mellt goruwch y geltydd,  
 Coed aur gwiw cyhyd a'r gwŷdd.  
 Bronbelau fal siopau Sieb,  
 A droes hon dros ei hwyneb ; 12  
 Gwefr o liw, neu gyfryw lwyn,  
 I guddio dyn deg addwyn.

Sirian

Sirian ym mysg y manaur,  
 Coron o wallt, cwyr neu aur ; 20  
 Maner aur pan ymwenynt  
 Lliw tân y Gad Gamlan gynt !  
 Crwybr o aur pan i cribai,  
 Pwn mawr o esgyll paun mai. 24  
 Mae'r pryd ym marn y pryd yd,  
 Ac aur ar hwn pan fae'n rhydd :  
 Ei liw a welai luoedd ;  
 Drwy'r byd un diareb oedd ; 28  
 Ei 'leurydd noswyl Jeuan,  
 A'i frig yn debig i dân.  
 Ni bu fodd, ac ni bai ferch,  
 Hwn fydd ar wýdd i'w hannerch ! 32

---

## VIII.

I FANACHES, NI WELSAI OND EI HWYNEB  
 GAN EI CHREFYDDWISG.

**D**AL neithiwr, delwi wneuthum,  
 Drem o bell, yn drwm y bum,  
 Yn nhâl (och na thariai'n hwy !)  
 Ag yn wyneb Gwenonwy. 4

Anfodlawn fum, gorfum ged  
 I'm golwg am ei gweled ;  
 Delw eurddrych, dwyael eurddrym,  
 Deuwel oedd pettwn dall ym !

- Daroedd ni bu wisgoeddd waeth,  
I daeliwr o hudoliaeth :  
Deuliw nyf, nis dylae neb  
Duaw hon ;—ond ei hwyneb, 12  
A'i thàl mi ai dyfalwn ;  
(Och, Dduw Tad, na chuddiwyd hwn !)  
Megis o liw ;—megais lid,  
Myr eiry, neu faen mererid, 16  
Mwyn y gosodes Jesu  
Am eiry dàl y *mwrai* du :  
Dwyael geimion, delw gymwys,  
Deurwym lân ar y drem lwys. 20  
Diliau yw ei haeliau hi,  
Dail *sabl* fal dwyael Sibli :  
Muchudd deurudd, a'i dirwyn,  
Main eu tro ym mon y trwyn. 24  
Mwyalchod teg ym mylch tòn,  
Mentyll didywyl duon :  
Dwy ffynnon wirion 'waræ,  
Eu dwyn uwch meindrwyd i mae ; 28  
Gwreichion aur, grec'hwen araul,  
Gwedi rhoi mewn gwydr a haul.  
Amrant du ar femrwn teg,  
Fal gwènol ar fôl gwaneg. 32  
Dau afal aur, difai lun,  
Dwy *nobl* aur dan wyneblun.  
Diliau rhos, dail o aur rhudd  
A dorwyd yn ei deurudd :

- Grànu cwyd mewn grÿniau calch,  
 Grawn gwingoed ar groen gwylgalch.  
 Ceirioes addfed, cwrs addfwyn,  
 Cwrel, liw criawol llwyn; 40  
 Dwy sel o liw grawn celyn,  
 Dagrau gwaed ar deg eiry gwyn.  
 Dail ffion grÿnion eu gwraidd,  
 Dwy ogfaenen deg fwynaidd. 44  
 Dyfelaïs bryd fy myd main,  
 Ei deurudd fal haul dŵyrain:  
 Dwys oedd dwy wëus heddiw,  
 Ar enau llen o'r un liw, 48  
 Yn gweini clær ddidaer ddadl,  
 A ffroenau a pher anadl:  
 Ag aelgeth, liw ffrwd gweilgi,  
 A gyrraedd hyd ei grudd hi! 52  
 Hoyw ar fwnwg hir feinwyn;  
 Golwg teg fydd gweled hyn.  
 Dug fy nau lygad o dwyll,  
 Do genyf, fal dwy ganwyll. 56
- Gwelais wyneb glwys waneg,  
 A phen dyn, rudd ffion deg:  
 Ni weles neb wyneb iach,  
 Drud fudd deigr, nid oedd degach! 60

## IX.

## I'R LLEIAN.

**Y** Lleian ddoeth a'i lliw'n dda,  
 Unlliw a Non a llun Anna,  
 Aeth y gair ym o'th garu,—  
 A gwir ferch, y gair a fu. 4  
**O**'th gerais a maith gariad,  
 Caru am garu a gad.  
 Fy mun da yw fy 'mynedd,  
 Am dy gael em da ei gwedd : 8  
 Och ym ! ond mwy na chwemis,  
 Am danad fun, ym un mis !  
 Fy fwydd i yw gweddiaw,—  
 Ferch wen, pa ddiben a ddaw? 12  
 Nid hawdd cael diben genyd ;  
 Ni chair gan wen ben o'r byd.  
 Gwna f'anwyl, gwan wyf finnau,  
 Gwna un ai cael ai naccau ; 16  
 Ai fy mynnu f' em anwyl,  
 Ai rhoi nag, fy rhiaint wyl !  
 Ai canu(er mwy cyni)  
 Yn iach 'y mun, wnewch a mi ! 20  
 Gwedd ewyn, cyd gweddiwyf  
 Gadu ar Dduw rannu 'rwyf ;

Ac yn niwedd fy ngwedi,  
 Yn ol ni ddymunwn i  
 Ar Dduw hael ond cael, pe caid,  
 Fy Mun, a nef i'm Enaid!

24

## X.

I'R LLEIAN.

CARU dyn lygeid-du lwyd,  
 Yn ddyfal a'm gwnai'n ddifwyd;  
 Os mi ai car i arall,  
 Myn Duw gwyn! mi nid wy' gall.

4

Ai gwir y ferch a garaf,  
 Na fynni fedw hoywdw' haf  
 Ac na thewi yn y ty tau,  
 Wyth-liw-ser a'th laswyrau.  
 Crefyddes a santes wyd,  
 Caredig i'r côr ydwyd:  
 Er Duw paid a'r bara 'r dwr,  
 A bwrw ar gas y berwr:  
 Paid er Mair a'r pader main,  
 A chrefydd menych Rhufain.  
 Na fydd Leian y gwanwyn,  
 Gwaeth yw lleianaeth na llwyn:  
 Dy grefydd, deg oreu-ferch,  
 Y sydd wrthwyneb i ferch.

8

12

16

Gwarent

Gwarant niodrwy a mantell,  
A gwerdd wisg a urddai well.

20

Dyred i'r fedw gadeiriog,  
I grefydd y gwŷdd a'r gog;  
Ac yno ni'n gogenir,—  
Ennill nef yn y llwyn i'r!

24

A chadw i'th gof lyfr Ofydd,  
A phaid a gormod o ffydd.

Ninnau gawn yn y gwinwydd,  
Yn neutu'r allt enaid rhydd;

28

Duw a fyn, difai annerch,  
Ar fyr, roi pardwn i'r ferch.

Ai gwaeth i ddyn gwiw ei thaid,  
Yn y llwyn ennill enaid;

32

Na gwneuthur fal y gwneutham,  
Yn Rhufain, ac yn Sain-Siam.

*s. / am. .*

## XI.

I YRRU LLATAI I HUDO MANACHES I'R  
LLWYN.

**D**ADLITIA 'r diwyd latai,  
Hwnt o'r Mars, dwg hynt i'r mai;  
Gedaist, ciliaist myn Celi!  
Arnaf fi mae d'eisiau di;  
Dof holion difai helynt,  
Da fuost, lle gwyddost gynt.

4

- Peraist ym fun ar ungair,—  
Par ym weled merched Mair ; 8  
Dewis lun, dos yn lan falch,  
Llukan lle mae rhai lliwgalch :  
Cais yn y llan ag annerch,  
Salw yw'r modd, *felwr* merch. 12  
Dywaid glain diwyd y gler,—  
Hon yw'r salm, hyn i'r *fieler*.  
A chwyn maint yw'r achwyn mau,  
A chais ym fanachesau. 16  
Saint o bob lle a'm gweheirdd  
Santesau hundiau heirdd.  
Gwyn eiry arial gwawn oror,  
Gwènoliaid cwfeniaid côr: 20  
Chwiorydd bedydd bob un,  
I Forfudd araf eurfun.  
O caf innau rhag gofal,  
O'r *ffreudur* dyn eglur dàl ; 24  
Oni ddaw er cludo clod,  
Hoynwe eiry, honno erod,—  
Dy ddodrefn yw dy ddeudroed,  
Dwg o'r côr ddyn deg i'r coed. 28  
Car trugain cariad rhagor,  
Cais y glochyddes o'r côr :  
Cais frad ar yr abades,  
Cyn lleuad haf, ceinlliw tes. 32  
Un ai medr, einym adail  
A'r Llejan du i'r llwyn dail.

## XII.

I YMDDIHEURO MERCH IFOR HAEL.

**Y** Ferch o'r Fynachlog Faen,  
 Wiwdda orchwyl ddiweirchwaen;  
 A'i gwir fod pobl a gwerin,  
 A gair mall ar gw̄r eu min, 4  
 Yn heuru ym, yn nhör allt,  
 Dy gael ddyn ruddael rwyddwallt.  
 Och ym! o bum i ychwaith,  
 Erioed wen wr yd unwaith; 8  
 Od ydyn' hwy yn d'wedyd  
 Arnom hyn, er na wnaem hyd:  
 Er bod son drygddynion draw,  
*Herod* wyf i'th ddiheuraw. 12  
 Y foru y gwnaf erod,  
 Ar gelwydd beunydd eu bod;  
 Mi a roddaf, em rwyddair,  
 Mawr llw grym a'm llaw ar grair, 16  
 Na'th gefais unwaith gwiwfun,  
 Ac na'th geisiais, lednais lun.  
 Och ym wen! mor wych iawn wyd,  
 O gwn pam i'th oganwyd  
 Ni'n gwelad yn un gwely,  
 (F'enaid teg) nag o fewn ty,  
 Na than frig, wyrenig wedd,  
 Coed irion yn cyd orwedd:

C 3

Sefyll

- Sefyll dan y cyll ein cad,  
 Ni bu orwedd na bwriad,  
 Na meddyliaid, f'enaid fain,  
 Bechod, mwy na rhai bychain. 28
- Ond dych'mygion dynion dig,  
 A cham oedd bob dychymig:  
 Ni wnawn oed, nag amneidiaw,  
 Arnad, a llygad na llaw, 32  
 Na moliant i'th wallt melyn,  
 Myn glwys Duw ni'm gweles dyn!
- Dibech heb odech ydym,  
 Dieithr ferch fal d'ewythr fym: 36  
 Ni ddanfonaiſt, ddyn feinael,  
 Latai ym, ddyn Iwyttu ael:  
 Ni bu ymddiddan o'r byd,  
 Na rhwym, hoyw-ferch, rh'om hefyd, 40  
 Na cham ferch, ni chèmais i  
 Yn chwimwth un braich imi,  
 Am danad, grair ddiwair ddoeth,  
 Hoff eigr feingotph hoywgoeth. 44
- Ni 'wyllysiaiſ i geisiaw,  
 Dy gorph main, dro elain draw:  
 Pa wedd, eithr o ryfeddod,  
 Yth gawn, loer eglurwawn glod; 48  
 Heb fod un ddëun ddeall  
 Gar llaw i garu y llall  
 Ni bu (garu gywiroed)  
 Dy fin wrth fy min er 'moed,
- Na'th

Na'th anadl gwan per annerch,  
 Na'th wyneb wrth fwyneb ferch.  
 Hyn i gyd, henwn un gair,  
 A dyngaf myn y dengair :  
 Myn Arglwydd yr Arglwyddi,  
 Cul yw'r ais na'm coelir i!

56

Ni'th gefais eneth gyfawn,  
 Na ddo 'rioed, ddyn ddiwair iawn ;  
 Ni ddodais, un weddus-ael,  
 Fy mryd i gyd ar dy gael.  
 Ni weddai'r hyn a wyddyt,  
 Ni chawn fod yn ordderch yt.

60

64

## XIII.

MARWNAD IFOR HAEL A NEST EI WRAIG.

**H**ENAIN T anghywraint, ing, hiraeth, a phoen,  
 A phenyd fal blaensfaeth !  
 Marw Ifor nid rhagoriaeth,  
 Marw Nest y mae Cymru'n waeth !

4

Mae'n waeth am dadmaeth, mae dor rh'o'f ag ef,  
 Yn gyfing ym mlaen côr ;  
 Marw Nest, mae farwest yn for :  
 Morwyn nef ! marw iawn Ifor !

8

Gorau oedd Ifor a'i gorff syth ein rhi

Yn rhoi Deifr ar esyfth :

Ar y fu gu gwechelyth,

Ar y fydd, ac y fydd syth !

12

Nid af byth o'm nyth gan wŷd i gerddor,

A gerddodd gylch y byd ;

Ni chan fy nwy-fraich ennyd,

Ni chaf, ni feddaf hawddfŷd !

16

Hawddfŷd a gyfyd digofaint Calon,

A hiraeth i'r fron hon, a henaint;

Herwydd wylaw gwlaw glas enaint orcheist,

Am Ifor a nest mwyfwy yw'r naint !

20

Hael Ddofydd tremydd hwyl trymhaint am pair,

Gweled Nest ni chair, crair gair gywraint ;

Rhaglyw afael yw ne ofeiliaint poen,

Ceinlliw haf oroen cain llifeiriaint !

24

Wrth weled curiad cariad saint, am fudd,

Ag anwylyd prudd a gynheiliaint ;

Nest wengoeth, winddoeth wendaint, ac Ifor,

A mwy na rhagor i'm anrhegaint !

28

A lluchwin o wydr, i'm llochaaint ar hail,

A medd o fuail, mwy faddeuant ;

A rhuddaur a main im' rhoddaint, bob awr,

A hebogau mawr i'm hebygaint.

Hir

Hir ddoniau i'r ddau, hwyr ydd aint dan gel,  
 I gyd ochel, neu godechaint;  
 Ac undyn ydyn', ni'm oedaint am fudd,  
 Ac un ddadanudJ am fudd fyddaint.

36

Llyw llygr-gaer yn aer, ni wnaint yn eiddil,  
 Anturio naw mil mewn twrw' enaint;  
 Llys Faesaleg deg dygaint hawddamawr!  
 Ac ar eu heurlawr, lle mawr meddwaaint.

40

Osai clir, yn wir, fal naint geirw dònau,  
 Yn llawn rhadau, yn llynau rhedaint!  
 Lle bydd lleferydd llifeiriaint gwin-llestr,  
 A golau senestr, ag hael fwyniaint.

44

Llafnfriw, llwrw iawnwiw llyrenaint, Einglgrwydr  
 A llew yffigfrwydr lluosawgfraint.  
 Llorf llu, lled garu lledw geraint ym mro,  
 Llywio Naf huno, nef i henaint!

48

## XIV.

## CYWYDDAU I DDYDDGU.

MAWL I JEUAN GRUFFUDD A'I FERCH DYDDGU.

JEUAN ior gwaywdan gwiwdad,  
 Jawn fab Gruffudd cythrudd cad;  
 Wyr Cyhelyn, wŷn winglaer,  
 Llwyd unben, wyd iawn ben aer.  
 Y nos arall, naws arial,  
 Bum i'th dy, y bo' maith dâl:

4

Nid

Nid hawdd er hynny hyd heddiw,  
Hoen wymp, ym gaffael hun wiw.

8

Dy awr a gawn, radlawn rydd,  
Dy loyw win, dy lawenydd,  
Dy sedd glwys di faddau i gler,  
Dy fragod du ei friger.

12

Dy ferch, gwn nas gordderchai,  
Feinwen deg o'th faenwyn dai :  
Ni chyfais, ni wëais wawd,  
Hun na'i dryll, heiniau drallawd.  
Duw lwyd! pwy a'm dilea,  
Dim yn fy nghalon nid â,  
Eithr ei chariad taladwy,—  
O rhoed ym oll, ai rhaid mwy?  
Ni'm cár hon, fo'm curia haint,  
Fe'm gad hun, se'm gad henaint.  
Rhyfedd yw doethion Rhufain,  
Rhyfeddod pryd fy myd main!  
Gwŷnach nag eiry gwanwyn,  
Gweddw wyf o ferch y ferch fwyn.  
Gwyn yw'r tâl dan y wialen,  
Du yw'r gwallt, diwair yw Gwen.  
Duach yw'r gwallt, diochr gwŷdd,  
Na mwyalchen, na muchydd;  
Gwynder disathr ar lathrgnawd,  
Yn duo'r gwallt, iawnder gwawd.

16

20

24

28

Nid

- Nid anhebig ddiddig ddydd,  
 Modd ei phryd, medd ei phrydydd,  
 I'r ferch hygar a garawdd  
 Y milwr gynt, mawlair gawdd,      36  
 Peredur, ddwys ̄ur ddisgwyl,  
 Fab Efrog, gwrdd farchog gwyl ;  
 Pan oedd yn edrych wych wawl,  
 Yn yr eiry, ion eryrawl :      40  
 Llen *asur* ger llwyn Eifyllt,  
 Llwybr lle bu'r gwallt gwylt  
 Yn lladd heb un ai lluddiai ;—  
 Mwyalch morwyn falch ar fai ;      44  
 Yno yr oedd iawn arwyddion,  
 Pand Duw ai tâl paentiad hon !  
 Mewn eiry, gogyfuwch lluwch llwyth,  
 Modd ei thâl, medd ei thylwyth,      48  
 Asgell y fwyalch esgud  
 Megis ei hael,—megais hud !  
 Gwaed yr edn gwedi'r odi,  
 Gradd haul mal ei gruddiau hi.      50
- Felly y mae, eurgae organ,  
 Dyddgu a'r gwallt gloywddu glan.—  
 Beirniad fum gynt, hynt hyntiau,  
 Barnd rhawd or beirniaid draw.      54  
 Anhyweth fy nihewyd,  
 I mi fy myw am fy myd !

## XV.

I DDYDDGU.

**D**YDDGU ddiwradwyddamp,  
Fy nghariad oleuad lamp ;  
Anlladrwydd, dioer, yn lledrad,  
Ydoedd i mi fry o frad. 4

Nid wyf wr, ac nid â fyth  
I geisio merch naf gwayw-syth,  
Rhag fy ngalw, salw swydd,  
Yn gloffwybr yn gyfflybrwydd. 8  
Hyder a wna dringhedydd,  
Draw a ddring uwch gwrling gwŷdd,  
Oni ddel, hyn a ddyly,  
Bob ychydig hyd frig fry ; 12  
Oddiyna y bydd anawdd,  
Disgynu rhag heuddu cawdd.  
Llongwyr pan y gollyngnt,  
Lle gwnan' dan hwntian dwyn hynt ; 16  
Ni bydd modfedd salwedd som  
O ben ystullen drallom,  
Rhwyfwyr merinwyr annoeth,  
Rhyngthyn' ar annoddyn noeth :  
Ac i'r lan ar ddiwanfa,  
Y deuan', darogan da.

8

12

16

20

Seuthydd

Seuthydd a fwrw pob fothach,  
 Heb y nod, â heibio'n iach :  
 Ag ergyd hefyd difai,  
 Yn y nod pand iawn a wnai.—

24

Ergyd damwain rhiain-fun,  
 O gant oedd ddyfod ag un :  
 Ergyd damwain, fun feinael,  
 Em deg iawn, oedd ym dy gael.  
 Ef eill, ddyn ciry peill-liw,  
 Dy gael ddyn, wineu-ael wiw !  
 Ofer oll a fu er allai,  
 Na'th gawn,—gwyn ei fyd a'th gai !  
 Oni'th gaf er cerdd erddrym  
 Ddindranc, yn ieuangc wèn ym,—  
 Mi a'th gaf, addwyn wyneb,  
 Fy Nyn, pryd na'th fynno neb.

28

32

36

## XVI.

YR IWRCH YN LLATAI AT DDYDDGU.

**T**YDIP'R Carwiwrch ffwrch ffawdr,  
 Rhediad wybren, lwydwen lawdr;  
 Dwg hyn o lythr talythrgoeth,  
 Da dy naid, ar dy din noeth :  
 Cyflyma wyd, cofl lèmain,  
 Negeſawl cywyddawl cain.

4

Rho

Rho Duw iwrch, rhaid yw erchi  
Peth o lateiaeth i ti.

8

Grugawl goruwch y greigwen,  
Gweirwellt a bawr, gorwylt ben :  
Jolwyn gwych teuluaidd,  
Llamwr allt, llym yw ei wraidd.  
Llâma goruwch bon llumoen.  
Pr rhiw, teg ei ffriw a'i ffroen.  
Fy ngwas gwych ni'th fradychir,  
Ni'th ludd gŵn y barwn hir,  
Nod fawlgamp, nad i filgi  
Yn ol tes dy oddiws di :  
Nag ofna di saeth lisaid,  
Na chi 'n ol, o chai naid.

16

20

Fy llatai wyd anwyd-ael,  
A'm bardd Ddyddgu hardd hael :  
Dwg dithau, teg ei duthiad,  
Y daith hon i dy ei thad.  
Gochel BuLi, ci coesgoch ;  
Ac Iolydd, ci celfydd coch :  
Adlais huaid a gredir,  
O don' yn d'ol, i Dowyn dir.  
Y mochel rhag dy weled,  
Dros fryni lwyn rhedyn rhed :  
Neidia goruwch hen adwy,  
I'r mæs, ac nag aro mwy. —

24

28

A chusan ym bychan beth,  
 Dyddgu liw gwynblu geinbleth.  
 Dos i'r llaid dewis er lludd,  
 Deall afael dull Ofydd ,  
 35  
 Debre'r nos ger Haw'r rhosydd ,  
 Dan frig y goedwig a'r gwŷdd.  
 Cych yno'r Carwiwrch hynod,  
 Carwn dymunwn y mod.

Ni'th fling llaw, bydd iach lawen,  
 Nid â dy bais am Sais hen,  
 Na'th gyrn f' anwyl, na'th garnau,  
 Na'th gig, ni'th gaiff eiddig gau.  
 Duw i'th gadw, doeth geidwad,  
 A braich Cynfelyn rhag brad;—  
 Minnau wnaf, o byddaf hen,  
 Dy groesi bryd egroesen.

36

40

44

48

## XVII.

I DDYDDGU AC ERAILL, EI GARIADAU.

E I ferch a roes merch i mi,  
 Seren cylch Nant y Seri;  
 Morwyn wych, nid ym marnau,  
 Morfudd wyl, mawr feddyliau!  
 Cyd collwyf o wiw nwyf uthr,  
 Fy anrhaith a fu iawn-rhuths.

4

Cyd

Cyd bai brid newid ini,  
Prid oedd wr priod iddi. 8  
Eithr rhag anfodd uthr geinseyw,  
Duw fry, diedifar yw !  
Gwedi chariad, brad fu'r braw,  
Lloer byd, rhoi llaw ar beidiaw. 12

O cherais wraig mewn meigoel,  
Wrth lŷn y porthmonyn moel,  
Gwragenus esgus osgorff,  
Gwraig ryw ben-aig Robin Nordd. 16  
Elen chwânog i olud,  
Fy anrhaith ar lediaith lud:  
Brenhines, arglywyddes gwlan  
Brethyndai bro Eithindan.— 20  
Dyn ferchog oedd raid yno,  
Gwae hi nad myfi fai fo !  
Ni chymmer hon, wiwdon wedd,  
Gerdd yn rhad, gwrdd anrhyddedd ! 24  
Hawdd oedd gael gafael gyfa,  
Haws na dim hofanau da :  
Ac os caf, liw gwynaf gwawn,  
O fedlai byddaf fodlawn. 28

Nid ydwyt nwyf anofal,  
Rho dyn, heb gaffael rhyw dal.—  
Ai ar eiriau arwyrain,  
Ai ar feddwl cerddgar cain

Ai

Ai ar air, cyd dihaurwyf,  
 Ai ar ryw beth, arab wyf;  
 Hefyd, cyd bo fy nhafawd  
 I Ddyddgu yn gwëu gwawd,  
 Nid oes ym, myn dyn o fwydd,  
 Ond olrhain anwadalrhwydd !

36

Gwawr brenhiniaeth, maeth ai medd,  
 Y byd wyr yw'r bedwaredd.

40

Ni cha o'm pen cymmen call,  
 Hoen geirw, na hi nag arall,  
 Ña'i henw, na'r wlad yr hanoedd,

Hoff iawn yw, na pha un oedd.

44

Nid oes na gwraig benaig nwyf,  
 Na gwr cymaint a garwyf,  
 A'r forwyn glaer galchglaer gylch,—  
 Nos da iddi nis diylch !

48

Ceir gair o garu'n ddiffrwyth,  
 Caf, nid arbedaf i bwyth,

Pei gwypai gobaith undyn,

Mai am dani hi fai hyn ;

Pe cynddrwg ccinwen rudd-deg

52

Ganthi a'i chrogi, —wych reg !

Mwy lawn-bwys mau elyn-boen,

Moli a wnaf hi, nwyf hoen,

56

Hoyw ei llun, a holl Wynedd

Ai mawl,—gwyn ei fyd ai medd !

## XVIII.

I DDYDDGU.

**D**YDDGU liw dydd goleuaf,  
Dy nawdd, er Unmab Duw Naf !  
Deurudd Mair, o diroedd Mael,  
Duon lygaid a dwyael.

4

Deliais fal ar hudoliaeth,  
Dilyn ferch arnad ferch faeth ;  
Da leddfair deulueiddferch,  
Dolurus yw dal ar ferch.  
Deuliw barf dwfr llasfarlas,  
Delw glaer ar len dyli glas !  
Del i'th fryd dalu i'th frawd,  
Dyfu yt gerdd a'i dasawd ;  
Dygum yt well na deugae,  
Dogn mawl, da i gwn y mae.

8

12

Dyn fal corfedw yn edwi,  
Deune tòn am danad ti !  
Dyfed a wyr mai difyw  
Difai ddysg, a Dafydd yw !  
Difraw ddyn od âf ryw ddydd,  
Dwf llerw, dan defyll irwydd :  
Dyfn fy naigr, dwfn fynegais,  
Dwfr fy mhen hyd ar fy mhais !  
Diofal glud a dcifl gwlau,  
Dan ael wyf deunydd wylaw !

16

20

2

Dy

Dy fardd mad, yn anad neb,  
 Digroenes deigr ei wyneb !  
 Dyn wyf o'th ferch, wenferch wawl,  
 Digaidd gwyw dagrauawl.  
 Dydd ermoed, deuwedd eiry mân,  
 Diferiog bwyl dwf eirian !

28

Dyddgu wawr anrhymeddedd-gael,  
 Dyn gwiw, du eiliw dy ael !  
 Dawn glud, pe'n rhoddyd yn rhad  
 Da holl Loegr, diell lygad,  
 Dieiliwyd rin ym min mau,  
 Diolwg ai dialau.

32

36

Dyleuaf ffawd am wawdair,  
 Dylai fawl myn delw Fair !  
 Didawl i'm bron yw d' adwyth  
 Didaer loer o Duður lwyth !  
 Didwf yw dadl dy gerddawr,  
 Didawl main ar dy dàl mawr :  
 Dodaist wayw llon dan fron friw,  
 Didost ar dy fryd ydiw,—  
 Didawl o'th gariad ydwyf,  
 Da dy lun, a di-dâl wyf!  
 Dieithr cael da uthra cwyn,  
 Dylesg arnad i dewlwyn ;  
 Dau lygad swrth yn gwrthgrif,  
 Diyflyr gwall awyr llif !

40

44

48

## XIX.

## GWAHODDIAD DYDDGU I'R DEILDY.

**Y** Ddyn ganaid ddawn gynneddf,  
Dyddgu a'r gwallt lliwddu lleddf!

Dy wahawdd, drych y tri-phlwyf,

I Dol yr Aeron ydd wyf:

I'r bedw, nid er bwydydd,

Nid gwahawdd glwth i fwth fydd,

Nid gofwy Sais a'i gyfaillt,

Nid neithior arf barf mab aillt;

Nid tam o giniaw amaeth,

Nid i ynyd ciglyd caeth;

Nid gorlwy elw medelwas,

Nid o âd gloyw amyd glas.

4

8

12

O's daw'r fun, i'r ystafell

O fedw îr, a fu fyd well?

Nid addawaf da ddiweddu

I'm aur, eithr eos a medd.

16

Tra f'om allan dan y dail,

Cynes fedw a'n cynnail :

Lle cyrch iyrchod rhywiog-ryw;

Lle cân edn, lle cain ydyw!

Lloches

Eos gefnillwyd ysgafnlef,  
A bronfraith ddigrifiaith gref.  
Naw pren teg eu hwynepryd,  
Y sydd o goedydd i gyd:  
Lloches adar i chwarae,  
Llwyn mwyn;—llyna'r llun y mae!  
I wared, yn grwn gwmpas,—  
I fyny, yn glochdy glas;  
O danyn', eiddun addef,  
Meillion aur, myn Myllin nef!

Lle golâs hwyl, lle gwyl gwg ;  
Lle ger dwfr llugoer, difwg : 32  
Lle newydd adeilwydd da,  
Lle nwyt aml, lle nef yma !  
Lle tew lletyau mwyeilch,  
Lle mygr gwŷdd, lle megor gweilch. 36  
Lle anhyfbyss dyrys dir,  
Gwerdd dŵr rhag caswr coesfir :  
Lle deuddyn, llu a'u diddawr,  
Neu dri, yn ennyd yr awr !—  
Yno heno, hoen waneg,  
Awn, ai nad awn, y Nyn deg ? 40  
Od awn,—awn, wyneb gwynloyw,  
Fy Nyn lygaid gloyn gloyw ! 44

## XX.

BWRIAD O GARU DYDDGU,—DUCHAN I'R  
BWA BACH,—A'I AFLWYDD AM FORFUDD.

OCHAN fi drueni drum,  
O bu air na wybuum !  
Garu cyn oedran gwra,  
Hocrell swyn ddiell fain dda ; 4  
Gowir oddawn, gywair ddoeth,  
Gynnil-gain gu anwyl-goeth :  
Mal unweddu etifedd tir,  
Gowyll foethus-ddyn gywir.  
Yn gronfserf, yn ddiderfysg,  
Yn gyflawn o'r dawn a'r dysg ;  
Yn deg lan Indeg Ioywnwyf,  
Yn dir gwŷdd,—enderig wylf : 12  
Yn gariad dianwadal,  
Yn iath aur, yn loyw ei thal :  
Mal y mae mawl arianddeddf,  
Dyddgu a'r gwallt lliwddu lleddf. — 16

Nid felly y mae Morfudd,  
Ond fal hyn, farworun rhudd ;  
Yn caru rhai ai cerydd,  
Rhywyr fun, a rhyhir fydd : 20  
Yn berchenog, barch uniawn,  
Ty a gwr, yn ddyn teg iawn !

Nid

- Nid anfynychach im' ffo  
Am hanner nos am honno, 24  
Rhag dyn o'i phlas dan las-wydr,  
Na'r dydd wyf llamhidydd hyd.  
A'r gwr dygn a'r gair digall,  
Dan guraw'r llaw yn y llall, 28  
Llef beunydd a rydd rwydd-chwant,  
A bloedd am ddwyn mam ei blant.  
Liwdn hirllef, llydan haerllug,  
Llafur ffyl yw llyfr ei ffug ;  
Llwfr a rhyfedd y gnweddyyw,  
Llefain am riain fain fyw.  
Nid dawnus, nid dianhardd,  
Nid teg ei weled, nid hardd.— 36  
Gwr yn gweiddi, gorn gwaddawd,  
Ar gân fal brân am ei brawd .  
Os/drwg o un anhunfloedd,  
Finffug wr o Fenffug oedd. 40  
Eiddilwr am ei ddolef,  
I ddiawl aed, pam i'dd wyl ef?  
Y deheu ef ai dyhun,  
Dan ddywedyd — “ barcud bun ! ” 44  
Och ! gwae ef ddolef ddylyn,  
Hyder ar Dduw, o'r hud ar ddyn !  
Be prynwn, besr ddiweir bwyll,  
Wraig o'm hoedl, ryw gem hydwyll ;

Coeliwr dig, er cael awr daw,  
 Rhan oedd mi a'i rhown iddaw ;  
 Rhag drycced weddw dynged wae,  
 Ei gwr chwerw y gwyr chwarac.

2

Curiodd unwadal galon,  
 Cariad a wnaeth frad i'm bron ;  
 Ni chysyd yn of cof cerdd,  
 Gan cyd llawen ac angerdd,  
 Na son diddan am danyn',  
 Na serch byth onis eirch bun.—  
 Dewis yr wyf ar ungair,  
 Dyddgu i'w charu, o chair.

56

60

## AMRYW GANIADAU I FORFUDD.

## XXI.

I FORFUDD PAN WELODD Y BARDD HI GYN-TAF, YN RHOSYR YM MON ; AC YR ANFONODD EI LATAI A GWIN IDDI, A HITHAU AI GWRTHODODD, AC YN DDIR-MYGUS EI DAFLU AM BEN Y GWAS.

**G**WYL Bedr y bum yn edrych  
 Yn Rhosyr, lle aml gwyr gwych,  
 Ar drwsiad, pobl aur dryfor,  
 A gallu Mon, gerllaw mor.  
 Yno 'dd oedd haul Wynedd wiw  
 Enid unrhwysig, bynod unrhiw :

4

Gwenddyn

Gwenddyn fwnwgllgrwn gwynddoeth,

A gwyd oedd, a gwiw, a choeth.

3

A'r byd am ei gwynbryd gwiw

Ar ei hol eiry hoywliw :

Rhyfedd fu gan y lluoedd,

Rhodd o nef y rhyw ddyn oedd!

12

Minnau o'm clwyf a'm anhun,

Yn gwilio byth am gael bun.

A fu was a fai fasach

Ei fryd didwyll, a'i bwyll bach?

16

Gwiliais y hi heb ddichell,

O'i hol, nid buddiol, o bell :

Onid aeth dynoliaeth dwys,

I loyw lofft gain oleulwys.

22

Prid yr unben a chwènch,

Profais y gwin prifwas gwyd;

Prynu, gwaith nî bu fodlawn,

Heb raid ddau alwynaid lawn.—

24

" Dôs was, o'r mydr gwmpas mau,

" Dwg hyn i'r ferch deg gynau;

" Dyfydd hyd ei hystafell;

" Dywaid, henffych yn wych well.

28

" Dôs yn ei chluft a hustyng,

" A'th ddysg, nag arbed, a thyng ;—

" Mwyaf morwyn y' Ngwynedd,

" A garaf i, myn Gwr a fedd !"—

" Llun

- “ Llun iawnrhyw, llyma anheg,  
“ I ti yr anwylddyn teg.”
- “ Pell ynfyd fydd pwyll anfoes,  
“ Perhon,—dywaid pwy ai rhoes?— 36
- “ Pand cyffredin y ddinas,  
“ Paham na’th adwaenam was?
- “ Dafydd awenydd winef,  
“ Yn rhôdd a’m gyrrodd ag ef, 40
- “ Lwyttu wawr, a’i latai wyf,  
“ Attad ei gariad gorwyf.
- “ Clod y’ Ngwynedd a eddyw,  
“ Clowch ef, fal fain cloch yw! 44
- “ Yn ddibarch er pumarcholl,  
“ Meddwch chwi ef,—mae ’ddywch oll.”
- “ Nid wy’ mewn bodd o’i roddion,  
“ Na’i winda, na’i wenwyn dôn. 48
- “ Ffordd o’m gwŷdd! ffwrdd o’m golwg!  
“ Cilia y dreng, rhag cael y drwg !”
- Cael y clærwin o’r ddinas,  
Ai dywallt y’ ngwallt ’y ngwas! 52  
Ammarch a oedd hynny ymy,  
Amhorth Mair i’m hoywgrair hy!  
Os o brudd i’m gwarthruddiawdd,  
Isod cysfadnabod cawdd !

Afur

Afur ddisglaer ei chaful,  
Eisiau gwin ar ei min mull!

Pe gwypwn gwpl di letpai,  
Madog Hir'y myd ai cai:

60

Hwyr y gwnai hagr westai hy  
Einion Dot, mewn diowtty.

Hi a wyl, yr hoyw wylan,  
A'i chluft a'i llygad achlan;  
Dál iachgain, bydd mwy diolchgar  
Imi byth, amheua' ei bár,  
Byth weithian pan anfonwyf  
I'r sun, annyfyn o nwyf,  
Llonaid llwy o ddwfr llinagr  
Yn anrheg, bid teg, bid hagr!

64

68

## XXII.

1 FORFUDD, PAN WELODD HI Y' NGHOR  
 EGLWYS BANGOR.

**Y** Ferch dan yr aur llathrloyw,  
Fain ddigabl crwn barabl croyw;  
Yn aur o'r pen bwygilydd,  
Yn rhiain wiw, deuliw dydd,  
Yn gwrando ar falm Balchnoe,  
Y' nghôr Bangor Deiniol doe.

4

Digon

Digon i'r byd o degwch,  
Eigr bryd fflur, a brad fflwch ! 8  
Weled y wenferch wiwlwys  
Wi! o'r dyn, mae'n wewyr dwys !  
A seithochr wayw i'm saethawdd,  
A seithwawd cymhendawd cawdd. 12  
Gwenwyn awch, gwn fy nychu,  
Gweledigion gwlaid Fon fu!  
Nis tyn dim dan awyr fughau,  
Oddi mewn y galon mau ; 16  
Nis gorug gof ei guriaw,  
Nis gwnaeth llifedigaeth llaw.

Ni wŷs na lliw gwiw gwawdradd,  
Nad llun y dostarf a'm lladd ! 20  
Gorwyf o'm gwiwnwyf a'm gwedd,  
Gorphwyll am ganwyll Gwynedd.  
Gwae fi, gwewyr a'm hirbair,—  
Gwyn fy myd y' ngwiwnef Mair ! 24  
Gwydn yw gwayw deunawnych :  
Gwas prudd, wnae'r grudd yn grych.  
Gwnae doft gwenwyn o dâl,  
Y gwayw llifaid, gwall ofal, 28  
Trwm yw ynof ei hirgadw,  
Trwyddaw fy mron, friwdon fradw.—  
Trefnloes fy nad cariadwy,  
Tri awch saeth brawdfaeth bradwy !

## XXIII.

YN CWYNO FOD EI GALON YN FRIWEDIG O  
GARIAD MORFUDD.

**T**YDIP'R Galon bengron bach,  
Ddieres chwaen ddieiriach!

A fu dryll fwy ei drallawd  
Na thydi, gwehydd-dy gwawd ?

*Palmeres*, mynwes ai maeth,  
Penwyn gyhyryn hiraeth !

Cron ferwyn, rhy derwyn daer,  
Cruglwyth meddyliau croywglae :  
Llonydd fydd fodd difoesach,  
Llenwi y bydd, llun wŷ bach !

Hon a bair cadair ceudawd,  
Henw ymddiffwys gynwys gwawd :

Rhuad gwylt ddyn, rhad gwael,  
Rhyhy yn ferchog, rhyhael !

Ystyried windraul deulu,  
Y diod fedd ddæd fu ;

Un a wna anrhegfa 'rhawg,  
Hwyl berw llif hael-byrllawiawg.

A rhylew ar heolydd,  
Wyneb oer yno ni bydd ;  
Heb ei cael, heibio ciliwyf.  
Doluriau clau wneuthur clwyf.

4

8

12

16

20

Y

- Yr ail ydyw, arf loywdarf,  
Yno dros wefl, fefl ar farf. 24  
 Trydydd nid adnebydd neb,  
 Troi y dyn, trwy odineb,  
 I chwenychu chwach uchel,  
 Dwyn y dyn gwelwyn dan gel.— 28

Hynny yw gwraidd ei heiniau  
 Hoenswydd fawr, hynny sydd fau.  
 Nid mwy rhyfel, dan geli,  
 Dyn a mil, myn Duw, na mi ! 32  
 Yn caru, neshau i serch,  
 Er anfodd pawb, yr unferch.

Mygr wrthrych, llêwych llywy,  
 Pebr feinwyr, pawb a wyr pwŷ,— 36  
 Mygr hyloyw, magwyr hoywloer,  
 Morfudd, deg ei deurudd dioer !  
 Hoen teg pan fae huan taer  
 Ar fron olygon loywblaer : 40  
 Haelwen leddf, heilwin lwydddferch,  
 Heulwen, a seren serch !

## XXIV.

## CYSTUDD Y BARDD AM FORFUDD.

**H**OYWDEG riain a'm hudai,  
 Hael Forfudd, merch fedydd Mai !  
 Honno a geiff ei hannerch,  
 Heinus wyf heno o'i serch.

Heuodd

Heuodd i'm bron, hon a hyllt,  
 Had o gariad, hud gorwyllt :  
 Heiniar cur, hwn yw'r cerydd,  
 Hon ni âd ym enwi dydd. 8  
 Hawdd a gwrendy gyhuddled,  
 Nawdd arnaf, ni chaf ei ched !  
 Hudoles, a duwies deg,  
 Hud yw-im' ei hoyw dammeg. 12

Heddwech gyd a'm bun hoywddyfg,  
 Heddyw bei cawn, dawn y dysfg,—  
 Herwr glan, heb alanas,  
 Heno wyf i'w phlwyf a'i phlas. 16  
 Hi a roes, er garwloes gwr,  
 Hiraeth dan fron ei herwr ;  
 Hwy trig na mor ar y traeth,  
 Herwr Gwen yn ei hiraeth. 20  
 Hwyr i cawn dan ei hausr coeth,  
 Heddwech gan fy mun hoywddoeth.

Hualwyd fi, hoeliwyd f'aïs ;  
 Hual gofal a gefais ! 24  
 Hwyrr y daw draw 'r hyd a droes  
 Hwyrrach im' gaffael hiroes.—  
 Hon o Wynedd a henyw,  
 Hebddi ni baddaf fi byw ! 28

## XXV.

## GWALLT MORFUDD.

**D**OE gwelais Ddyn lednais lân,  
 Deg o liw, dygwyl Jeuan : 4  
 Yn ddyn glaerwen ysplennydd,  
 Yn llor deg, unlliw a'r dydd !  
 A'i chlaerwin fin cbwerthinog,  
 A'i grudd fal rhosyn y Grôg ;  
 Aml o eurlliw, mal iarlles,  
 Garllaw y tâl gorlliw tes.— 8  
 Ac uwch ei deurudd rhuddaur  
 Dwybleth fal *y dail o aur* ;  
 O dattedir, hir yw hwn,  
 Yr ciliad aur a welwn : 12  
 Plethiad ar yr iad a rydd,  
 A'r godiad aur egwydydd:  
 Esgyll archangel melyn,  
 Acerwy o gwyr ar eiry gwyn. 16  
 Gweled ei gwallt fal gold gwiw,  
 Gwail unllath, goel unlliw :  
 Benhadl-lwyn uwch yr wyneb,  
 Bronbelau fal *sipau Sieb*. 20  
 Gwiw arwydd uwch deurudd dyn  
 Gwail-didau gold ydyn' ;  
 Copi clyd gwiwbryd gobraff,  
 Coed o aur rhudd cyd a rhaff.

Pw'n

Pw'n ni wyr beirdd penceirddryw,  
 Pwy biau'r gwallt pybyr gwiw?  
 Bid arnaf fi yn ddiwg  
 Arddel Dyn urddol ai dwg.

28

## XXVI.

## PENWISG MORFUDD.

**H**EDDYW y gwelaf Ddafydd,  
 Hawddf yd i heddyw a fydd,  
 Rhwng gwallt, amgutiau chwyrn,  
 A dwyael merch i deyrn; 4  
 Rhoi gwerth can-punt o'r un-tal,  
 O gywrain main ag aur mäl—  
 Wel dyna weled anawdd,  
 I roi ar tâl, o aur tawdd!  
 Myn Croes Naid o fro Eidial ! 8  
 A gwaed dyn! — gwiw yw y tâl.—  
 Owmal o wlad Luddiad Lyr  
 Yw Penwisg fy Nyn poenwyr; 12  
 Gem yw ar ddaw o gwmwd,  
 Ac aur Ffraig, ne geirw ffrwd:  
 Ag asur ar gysur iad,  
 Er gwasgu cambr i'w gwisgiad.  
 Ffawch rhactal, neu benial boen,  
 Fflwing aur, ffloyw-ring oroen:  
 Da lun ar ddail *fflwr-de-lis*,  
 Ag aur berw o Gaer Baris.

16

E

Aur

Aur loywbrim eiry oleubryd,  
 Anrhydedd beilch wragedd byd:  
 Gwae fi, Fab Fair ddiwair dda,  
 Ei theced, ac ni thycia!

24

## XXVII.

## UCHENAID AM FORFUDD.

**U**CHENAID wedn aflednais,  
 Am pair heb ynni i'm pais !  
 Uchenaid oer ryniad ran,  
 A dôres yn bedeirran  
 Bron ai dyly, bryn y dolur !  
 Braidd na'm hyllt a'i gorwyllt gur.  
 Nythlwyth calon !—bron a bryd  
 O'i wag ochain, ni sag icchyd.  
 Cyfyd rhyw son o honof,  
 Cyfng cawdd o uthring cof ;  
 Cawod o drowynt cywydd,  
 Cae niwl o hir feddwl fydd :  
 Cynnwrf mynwes, diles dwyll,  
 Cynnar ddiffoddwraig canwyll !  
 Uchenaid, lifaid lafur,  
 O'r blaen a dyr maen o'r mur !

4

8

12

16

Rhiaint ai pair, gair gorwyn,  
 Rhuad tost yw ar hyd dyn.

Pawb

Pawb a debyg pan ddigiwyf,  
 Pe bai ddyfg, mai pibydd wyf:  
 Mae o anadl mwy ynos,  
 Nag y' nghau meginau gof.  
 Gwaeth na gwynt helynt hydref,  
 O'm chwyth,—y mae'n chwith efl  
 Awel gwlaw i grinaw gran,  
 Ef yw gwynt hydref hoedran!  
 Ni by wenithyd na nithid  
 Wrth hon, pan fai lon o lid.

20

24

28

A thrif fy swydd er's blwyddyn  
 Eithr Morfudd ni'm dihudd dyn!

## XXVIII.

YR WYLAN YN LLATAI AT FORFUDD.

**Y**R Wylan deg ar lanw dioer,  
 Unlliw a'r araf-wen-lloer;  
 Dilwch yw dy degwch di,  
 Darn fal haul, dyrnfol heli;  
 Ysgafn ar dòn eigion wyd  
 Esyndfalch edn bysgod-fwyd.

A ddygi yn ddiogan,  
 Llathr o glod, fy llythyr glan,

At ferch fy' a'i ferch yn saeth ?  
 F'm dwyfron mae gloeslon glewsaeth !  
 Yngo'r aet, wrth yr angor,  
 Lawlaw a mi, lili mor.

12

Llithr unwaith, llathr ei hanwyd,  
 Lleian ym mrig llanw mor wyd,  
 Cyweirglod bun cae'r glod bell,  
 Cyrch ystum caer ei chafelk.  
 Edrych a welych, wylan,  
 Eigr o liw ar y gaer lân.—  
 Dywad fy ngeiriau dyfun,—  
 Dewised fi,—dôs at fun ;

16

Boddia hon, baidd ei hannerch,  
 Bydd fedrus wrth fododus ferch.  
 A bydd, dywaid na byddaf,  
 Fwynwas caeth, syw onis craf !

20

24

Ei charu'r wyf gwbl-nwyf nawdd,  
 Och wîr ! erioed ni charawdd,  
 Na Merddin wenieithfin iach,  
 Na Thaliesin ei thlyfach.

28

Och ! Wylan o chei weled  
 Grudd y ddyn lana o gred ;  
 Oni chaf swynaf annerch,  
 Fy nihenydd fydd y Ferch !

32

## XXIX.

ARDDELWI MORFUDD I'R TAIR RHIAIN  
ODIDOG CYNT.

**T**AIR gwragedd a'i gwedd fal gwawn,  
A gafas yn gwbl gyfawn,  
Pryd cain, pan fu'r damwain da,  
A roes Duw Nef ar Efa. 4

Cyntaf o'r tair disglair-loyw  
Ai cafas, ehudwas hoyw!  
Policsena ferch Bria,  
Gwaisg o grair yn gwisgo gra. 8  
A'r ail fu Diodema,  
Gwiw-bryd goleu-draul haul ha'.  
Trydydd fun, ail Rhun ythawg,  
Fu Elen, feinwen Fänawg; 12  
Yr hon a beris yr ha,  
A thrin rhwng Groeg a Throia.  
Pedwaredd difymlwedd ferch,  
Y gain eglur-sain glaer-ferch, 16  
Yn dyfod yn deg ddifeml,  
Heb wg nod amlwg, i'r deml;  
A'r lluoedd arni'n edrych,  
Ar lawr disgleir-fawr, wawr wych. 20

I myfi daeth ymofeg,  
Ymofyn, pwy yw'r dyn deg? —

Chwaer yw hon, lon oleu-loer,  
Undad a'r lleuad a'r lloer;  
A nith i des ysplennydd,  
A'i mam oedd wawr ddinam ddydd!

Ac o Wynedd yr henyw,  
Ac wyr i haul awyr yw!

Nid gwen un wraig a'r adwaen,  
Nid gwyn calch ar siambr-falch faen,  
Nid gwen gwelwdon anghywirch,

Nid gwyn ewyn llyn, na lluwch,  
Nid gwyn pryd dilys disgair,—

Wrth bryd gwyn fy myd, myn Mair!  
Cyngwyfsl a wnawn heb gyngor,  
(Lliw ton geirw pan feirw ar for)

Nid byw'r cristion credadun,  
A gai le bai ar liw bun!

Onid ei bod yn glodgamp,  
Dyn fach yn loywach na'r lamp!

Na fid rhyfedd gan Gyniro,  
Alw bun o'r eiliw i bo.

Poed ar gyllhell hirbell hon,  
I gerdded gwaed ei galon,

Ai cymrai yn hyfryd,  
A maddau bun meddu byd!

Pa mwya' fo fy ngbyfoeth,  
A'm canmawl cynhwynawl coeth,—

24

28

32

36

40

Fwyfwy

Fwyfwy i clwyfai, ar naid  
 Cof ynof, cyfryw enaid !  
 Pa les i minnau wyrda,  
 Maddau'r dyn a meddu'r da ?  
 Nid oes obaith golein  
 I'r dyn, a fo hŷn na hi !

52

## XXX.

AMAETHIAD CARIAD,—AREDIG, HAU, MEDI,  
 A CHYWAIN SERCH MORFUDD.

**C**ARU bun, cyd i curiwyf,  
 Yn fwy, neu ddeufwy ydd wyf!  
 Cyfragod gariad tradof,  
 Crupl y cur, croyw epil cof :  
 Cadw a orum ceudawd  
 Cariad, twyllwr cnöwr cnawd.  
 Cynnyddu cwyn a wyddiad,  
 Y mae i'm bron, mam y brad :  
 Cynt na thyfiad cariad craff,  
 Cangen y blin-bren blaen-braff.

4

8

Ceisio heiniar i garu,  
 Am briod fyth i'm bryd fu ;  
 Rhwng dailiadaeth, gwawdfaeth gudd  
 Y marwfis, o serch Morfudd.—  
 Arddwyd fy mron, ddewrlon ddwys  
 Iawn angerdd serch, yn ungwys;

12

Ac mae aradr, cerddgadr call,  
I franaru'r fron arall.  
A swch ym calon y sydd,  
A chwlltwr o ferch uwch eltydd.

20

Y gauaf, er gwiw ofal,  
A welwyf dolur-nwyf dâl !  
Mae i'm bron ddeau, glau glwyf,  
Fryd hau a llyfnhau llifnwyf:  
Calanmai, rhag cael unmodd  
Seguryd ym byd o'm bodd,  
A thrimis, berf ddewis bwyll,  
Gwanhwynodymp, gwayw anhun-dwyll.

24

Ni chaf yr haf yr hoyw-ferch,  
Ni chred neb brysurdeb ferch !  
Cadeiriodd ynof ofid,  
Coetgae i'm lladd, cytgam llid.  
Cauais, hoywdrais ehudrwyf,  
Yn ei gylch, dyn unig wyf!  
Treiddiodd ferch yr hael-ferch hon,  
Trefn afraid, trwy fy nwyfron.  
Cyrchais, ni ohiriais hur,  
Cyrchau medelau dolur;  
Troes y gwynt, o bell-hynt bollt,  
O ddeau'r galon ddwyollt.

32

36

40

Trwm fu gyfrgoll yr hollfyd,  
Tralled yw bardd trulliad byd :  
Am y dyn ei hoedl ni'm dawr,  
Ag yn addfed gynnyddfawr;

A

A thywylawdd gawdd gordderch,

Yn fy mhen, ddwy seren ferch.

Edrychasant, lwyddiant o lun,

Ar Forfudd, araf eurfun ; —

48

Llidiardau dagrau digrwyd,

Llygaid nofaduriaid nwyf :

Lwferau dwfr lifeiriant,

Lafarus o nwyfus nant !

52

Curiwyd y fron hon heno,

A dwfr glas, edifar glo :

Dan hon y mae yn gronllech,

Ni âd fy nhrem seldrem sech !

56

Drwg fu ar soft goff gofid,

Dryghin o orllewin llid :

Addaw prif waftadlaw prudd,

O ddwyrain wybr ar ddeurudd ;

60

Ac o gariad tad didwyll

Gwedi'r boen, gwae di o'r bwyll !

Ni ellais fron oglais frad,

Ei gywain rhwng dwy gawad.

64

Hoec bryd eigr, fy neigr ni âd,

Heiniar lwgr, hun ar lygad !

Dywedwch ym enaid didwyll,

Gwae fi o'r boen, gaf ar bwyll

68

Syrthio o'r cariad mad maith,

A'm siomi am osymaith ?

## XXXI.

DIETHRWCH MORFUDD O SERCH, AC YN  
ANWADAL.

**Y** Fun o Eithinfynydd,  
 F'enaid teg, ni s yn oed dydd,  
 Fain-iawn-ael, fwynion olwg,  
 Fanwallt aur, fy anwylt wg: 4  
 Fy ngwynfyd rhag trymfyd trangc,  
 Fy nuwies addfwyn ieuangc,  
 Fy nrych llewych mewn lliwaur,  
 Fy rhan yw, fy rhain aur; 8  
 Fy swllt dan futres elltydd,  
 Fy ferch ar hon fwyfwy sydd,  
 Fy nillyn mwynyn manwallt,  
 Fy nghrair, ni chair yn ochr allt! 12

Ni chyrch hon goed y fron fry,  
 Ni châr ai câr, ni chwery:  
 Ni chair Morfudd i chwarae,  
 Na chair!—caru Mair y mae, 16  
 A charu saint wych hoywrym,  
 A charu Duw,—ni chred ym!

Ni wyr gwen, un orig yw,  
 Nid edwyn mo'r od ydyw: 20  
 Nid adwaeniad odineb,  
 Ni sŷnai nyn fi na neb;  
 Ni

Ni fynwn innau f'anwyl  
 Fyw oni chawn fun wych wyll!  
 Am bun darfu ymboeni,—  
 Morfudd fwyn! marw fyddaf fi!

24

## XXXII.

## CLADDU Y BARDD O GARIAD.

**V** Fun loywlun, fal lili  
 Yw'r tâl, dan we aur wyt ti!  
 Mi a'th gerais maith gwiwrym,—  
 Mair deg! oes ymwared ym?  
 Dy dâl rhag ofn dy dylwyth,  
 Dial parch, wyf heb dâl pwyth:  
 Y mae genyf mau gyni,  
 Uchenaid tost o'th chwant ti.

4

8

O'm lleddi ammwyll wiwddyn,  
 Yr em wen hardd, er mwyn hyn,  
 Euawg i'th wnaid, grair y gras,  
 (Ymgel wen) o'm gelanas.—  
 Minnau mewn bedd a gleddir,  
 Ym mysg dail a masw-goed ir:  
 Arwyl o fedw irion,  
 Yforu a gaf dan frig on;  
 Amdo wenwysg am danaf,  
 A lliain hoyw feillion haf;

12

16

Ac ysgrin, i geifio gras,  
 Ym o'r irddail mawr urddas ; 20  
 A blodau llwynau yn llen,  
 Ac elor o wyth gwialen.—  
 Y mae gwylanod y mor  
 A ddon' fil i ddwyn f'elor, 24  
 Llu o goed teg, llyg ai twng,  
 Em hoywbryd, a i'm hebrwng :  
 A'r eglwys i'm o glos haf,  
 Yn y fanallt, ddyn fwynaf, 28  
 A dwy ddelw da i 'ddoli,  
 Dwy eos dail,—dewis di !  
 Ac yno wrth gae'r gwenith  
 Allorau brics, a llawr brith, 32  
 A chôr, ni chae'r ddôr yn ddig :  
 O droddail nis medr eiddig :  
 A brodyr, a wyr brydiaith,  
 Llwydion a wyr Lladin iaith ; 36  
 O ran mydr o ramadeg  
 O lyfrau dail, lifrai deg !  
 Ac organ gwych y gwirgæ,  
 A sain clych mynchy y mae :  
 Ag yno, ym medw Gwynedd, 40  
 I mi ar bâr y mae'r bedd !

Lle teg glas, matras maingc,  
 Llan eos, llwynau ieuaingc :  
 A'r gog rhag f'enaid a gân  
 Ar irgoed fal yr organ,

Paderau, ac oriau'n gall,  
 A llaswyrau, llais arall ;  
 'Fferenau, a phêr annerch  
 A gaf fis haf, gofwy ferch !—  
 Aed Duw, i gynnal oed dydd,  
 I baradwys a'i Brydydd !

48

52

## XXXIII.

PERERINDOD MORFUDD I FYNYW, I GEISIO  
 MADDEUANT AM LADD Y BARDD.

**G**WAWR ddyhuddiant y cantref !

Lleian aeth er llu o nef,

Ac er Non, calon ai cel,

Ag er Dewi, eigr dawel,

O Fon deg, poed rhwydd rhegddi !

I Fynyw dir, f'enaid i !

I geisio, blodau o'r blaid,

Maddeuant am a ddywaid.—

Am ladd ei gwas dulas dig,

Penydiwr cul poenedig,

O alanas gwas gwawd-ferw

I'r aeth, oer hiraeth, ar herw !

8

12

Greddf ffoes gruddiau ffion,

Gadewis fy newis Fon ;

Crist arglywydd ! boed rhwydd y trai

Cas, a chymwynas Menai.

Y Traeth

Y Traeth-Mawr, goludfawr glod,  
Treia, gad fyned trywod.

Y Bychan-Draeth, gaeth gerynt,  
Gad ym dyn gwyn hyn o hynt.  
Darfu'r gweddiau dirfawr,  
Digyffro fo Artro fawr.

Talwn fferm Borth Abermaw,  
Ar dòn drai, er ei dwyn draw.  
Gydne gwin, gad naw gwaneg  
Dysynni i Dir Dewi deg.  
A dwfn yw tònau Dify,

Dwfr rhyn yn ei herbyn hi.  
Rheidiol, gad er d'anrhydedd  
Heol i fun hael o fêdd.

Ystwyth, ym mhwyth, gad ym hon  
Drais dew-ddyfr dros dy ddwyfron.

Aeron ferw hyson hoywferch,  
Gad trwod fy eurglod ferch.  
Teifi, dwfr tyfiad eurwawn,  
Gad i'r dyn gadeirio dawn:  
Dirsing drwy'r afon derfyn

Yrel, ac y del y dyn !

Mam hirffawd, mae ym mherffor  
Os byw rhwng Mynyw a'r mor.  
Os hi a'm lladdawdd, oes hir,  
Herw hylithr, hwyr i'r holir !

20

24

28

32

36

Maddeuant Mair, neddair nawdd,  
I'm lleddf wylan a'm lladdawdd!  
Diau mae im' ai dihaur,  
Minnau ai maddau i'm haur !

44

## XXXIV.

MORFUDD YN PENNU OED, HEB GYWIRO.

**B**YCHAN oedd gan Ddianis  
Am ei bryd mawr ei bris;  
Cellwair bob gair a garaf,  
Pob gair yn gellwair a gaf.  
Y hi a wnaeth, im' ei hun,  
Im ryw dwyll mawr er dywllun;—  
Doedyd, megis i hudol,  
Dywmawrth y deu i'm ol:  
Dywmercher, wrth dy eirian,  
Y gwnae oed, loer ganaid lan!  
Difiau y gosodau oed,  
A dywgwener deugein-oed;  
Os oed a wnae ddywsadwrn,  
Dywsful y gosodau swrn.  
Heb ddydd yn yr hir-ddydd hwn,  
O ddydd i ddydd i'dd oeddwn.  
O chawn ddydd, ac uchenaid,  
Pob dydd yn gelwydd a gaid.  
Na rho iddi wyl Ddwynwen  
Og oedd ffals bob dydd o'i phen!

4

8

12

16

## XXXV.

GWALLT MORFUDD.

**M**AE un iarles mewn eurllin,  
Difwrn wallt o'r dasarn win ;

Duw ai lluniodd, dull enwog,  
Urddol Grifft ar ddelw'r Grôg !

Jesu hael a roes i hon

**O**dewch mwy no digon :

Mae *taffel* o wallt melyn,  
Brig euraid, am ganaid gwyn.

Aur a gaid yn ddwy gadwyn,  
A'i roddi'n faich i'r ddyn fwyn ;

*Caets* euraid, fal coed sirian,  
Cyfliw'r mellt, cofl o aur mân.

Brig gwinwydd yn bare yniai ;  
Aur goron am dirion dàl.

Dros ei deurudd i'w chuddiaw,  
Lloweth yn ddwy-bleth a ddaw :

Aur melyn am ewyn mor ;

Tresi mân tros ei mynwyr.

Bargod haul goruwen brig tòn ;  
Lluryg euraid, lliw'r goron.

Canaid ei grudd dan ruddaur ;

Cofl aur wen, cyfliw a'r aur.

Dyn arau lliw'r haul yr ha',  
Ffrwd enwog, a phryd Anna

4

8

32

16

20

To

To manaur yw tw' meinwen ;

Teg yw'r gwallt, nid hagr yw gwen.

Teg yw ei phen, Ddwynwen ddoeth,

O bai unawr yn bennoeth :

28

Myned i gribô manwallt,

Meinir wych a manaur wallt ;

A'i osod mewn ysnoden,

Fal i daeth o foled wen.

32

Dyged y ddyn wridogwych

(Llawen yw gwedd y llwyn gwych)

Mewn gwisg nefol i'm golwg,—

F'enaid yw y Fun ai dwg !

36

## XXXVI.

## TRASERCH Y BARDD AM FORFUDD.

**M**AWR yw cadr ddaear, mawryw coedydd byd,

Mawr yw bod yn gelfydd ;

Mawr iawn yw dyfnder mor-rudd,

Mwy yw Perfyn am Forfudd !

4

Tawaf tra tawyf tywyn gwmpas haul,

Hael Forfudd gyweithas !

Ni wyr Duw i'th deuluwas

Awr draw ond wylaw gwlau glas !

8

Ni pheidiaf a Morfudd, hoff adain serchog,

Pe's archai Pâb Rhufain ;

Hoyw wawl ddeurudd haul ddwyrain,

Oni ddel y mel o'r main !

## XXXVII.

**L** FORFUDD PAN YMGREDD A'R BARDD.

**G** WELL yn niwedd fforfsed ffug,  
Na sori 'n wladaidd farug:

Da fyddai Forfudd o'i dyn,

O'r diwedd, hoen eiry dywyn,

Cred, o Luned oleuni,

A roes da ei moes i mi.

O drefn ei llaw fodrwy -faich,

O ddihewyd bryd a braich,—

Y cár fi, rhi rhywogaeth,

O chár yr áb ei mab maeth.

Ys gwaedwng yw os gwadir,

Ys gwyn fy myd yw, os gwir:

Ni feddais fudd o gwbl-fodd,

Erioed er pan roed y rhodd.

Cystal ei chael gan hael hwn,

Od ydyw yn rhodd didwn;

Nid gem oferedd gymmwyll,

Nid bedw glyn, nid dillyn twyll,—

Eurychwaith Mab Mair uchaf,

Ai law wnaeth drwy olew Naf!

Sel, a Duw ai hinseiliawdd,

Yn grair, o'i neddair a'i nawdd.

8

12

16

20

Digwyn

- Digwyn fyth, digon a fydd  
 O gwlm rhwng pawb a'u gilydd : 24  
 A dwfn yr â a difyr,  
 Yn y tân y dyn ai tîr !  
 Finnau fy nghred i f'anwyl,  
 A roes, i'r fun gwiwlun gwyl.— 28  
 Yn llw hydr, mewn lle hydraul,  
 Yn ei llaw hi, unlliw haul ;  
 Fal y rhoed ym, o rym rydd,  
 Yn y dwfr o enw Dafydd. 32  
 Gyrddwayw o ferch, iawnferch ior,  
 Ar garu hoen eiry goror ;  
 A doniog fu'r grediniaeth,  
 Da i gwn, a Duw ai gwnaeth ! 36  
 Da gwnaeth bun, a llun ei llaw ;  
 Rhoi dyrnaid a rhad arnaw,  
 Rheidlw perffeith-deg rhadlawn,  
 Rhinwedd y wirionedd iawn. 40  
 Llw i Dduw o'i llaw ddeau,  
 Llyna od gwn, llw nid gau :  
 Llawendwf yn llaw Indeg,  
 Llw da ar hyd ei llaw deg. 44

Llyfr cariad, myfi ai cadwaf  
 Yn ben rhaith erbyn yr haf :—  
 Yn yr oerddwr yr urddwyd,  
 Y llw a roes Morfudd llwyd

## XXXVIII.

TADMAETH SERCH MORFUDD.

**M**AU Gariad mewn magwriaeth,  
 Mab rhyfygus moethus maeth:  
 Mirein-fab mawr ei anfoes,  
 Mein-ferch mewn traserch a'm troes!  
 Mab ym heddiw, nid gwiw gwad,  
 Maeth rhag hiraeth yw Cariad;  
 Mawr o ddrwg, cilwg celi,  
 A wnaeth fy mabmaeth i mi:  
 Mŷnu ei ddwyn er mwyn merch,  
 Mŷnu gorllwyn i'm annerch,  
 Mŷnu rhodiaw mewn rhedyn,  
 Mŷnu ddiddanu o ddyn.  
 Mae'n rhyfawr ym fy nhrafael,  
 Mŷnu ei gelu, a'i gael:  
 Meinir a wyr y munud,  
 Mŷnu gwynfydu yn fud!  
 Megais, mawr guriais gariad,  
 Mabmaeth o brydyddiaeth brad;  
 Meithrin chwileryn gwyn gwâr  
 I'm mynwes o ferch meinwar,  
 Oer ym fagu, llysu lles,  
 Mebyn meinwyn i'm mynwes:  
 Mab rhyfedd, mi ai profaf,  
 Ei foes yw hwn fis o haf.

Ni

- Nifyn cariad ei wadu,  
Nai ddangos i lios lu;  
Nid â o ardal calon,  
Ni thrig ond ym mrig fy mron: 28  
Ni ddichon ei heddychawd,  
Ni waftetty gwedy gwawd;  
Nid eisteddai febai fab,  
Ni orwedd fy anniweirsab; 32  
Ni sai, ni orsai eurserch,  
Natur gwyl am orchwyl merch.  
Tyfodd ei glod hyd Teifi,  
Tadmaeth ferch i ferch wyf fi; 36  
Mab annodd, mi a boenais,  
Ei feithring fydd fyth rhwng f'ais!  
Aflonydd yw fo 'leni,  
Y mab a fegais i mi. 40  
Megais (dyn wyf cyn nwyf cain)  
Anwylfab i wen aelfain;  
Bychan, em eirian, i mi  
Budd er magu mab iddi! 44  
Oerfel ferchawgrwydd eurfaeth  
I'r ferch ai rhoddes ar faeth,  
Oni thal (llawn ofal llu  
Mau fwgwt) am ei sagu! 48

## XXXIX.

Y NIWL—A LUDDIODD GYWIRO OED A  
MORFUDD.

**O**ED a'm rhiaint addfeindeg  
A wneuthwn, yn dalgrwn deg,  
I fyned wedi 'mgredu,  
Ymaith, ac oferdaith fu. 4

Mynd yn gynnar i'w haros,  
Egino niwl gan y nos ;  
Tywyllawdd 'wybr fantellau  
Y ffordd, fal pettwn mewn ffau.— 8  
Cuddio golwybr yr wybren,  
Codi niwl cau hyd y nen ;  
Cyn cerdded cam o'm tramwy,  
Ni welid man o'r wlad mwy :  
Na gorallt fedw, na goror,  
Na bronydd, mynydd, na mor.

“ Och yt niwlen felen-fawr !  
Na throed ti, na thèrit awr : 16  
Casul yr awyr ddulwyd,  
Carthen anniben iawn wyd.  
Mwg ellyldan o annwn,  
*Abid* tew ar y byd hwn ;  
Mal tarth usfern-barth ffwrn-bell,  
Mwg y byd yn magu o bell. 20

Uche

- Uchel *dop* adar-gop-ŵe,  
Fal gweilgi, yn llenwi pob lle. 24  
 Tew wyd, a glwth, tad y gwlaw!  
 Tyddyn, a mam wyt iddaw.  
 Gwrthban dryccin-wlaw trymlyd;  
 Gwê ddu o bell a gudd y byd. 28  
 Cnwd anhygar diaraul,  
 Clwyd forlo rhyngof a'r haul:  
 Nos ym fydd dydd diferclwyd,  
 Dydd yn nos, pand diddawn wyd? 32  
 Tew eiry fry yn toi y fron,  
 Taid llwydrew. tad y lladron.  
 Gwasarn eira llon ionawr;  
 Goddaith o'r awyr faith fawr: 36  
 Ymlusgwr, bwriwr barug  
 'R hyd moelydd ar grinwydd grug.  
 Hudol egwan yn hedeg,  
 Hir boer-lwyth i'r tylwyth teg: 40  
 Gŵn i'r graig, gnu awyr gron:  
 Cwmwl blaenedau ceimion.  
 Ager o dônau eigiawn,  
 Mor wyd o annwn, mawr iawn." 44

O'm blaen ar riw, hagr-liw hyll,  
 Obry'n dew wybren dywyll;  
 Fy nhroi i fan trwstanwaith,  
 Fal usfern i sign-wern faith;—

Lle'r ydodd, ym mhob gobant,  
 Ellylon mingeimion gant.  
 Ni chawn ar wern uffernol,  
 Dwil heb wrysg, dywyll heb rôl.  
 Ni wna' oed, anhy ydwy',  
 Ar niwl maith, a'm anrhaith, mwy.

52

## XL.

## MORFUDD YN TÖRI OED.

**D**EG nithiad, doe i gwneuthum  
 Dywllun oed a bun lle bum ;  
 Lle gwelais, hoen geirw traes trai,  
 Ddywsful y hi addawsfai  
 Ddyfod i eilwydd ofyn,  
 Lle ni ddaeth llawen o ddyn.

4

Mynd drwy gel mewn dirgeli,  
 O waith 'y myd, a wneuthum i  
 I'r nant, lle'r oedd pwyntmant per,  
 Ar ymfwyn, cyn yr amser ;—  
 Cyn goleuddydd, gan gloddiau,  
 Rhag gweled y cerdded cau.  
 Gorphwys i lawr, mewn gwirffydd  
 Y dae y ddyn pan y doe ddydd ;  
 Llawer golwg, ddyn llawen  
 (Llariaidd a gweddaidd yw gwen)

8

12

4

O frys

O frys has, a fwriais i  
 Fry, oedd parth ar fro eiddi,  
 Tawel bryd uwch y tywyn,  
 Tua lle 'dd oedd, twyllai ddyn.

20

Morwyn yw, mirain awen,  
 A mefl i minnau amen  
 O rhof yn rhad, lle i'm gwadawdd  
 Y dwyll hon, ac nid dull hawdd.  
 O'r boreu, ddyn goleu-wefr,  
 Hyd anterth dan y berth besfr,  
 O anterth, pridwerth prydyyd,  
 Hyd hanner dau amser dydd.

24

O hanner dydd, a hònir,  
 Hyd brynhawn, a beru'n hir ;  
 O brynhawn, son ddigawn syml,  
 Hyd y nos, hoed annisyml.

32

Hirwyl oedd ym ei haros,  
 Eurwawr hardd, ar wàr y rhos ;  
 Pe bawn, myn y Pâb anwyl !  
 Yn y llwyn, anhyall hwyl,  
 Cyd y bu'r gwr, cyflwr cail,  
 Ebwch gwiw wrth bauch gwiaiil ;  
 Gwyn ac addwyn ei hwyneb,  
 Gwae fi, ni welwn i neb !

36

40

## XLI.

YMBIL A'R DÒN NA LUDDIA EI HYNT DROS  
DDYFI I YMWELED A MORFUDD.

“ **Y**Dòn bengrychlon grochlais,  
Na ludd, goel budd, ym gael bais,  
I fynd draw, o daw ym dâl :  
Nag oetta fi, nag attal,—  
Gad ardwy rhad, er Duw Rhi,  
Rhwyf dyfr, rh'of a Dyfi !”

“ Tro drachefn, trefn trychan-rhwyd,  
Dy fardd wyf, uwch dwfr ydd wyd :  
A ganawdd neb a genu  
O fawl i'r twrf meistrawl tau,  
Gymmar hwyl, gem yr heli,  
I gâmen mor gymain' a mi ?”

“ Ni bu brifwnt blaened sugh,  
Na rhuthr blawdd rhwng deuglawdd dygn,  
Nag esgud frwydr, nag ysgwr,  
Nag ysgwydd gorwydd, na gwr ;  
A gyfflybwn, gwn gyni,  
Gref-daer dòn, i'th gryfder di.  
Ni bu organ, na thelyn,  
Na thafawd difai-wawd dyn,

Duwies-liw, nad gwell d'oslef,  
 Fordwy glas, a'th fawr-deg lef.  
 Ni chair yr ail grair genyf,  
 Am f'enaid, brad naid, bryd Nyf,      24  
 Yn galw ei thegwch golau,  
 A'i phryd teg fal y ffrwd tau.”

“ Dy gennad, dòn loywgron-grych,  
 Och ! unwaith rwy' o'i chwenych,      28  
 I fyned, f'anwyl a'm barn,  
 Drwy Iwyn bedw i Lanbadarn :  
 At ferch a'm gwnaeth, ffraeth ffrwythlyw,  
 Forwyn fwyn, o farw yn fyw !      32  
 Er hyn gwna fudd na'm lluddych,—  
 Ymwân loyw-ddyfr croyw crych !  
 Cyfyng genyf fy nghyngor,

Cyfeillies, marchoges mor ;      36  
 Càmu ydd wyd rh'o'f a'm cwmwd,  
 Attal a'th drwyn, ffrwyn y ffrwd.—  
 Pei gwypyd, dring ffaling-lwyd,  
 Pefrain letywraig aig wyd,      40  
 Gwobr da, pei gwybu'r dòn  
 Sy a'i brig dros gerrig geirwon,  
 Faint fy ngherydd am drigaw,  
 Lliwddu drom, ni'm lluddiai draw !”      44

“ Cyd teithum er ail Indeg,  
 Hyd yn dy fron, y dòn deg ;      Nà'm

Na'm lladdo rhyfel gelyn,  
 O'm lluddud i dud y Dyn,  
 Gwell ym fy lladd, seithradd ferch,  
 Na'm lludd at Forfudd, f'eurferch!"

48

## XLII.

MORFUDD A'R BARDD YN CHWARAU CNAU  
 I'M LLAW.

**S**ALW yw nghof o lyfr Ofydd,  
 Serchog annifeiriog fydd  
 Heb gael cydymaeth gar llaw,  
 I addaw f'amcan iddaw.

A

Mae un mal y dymunwyf,  
 Brawdyn ym i brydu nwys;  
 Cymhorthiad o'm cariad caeth,  
 Cynghoriad cangau hiraeth.—  
 Ni bu ddynan fechan sach,  
 Os mul hi, ysmalhaeach :  
 Ni wna nemmor o dwyllfreg,  
 Na nyni'n dau, y nyn deg.—

B

Ac ymeu a ddechreuawdd,  
 Cynhyrchiad fain cariad cawdd.—  
 Chwarau heb wybod baham,  
 Er eigr wedd, a orugam,  
 Cnau i'm llaw ddeau ddiwg,  
 I mi don', dyn mwyn a'u dwg :

16

Pys

Pys irgylf rhydd, gwŷdd gwilchwynt,  
Pam i mau,—tau orddgnau ynt?

20

I ddanfon ym rym rwymbleth,  
O bwy eb ef? o ba beth?

Edrych er na laefych les,  
Ai dyn fwyn a'u danfones?

24

Meinir un bryd a manwawn,  
Morfudd deg, mawr fudd eu dawn,

A gâr hi fi, sun farddglwyf?  
Câr od gwn, caredig wyf;

28

O'm câr, gad yna Em cant  
Cyfnifer cof, a nwyfiant.

Dygum i'r cnau, golau goel,  
Dawnus,—myn Dyn a Deinioel!

32

Danfones y dyn feinael,  
Ym hyn,—fal dyna Em hael!

Am eurgerdd, od ym eurgoll,  
Hoen er y caen heiniar coll.

36

Ysgynwas wyf, ys ceinioed,  
Os gwir cael, ysgwir y coed:

Os cywydd crefydd ni'm cred,  
Os cael gwir, ys cael gwared.

40

Oed mewn irgoed, mwyn argoel,  
A fydd, onid celwydd coel.

Ffacedau, a phlu coedydd,  
I gyd, gweddaidd amyd gwydd.

B'ond ballafg tew fu'r cnewyll,  
 Pefr benglymau cangau cyll:  
 Nid ananwyl dwyn annerch,  
**O** fottymau fiAMPLAU serch.  
 Nis tŷr min er glothineb,  
 Ys go-lan wyf, nis gwyl neb:  
 Ni thòrir, wir warafun,  
 A charreg, befr anrheg bun.

48

52

Minnau fy hun o'm lluniaeth  
**O** gnau (y mab Rhad a'u gwnaeth)  
 I'w glwysbryd, cyn lludw glasbridd,  
 A dalaf bwyth ffrwyth y ffridd.

56

## XLIII.

Y CAE BEDW, A ROES MORFUDD.

**E**URYCHES y Cae mangoed,  
 O ryw bedwenfrig erioed ;  
 Ennill ym fydd goedwydd ged,  
 O chawn elw o'i chynhiled.  
 Er achub crefft eurychaeth,  
 I efail o ddail ydd aeth ;  
 Ac ennill clod, ac annerch,  
 Ac a'i llaw sawduriaw serch :  
 A'i neddaир, addfeingrair fwyn,  
 A nyddodd fedw yn addwyn.

4

8

A'm cain euryches ni'm cawdd,  
 Em cenedl ai hamcanawdd :

Cyflino

Cyflino cae o flaenion,  
 Cadair faint, y coed o'r fron.  
 Coedyn bach o rwym ceudawd,  
 Crefft ysbys rhwng bys a bawd :  
 Can-well yw na chae ceinwesr,  
 Cae o wallt pen bedwen besr.

16

Caeog wyf o frig gwial,  
 Caeau y deau a dail :  
 Fy nghae bedw da i cedwir,  
 O'r coed ni wnae'r hoed yn hir.  
 Fy mudd yw, nis maddeuaf  
 Fy mywyd ar hyd yr haf,  
 Fy mab, fy mrawd didlawd-foes,  
 Fy medw rhwym, fy myd ai rhoes.

20

Da yw fy mron rylon rus,  
 Dan gae bedw dyn gwybodus :  
 Celfyddawd grefft brawd brudd,  
 Gem ir-fedw oedd gae Morfudd.  
 Gwaith cymmen o fedwen fad,  
 Gweddeiddiau gwŷdd a wyddiad,  
 Gwell ei hamcan na Sianyn  
 Eurych, treth fynych a fyn.  
 Gwŷdd meinion a gyfonai,  
 Gwyn ei fydd, a gwae na fai !  
 Euraw fy llaw er fy lles,  
 Ar uchaf fy Euryches !

24

28

32

36

## XLIV.

Y DARAN—A DDYCHRYNASAI MORFUDD A'R  
BARDD.

**M**AE gair i mi o gariad,  
Gael is dail gwely o fstad,  
A cherdd gan fronfraith a chog,  
A merch wen i'm erchwyniog.  
Mynais ym däl am annun,  
Gael bod yn gywely bun,  
Dan lwyn, mewn dien lannerch,  
A dail mai, rhwng dwylaw merch.

4

8

Myn dyn ! pan oeddem ein dau  
Lawenaf, ddyn ael-winnau!—  
Taro a wnaeth, terwyn oedd,  
Trwst taran tros y tiroedd,  
A ffrydiaw croywlaw creulawn,  
A phoeri mellt yn ffrom iawn!  
Gwylltio'r forwyn fwyn feinwen,  
Gwasgu a ffo gwisg ei phen;  
Ffynu'n deg. ffoen ninnau'n dau,—  
E ffoes hon,—a ffois innau!

12

16

Durun llam y Daran llwch,  
Dug warwyfa'n digrifwch:  
Trwst enbyd, tristyd i'r trwyn,  
Trwst mawr yn tristau morwyn.—

20

Twif

- Twrf a glyw pob tyrfa glau,  
 Tarw cryg yn tòri creigiau ! 24  
 Taran a ddug trinoedd yn,  
 Trwst arfau 'wybr tros derfyn ;  
 Tân aml a dwr tew'n ymladd,  
 Tân o lid, dwr tew'n ei ladd ! 28  
 Clywais fry, ciliais o fraw,  
 Cawrlais utgorn y curwlaw ;  
 Mil fawr yn ymlefydd  
 O gadwynau suggnau sydd. 32  
 Braw a ddisgynodd i'm bron,  
 Bwrw deri o'r 'wybr dirion !  
 Gwyllt yr awn a'm gwallt ar wyr,  
 Gan ruad gwñ yr awyr : 36  
 a. Gwiddon góch yn gweiddi'n gau,  
 Gwrach hagr, dan guro ei chawgiau.  
 Rhegain garm rhyw gwn gormes ;  
 Rhuglgroen, yn rhoi gwlaw a gwres. 40  
 Tòri cerwyni crinion  
 A barai gri o'r 'wybr gron :  
 Canu trwmp o'r 'wybr gwmpas,  
 Curo gwlaw ar bob craig las. 44  
 Creglef yn drylliaw creiglawr,  
 Crechwen o'r ffur safen fawr :  
 Trwy ei hun y trawai hwrdd,  
 Tebyg i ganu tabwrdd.—

Nid gwaeth wrth fyned o'i gwâl,  
 Er bremian o'r 'wybr wamal,  
 Oni bai faint, mewn braint braw,  
 Ofn deuddyn a fai'n dyddiaw.

52

Un dyn nid oedd ond ni'n dau,  
 Mewn man, 'y mun a minnau ;—  
 Breferad yr 'wybr ferydd,  
 A wnaeth ini dòri dydd.

56

Fy nyn wen, ofni a wnai,  
 Awyr arw, pan weryrai :—  
 Drwg fu'r Daran ymannos,  
 Dwyn dylif, ofni dyn dlos ;—  
 Arw floeddiaf, oerfel iddi,  
 Am ysgar meinwar a mi !

60

## XLV.

## Y CEILIOG BRONFRAITH.

**L**LE digrif i bum heddiw,  
 Dan fentyll y gwyrd-gyll gwiw ;  
 Yn gwrando, clau ddechrau dydd,  
 Y Ceiliog Bronfraith celfydd.  
 Pellenig heb pall ei anwyd,  
 Pell siwrneiai'r llatai llwyd ;  
 Yma y daeth, o swydd gaeth Gaer,  
 Am ei erchi o'm eurchwaer.

4

Cloch.

Cloch gywir, clych a garant,  
 A gyrch i nentyrch y nant;  
 Ei wisg oedd o'i wasg eiddil,  
 O flodau man-gangau mil; 12  
 A'i gasul, dybygesynt,  
 O esgyll gwyrdd fentyll gwynt:  
 Nid oedd yna—Dyn mawr!  
 Ond aur oll yn do'r allawr. 16

Morfudd ai hanfonasai,  
 Mydr ganiadaeth mabmaeth mai !  
 Mi a glawn mewn gloywiaith,  
 Ddatganu, nid methu maith; 20  
 Darllain i'r plwyf, nid rhwyf rhus,  
 Efengyl yn ddifyngus :  
 Codi ar fryn, in' yna,  
 Afrilladen o ddeilen dda, 24  
 Ac eos gain fain fangaw,  
 O gw̄r y llwyn gar ei llaw,  
 Clerwraig nant, i ganta gan ;  
 Cloch aberth, clau a chwiban. 28  
 A dyrchafel yr aberth,  
 Hyd y nen uwch ben y berth :  
 A chywydd i'n Dofydd Dad,  
 A charegl nwyt, a chariad.— 32  
 Bodlon wyf i'r ganiadaeth,  
 Bedwlwyn o'r coed mwyn a'i maeth !

## XLVI.

AROS MORFUDD YN Y LLWYN.

**E**IDDUN ddewis-ferch ferchawg,  
Dduw Rhi! a ddaw yr hawg?  
A ddaw i lwyn addolwy',  
Fis mai, yn fy oes mwy? 4  
Ac os daw, fe ddaw'n ddiau  
Merch i goed,—ammarch i gau.

O bai barawd i wawd wedn,  
Bun gywiw, bangawedn, 8  
Ni bu er dysgu disgwyl,  
Gan ferchog-was, golas gwyl,  
Grefft mor ddigrif, ger llif llid,  
Ag arail merch a gerid. 12  
A rhodio, heurio hiroed,  
Cilfachau cadeiriau coed;  
Mal cynnydd chwarëydd chwai,  
Am lwdn gwylt a ymlidiai  
O le bwyglydd, o lid,  
O lwyn i lwyn, ail Enid.  
Ac edn bach a geid yn bwyll,  
Yn echr'wybr, yn ei chrybwyll: 16  
Golau lais, galw ail Effylt  
A wnai y gwiw latai g wylt.  
Digrif, be gatai'r dagrâu  
A red, oedd glywed yn glau

Dyrain

- Dyrain mawr aderyn mai,  
Dan irsedw y dyn erfai !  
Arian farchog doniog dôn,  
Urdol air, ar ddail irion :      28  
Hoyw erddigan a ganai,  
Awr bob awr, boen fawr ban fai.  
Nid ai ef, mygr-was-lef mwyn,  
Arian-llais edn, o'r un-llwyn,      32  
Meddylgar gerdd glauar glau,  
Mwy nag ancr,—mwynion geingcian !  
Da gweddai, ym medwendai mwyn,  
O delai'r edn i dewlwyn ;      36  
Ar ei gred, yn gweled gwen,  
Eurfrig gofl ar frig gwialen.
- Teg fedwen, twf gyfoedwallt,  
Twr diwael ar ael yr allt :      40  
Tyfiad heb naddiad neddyf,  
Ty ar un piler y tyf.  
Tusw gwyrdd, hudolgyrdd deilgoff,  
Tefgyll yn sefyll ar soft ;      44  
Tywyll ban mursogan mai,  
Tew i'r nen,—rhad Duw arnai!  
Corfedw diddos ei hofan,  
Cyweithas gawell glas glan.      48  
Crefft ddigrif oedd, myn y crair,  
Gusanu dyn gysonair !

Ac edrych, gwedy gwiwdraul,  
 Rh'om ya hun, rhwymynau haul,  
 Dan fantell fy niell-wraig  
 Trymau cainogau can aig.  
 A lleddfu fy ngwedd heddiw,  
 Llygad glas llwygedig liw,  
 Oroen gem, eirian gymmwyll,  
 Ar y dyn a oryw dwyll!

52

56

## XLVII.

## Y BANADL-LWYN.

**Y** Fun well ei llun a'i lliw  
 Na'r iarlles w'n o'r eurlliw;  
 Gwn ddeu-chwedl, gwae ni ddichon,  
 Gael oed dydd, a gweled hon !      4  
 Nid rhydd ym anturio i ddwyn  
 Liw-dydd at leuad addwyn,  
 Duw ni myn, dinam wynyb,  
 Dwyn brad nos dan bared neb.      8  
 Nid oedd i ddiwladeiddwas  
 Goed i gael oed o fedw glas,  
 Nid oedd wilio, hardd eilun,  
 Yr haf, heb oed rh'o'f a bun.      12

Duw i mi a'm dyn diell  
 A roes goed, un eurwifg well;

Gwial

- Gwiall cystal y gauaf  
A dail hoyw fal adail haf. 16
- Gwnaf yno, i hudo hon,  
Glös o Fanadl glas feinion ;  
Modd gwnaeth, seirniaeth serch,  
Myrddin, dy gwydr am ordderch. 20
- Ar Ddyfed, yr addefynt,  
Y bu len-gel o'r blaen gynt ;  
Yr awron, dan yr irwydd,  
Fy llys i felly y sydd. 24
- O daw bun i dy, y bo  
Jarlles wen i'r llys yno,  
Mae iddi, a mi ai mawl,  
Oes baradwys ysbrydawl.— 28
- Coed wedi eilio pob caingc,  
Cynddail o wial ieuatingc ;  
Pan ddel mai, a'i lifrai las,  
Ar irddail i roi'r urddas : 32
- Aur a dyf ar edafedd,  
Ar y llwyn cr mwyn ai medd.  
Teg yw'r pren, a gwyrènig  
Y tyf yr aur tew o'i frig: 36
- Aur-gawod ar y gwiall  
Duw a roes, difai yw'r ail,  
Bid llawen gwen bod llwyn gwydd,  
O baradwys i brydydd ; 40
- Blodau gorau a garwn,—  
Barug haf ydyw brig hwn.

- Mae i minnau, a'm meinir,  
Oes ffair maes o saffrwm ír: 44  
Dal y ty, a'i adeiliad da,  
Yr wyf o aur Arafia.
- Pebyll Naf o'r ffur safen,  
Brethyn aur, brith yw ei nen : 48  
Angel mwyn 'y ngwely mai,  
O baradwys, ai brodai !
- Gwawn yn aur, gwenwyn ères,  
Gloyn nod Duw, gleiniau tes. 52  
Gwynfyd mewn gwinllan bryd bron  
Gael euro gwiall irion ;
- A'u brig yn goedwig a gaid,  
Fal yn serfwiwns euraid : 56  
Felly caf, fal lliw cyfan,  
Flodau'r mai fal adar mân ;
- Llyna beth llawen yw bod,  
Llen angel i'r llwyn yngod. 60
- Gorllwyn y llwyn, a'r llannerch,  
Arfer mwyn, yr wyf er merch ;—  
Daw f'ammiod, nid âf ymaith  
O'r llwyn fry, a'r eurlen fraith, 64  
O chaf hyd haf yn oed dydd,  
Y dyn eurwallt dan iwydd,—  
Deled, lle ni'n didolir,  
Dyn fain dlos dan Fanadl ír ! 68

## XLVIII.

CYSTUDD AC AFLWYDD Y BARDD AM FORFUDD.

**D**Y gariad, deg ei gorhoen,  
 Dygn y sydd heolydd hoen  
 Ynof, gwas o nwyf a gwedd,  
 Yn 'y mlinaw naw mlynedd !  
 Ni bu ar les ei dadmaeth,  
 O hir gymdeithas, was waeth ;  
 Moethus o was llias llaw,  
 Methedig fabmaeth udaw.—

4

8

Llyna Forfadd ddiledryw,  
 A gaf o dâl, gofid yw !

Pa lan bynag ydd elych,  
 Na ful, na gwyl, f'anwyl wych,  
 Cerdded a wnaf, fy mun llwyd,  
 Ddeuddwyn i'r lle 'dd oeddwyd !  
 Ac yno, em y genedl,  
 Goganus, chwarëus chwedl,  
 Tôri fy llygaid terwyn  
 Ar dy hyd, f'anwylyd fwyn !  
 Ef a fydd y dydd a'i deg  
 O nodwyddau, a'i deuddeg,  
 O'r amrant er ymrwystr sydd,  
 Bugeiliaeth ferch bwygilydd ;

12

16

20

Hyd

Hyd nad ymwaifg ddyn ddoethgall,  
Un aur ei llun, ar y llall.

24

Cyd bwyf dalm o'r salm ar ful  
Fewn glwysgor, ddyn glasgul,  
Ni'm gwrthyd, ddeufryd ddifreg,  
Neb o'r plwyf er nad wyf deg.

28

Tra fo llygaid haid hawl,  
Yn agored ên geiriawl,  
Fe ddaw y glaw, yn oer glwyd,  
O fugh y fron a 'sigwyd ;  
Oddinai i ddeunant ar led,  
Oddiyno fy eidduhed !

32

Meddylia hyn, y fein-ferch,  
Meddyliau, rhefymau ferch,  
I daw glaw yn ol praw' prudd  
Hyd y farf, hydwy Forfudd !  
Cyfraith ferch sydd yn erchi,  
Cymmer dy hun, yt Fun y si.

36

40

## XLIX.

SERCHAWGRWYDD MORFUDD.

**C**EFAIS fodd, cofus sydda',  
Heddyw yn y glyn ddyn dda ;  
Twf y dyn, tyfiad Enid,  
O'm tefyll aur a'm tŷf llid :  
Fal moeloedd talm o alaw  
Teyrnüaidd lariaidd law.

4

Dyn

Dyn wyl, dda ei dynoliaeth,  
A'i modd, gwell na neb ei maeth  
Am gusan, lliw'r wylan wych,  
Chwaneg ni chawn er chwèn ych !  
Peth nid oeddwn gynnefin,  
Sypiau mêl, a sifio min !

8

12

Gwansardd gweddeidd-dwf gwinfaeth,  
Oeddwn gynt iddi yn gaeth :  
A mau bwyll i mae bellach,  
A dawn a fu nad yw'n fach !  
Rhyw gwlm ferch, cyd rhy-gelwyf,  
Rh'om oed, gwn rhwymedig wyf.

16

Manodliw ddyn munud-loyw,  
Morfudd, huan ddeurudd hoyw,  
A'm daliawdd, be hawdd, bu hy,  
Dal-dal y'nghongl y deildy :  
Daliad cwlwm cariad coeth,  
Dau arddwrn dyn diweir-ddoeth,  
Da oedd yr haul uwch daear  
Dal i'm cylch dwylaw a'm câr ;  
Dogn oedd ym o'm hylym hwyl,  
Dewr gofer ferch dirgelwyl,  
Nag aur coeth, myn y gwir Ner !  
Gwell i'm cofl gall a'm coler.  
Am wddw' bardd, bun harddlun,  
Llai na baich oedd befr-fraich bun :

29

24

28

- Goris clust goreuwas clod  
 Gothrech, ni wnaf ei gwrthrod.  
 Lliw'r calch ar gaer fain falchwyn,—  
 Llyna rodd da ar wddw' dyn,                            36  
 A roes bun, ac un ai gwyr,  
 Am fwnwg! bardd,—Em feinwyr!  
 Rhydwyll i'm rhwymodd hudawl,  
 Hoedl i'r fun hudol air fawl !                            40  
 A geidw ym drefn, erddyrm draidd,  
 Fy mhwythau yn famheuthaidd.  
 Diofn, dilwfr, eosn dàl,  
 A du wyf a diofal ;                                    44  
 A deufraich fy nyn difrad  
 I'm cylchwyn, ym medwlwyn mad !  
 Nid serch i neb fannerchi,  
 Delw aur, rhwng ei dwylaw hi                            48  
 Wedi cael ymafael mwy,  
 Wawr euraid,—wi ! o'r aerwy.—  
 Teg oedd weled mewn rhedyn  
 Tegau dwf yn tagu dyn !                                    52  
 Meddw oeddum, mau ddiôddef,  
 Meddwaint rhiain groyw-gain gref.
- Mŷnwyd fy myd rhag fy mår,  
 Mwyn wŷn i'm gwnaeth braich meinwar :            56  
 Mynwes gylchyniad mad maeth,  
 Mynwaur fuont ym unwaith !

## L.

I'R YSGYFARNOG A DDYCHRYNASAI MOR-  
FUDD A AETHAI I'R LLWYN I GADW  
OED A'R BARDD.

**L** LYMA ben lle mae, o bydd  
Llyfr canon llafur cynnydd,  
Ysgysarn glas-gerth a hwyliai,  
Mawr drafferth, o'r berth a bai : 4  
Glusffir lwyd, gar glas-derw lwyn,  
Gefn-fraith, gyflym-daith, lamdwyn.  
Gofunaid huaid yw hi,  
Gwlm cydgerdd, gelyn coedgi : 8  
Gwrwraig a wnai ar glai glân  
Gyhyrwayw i gi hwyr-wan.  
Gefnfain, gwtaa gegin-fwyd,  
Gwn dyngchedfen lawdrwen lwyd. 12  
Henwraig ar lain adain yd,  
Anferth hir glustiau ynfyd ;  
Cath hirdaith, gethin-fraith gern,  
Côd lwydwyllt, coedwal adwern. 16  
Cyw hy i fro'n a ffy ar ffyfsg,  
Craig bwhwman-wraig manwryfsg:  
Mynyddig wâl, benial byllt,  
Mŷnen aelodwen ledwyllt. 20  
Esgud ei phâs ar lasfrew,  
Ysgwd o'i blaen, esgid blew :

- Erlyner hi ar lân hynt,  
 Ym mlaen gwyr, ymloyn gwynt; 24  
 Yn galed, o fan bwygilydd,  
 O blith y gwlith i bleth gwlydd,  
 O hynt i hynt i hwntian,  
 O goed i faes gloywlas glân. 28  
 O aml fwriad anwadal,  
 Ysgwd gwylt. esgud o'i gwâl:  
 Ysgafn fryd, ac yd a gâr,  
 Os gad Duw esgud daear. 32  
 Esgair cath, nyth dwmpath nod  
 Is garedd ddfon, ys gŵyr ddyfod  
 I'r tyddyn lle'i tywyn tes,  
 O cai fwyd y cyfodes. 36

Hon a wnaeth yn nhraeth, y rhyw  
 Fawrgam a'm fi, oseryw!—  
 Llunio ei gwâl yn llwyn y gog  
 Draw, y geinach drogënog; 40  
 Lle daethau dan gangau gwŷdd,  
 Aur ei munud i'r manwydd,  
 Oni bae o'r cae, a'r coed  
 Neidio o'r fudrog ynfyd-droed,  
 A'r coesau hŷdd, casâ'r rhawg : 44  
 Drwg lun y frech ddraig leuawg;  
 A phan welodd, gwaeddodd gwen,—  
 Y flewog gyw afiawen!

Dychrynnodd

Dychrynnodd a luniodd le,  
 Drwy fadrwydd, hi droes adre'.  
 Ofnodd fod, fal y dywod hi,  
 Gwrthwyneb a gwarth ini.

52

Oedd gwae fi ddyfod bun  
 Glwyflais, o goed y glaslyn,  
 Ac na chefais, yn ais nod  
 Wych Forfudd, ei chyfarfod !  
 A wnaeth draw yr annoeth dro  
 Y ci mawr ai cymmero,  
 Oddiar ei gwâl, ddioer gelen,  
 Heb rybudd er budd o'i ben !

56

60

Un agwedd o serch rhiain  
 Wyf beunydd am Forfudd fain,  
 Annawn am fun hynwyf,  
 Anffurf ddysg, unffurf ydd wyf  
 Fy meddwl pen oedd eiddig,  
 Fy mwriad tost, fy mryd dig,  
 Fy nad ddull am f'enaid ddyn,  
 Fy nwyf fu garu fy nyn.  
 O gof awdl, hi gyfodes  
 O'r llwyn lle buafai'r lles.

64

68

Heliais ef, helwas ofer,  
 I hwyliaw serch hoywliw ser.  
 Swrth deg arraith ei digiaw,  
 A thâl, os edrychaf draw:

72

Ba

- Ba les ym, ni bu laefach  
Boen erioed, heb unawr iach. 76
- O wely ferch ddyn wiwloyw,  
Addwynfawr ddeheuwawr hoyw,  
Rhedodd ferch y ddoeth-ferch ddig,  
Rhadau da, rhediad ewig; 80
- Led y ddeudroed, lid ddodrefn,  
Leidr o'i chof i'w le drachefn.  
Nid â o'i bodd lle rhodiwyf,  
O'r lle y bu yn clîmu clwyf; 84
- Ni lechai y' ngolochwyd,  
Nid ae'n rhwym mewn dwrn rhwyd;  
Ni wyr un ar y llannerch,  
A meddwl drud, symud ferch. 88

- Heiniar ofn hyn o ryfel,  
Hwn nid â o'r henw y del;  
Hwyl ynfyd ei fryd, a'i fro,  
Hawl y dyn hoeliad yno. 92
- Gwlad Wgan, fawr anian faich,  
Gleddyfrudd, gloyw ei ddeufraich:  
Heno ni chaf, glaf glwyfaw,  
Hun fo drom oni fwy' draw.— 96
- Hyrddiant ferch wiwferch yw ef,  
Hen-lleidr, unryw a hunllef!

## LI.

Y LLEUAD.

DIGIO'R wyf am liw'r ewyn,  
 Duw a wyr feddwl pob dyn;  
 O daw arnaf o'i chariad,  
 F'enaid glau, fyned i'w gwlad ;  
 Rhy bell yw ym ddirprwyaw  
 Llatai drud i'w llety draw,  
 Na rhoi gwerth y wrach ferth swydd,  
 Oerillwyd taer, er llateirwydd,  
 Na dwyn o'm blaen dân-lestri,  
 Na physt cwyr pan fo hwyr hi :  
 Dros gyfgu y dydd gartref,  
 A cherdded nos dros y dref,  
 Ni'm gwyl neb, ni'm adnebydd,  
 Ynfyd wyf, oni fo dydd.

Mi a gaf yn ddiwarafun,  
 Rhag didro, heno fy hun,  
 Canhwyllau'r Gwr biau'r byd,  
 I'm hebrwng at em hoywbryd:  
 Bendith tlawd i'r Creawdner,  
 A wnaeth seironiaeth y fer !  
 Ni liwiodd dim oleuach  
 Na'r seren gron burwen bach ;  
 Canwyll yr uchel Geli,  
 Euro maes, sydd orau imi.

H

4

8

12

16

20

Ni

- Ni ddiflân y lân ganwyll,  
A'i dwyn nis gellir o dwyll ;  
Nis diffydd gwynt hynt hydref,  
Afrilladen o nen y nef. 28
- Nis bawdd dyfr llyfr llifeiriaint,  
Disgwylwraig desgl saig y saint .
- Ni ddeil lleidr a'i ddwylaw,  
Gwaelawd cawg y Drindawd draw. 32
- Nid gwiw i ddyn o'i gyfair  
Ymlid maen mererid Mair :
- Gwir fwaled y goleuni,  
Gwalabr haul, gloyw-lwybr yw hi ! 36
- Goleuad ym mhob ardal,  
Goldyn o aur melyn mál ;—
- Hi a ddengys ym, heb gudd,  
Em eur falch, lle mae Morfudd. 40
- Teg ei lliw, Duw ai diffyd,  
Ac ai gȳr, nid byr y byd,
- I'r gogledd a'n gofedd gu,  
I gȳsgod 'wybr i gȳsgu. 44

## LII.

YR OED.

**L**LUNIAIS oed ddywllun ys hir,  
A dyn a ddywed anwir ;—  
Nid â gwen i dy gwinwydd,  
Nag at un i gadw oed dydd.

Adeiliaawdd.

- Adeiliawdd yr hudoles  
 Dy o ddail, er nid oedd les,  
 Yr haf o bydd cywir hon  
 Y cadeiria coed irion. 8
- Yn wir, nos Wener nesaf  
 Yw nos Wener hanner haf,  
 Genyf y mae, gwyn fy myd!  
 Ugain haf ag un hefyd. 12
- Ni wyddwn dwyn i'r ddyn deg,  
 Ar gariad, mwy na'r garreg:  
 Gweniaith ni ddaw o'm genau,—  
 Gweniaith a wyr gwen,—ni thou! 16
- Soniais ni chefais annerch,  
 Er yn fab, am yr un ferch;  
 Y dydd y lluniwyd Addaf  
 Y lluniwyd oed yn Llandâf. 20
- Dan berth, ni wyr dyn o'r byd  
 Yma hanner 'y mhenyd:  
 Mae gwýdd, nid oes yma gof  
 O drais, yn tyfu drosof. 24
- Garwach ydwyf medd gwerin,  
 Yn Nyffryn Craig, na phren crin.  
 Y Gwialwr ym galwant,  
 Yn aros oed, neu ryw Sant; 28
- Mil a'm dyfalant, a mwy,  
 I'r neb a fu 'Ngwernabwy.  
 Yn wir, ni byddwn eryr  
 Ond aros gwen dair oes gwyr:

Cywir fal y carw wyf fi  
 Am gariad y' Nghilgwri.  
 Un lliw a'm deall yn llwyd,  
 A'm cywely y' Nghwm Cawlwyd.      36  
 Cariad a dyf, creded wen,  
 O'm ais fal prènau Moesen.  
 Marwol gwnaethoſt ym orwedd,  
 A pham na bai 'y nghorph mewn bedd ?      40  
 Mae celfyddyd i'm claddu  
 Dan ddail er fy mod yn ddu,  
 A thòriad pob llythyren,  
 A chof am haf uwch 'y mhen;  
 A llun 'y mun uwch 'y medd  
 I mi garu o'm gorwedd !

## LHI.

Y NOS WLAWIOG DAN BARED MORFUDD.

**C**LO a roed ar ddrws y ty,  
 Claf wyf, O ferch clyw fyfy !  
 Dyred i'th weled wiwlun,  
 Er Duw hael aro dy hun :      43  
 Geirffwg pan y gorffai,  
 Gorphwyll, myn Mair, a bair bai !  
 Taro drwy anwyd dyrys  
 Tair ysbongc, tòres y bys :

Cloedig

Clöedig ddrws, clau ydoedd,  
Nos clowech ei fain, cloch oedd.”

- “ Morfudd fy nghrair ddiwair-bwyll,  
Mammaeth tywysogaeth twyll!      12
- Mawr yw'r wâl am aur-wialen,  
Nis clywi, rhaid gweiddi gwen!—  
Tofturia wrth anghen-glwyf,  
Tywyll yw'r nos, twyllwr nwyf!      16
- Nebydded flined fy nhro,—  
Wb! o'r hin o'r 'wybr heno.  
Aml yw rheiydr y bargawd,  
Ermig nwyf, ar y mau gnawd;—      20
- Nid mwy y gwlaw na'r mau glwyf,  
Na'r ôd,—danaw yr ydwyf!  
Yr ôd sydd, fe yrwyd sén,  
Ar y wâr yn oer weren:—      24
- Mi a ryna, mawr yw'r anwyd  
Dan dy fargod, llif ôd llwyd!  
Nid oes y' Nghaer-yn-arfon  
Geol sy' waeth na'r heol hon;      28
- Dan ôd-wynt mawr, dyn ydwyf,  
Ni bu boen ar farw-groen fwy,  
Nag a gefais drwg ofal,  
Y Gwr a'm gwnaeth nid gwaeth gwâl!”      32

“ Ni byddwn allan y nos,  
Ni thuchwn ond o'th achos;

Ni ddawn i oddef, od gwn,  
Beunoeth gur, be na'th garwn ! 36  
Ni byddwn dan wlaw ac ôd,  
Ennyd awr, onid erod !—”

"Yma'r wy', mawr o'r anwyd,  
 Tau ddyn, yn y ty ydd wyd : 43  
 Ammau fy lloer, gan oer-glyw,  
 Yma fy aur imi fyw !—  
 Yna i mae fy enaid glân,  
 A'm ellyll yma allan ! 44  
 Ymaith fy meddwl nid â,  
 Amhwyll a'm hettyl yma.  
 Ammod a mi a wneddwyd,  
 Yma ydd wy', ammau ydd wyd ?  
 Yr ammod a rwymid ti,  
 Cu eirian, nis cywiri !"

LIV.

Y NIWL A LUDDIODD Y BARDD AT FORFUDD.

DOEddifiau dydd i yfed,  
Du fu'n goel doe fynu ged ;  
Coel sawrddysg, cul wyf erddi,  
Cof o serch, doe cefais i  
Gwrs glwyfgeredd goris glas-goed,  
Gyda merch i gadw ym oed.

Nid

- Nid oedd, da-hoyw Dduw Dad !  
 Dawn iddi, dyn a wyddiad, 8  
 Doe ddifiau, cyn dechrau dydd,  
 Lawned fum o lawenydd !  
 Myned i'w gwêled, gwiwlun,  
 I dir lle'r oedd feinir fun, 12  
 Pan ddaeth yn wir ar hir-ros  
 Y niwl yn debyg i'r nos ;  
 Toron fawr fu glawr y glaw, 16  
 Rhestri gleision i'm rhwystraw :  
 Rhidyll ystaen yn rhydu,  
 Rhwyd adar y ddaear ddu.  
 Tywyllwg un tew allardd,  
 Delli byd i dwyllo bardd. 20  
 Cae anghlaer mewn cyfing-lwybr,  
 Carthen hyd yn niben 'wybr :  
 Cwfl llwyd, cyfliw a llawr,  
 Cwfert ar bob cwm ceufawr. 24  
 Cnu tewlwyd, gwyn llwyd gwanllaes,  
 Cyfliw a mwsg,—cwfl y maes.  
 Anhardd darth lle cyfarth cwn,  
 Enaint gwrachiod annwn: 28  
 Twyllai wyr, tywyll o wedd,  
 Toron gwyrdioniog tiredd.  
 Clwydau uchel a welir,  
 Clais mawr uwch garth, tarth y tir.

- Tir a gudd ei ddeurudd ddygn,  
Torsed yn cuddio teir-sygn :  
Mwg sych yn fynych a fydd,  
Mygadau y mai-goedydd. 36
- Llwch melin gerwin mewn gwern,  
Toft affaith, mal dwst usfern.  
Týrau, uchel eu helynt,  
Tylwyth cwyn talaith y gwynt. 40
- Tywod mân ar hyd mynydd,  
I'm boddi, dan doddi y dydd.  
Crasu mae, am groes 'y mywyd,  
Dyna boen, odynau y byd : 44
- Oes tre' na llan y' Nglan Gwy,  
Aerlom, na bo yn arlwy ?  
Oes gwraig heno, froch, o'r fro—  
Bwyllog, na bo yn peillio ? 48
- Ac o'r peiriau, gwawr purwyn,  
Agar anhawddgar am hyn ?  
Gwe-adr-gop, ffriw isop ffrywth,  
Gwan dalar Gwyn a'i dylwyth. 52
- Haws cerdded nos ar rosydd  
I daith, nag ar niwl y dydd ;  
Y fer a ddaw o'r awyr,  
Fal ffllamau, canhwyllau cwyr.— 56
- Gwladaidd y gwnaeth fy nghaethu  
Y niwl, fyth anolau fu :

- Lluddiodd ym lwybr dan wybren,  
Llatai a ludd, llwyttu len. 60  
Nadodd y lluwch annedwydd  
Feinir gain fynu i'r gwŷdd;  
Ond oedd orn ar gyfeiliorni,  
Munud hael, ei myned hi?  
Rhegaf y bauled rygydd,  
Y niwl du yn ael y dydd!—  
Anadl diawl, hynod dioch  
Anad mawr fagad o foch.  
Lluddiodd ym gyflym gael  
Fyned at Forfudd feinael! 68

## LV.

Y BARDD YN ERCHI I FORFUDD AGOR Y  
DRWS AR NOSWAITH OERLLYD.

- G**WAE brydydd a gai brwyduri,  
Ac er ei mwyn n'agorai'r mur!  
Cares haul Caerau Salem,  
Cam a wnaid cau drysau'r drem; 4  
A'th fardd, dy gydymnaith fo,  
Allan ei hunan heno!—  
Am le clyd, i'th oerllyd rôs,  
Yr ofnaf yr auafnos:  
Mae oed yn gwneuthur meudwy  
Ym f'aïs, mi wn am bwy. 8

Y mae

Y mae eiry, nid mau oroen,  
I'm crys, rhwng 'y mhais a'm croen; 12  
A'r anwyd ar ewinedd,

A'r bais i'm oeri heb wedd:  
Iawnach rhag cas neu enwir  
Cau'r ty, no rhag cariad hir!" 16

" Arthur ydwyf wrth rodiaw  
Am y drws, oddyma draw;  
Arno bu gyfeiliorni,  
Yr un fodd yw arnaf fi. 20

Ceisio medru cais Madron,  
Ar gaer fraith ar gŵr y fron;  
Oer ym yw'r barug a'r iâ,  
A'r mentyll i ramanta; 24  
A'r poeri rh'of a'r pared

Y lluwch, a'm deufraich ar lled!  
Nofiad a wnaeth hen Neifion  
O Droia fawr draw i Fon. 28

Och! nad gwiw uchenaid gwas,  
I mi alw am grefft Melwas;  
Y lleidr, drwy hud a lledryd,  
Aeth a bun i eitha' byd;  
I'r coed ir ai'r hochedydd,  
I furiau caingc o frig gwýdd:—  
A dringo heno, fal hwn,  
Yn uchel a chwenychwn." 32

“ Er dy fwyn yr ydwyf fi  
 Mewn eiry yma'n oeri;  
 Dyred, fy nhraed a oerais,  
 Dyro dy ben drwy dy bais,  
 A’th law yn un o’th lewys,  
 Ac a’r llall agor y llys !” 40

---

## LVI.

MAWL A’I ORFUDD,—A’I GYSTUDD AM DANI,  
 AC YN EDLIW EI GWFNIAITH A’I HAN-  
 WADALRWYDD.

**Y** Fun dawel walltfelen,  
 Eurwyd y baich ar dy ben:  
 Gwyn yw dy gorff ac uniawn,  
 A lluniaidd oll,—llyna ddawn! 4  
 Cyd bych, lanwych oleuni,  
 Deg a mwyn, er dig imi,—  
 Gwneuthyd brad yn anad neb,  
 Em y dynion, mae d’wyneb! 8  
 Duw a lifodd dy ’losyn,  
 Dy wallt aur, i dwyllo dyn:  
 Dyrcha ael fain d’orchwyl fu  
 Driftau gwyr, dros dy garu! 12

Fy nwyais, ni henwais hyn,  
 A guriodd o’th liw gorwyn:

Gwae ſi, gwn boeni beunydd,  
Weled erioed liw dy rudd !

16

Aeth dy wedd, Gwynedd ai gwyr,  
A'm hoes innau, a'm synwyr !

Gwell bedd a gorwedd gwirion,  
Na byw'n hir yn y boen hon.

20

Un drwg fal ewyn o draeth,  
Llai a dâl lliw hudoliaeth ;

Os dy ciriau ystyriaf,  
Gruddiau gwin, gorwedd a gaf !

24

Gweniaith brydferth, a chwerthin  
Erioed a fu ar dy fin !

Na wrthod ferch dy berchi,  
Na phraw ymadaw a mi :

28

Gelynes, mwy ales maith  
Wyt imi od aet ymaith :

Mwynferch na ddôs o'm hanfodd,—  
Byth nid aet ymaith o'm bodd !

32

*chaplet.*

LVII.

TALAITH O BLU PAUN,—ANRHEG MORFUDD.

**B**OREUDDYDD, bu wawr eiddun,

Y bu ym gyfarfod a bun,

Yn ungod ferch iawn angerdd,

Ynael coed yn eilio cerdd.

Erchais

Erchais i'm bun, o'm unoed,  
 Blethu cainge o blith y coed ;  
 Yn gyrn heirdd, yn goron hoyw,  
 Yn erlant ym, yn fr-loyw,  
 Bid ogylch ferch, be digardd,  
 A bun attebodd i'w bardd,

8

“ Pur yw dy lais, parod lef,  
 Pa na wyddyd, poen addef,  
 Mai truan, anniddan oedd  
 Noethi bedw 'n eitha' bydoedd.  
 Nid oes ar fedw, nid edwyn,  
 O'r dail faé wiw eu dwyn ;  
 Ni weuaf finnau wial,  
 Nid gwiw o'r llwyn dwyn y dail.”

12

16

Im' y rhoes, bid hiroesawg,  
 Y rhodd a gadwaf yrhawg :  
*Gerlant* cystal ag eurlen,  
 O wisg paun i wasgu pen.  
 Blaen talaith bliant hyloyw,  
 Blodau hardd o blu da hoyw ;  
 Glan wéad gloywon wial,  
 Glöyna Duw gleiniau dail !

20

24

Teyrnedd waith, *twn* oedd wiw,  
 Týrau, tröellau tri-lliw ;  
 Llugyrn clyr, llogaid gwyr gynt,  
 Lluniau lleuadau ydynt.

28

Dawn

Dawn o chair, diau na chyll,  
 Drychau o ffeiriau fferyll:  
 Gwn ras hir, Gwen a rocs hon,  
*Gerlant* i'w phrydydd geirlon.

32

Hoff loywcamp oedd ei phlygu,  
 A'i phleth o esgyll a phlu;  
 Rhodd ferch meinferch i'w mwyn-fardd,  
 Rhoes Duw ar hon rhestri hardd,  
 Bob gwaith, mwynwaith manaur,  
 Bob lliw, fal ar bebyll aur !

36

40

## LVIII.

Y BARDD YN GOFYNN TAL I FORFUDD AM HIR  
 GARU,—HITHAU YN EDLIW EI LYFRDRA.

“ **Y** Wawr dlos-ferch ry-dlys-fain,  
 Wrym ael, a wisg aur a main,  
 Ystyr eigr ystôr awgrym,  
 Is dail îr, a oes dâl ym ?  
 Ymliw glân o amlwg lais,  
 Em o bryd, am y brydais  
 I'th loywliw, iaith oleulawn,  
 A'th lun gwych wyth-liw y gwawn ?”

4

8

“ Hir i'th faddeuaf Dafydd,  
 Hurtiwyd ferch, hort iti fydd,

O'th

O' th fod, rhyw gydnabod rhus,  
Yn rhylwfr, enw rheolus.

12

Os llwfr ceiliagwydd, was llwyd,  
Llwfr sywaeth odiaeth ydwyd!  
Ni'm caiff innau, no diau naf,  
Dyn dirym, ond y dewraf."

16

" Cwfl manwallt, cyfliw manwawn,  
Cam a wnai, ddyn gymmen iawn!  
Cyd bwylf was cyweithas coeth,  
Llwfr yn nrhin, llwfr yn nbranoeth ;  
Nid gwas, lle bo gwyrddlas gwŷdd,  
Llwfr wyf ar waith llyfr Ofydd.

20

A hefyd, y ddyn hoywfain,  
Ystyri gu ystori gain,  
Neitio cur, nad da caru  
Gwas dewr fyth, gwst oer fu,  
Rhag bod, nid cydnabod cain,  
Rhyfelwr yn rhy filain.

24

Rhinwyllyt fydd, a rhy anwar,  
Rhyfel, ag oerfel a gar.

28

O chlyw fod, cadorfod tŷn,  
Brwydr y' ngwlad Ffraingc, neu Brydyn ;  
Antur gwrdd, hwnt ar gerddd,  
Yn wr rhwydd yno y rhed.  
O daw, pei rhon', a diangc  
Oddiyno, er ffrwyno Ffrange,

32

Creithiog fydd, seuthydd ai fathr,  
A chreulon ddyn wych rylathr.

Mwy y cár y drym-bar draw,  
A'i gledd, gwae a goel iddaw !

A mael dur, ac aml darian,

A march o lu na merch lân!

Ni'th gel pan ddel poen ddolef,

Ni'th gais eithr i drais o'r dref;

Minnau, a'r geiriau gorhoyw,

Pe'th gawn, liw eglurwawn gloyw,

Da gwn, trwsïwn wawd trasyth,

(Degle ferch) dy gelu fyth !

Pei rhon' ym gael gafael gaeth,

Deifr un hoen, dwy frenhiniaeth,

Deune'r haul, nid awn er hyn,

Wyth-liw-dydd, o'th loyw dyddyn!"

40

44

48

52

## LIX.

YMDDIDDAN RHWNG Y BARDD A MORFUDDE

AR DÖRIAD Y DYDD.

**U**CHEL y bum yn ochi,  
Echnos, na bae hirnos hi;

Echnos, dyn goleudlos gwyl,

Wytnos ym f'unnos f'anwyl!

A býrnos oedd y beirniad

A gár gwen heb un gair gwâd.

4

Neithwyr

Neithwyr y bum mewn uthr-bwyll,  
Nwyf gain, gyda nef ganwyll,  
Yn mŷnu tâl am anhun,  
Mewn aml barch yn ymyl bun ;  
Pan oedd ffyrsaf fy ngafael,  
A gorau im' hwnt gwiwrym hael,  
Nycha o flaen awch aphonydd,  
Mawr oedd ym y wawr ddydd.—  
Dywedi'r ferch, nid dedwydd,  
Decca o ddyn, “ fal dacw ddydd !  
Cyfod” ebra gwen ben-loyw,  
“ Cel hyn fal dyn coel-hoyw.—  
F'enaid cyfod i fynu,  
A chel os myn hyn yn hu.”

8

12

16

20

“ Draig ynial dy garenydd,  
Dôs i ddiawl, wel d'iso ddydd.—  
Hir-fun dda, hwyr-fain ddiell,  
Hyn nid gwiw, hynny nid gwell.  
Lleuad a roes Duw Llywydd,  
A ser yn ei chylech y sydd ;  
Hynny dywedaf, henw didyb,  
Honno y sydd ddydd o dyb,  
Ar ogil heno ogawn  
Diwedd lloer, fal y dydd llawn.”

24

28

“ Da'r hunwn pe gwir hynny,—  
Paham i cân y fran fry ?”

“ Pryfed y sydd yn profi,  
 Bluddiar ei hun, a’i lladd hi.  
 Mae cwn ar lef y dref draw,  
 Ac eraill yn ymguraw:  
 O gylch pell ac o agos  
 Cynia wna cwn y nos.”

36

“ Paid a’th esguswawd wawdwas,  
 Pell boen a fag pwyll bâs,—  
 Cyfed rhag tyft yn ddislaw,  
 Ac agor y dromddor draw,—  
 Bras gâma di yn ddioed,  
 Rhydaer y cwn, rhed ir coed.”

40

“ Och! nid yw bell y gelli,  
 A chynt wyf finnau na chi:  
 Oni’m gwyl ffel, ni’m gwelir,  
 O ran da ar hyn o dir.”

43

“ Dywaid ti fardd diwyd da,  
 Er da imi o dei yma!”

“ Deuaf,—myfi yw eos,—  
 Diau ’y nyn, o daw nos!”

52

## LX.

## YR ANFODD.

**Y** Feinserch hwde f'anfodd,  
 Gwedi'r haf gwae di o'r rhodd;  
 Gofyniaith dygn, gwae finnau,  
 Riain deg, a'i roi yn dau!

Gwae

Gwae ddyn a fai'n dyhun dig,  
A geryddai'r gwr eiddig!

Gwae a wyr, a gwe ffiamgwy'r wedd,  
Glas ei ddeigr, gloes eiddigedd !

8

Prydu i'th wedd a wneddwyf,  
Prid yw'r ferch, pryderus wyf:  
Mwy yw ngofal, dial dyn,

Na gofal dyn mewn gefyn, 12

Rhag cael arnad, gwad gwydn gloyw,  
Chwedl gwir, forwyn law irloyw.

Y' nghlywd o faen, anglod fur,  
A laddai'r Pâb a'i loyw-ddur.

16

Y mae modd rhyfedd, medd rhai,  
Mab dewr-farch mebyd erfai,  
Wyth affaith, wyf i'th hoffi  
I'th ddydd, er ymlwg a thi.

20

Cyd boed gwych, cydwybod gwawl,  
A bonhedd falch, bun haeddfawl,  
Del cyn mai gymryd pyd pell  
Yn dy gof, un deg afell !

24

Na oddef, ef wyf ddigllawn,  
O wlaw, na gwynt, loywne gwawn,  
A oddefais i'th geislaw,  
A maith rwyfsg yma a thrall !

28

Nid â yn y wanfa wen,  
Y nos erod, naws hirwen,

- Ar draws aerwyau dryfi,  
Loyw ddyn, mal ydd awn i! 32
- Ni thrig allan, ledwan lif,  
Dan ddagrau tō, dyn ddigrif,  
Mewn coed, a minnau ai cais,  
Mula' treigl, mal y trigais! 36
- Ni ddyru ar ei ddeurudd  
O ddwfr brwd, ddifar brudd,  
Gymaint o loywnaint yleni,  
Aigr y ferch, ag a roes i! 40
- Ni chān y' ngwydd arglywyddi,  
O wawd y tafawd i ti,  
Ganfed ran, eiry bān bāis,  
O ganiad ag a genais. 44
- Gwydn ydwyd gwedi nodau,  
Gwirion yw'r attebion tau;  
Os tithau a fydd auawg  
O arall, rhygall yr hawg, 48
- Beirddion cred a ddywedant  
Wrthyd, mae "carregryd nant."  
Dan grwydr, enaid dyn digrif,  
Pan elych, lliw distrych llif, 52
- Fy enaid glwys fain a glān,  
Farchwriaeth ddrwg ferch eirian,  
Am dy fardd, liw berw hardd bās,  
A' th ogyfoed a' th gafas.

## LXI.

I OFYN CYMMOD I FORFUDD A DDIGIÀSAI  
AM RYW AIR AMRYFUS.

**T**EG Forfudd, tegau eur falch,  
Tywyn haul daer ar gaer galch!  
Tâl am dy wawd cyn toli, *cwrtail*  
Twyll y pryd yddion wyt ti! 4

Tyfodd i'm bron, gron o gred,  
Dolur, dy anwadale! 8  
A rhai a'th eilw y rhiaint,  
A ddywaid, fy enaid fain,  
Na thrig, bár yw oerddig boen, *affection*  
Dy gariad deg ei goroen, *cheerfulness*  
Mwy nag ewyn, gwyn-ddyn gwiw,  
Ar ol dwfr, arial difriw! *calmness* 12

Da fawr fal hoen deifr o sut,  
Deuwell fe i'm gwrandawut.—  
Gwrandawyd y graen dywyll *harrow tree*  
O ddyn, a ddyweda o dwyll, 16  
Ar ei ruthr, air o athrod,  
Degau glaer, na deg o glod!  
Nid o'm bodd yr adroddwn  
Arnad fawr gariad od gwn; 20  
Dielw o serch, deuliw'r fer,  
Dall! dall! dy anwadalder.

- Pei rhon' peri ym amhwyll,  
 Mewn brwysgedd tywylledd twyll, 24  
 Ddywedyd gair cellweirus,  
 Y rhwng ynsfydrwydd a rhus,  
 Gwybydd er buchedd Gybi,  
 Ddeuliw tòn, na ddylit ti,  
 Gem aur glân gymmar y glod,  
 Gomedd cusân o gymmod.  
 Gwen gwybydd, dan freisgwydd fry,  
 Fy meddwl o'm gomeddy !— 32

Ni chad o'm pen absenair ;  
 Nid felly gwnaeth Mabmaeth Mair,  
 Am y dall, diammau don,  
 Ar ddaear o'r Iuddewon, 36  
 Ai gorug, bu chwedl girad ,  
 Glwyfo ei fron a glaif o frad !  
 Swllt hoyw-fardd, syl di hesyd,  
 A maint fu drugaredd sy myd,  
 Merch Anna mawr ei chynnydd,  
 Morwyn wyrf mirain ffyrif ffydd,  
 Geinwen, pan ei goganwyd,  
 Eisiau blaïd a Sioseb lwyd : 44  
 Ni wnaeth, ni bu annoethair,  
 Na dal gwg, na dial gair.

Nid oes bechawd methgnawd maith  
 Marwol, mwy ei oserwaith,

A thrigo, mawr uthr organ,  
 Yn dy lid, ail Enid lân !  
 Mwy na llid, o mŷni lladd  
 Dy brydydd glew-rydd gloyw-radd : 52  
 Deuliw' rhaul, da Icer yrhwag,  
 Dilidia'r dyn dyledawg !—  
 Na bydd, lliw'r gloyw-wydd glau,  
 Glynwraidd am gryn eiriau, unpolished 56  
 Y myd, wrth dy brydydd mwy,  
 Diwladaidd deoladwy !—

Cymmod a'th brydydd cymwys,  
 Orn o boen, nad arnai bwys ; 60  
 Fy aur, cymmer ddiheurad,  
 Ac iawn, l'e nî ellir gwâd :  
 Cynnal faswedd i'th weddi,—  
 Cymmod liw manod a mi ! 64

## LXII.

## ARDDELWI MORFUDD I'R HAUL.

**G**ORLLWYN ydd wyl Ddyn geirllaes,  
 Gorlliw eiry mân marijan maes !  
 Gwyl o Dduw, mae golau ddyn,  
 Goleuach nog ail ewyn ! 4  
 Goleudon lafardon liw,  
 Goleuder haul, gwyl ydiw !

Gŵyr obryn ferch gair o'm pen,  
Goleubryd haul gloyw wybren;  
Gwawr y bobl, gwiwra bebyll,  
Gwyr hi watwaru gwr hyll.

8

Gwiw Forfudd, gwae oferfardd  
Gwan ai cár, Gwenhwyfar hardd !  
Gwe o aur llun dyn gwae ef,  
Gwiw ei ddelw yn gwaeddolef;  
Mawr yw ei thwyll a'i hyfryw,  
Mwy na dim am enaid yw !

12

16

Y naill wers yr ymddengys  
Fy nyn giàn, rhwng llan a llys,  
A'r llall, ddyn falchgall fylchgaer,  
Ymachludd gloyw Forfudd glaer!  
Mal haul, ymylau hoywles,  
Mammaeth tywyfogaeth tes :  
Moliannus yw ei fyw swydd,  
Maelieres mai oleurwydd.  
Mawr ddisgwyl Morfudd ddisglair,  
Mygr glaerddrych mireinwych Mair ;  
Hyd y llawr, dirfawr derfyn,  
Haul a ddaw mal hoywliw ddyn,  
Yn deg, o fewn corph y dydd,  
Bugeilies wybr bwygilydd!  
Dros ei phen, wybren obraff,  
Gwedi del prif ryfel praff,

20

24

28

Y diange

Y diangc, ym mron duaw,  
 Naws poenddig y nos pan ddaw;  
 Dulawn fydd yr 'wybr das,  
 Delw Elfed, blaned blas !

36

Pan fo poen fawr a wyddem,  
 Rhaid wrth yr haul a draul drem;  
 Ni chaiff llaw yrthiaw wrthi,  
 Nag ymafael a'i hael hi :                  40  
 Pell i neb wybod yna,  
 Pel yw i Dduw, p'le ydd â.  
 Dranoeth y drychaf hefyd,  
 'Nŷnu o bell o nèn byd ;                  44  
 Erlynais nwyf ar lannerch,  
 Y penrhyn syddyn y ferch :  
 Beunydd y gwelid yno,  
 Befrddyn goeth, a pheunoeth ffo.

48

Nid haws ar lawr y neuadd,  
 Darfaw llaw, deryw fy lladd !—  
 Morfudd, ddyn gwawdrydd gwiwdraul,  
 I ddwylo rhai ddàl yr haul :                  52  
 Nid anhebig, ddig ddogni,  
 Y machludd Morfudd i mi !  
 Yr ymachludd mwyn ei gwg  
 Dan arddrws y dyn oerdrwg !

56

Nid oes rhagor bryd pefrlon,  
 Gan yr haul gŷnau ar hon ;

Os

- Os teg hon, lon oleuni,  
Teccaf hwyl Naf yw'n haul ni ! 60  
**A** phanddel o'r awyr fry  
 Dan haul 'wybr dwyn hwyl obry—  
 Paham eiddingam ddangos ?  
 Pa'm na ddeall y naill y nos ? 64  
 A'r llall yn dês yspennydd,  
 Olau da i liwio dydd !—  
 Pei'r ymddanghosai'r ddeubryd,  
 Ar gylch i bedwar bylch byd ; 68  
 Rhyfeddod llyfr ddolenfyth,  
 Yn oes Bun, ddyfod nos byth !
- 

## LXIII.

## TAITH I YMWELED A MORFUDD.

- A** Gerddodd neb er gordderch,  
 A gerddais i, gorddwy ferch ?  
 Rhew ac eiry, gwr digaredd,  
 A gwlaw, a gwynt er gloyw ei gwedd ! 4  
 Ni chefas eithr nych ofwy ;  
 Ni chafas deudroed hoed hwy  
 Er ymoed ; i Gelli'r Meirch,  
 Eurdrais elw, ar draws Eleirch ; 8  
 Yn anial dir, yn uniawn,  
 Nos a dydd, ac nid nes dawn !  
 O Dduw ! bum uchel o ddyn  
 Ei floedd y' Nghelli Fleddyn.—

Cael

- Cael ymadrawdd hawdd a hi,  
 Ymarddelw serch bum erddi,  
 Maesaleg, iselgreg son ;  
 Berw gau lif Bergul Afon.— 16
- Mynych iawn, er ei mwyn hi,  
 Y treiddiwn beunydd trwyddi,  
 I Fwlch, yr awn yn falch rydd—  
 Mau boen dwfn, Meibion Dafydd ; 20
- Ac ymaith draw i'r Gamallt,  
 Ac i'r Rhiw, er gwiw ei gwallt !  
 Ebrwydd y cyrchwn o'r blaen,  
 Gyfaelfwlch y Gyfylfaen, 24
- I fwrw am forwyn wisg ra  
 Dremyn ar y dyffryn da.  
 Ni thry nag yma na thraw,  
 Hebof yn lledrad heibiaw : 28
- Ystig fum, ac anaraf  
 Ar hyd Pant Cwecull yr haf,  
 Ac ogylch Castell Gwgawn,  
 Gogwydd cyw gwydd lle cae gawn.— 32
- Rhedaïs heb Adail Heilin,  
 Rhediad bloesg fytheiad blin ;  
 Deuais goris llys Ifor,  
 Fal mynach mewn cilfach côr, 36
- I geisiau heb addaw budd,  
 Gyfarfod a gwiw Forfudd.

Nid oes dwyn, na dwys dyno,  
 Yn neutu glyn Nant y Glo 40  
 Nas medrwyf, o'm nwyf am Nudd,  
 Heb fy llyfr hoywbwyll Ofydd.  
 Hawdd-fyd wrth geisiaw i'm dwrn  
 Gwir nod helw Gwern y Talwrn, 44  
 Lle cefais weled ged gu  
 Lloerddyn dan fantell orddu;  
 Lle gwelir yn dragwywyd  
 Heb dwf gwellt, heb dyfu gwŷdd:— 48  
 Llun ein gwâl dan y gwiail da,  
 Lle briwddail, fal llwybr Adda.  
 Gwae yr enaid sydd gwr nid fal,  
 Rhag blinder, heb gwbl undal;  
 O thry yr unffordd achlan,  
 Ag y troes y corph truan!

## LXIV.

CYNGOR I YMWRTHOD A MORFUDD GAN UN  
 O'R BRODYR LLWYDION.

D<sup>OE</sup> ym mherigl y cigleif,  
 Y'nglyn aur, angel o'r nef,  
 Wrth ganu arraith gynnes,  
 O'i fin gwell na gwin a ges.— 4  
 Parod frawd llwyd, ym mhob lle,  
 O'i gyngor doeth rhag ange':

Disgybl Mab Mair a'm dysgawdd,  
A hyn a ddywaid yn hawdd.—

8

“ Dafydd o beth difeddw bwyll,  
Digymmar gerdd digymmwyll,  
Dod ar awen d'aur enau  
Nawdd Duw, ac na ddywed au :  
Nid oes o goed, trioed trwch,  
Na dail ond anwadalwch.  
Paid a bod gan rianedd,  
Cais er Mair cafhau'r medd !

12

Ymogel draws magl drasferch,  
A 'mogel mwy magl merch :  
Gochel dafarn, difarn dôn,  
A gochel merched gwychion.—

16

Ni thala ffäen gwyrdd gwýdd,  
Na thafarn ; na iaith Ofydd.  
Tri pheth a bair methu,  
I'r dyn ai dilyn o'i dy,  
Gwin, merch drwch, a gwychder,  
Myn f'enaid gwiw afraid gêr !”

24

Attebais pan gefais gwîr,  
Ar hyn o eiriau'r henwr,  
“ Pa fod, gwel, y gochela'  
Magl ferch yr ordderch dda ;  
A minnau, y gwîr mwyniaeth,  
Ynddi yn gweiddi yn gaeth ?

28

Myn

Myn y Gwr a fedd, heddiw  
 Mae gwayw i'm pen am wen wiw,  
 Ac i'm tâl mae gofalglywyf;  
 Am aur o ddyn marw ydd wyf! 36  
 Ni chaf ochlyd hefyd hawl,  
 Gan daered y gwr durawl,  
 Rhaid rhoi draw, o daw o dâl,  
 Groesaw i ddeuliw'r grisiaf : 40  
 Llenwi mewn gwindy llawen  
 Siwgr ar win i ddyn segr wen.  
 Os heibio rho', glo y gler,  
 Gwas gwechdon, gwisgo gwychder, 44  
 Ni fyn Morfudd ddeurudd dda,  
 Aelod main, weled mona'! —  
 Ni thal dy gyngor am forwyn,  
 Gàrai i mi, y gwr mwyn!" 48

## LXV.

DUCHAN I'R BUGAIL A DDYCHRYNASAT  
 MORFUDD A RHUGLGROEN.

**F**AL yr oeddwn, fawl rwyddaf,  
 At ryw ddiwrnod o'r haf  
 Yn coelio 'mun, yn cael mêdd,  
 Encyd awr yn cyd-orwedd  
 Dan wýdd, rhwng mynydd a maes,  
 Yn gorllwyn fy nyn geirllaes.— 4

Dysod

Dyfod a wnaeth, nid gwaeth gwâd,

Lle'r addawodd lloer ddiwad;

3

Cyd eiste, cu wiw destun,

Ar gader faes gyda'r fun.

Cyd dreuthu, cynhenu hawl,

Geiriau a'm bun ragorawl.

12

A ni felly, anhy oedd,

Yn deall ferch ein deuoedd,

Dyfod a wnaeth, caeth coeth-nych,

Dan gri ryw feistri fistrych,

15

Llogwrn lled-anferth ferth sail,

O begor yn rhith bugail.

A chanddo'r oedd, gyhoedd gâs,

Ruglgroen flin gern-grin gorn-gras.

20

Canodd felen-gest west-fach

Rhuglgroen, gwarth i'r hegl-grach!

Ac yno cyn digoni,

Gwiw fun a wyltiodd,—gwae fi!

24

A rhag ofn hon, fron fraenglwy,

(Nith i'r mai) ni thariai mwy.

Dan groes ni bu ddyn o gred,

Cynnar enw, cyn erwined:

28

Cod ar ben ffon yn sonio,

Cloch fain o gryn-fain a gro:

Cawell teirmil o chwiliod;

Callor ddigysfor ddu god:

32

Crwth cerrig Seifnig yn son,

Crynedig mewn croen eidion.

Ceidwades gwaun codes gwellt,  
**Gron-ddu feichiog o grin-ddellet,** 36  
 Cas ei haccen gan heniwrch,  
 Cloch ddiawl a phawl yn ei ffwrch.  
 Un anghwrtais yn lleisio,—  
 Yn garciau byclau bo !  
 Oerfel i'r carl gwasgarlun,  
 Amen, am wyltio fy Nyn !

## LXVI.

**I FORFUDD PAN OEDD Y CAIR EI BOD AR**  
**BRIODI Y BWA BACH.**

**B**UN wen lliw llen ar brenfrig,  
 Lliw eiry ar fron, lloer aur frig,  
 Ai gwir dy fod yn gwra,  
 Ochenaid tost ! o chwant da ? 4  
 I minnau'r aeth hiraethfyd  
 Os gwir golli'r maes i gyd !

Carl pwdwr, gwedd teilwr tom,  
**Carthgwd trwynffrwd tarian-ffrom;** 8  
 Twrch bawlyd tr'anhyfryd hyn,  
 Trawsglerddestr budr tresglerddyn :  
 Ci oer-dwrw' ffrom còr-darw ffirth,  
 Crinwas baw aelfras bolfrith :  
**Llawdr gigagl grinsagl groensaw,** 12  
**Llwfraidd grangc, byr afangc baw :**

Rhaegal

Rhaegal bach corn crach y crydd,  
Cuchiad còr crwydrad credrydd. 16  
Gwae fi y ferch annerchael,  
Fod rhai ni' th garai i' th gael !  
Na bod dyn rheidus, yfwallt  
Diwych, i dýnu dy wallt ! 20  
Bywyd yt ferch, drasferch dro,  
Bar Suddas, býroes iddo !  
A boed gathgwd mewn gwden,  
Chwithau i minnau—amen ! 24

## LXVII.

Y DIOFRYD O FYTH BRIODI O ACHOS RHOI  
MORFUDD I ARALL.

CARU 'dd wylf, gwaith hynwyf gwylt,  
Eneth ddifeml, nith Effylt;  
Lliw yden wyltten walltaur,  
Llawn yw o ferch, llinos aur : 4  
Cyfliw flur ac eglur wawn,  
Cangen gethinien, goeth iawn !—

Meddai rai ym, rym rwymserch,  
“ Gwra i mae gorau merch 8  
“ Yleni, ail Eluned,  
“ Orhoen crair, aer yn ai cred.”  
Ni feiddiaf, anhy feddwl,  
Gwae'r bardd a fai gywir bwl! 12

K

Deune'r

Deune'r haf, dwyn y rhiaint  
 I drais, unlliw blodau'r drain;  
 Ei chenedl, feilch gweilch Gwynedd,  
 A gwarau 'ngwlad, gwerin gwledd,  
 A'm lladdai am ei lluddias  
 I briodi'r gwr, brwydr gas!

16

Oni chaf, áraf eurair,  
 Hon i mi, liw hoywne Mair,  
 Nid oes, mau cinioes anhudd,  
 I'm bryd o gwbl difri brudd,  
 Myn Delw Gadfan ai dilyth,  
 A'i grôg, fynu Gwraig fyfth!

20

24

## LXVIII.

I WALLT MORFUDD ;—A GOGANU CYNFRIG  
 CYNIN, SEF Y BWA BACH, A OEDD YN EI  
 CHYD GARU A'R BARDD.

D<sup>O</sup>DES Duw, da o dyf<sup>t</sup> wylf,  
 Deubleth i hudo deublwys;  
 O radau serch aur ydyn',  
 Aerwyau teg ar iad dyn :  
 Eurdyrch a chynnrych anwyl,  
 O ffrwyth golau iadlwyth gwyl.  
 Llwyth gwr llowaeth o gariad,  
 Llathr aur goruwch llethr iad :

4

Llwyn

Llwyn o gwyr difeiwyr faeth,  
 Llwyn eurlliw,—llyna iarllaeth!  
 Llonaid teg o fewn llinyn,  
 Llaes dwf yn lliasu dyn.

12

Llin merch, oreuferch rasawl,  
 Llwyn aur, mal llinynau'r maw!.  
 Balch i dwg ddyn ddiwg fain  
 Banadl ysgub, bun dlosgain:  
 Yn grwn walc, yn goron wiw,  
 Wyldlos blethiedig oldliw.  
 Yn gwnsallt, fanwallt fynwaur,  
 Yn gangog frig eurog aur.

16

Eirian rodd arwain ruddaur,  
 Ar ei phen o raffau aur;  
 I hudo beirdd penceirddryw,  
 Yw hyfryd i'r byd ei byw.  
 Bun a gafas urddasfeg,  
 Bu ragor dawn briger deg.

20

Caniad rhag Cynfrig Cynin,  
 Fab y pengrych flawsfrych flin;  
 Llwdn anghenfil gwegilgrach,  
 Llwm yw ei iad lle mae iach.  
 Eiddig gyw farug go sur,  
 Lledpen chwysigen segur:  
 Penglog o'r fedrog fudrach,  
 Ni bu'r ben cwch gwenyn bach.

28

32

Y fo yn ddreng a fu yn ddrud,  
Gael barcio clol y barcud.  
Nid tebig, ennyd tybiais,  
Ei fflech lom i ffwch lais:  
Anhebig, eiddig addef,  
Fulwyllt oedd ei foelwallt ef.—

36

40

Llariaidd ddifeth y plethwyd  
Y llwyn ar ben Morfudd Llwyd !

## LXIX.

## Y GWYNT YN LLATAI AT FORFUDD.

“ **Y**R 'wybrwynt helynt hylaw,  
Agwrdd drwst a gerdda draw,  
Gwr oerias wyd, garw ei fain,  
Drud byd, heb droed, heb adain ;  
Uthr wyd, mor aruthr i'th roed  
O bantri 'wybr, heb untroed,  
A buaned yr 'hedy,  
Y rawron, dros y fron fry !”

4

8

“ Dywed i'm diwyd emyn,  
Dy hynt, ryw ogleddwynt glyn :  
Och wr ! dos o Uwchaeron,  
Yn glaer deg, yn eglur dôn,  
Nag aro di, nag eiriach,  
Nag ofna er y Bwa Bach.”

12

Cyhuddgwyn

- “ Cyhuddgwyn wenwyn weini,  
Caeth yw'r wlad, a'i maeth i mi.      16
- Noethid dwyn, cyd nithid dail,  
Ni'th dditia neb, ni'th attail  
Na llu rhugl, na llaw rhaglaw,  
Na llafn glas, na lliif na gwlaw:      20
- Ni'th boddir, ni'th rybuddiwyd,  
Nid ai ynglyn, diongl wyd:  
Ni'th lladd mab mam o amhwyll,  
Ni'th lysg Tân, ni'th lysga twyll:      24
- Nid rhaid march buan danad,  
Neu bont ar aber, na bâd.  
Ni'th ddeil swyddog, na theulu,  
I'th ddydd, nithwydd blaenwydd blu:      28
- Ni'th wyl drem i'th wâl dramawr,  
E'th glyw mil, nyth y gwlaw mawr!  
Neitiwr 'wybr, natur ebrwydd,  
Neitiwr gwiw dros nawtir gwŷdd:      32
- Rhad Duw wyd ar hyd daear,  
Rhuad blin döriad blaen dât.  
Sych natur, creadur craff  
Sereniog 'wybr, siwrnai gobriff:      36
- Seuthydd ar foreuddydd fry,  
Seithug eisigrug fon-gry'.  
Saer dryghin ym min y môr,  
Drythyllfab ar draethellfor:

Awdwr blinderroedd ydwyd,  
 Heuwr, dylydwyr dail wyd.  
 Hoywddwr breiniwr, hyrddiwr bryn,  
 Hwyl bronwyllt heli bronwyn,      44  
 Hydroedd y byd a 'hedy,  
 Hin y fron, bydd heno fry:”

“ Gwae fi pan roddais i ferch  
 Gobridd ar Forfudd, f'eurferch !      45  
 Rhiain a'm gwnaeth yn gaethwlad,  
 Rhed fry rh'od a thy ei thad,  
 Cur y ddor, par agori  
 Cyn y dydd i'm cennad i ;      52  
 A chais ffordd atti, o chaid,  
 A chân lais fy uchenaid.—  
 Dywaid o'r fugnau diwael,  
 Dywaid hyn i'm diwyd hael:  
 Er hyd yn y byd y bwyf  
 Carodyn cywir ydwyf!  
 Ys gwae fy wynyb hebddi,  
 Os gwir hyn, nas cywir hi.”—      56

“ Dôs obry, dewis wybren,  
 Dôs fry tua gwely Gwen ;  
 Dôs at Forfudd felenllwyd,  
 Debre'n iach, da wybren wyd!”      64

## LXX.

CHWEDL Y GOG,—O BRIODI MORFUDD A'R  
BWA BACH.

**A** Mi y' ngoror gorallt,  
Yn aros oed dan goed gallt,  
Y bore mai ar bawr maes,  
A glanfodd ar lawr glynfaes : 4  
Ag eginaw teg weunydd,  
**A** gerllaw'n blaguraw gwŷdd.  
Minnau i'm tân yn son ferch,  
I Forfudd,—llyna f'eurferch ! 8  
Bwrw golwg lem a'r drem draw,  
Am wèn, a'i mawr ddymunaw ;  
Golwg o lwybr bwygilydd,  
A 'mun gain ni chawn mewn gwŷdd: 12  
Nycha clywn gog liosog lais,  
Yn geiriaw cân a gerais ;  
Gwiwddestl, i fardd y gwyddallt,  
Ei llafar ar wår yr allt. 16  
Cyfarchais, yn drylais draw,  
Well iddi 'n gân i'w llwyddaw.—

“ Dydd da fo i'r Gog ferchoglef,  
Aderyn wyd o dir nef ; 20  
Yn dwyn newyddion yn deg,  
A nodau haf iawn adeg ;

A haf yn budaw hoywfun  
I goed, a bardd gyda bun : 24  
A llenwi dail i'm llannerch,  
A thwg ar ias amlwg ferch.  
Hoff genyf dy gân landeg,  
Yn gân i ferch fal gwin *seg*: 28  
A thraserch i'th iaith rwyfog,  
Yn minio gwawd,—sy mwyn gog !  
Dywed i'th gân heb dewi,  
A mwyn wyd, p'le mae 'mun i ? 32

“ Y pryd ydd ! pa ryw adwyth  
Sydd arnat ti 'leni 'n lwyth ?  
Ni thal porthi gofalon,  
Bun iach, ymhellach am hon.— 36  
Gwra wnaeth Gwen gymmen-gall,  
Gwiriwyd hi'n wraig i arall :  
Ni chai'n gydwedd, clyw heddyw,  
Fardd cun, y fun yn dy fyw.” 40

“ Taw ! na'm gwatwor am forwyn,  
Y llais ni chredaf i'm llwyn ;—  
E'm rhoddes liw tes lw teg,  
Ni chawn gan unferch chwaneg, 44  
Llw a chred, myn y bedydd !  
I mi dan ganghèni gwýdd,  
A rhwymaw llaw yn y llwyn.—  
Yn ddiddig, a'i bardd addwyn.

Myn Mair ! a bu'n offeiriad  
 Madog Benfras, mydrwas mad.  
 Ni wra wen yleni,  
 Gwyr hon mi yw ei gwr hi.      52  
 Y gog, rhy anwir yw'th gân,  
 Ni ddiodde neb d'ymddiddan;  
 Mae syched, a masw achen  
 Meddwdod, i'th orfod i'th ên.  
 Adyn i'th newydd ydwyd,  
 Annefod yw,—ynfyd wyd !”

“ Ynfyd i'th clywaf Ddafydd,  
 Ynawr yn siarad dan wýdd ;      60  
 Gwrhæodd ferch a ferchud,  
 Anhirion fu hon i'w hud.—  
 Ni chai Forfudd werydd wen,  
 Y fun eglur fynyglwen ;      64  
 Rhyfig it' garu hoywfun,  
 Y Bwa Bach biau Bun !”

“ Am a genaist i'm gwanu,  
 Yma 'n y gwýdd am wen gu,  
 Deled yt ddyddiâu gauaf,  
 A throi'r haul, a threio'r haf ;  
 A rhew yn dew ar y dail,  
 A gwywaw coed a gwial,      72  
 A'th ladd gan oerfel i'th lwyn,  
 Edn ynfyd a'th dôn anfwyn !”

## LXXI.

I FORFUDD PAN BRIODODD Y BWA BACH.

**C**ARIAD ar ddyn anwadal  
 A fwriais i ofer fal,  
 Edifar oedd ym garu  
 Anghywir ferch, fy nghur fu : 4  
 Mawr y cerais lednais-wawr,  
 Morfudd yn y dydd ni'm dawr.  
 Ni fynai Forfudd, f'anwyl,  
 Ei charu'n hwy, och o'r hwyl! 8

Treuliais dalm, drwy loes dylyn,  
 O gerdd dda i garu'r ddyn :  
 Treuliais hefyd, nid byd bâs,  
 Tefyrn meddgynn gormodd-gas. 12  
 Treuliais fy nghlod wrth rodio ;  
 Treuliais a gefais o go' :  
 Treuliais, gwelais yn gywir,  
 Defyrn gwin, nef a farn gwir, 16  
 Treuliais fal ffol fy ngolud,  
 I'r dasarn, fo'i barn y byd.  
 Rhois ystôr iddi yn forwyn,  
 Dlysau mawr o'r mwñai mwyn ; 20  
 Rhois ermoed rhos aur mân  
 Fedrwyau, gwae fi druan !  
 Perais, o iawngais angerdd,  
 Dysgu, a chanu ei cherdd

I'r

I'r gler hyd eithaf Geri,  
 Eira-mân-hoen er ei mwyn hi !  
 Ymddiried ym a ddaroedd,  
 Er hyn oll fy rhiaint oedd ;      28  
 Ni chefais eithr nych ofal,  
 Nid ammod i'm ddim o dâl,  
 Eithr ei myned, gweithred gall,  
 Dyna'r orn, dan wr arall,  
 I'w gwneuthur, nid llafur lles,  
 Yn feichiog,—fy nyn faches !

Pa wedd bynag i'w noddi,  
 Ei twyllwyd, neu'r hudwyd hi,  
 Ai o gariad i'm gadu,  
 Dýras farn, ai o drais fu,  
 Yn gwewallt falw ym galwant,  
 Wb o'r nad ! am wedd berw nant !      40

Rhai a rydd rhyw arwyddion  
 I'm llaw, gormod braw i'm bron,  
 Llaesgoed, gwell im' eu llosgi,  
 O gyll, er na bu i'm gwall i :      44  
 Eraill a rydd, defnydd dig,

Am y tâl ym het helig ;—  
 Morfudd, ac nid o'm erfyn,  
 Heb awr serch, a bares hyn :      48  
 Duw a râno o'r diwedd  
 Barn iawn rh'oñ a gwawn ei gwedd!

## LXXII.

I YRRU Y CYFFYLOG YN LLATAI AT FOR-  
FUDD GWEDI IDDI BRIODI Y BWA BACH.

“ **D**YDD da i'r 'deryn gwarynlais,  
Y cyffylog lidiog lais:  
Tydi hyddyf y tewddwfr,  
Taer gyffylog lidiog lwfr.—  
Mynag edn, meinwag adain,  
Mau dy chwyl, mad wyd, a chain ?”

“ Ffest a glew y mae'n rhewi,  
Ffo ydd wyf, myn fy ffydd i!  
Ar hynt, o'r lle bum yr haf,  
Gofid, rhag eiry gauaf.  
Oer a dig yw'r gaua' du,  
A'i luwch ni'm gad i lechu !”

“ Dyred, na ddywed ddeuair,  
Lle mae a garaf, lliw Mair!  
I ochel awel auaf,  
O ras hir, i aros haf:  
Lle gofraisg, gerllaw gofron,  
Lle clywir tes, lle clae'r ton.  
Edn yn ei hoedl ni edir,  
Aderyn hardd durun hir,  
O thry i'th ogylch iaith ddrud,  
Treiglwr chwibianwr traglud;

4

8

12

16

20

A bollt

- A bollt benfras, a bwa,  
A' th weled wr i' th wâl da.— 24
- Na chudd er ei lais, na chau  
Dy lygad dan dy loywgau:  
'Heda, brysia rhag brad,  
A thwyll ef a' th ddull hoywfad, 28  
O berth i berth, drafferth drwch,  
O lwyn i lwyn anialwch.
- Glân dy dro, o glyn dy droed  
I mewn magl ym min mei-goed,  
Na fydd aphonydd dy lam 32
- Wrth gryngae'r groglath grin-gam:  
Tyn yn lew oddiam d'ewin,  
A' th ddurun cryf, wyth-rawn crin. 36
- Trif big hen goedwig a gar,  
Treidiaw adwyau daear ;—  
Disgyn heddyw yn Rhinwallt,  
Ís ty gwen, ys teg ei gwaltt,  
Mynag, edain o'r mynydd, 40  
Fy mraw caeth, sy mriwiau cudd:  
Gwybydd, er Delw Gybi,  
Ai cywir meinir i mi.
- Gwyl ei thro, gwilia a thrig  
Yno, aderyn unig ; 44  
Ac erod, fab arab, draw  
A beiddiaf dy rybuddiau.  
Erod bod lliw'r od, lle'r aeth,  
Orig, fydd wraig osywaeth,— 48

Nid llai y cerid ei llun,  
 A'i glwysfryd ar y glasfryn, 52  
 Mwy na phan fu gu ei gwedd  
 Yn forwyn deg dan fawredd :  
 Pair i'm lloer, o pur i'm llâs,  
 Garu ei bardd, gwr heb urddas." 56

O'i haros bum yn oeri,  
 Aeth arall, hoywgall, a hi:  
 Rhoyer fu awel rhewynt,  
 I'w gwilio hi, gwaela' hynt ! 60  
 Gwir a gânt, gwarant gwiwras,  
 Y rhai gynt, er rhyw gâs,—  
 " Pren y' nghoed," mawroed yw'r mau,  
 " Arall a bwyall biau !" 64

## LXXIII.

YR HEN DDIHAREB—" TRECH A GAIS AC A  
 GEIDW,"—CYWYDD I EIDDIG.

C EISIAW yn lew heb dewi,  
 Beunydd fyth, bun ydd wyf i ;—  
 Cadw y mae Eiddig hydwyll  
 Ei hoywddyn bach, hyddawn bwylly !  
 Traws i gwyl traïs a golwg,  
 Trech a gais, trwy awch a gwg,  
 Nog a geidw, rhag direidwas,  
 Ei ddyn gwyn yn ael glyn glas.

Nid

Nid hawdd cadw cymmen wen wych,  
Rhag lleidr yn rhygall edrych.

- Un orchwyl, lle disgwyliwyf,  
Unlliw drem a lleidr wyf : 12  
Gwydn yw ef, addef oedd,  
Yn ei chadw, anwych ydoedd ;  
Gwydnach ydwyf, trymglwyf traïs,  
O amgylch bun yn ymgais. 16  
Serchog o'i radd gyfaddef,  
O chais a gâr ni chwsg cf;  
Mal gwylwr pylgeinwr pwl,  
Hunaw fydd hyn o feddwl. 20  
Y march a wyl, o'i warchae,  
Y ceirch ac ni wyl y cae:  
Minnau, heb ochel gelyn,  
A welaf, ddiweiriaf ddyn; 24  
Ac ni welaf, häaf hawl,  
Ei du gymmar, deg emawl.  
Ni welo Duw'r dyn geirsyth,  
Ni wyl yntau finnau syth : 28  
Mwy blyg na bydd mab lygad  
Ym mhen gwledig unben gwlad.

- Trech, lle'r ymgyrchaif glaif glas:  
Wyf nog ef, ofn a gafas, 32  
Tramwyaf lwyraf loywryw,  
Treh fy aur tra swyf fyw !

Oerfel ym o gochelaf  
 Eirian orhoen huan haf, 36  
 Arfog ferch o ryfig fal  
 Er ai ceidw, eurawg hoyw-dal !

---

## LXXXIV.

YMLIW A MORFUDD AM BRIODI Y BWA BACH.

**D**RUD yr adwaenwn dy dro,  
 Gwen cenhinen, cyn heno:  
 Mae i'm bryd, ennyd ynni,  
 Aml ei thwyll, ymliw a thi.— 4

Morfudd merch Fadawg Lawgam,  
 Myn y Pâb ! mi wn paham  
 I'm gadewaist ar y feiston,  
 Yn wddw' hyll, yn y wedd hon. 8  
 Tra gellais newidiais wawd,  
 Dirprwyaw dy wr priawd ;  
 Caredd haul, caruaidd hud,  
 Cerydd fi oni'm cerud. 12  
 Bellach myfi a ballawdd  
 O glwyf blin, wyf heb le nawdd !  
 Ar dy fryd, cadernyd gur,  
 Ai da sigl y Du Segur ? 16  
 Symudaist fi, siom ydiw,  
 Seren oleuwen o liw.

Megis.

Megis y gwr, gyflwr gau,  
 Ac iddaw da y gweddau,  
 Deubar o ychen diball  
 Wrth yr un aradr, cadr call ;  
 Ardded y' ngran graenfylch,  
 Dalar gwŷdd, ei deil ar gylch,  
 Heddyw y naill, fy hoyw Naf !  
 Yforu y llall oferaf.

20

24

Fal y gwnair, gurair gerydd,  
 Chwarau a phêl, fy chwaer ffydd !

28

Hoff wyd dilynwyd dy lun  
 O law i law, loyw cilun !

*Esgwier Gwy a'i ddwywisiog,*  
 A'r rhain gan dŷned a rhisg :

32

Nofais o'i flaen yn nwyfwydn,  
 Heb dâl gyfnewidial wydn ;  
 A wnel yn dda dan fedwgoed,  
 O myn y dyn i mewn doed !

36

Ac ai gwnaeth, bradwriaeth braw,  
 Aed allan wedi dwyllaw.

Bid edifar dy garu,  
 Bwriaist fi, bŷr o wst fu ; —

40

Os gwir y bwrir baril  
 Ysgŵd pan fo gwag yfgil,  
 Cawswn ymgeledd cyson,  
 F'enaid wyd, o fin y dòn,

Oni bae fod wyneb adyn,  
 Moelaidd bach, i'th ymyl bun,  
 Rhag colli, ynni uniawn,  
 Ty a gwr mewn lle teg iawn.

48

Gwydnglwyf ydd wyf o'i ddeall,  
 Gwydn wyf fal gwden afall,  
 A blyg yn hawdd, a gyfwrdd,  
 Ac ni thyr er un gŷr gwrdd.  
 Mae ynof, gwan-gof gyngen,  
 Enaid cath anwydog hen ;  
 Briwed, cured cosfwydwydd,  
 Bo a fo arni, byw fydd.—

52

Minnau er bawdd, meinir, beunydd  
 Sy'th garu byth, saith gur bydd :  
 Dydi a'm gorfydd hauach,  
 Ha! ha! gwraig y Bwa Bach !

56

60

## LXXV.

YR EOG YN LLATAI AT FORFUDD.

**Y**R Eogwas o'r eigiawn,  
 A roes Duw o'râs a dawn ;  
 Glana' milyn a luniwyd,  
 Myn Mair wen, yn y mor wyd !  
 Ewyn a'th geidw ar wimon,  
 Y crug bendefig y dòn,  
 Rhag maglau ymylau myr,  
 Rhag cau rhwydau coredwyr,

4

Rhag

Rhag brad ergyd ar hyd bron,  
 Rhag llaw-dryfer lleidr afon.—  
 Dithau'r Eogwas, dythiwr eigiawn,  
 Twrch heli wyd, torch loyw iawn !

12

Hwylia ar fôr heli ar frys,  
 Nofia ddwfr, na fydd afrys ;  
 Nad d'adnabod bysgodyn,  
 Dos heb ymddangos i ddyn ;—  
 Pan ddelych, pêna' ddwyliw,  
 Goruwch y rhŷd grych a'r rhiw,  
 Tra gloyw wydr, treiglia i edrych,  
 Ti a gai weled tai gwych,

20

A llennyrch, a pherllanau,  
 Llyn o ddwr mewn lle neu ddau :  
 Lle mae'r dyn a'r lliw mor deg  
 A'r wennol ar y waneg.

24

Gwilia yno gulationwr,  
 Galw o'r gell gywely'r gwîr.  
 O'gweli ddyn ag ael ddu,  
 Ac wyneb wedi gânau,

28

Gwilia yno gael annerch,  
 Cais amnaid ar f'enaid ferch  
 A deuros yn ei deurudd,

A'r rhain o liw *samwin* rhudd :

32

A llaw wych, un lliw a chan,

Fodrwyog—gwae fi druan !

A braich bur fal 'wybr uwch haul,

A bron fal be bai'r wennau.

- Dwy fron mor wynion a'r ôd,  
Gloyw wynach na gwylanod!  
Dos heb ei llaw, draw ar dro,  
A chenyf annerch honno ; 40  
O daw hon, dan eurdo hed,  
I lan dwfr, ail Eluned,  
Nesa at fy llinosen,  
A bwrw naid gar ei bron wen. 44
- Caf farw o'i chwant ! cyfarchwell  
I hoyw ddyn, gymmar hwyfell.  
Ymadrodd chwedl, fal Medrod,  
O'r llyn, wrth liw'r llewin ôd ; 48  
Dywaid iaith gall, doed i'th gof,  
Wrth wen, fod hiraeth ynnof :  
Y galon, am nas gwelaf,  
Yn gul, ais ym yn glaf ! 52
- Y mae'r ddwyais mor ddiwair  
Er fu'n ei charu, ni chair,  
Addaw wnai'r winwydden,  
Addaw byth ni ddoe i ben. 56  
Ni fynai gwen fawl genyf,  
Ac ni chred na gwan, na chryf.
- Yr Eog rywiog, ben rhaith,  
At Wen dôs etto unwaith,  
Gofyn, oedd gyfion iddi,  
Ddyn fain deg, ddwyn f'enaid i ? 60

Gwnaed y naill, gwŷna dyn yw,  
 Ddyfr fain, o Ddofr i Fynyw, 64  
 Ai dwyn f'enaid, dyn wan fainwr,  
 Ai meddylio gado ei gwr.

## LXXVI.

HONAIID Y DIFWYNA EIDDIG WEBB MORFUDD.

**Y** Ferch a elwir fy chwaer,  
 Am hanwyl eglurwyl glaer,  
 Mae i'm bryd, enbyd iawnbwyll,  
 Drwy nerth Duw, drin o'iwrth bwyll, 4  
 Bod i'm cof, byd a'm cyfeirch,  
 Beidio a hi, bedw ai heirch.  
 Ba dâl ym bum i'w dilyn,  
 Bod er da beidio ar dyn : 8  
 Llygru a wnaeth, gaeth gerydd !  
 Lliw'r dyn er ys llawer ddydd.

Ni allef nerth ni pherthyn,  
 Ni ellir dim a lliw'r dyn ! 12  
 Meddylio'r wyf, mau ddolur,  
 Myfi ai gwn, mau fwy gur;  
 Y chwaen gyda'r ychwaneg,  
 A ludd ei deurudd yn deg. 16  
 Enid leddf, anadl Eiddig,  
 Oi enau du a wna dig:

- Gwedi gollyngo, tro trwch,  
Y gwr dygn ail Eigr degwch, 20  
Anadl fal mwg y fawnen  
Yn ei chelch, pan nas gelch gwen,  
Gofid tost, fal rhwym gefyn,  
Yw gado'r delff gyda'r dyn ! 24  
Delw o bren gwern dan farnais,  
Grin ddiffaith o saerwaith Sais.  
Drwg cadwed dygiad agwyr  
Llugorn llon, ai llwgr yn llwyr ! 28  
Y pân Seisnig da ddigawn  
A fydd drwg ym mwg y mawn.  
Niwl addwg yn awyr,  
Gan yr haul wiw, ei lliw'n llwyr ! 32  
Cadeirgaingc dderw, coed argor,  
A fydd crin ym min y mor.
- Tramwyais, hoywdrais hydreg,  
Trefi y dyn tra fu deg; 36  
Ystiwardaeth gaeth gariad,  
Ond tra fo teg nid treftad.  
Da gwyr beri digaru  
Ei phryd, fy anwylyd fu!  
Gorau gan eiddig oeryn,  
Dygn du, na bae deg y dyn.—  
Llychwinodd llwch o'i enau  
Lliw'r dynyn, mireinwyn mau:

Drwg

Drwg gan innau, gorau o ged,  
 Yn gulaidd iawn ei gweled !—  
 Poed cul, poed mul, poed melyn,  
 Er cur ei lliw, cara' ei llun.  
 Rho Duw a Chadfan, rhaid oedd,  
 Rhad a geidw, rhydeg ydoedd !

48

## LXXVII.

CYFFELYBU MORFUDD O RAN CYNNEDDFAU  
 I'R YSGYFARNOG, Y WIWAIR, A'R HYDD.

**Y**SGYFARNOG y' nghartref  
 A fâg rhai oni fo cref ;  
 Dieithr fydd er ei meithring,  
 I drum yr wrth-allt y dring.  
 Gwiwair o chae frig gwial,  
 Gwaeth oedd i'r tadmaeth y tâl.  
 Brawd hy mewn llety lletollt,  
 Bradog darf ar belldarf bollt ;  
 Aftud air os doed erof,  
 Ystid goch, os da dy gof,  
 Benod yr hydd gelltydd gil,  
 Ban oeddid gynt banw eiddil :  
 Iwrch drythyll, hely deilgyll hawl,  
 Iyrchws hydr, iyrchus hudawl :  
 Rhywylt ei rhuthr mewn rhewynt,  
 Rhyfain hydd rhy fuan hynt :

4

8

12

Rhydain iwrch, rhedai yn ial,  
Rhy dinwyn lwdn rhedynwal.

Edifar fydd eu doh,  
Dan frig gwŷdd y trig y tri:  
Dwfn helynt, a lletcynt llid  
Dirmygen' dir ai megid.

26

Felly y gwnaeth gaeth gariad  
Ger fy mron, goryw fy mrad !

24

A myfy cywely call,  
Unne geirw, neu ac arall.

Baner haul, leufer loywfys,  
Bliant uwch y grifiant grys:

28

A phan-wisg, aur ei deurudd,  
Mair wyl o ystlys mor rudd!

Megais hon, ddirmygus swydd,  
Do 'n aml o oed deunawmlwydd :

32

Lluniais gerdd, a dillynion,  
I geisio dyhuddo hon :—

Rhin gall er hynny i gyd,  
Anglo fu'r anwylyd!

卷之三

36

LXXVIII.

## Y LLWYN BEDW.

**Y** Llwyn Bedw di-anedwydd,  
Lle da i aros lliw dydd,  
Yn llwybr 'wybr glaswybr glwyfliw,  
Llen o ddail uwch gwiall gwiw;

Llen-

- Llen-gel merch a'i gordderchwas,  
Llawn o glod ydyw'r llwyn glâs!  
Lle cynnes iarlles eurllen,  
Lle cyfiaith bronfraith ar bren : 8  
Lle glwys bron, lle golas brig,  
Lle deuddyd er llid Eiddig :  
Lle daw meinwar a'm cariad  
I dy dail o waith Duw Dad. 12  
Cerais ryw geidwad adail,  
Eurllen deg ar y llwyn dail ;  
Eos glwysgerdd is glasgoed,  
Arwydd cyfanneddrwydd coed : 16  
Udfardd erioed mewn coedwig,  
Ar ael bron, er arail brig.  
Gwnawn ystafell mewn celli  
Gwinwydd o newydd i ni ; 20  
A hundy a gwely gwiw,  
A glas-loft o fedw glwysliw.  
Cwmpas o fedw a gedwir,  
Conglau cadeiriau coed îr : 24  
Pair glod ar oror parc glas,  
*Parlwyr* o'r irddail purlas.  
Dyhuddiant fydd y gwŷdd gwiw,  
Dihuddigl o dy heddiw ! 28  
*Capel* glwysfrig ni'm digai  
O ddail irgyll mentyll mai.  
O daw y fun i dy fau,  
I dy fun y dof innau.

“ Yr Eos fain adeinllwyd,  
 Llatai ddechreu mai ym wyd;  
 Bydd nerth ar ael corberthi,  
 Gwna ddydd rhwng Morfudd a mi.”

36

## LXXIX.

YMBIL AR DDWYNWEN SANTES WNEUD LLA-  
 TEIAETH RHYNGTHO A MORFUDD.

“ **D**WYNWEN deigr danian degwch,  
 Da gwyr, o gôr flamgwyd ffwch,  
**D**y ddewl aur diddoluriaw  
 Digion druein-ddynion draw !                  4  
**D**yn a wilio, gloyw dro glân,  
**Y**n dy gôr, un deg eirian !  
 Nid oes glefyd, na bryd brwyn  
 A êl ynddo o Landdwyn ! ”                  8

“ Dy laesblaid, yn dy lwyfblwyf,  
 Dolurus ofalus wylf!  
**Y**mron oer, am yr unferch,  
**Y** sydd yn unchwydd o ferch !                  12  
 Hirwayw o sail gofeiliaint,  
 Herwydd y gwn hwn yw'r haint,  
 Oni chaf, o byddaf byw,  
 Forfudd,—llyna ofersyw !                  16  
**G**wna fi'n iach, weddusach wawd,  
 O'm anwycheder, a'm nychdawd !

Cymyng

Cymysig lateiddrwydd flwyddyn,

A rhadau Duw, rh'od a dyn.

20

Nid rhaid, ddelw euraid ddilyth,

Yt ofn pechawd fethgnawd fyth!

Nid adwna da ei dangnef—

Duw a wnaeth nad ei o nef!

24

Ni'th wyl mursen yleni

Yn hufing yn ing a ni,

Nid eill Eiddig ddyn dig du,

Noeth ddragwm, fyth mo'th ddrygu!

28

Ni rydd Eiddig ddig ddygwnbwyll

Warffon i ti, wyry' ei phwyll!

Tyn o'th wobr,—taw! ni thybir

Wrthyd wyry' gymhlegyd hir.

32

O Landdwyn, dir gynired,

Y gwn y tro, gem tir cred?

Nef ni'th ommeddawdd, hawdd hedd—

Dawn iaith aml, dyn ni'th ommedd!

36

Diammau weddiau waith,

Duw a'th eilw du ei thalaith!

Del lid, Duw dy letywr,

Del i gof dwylaw gwr;

40

Traws oedd y dyn ai treisiai,

Tra ddel ym trwy ddail mai."

" Dwynwen ! pe parud unwaith  
Dan wŷdd mai, a hirddydd maith

Morfudd

Morfudd, lawen-ddyn wen wych,  
 Dwynwen, ni byddit anwych !  
 Dangos o'th radau dawngooth  
 Nad wyd fursen. Ddwynwen ddoeth! 48

Er a wnaethost, drwy ddanbwys,  
 Obenyd y byd a'i bwys,  
 Er ffydd, er crefydd croywfyw,  
 A wnaethost tra fuost fyw !— 52

Er dy eirian leianaeth,  
 Agwyrfdawd y coethgnawd caeth !  
 Er enaid, os rhaid yrhwag,  
 Brychan Yrth, bréichiau nerthawg, 56

Eiriol er dy gresol gred,  
 Yr Em wyry', roi ymwared !

## LXXX.

CYWWYDD I FORFUDD AR OL EI DWYN ODDIAR  
 Y EWA BACH.

“ **Y** Fun a elwir f'anwyl,  
 Seirian wyd fy seren wyl !  
 Tyred i'r llwyn, mwyn yw mai,  
 Dioerder yw'r clyd irddai !” 4

“ 'Y myd wen, mi yw dy wr,  
 A'th was, i'th burlas *barlwr* ;  
 Dy wely yw'r llawr deiliog,  
 Dy organ a fydd cân cog,

Dy

Dy loches cýnes yw'r coed ;—  
 Tegan wyt ti mewn tewgoed !  
 A'th drws, ail Fenws feinir,  
 Feddal wisg o'r hafddail ir.      12  
 Glwysbryd wisg o ddail glasbren,  
 A fu wisg i Efa wen ;  
 Cai dithau, wen haulwen ha',  
 Olofaidd wisg fal Efa.—      16  
 Efa wyd, y ddyn wiw fau,  
 Adda, f'anwyl, 'ddwyf innau.'

“ Awn i'r llwyni arllónaidd,  
 A thecced tawr y llawr llaidd.      20  
 Yno dan bren ni'n cenydd  
 Hen eiddig, lo dig, liw dydd.  
 Pell f'anwyl, pwylla f'enaid !  
 Yw'th wr,—hylla gwr a gaid !—      24  
 Yn wr balch, yn oer ei big,  
 A'i grwydr ym mro Garedig ;  
 Ninnau dan rin ym min mor,  
 Hoyw defyll y' nghoed Ifor.      28  
 Gwell yma yw'n noddfa ni  
 Ar Dâf, na goror Dyfi.—  
 Dilys, ni wyr y dulwyd,  
 Oerwên, fan o fyd yr wyd.      32  
 Deuwell yw'n llys blodeuog,  
 Ucho 'n y coed, a chân cog,

Na gwaedwrf, a hen gadach,  
Yn oer drigfa'r Bwa Bach!"

36

" Hawddàmor beunydd yma  
A gawn, gyda phob dawn da,  
Llwyn is twyn yn llawn ei 'stor,  
A lles hefyd llys Ifor.—

40

Ifor yw tryfor trasferch,  
A rhyswr, a sawdwr ferch,  
A gelyn blin, heb gyfrinach,  
Yw'r gwrda i'r Bwa Bach!"

44

## LXXXI.

HANES FAL Y DYGODD Y BARDD FORFUDD  
ODDIAR Y BWA BACH.

**L** LEIDR y mewn diras drasferch !  
Ymannos fum,—mýnais ferch :  
Llwyr fry i'm parodd lloer fro  
Fyfi'n lleidr ! wyf yn llidio ;

4

Gwanfardd o drasferch gwenfun  
Gae y lleidr drud am hud hun ;  
Ar y modd, gwell nag aur mál  
A gefais, och rhag gofal !

8

Nid lleidr march dihafarch-droed,  
Na buwch, nag ých gwých o goed,  
Nag arian, nag aur gwiriach,  
Na mwnws byd, manus bach !

Cefais

Cefais, dywedaf rhag gofid,  
Ddynes fwyn i'r llwyn rhag lliid.

- Gwedi cael, neud gwawd ai cwyn,  
Gwin a medd gwen em addwyn, 16  
Meddwon fuon', fy meiddwyr,  
Mau boen gwych! meibion a gwyr  
Cysgu, wedi symlu son,  
A wnaethont, bobl annoethion ! 20  
Twrf eirth-grwydr, fal torf wrth-groch  
Talm mawr, megis teulu moch.  
Mawr fu ammorth y porthmon,  
Meddwon oeddynt o'r hynt hon: 24  
Nid oedd feddw dyn danheddwyn,  
Nid wyf lesq, nid yfai llyn.  
Os meddw oeddwn gwn gad,  
Medd ai gwyr, meddw o gariad : 28  
Er goftwng, o ddiflwg ddaug  
Y ganwyll fflamgwyr gynnau,  
Hir o chwedl fardd cenhedl-loyw,  
Ni hunai hoen er trai hoyw ! 32  
Y nyn, ni hunwn innau,  
Er maint oedd y meddwaint mau.  
Ar hyn meddyliais ei cheisiau,  
O'r gwâl drwg, i'r gwiaail draw ; 36  
Cyd bai annawdd, garw-gawdd gwr,  
Ei chael oddiwrth ei chulwr,

Mai degwch! mi ai dygum,  
Myn Delw Fair, dilwrf fum!  
Ni wyddiad, bryd lleuad bro,  
Ei dynion ei bod yno;  
Nid oedd fawr am geinwawr gynt  
Ysgipio 'y mhen, pe's gwypynt.  
Od â bun ar ei hunpwynt,  
I gydgyfeddach ag hwynt,  
Ei rhieni, rhai anhardd,  
A geidw bun, rhag oed a'i bardd,  
Hir fydd in' eosydd nos,  
Hir hun Faelgwn ei haros!

40

44

48

## LXXXII.

DOE AC ECHDOE.—DWYN MORFUDD ODDIAR  
Y BWA BACH.

**D**YDDGWAITH dibech oedd echdoe!  
Da fu Dduw a Dafydd ddoe!  
Nid oedd unrhyw ddwy an rheg,  
Y dydd echdoe, a doe deg.  
Drwg oedd fod, hynod hynoeth,  
Echdoe yn frawd i ddoe ddoeth!  
O Fair, wychdeg fawr echdoe!  
A sydd y rhyw ddydd oedd ddoe?  
O Dduw erfai ddiweirfoes!  
A ddaw i mddoe i'm hoes?

4

8

Rhoddi, yn drech nag echdoe,  
Ydd wyf, gan-hawddf yd i ddoe :—  
Doe dialawdd, cawdd cuddnwys,  
Dafydd hen o newydd nwyf.

12

Pedestr hwyr, wyf cawddnwyf call,  
Ar hyd erw lle rhed arall ;  
A meistrawl ar fawl wiwlamp,  
A'r gost, lle mae gorau'r gamp.  
Gwell ym mhell, gar gwayw llif nwyf,  
Pwyll nag aur, pellenig wyf.  
Treich llafur, nofiadur nwyf,  
Na direidi, dewr ydwys !  
Da fyddai Forfudd i'w dwyn,  
O'r diwedd, hoen eiry dywyn !  
Iawn a wneuthum ei chanmawl,  
Ond oedd i'm henaid ei hawl ?  
Nos da i'r ferch anherch-glaer,  
A dydd, am nad oedd daer.  
Y hi a'm gorfu hayach ;  
Ha ! ha ! graig y Bwa Bach !

16

20

24

28

## LXXXIII.

GWAHODDIAD MORFUDD I'R DEILDY.

**M**WYNDDYN tyred i'r man-ddail,  
Ac enw'r dyn Gwen o'r dail:  
A cherddor, dan wych irddail,  
Wyf i'r dyn a ofwy'r dail.

M

Gweuais

Gweuais iddi dy gwial,  
 Gwedi doi i gid â dail.  
 Aeron gynt a fu'n arail  
 Dan bebyll godywyll dail ;  
 Ac Eiddig pan ddel gwiw-ddail,  
 Dan ei do, a dyn y dail.

8

Prydydd wyf fi a ddail  
 Ar y gwas du dýnu'r dail :  
 Gorau bwriad ar adail,  
 A wnaeth Duw saerniaeth dail ;  
 Gorau neuadd gron wial,  
 Neuadd dda newydd o ddail.

12

Eos, gannos a gynnail  
 Fwyn ei dy o fewn y dail.  
 Ceiliog mwyalch, clog miwail,  
 Coedwr du wyr cadw'r dail.,  
 Bronfraith goedfaith fagad-ddail,  
 Brenhines hudoles dail.

20

Cethlydd, lasddydd ar lwyf-ddail,  
 Clochydde a duwies dail !  
 Cynnydd rhif pob anisail,  
 Gwyllt a dof, yw gwellt a dail ;  
 Cor bywiog ceirw, a buail,  
 Caead ar dy coed a'r dail.  
 Tra fu urddas tref irddail,  
 Tra fo haf, nid af o'r dail.—

24

28

Gwisgo hug, bod yn fugail  
Gyda'r dyn i gadw'r dail : 32  
Myned at Wen, heb attail,  
A wnaf, ac nid af o'r dail.  
Gwae a gerddo gwag irddail,  
Gwae oni ddaw gwen i ddail ! 36  
Herwr gwlad a phob adail  
Wyf fi, nid am dòri dail.  
Herwr hy garwr gwiail,  
Herwr ac ardwywr dail ; 40  
Ni cheisfaid ddyn wych osail,  
Yn rhydd, ond y dydd a'r dail !

## LXXXIV.

MAWL I'R EOS,—A DUCHAN I'R FRAN AM EI  
GWYLLTIO, PAN OEDD Y BARDD YN Y  
LLWYN YN DISGWYL MORFUDD.

**G**WAE fi o gariad gwiw-fun,  
Nad ytwyf y' Nghoed Eytun !  
Lles nifer, ger llŷs nefawl,  
Lle y mae galluau mawl : 4  
Ysgyndwr maen ar gaen galch,  
Ysgynfa Eos geinfalch.  
Ys gwyr hi, hydr yw 'n gormail,  
Ysgwn daith dan ysgin dail. 8

Main i can prif accen prudd,  
Men a threbl mwyn ei thrabludd ;

Egwyddor gain fireinfyw  
**O** gôr dail i gariad yw : 12  
 Cathl wynfyd coeth lawen-ferch,  
 Canghenddring cain sawdring ferch.  
 Prid yw ei chof gan Ofydd,  
 Prydyddes, gwehyddes gwýdd : 15  
 Llon fydd yn nydd ac yn nos,  
 Llef ddiledlef, dda loywdlos.

Fal yr oeddwn heb ormail,  
 Cwpl da, o fewn *capel* dail, 20  
 Yn gwarandaw rhif yn ddifreg,  
 Offeren dan ddeilen deg,  
 Gan laswyrwraig y cariad,  
 Ganiadau mydr-leisiau mad, 24  
 Gan Eos gain ddiddos gu,  
 Hab y doludd heb dalu,  
 Difir mewn doldir ein dau,  
 Mewn llwyn-gwyrdd a meilliongau 28  
 Nycha 'r Fran anwych ar frig,  
 Lafar ysgyflgar goflgig,  
 Yn dwyn rhuthr, dan dinrhhythu,  
 I blas yr edn ceinlas cu. 32  
 Daeth y Fran o ryw daith fry,  
 Amharod gerdd o'i 'mhary ;  
 Glew dri-phwngc, nid gloyw drafferth,—  
 “ Gwlaw ! gwlaw ! ” meddai'r baw o'r berth.

Llesteiriodd

Llesteiriodd brif ddigrifwch,  
 Llaes ei phlu a'i lleisiau mwch ;  
 Sef gwnaeth, deuluwriaeth dail,  
 Gan Eos fygr ar wial,

49

Tristau draw a distawu,

Gan bres yr Iuddewes ddu.

Daeth, ni bu annoeth ynof,

Duw ai gwyr, nad â o gof !

44

Dychymig bonheddig bwyll

Rhag irdang bum ragordwyll.

Ffull goluddion, heb dôn deg,

Ffollach wegilgrach gulgreg.

48

“ Edn eiddig, wyd anaddwyn,—  
 Adref ! drwg ei llef o'r llwyn !

Cerdd a' t eiddig dy gâr,

Cyflw mwsogl, cofl ymysgar ;

52

Euryches yn oer ochain,

Blowman du a'i blu mewn drain.

Hug dorllaes mudwraig daerlyd,

A dŷn bob oen o boen byd :

56

Bargain cair bob byrgyn cul,

Hyn a geiff o hen geffyl.

Ac er maint a gar mentyn,

Nid llai rhangc y grafangc gryn.

60

Marw fych pan glywych weiddi

Yr ôch dwn, nag eiriach di !

Nesa yr edn gylfingrwn,  
 Na for gwna ar ei dòr dwn : 64  
 Crwydr arnai gicau gec hir !”  
 Credodd fy mod ar y gwir :  
 Cefais gan lathr-las asgell,  
 Loyw-swydd wiw, leisiau oedd well. 68

---

## LXXXV.

YR HET FEDW A BLETHODD MORFUDD I'R  
 BARDD.

**Y**R Het Fedw da i'th gedwir,  
 Ys gwae gan Eiddig os gwir :  
 Ysbail gwýdd cynnydd canoed,  
 Ysgythrلن frig cangen coed. 4  
 Ysbail gwýdd dolydd dulas,  
 I wiw lwyn, coed elyn cas ;  
 Duw a'th gadw y fedw fân,  
 Gwag remmwth, rhag ei grȳman ! 8  
 Fy mod, pei gwyddai heb gel,  
 Yn gochel dan dy frig uchel,  
 Fe ddeua'i'r còr i'th dòri,  
 Cyn y nos, er cwyn i ni ! 12  
 Ys dewr wyf ys diryfedd,  
 Ystyriawl i'th fawl a'th fedd,  
 Ystofiad coed, ys difai,  
 Ysgrin ddail, mân wiail mai !

Ys

- Ys da adail i'th eiliwyd,  
 A hafdy glasdrym ym wyd;  
 Mae a'th fawl hawdd ganmawl hir,  
 Y deildy o fedw doldir. 20
- Gerlant a roes dyn geirloyw,*  
*Cwmpas o'r fedwen las-loyw :*  
*Call a difradw i'th cadwaf,*  
*Coron rhag tra hinon haf!* 24
- Culwas ai dwg cyd cilai*  
*Coff ddiell o fantell fai.*
- Cydfaeth dyffryn glyn gloywlas*  
*Coedfedw gwiw yn cydfod gwas !* 28
- Gwrygiant serch eurferch erfai,*  
*Gwyrthiau a ffrwyth mwynlwyth mai.*
- Pwyll rhag anghof, a gofal,*  
*Pebyll uwch didwyll dàl.* 32
- Lle tirion, lle y tòrir,*  
*Pebyll uwch y didwyll dir !*
- Mawl dyfiant gwiw foliant gwýdd,*  
*Mynwaur o dewfrig manwydd.* 36
- Gwawdau dál gwiw-do deulwyn,*  
*Gwyrddgylch a ddiylch i ddwyn :*
- Gwawr gelfydd serch, gwir goelfain,*  
*Gwregis gwallt o'r goedwallt gain,* 40
- Gwiw adail heb adfeiliaw,*  
*Gwaith wyd Morfudd Llwyd a'i llaw !*

## LXXXVI.

## CYWYDD Y CUSAN.

**M**OES un cusan i'm hannerch,  
Moes ddau o gusanau ferch ;  
Moes dri yn y maes draw,  
Moes bedwar, na chais beidiaw ! 4  
Moes bump, y gangen wenglaer,  
Moes chwech i minnau fy chwaer,  
Moes faith, er y daith am dug,  
Moes wyth, nad monwy'n seuthug ! 8  
Moes naw imi os mŷni,  
Moes deg, di a'm euraist i.  
Moes unarddeg, sy'n awr dda,  
Moes deuddeg, mi eistedda' : 12  
Moes ym un wedi deuddeg,  
Aur ddyn, moes bedwararddeg  
Moes i'm bymtheg, y deg-ferch,  
Moes unarbymtheg o ferch : 16  
Moes dauarbymtheg, os daw  
Na'm som ddyn, moes ym ddeunaw.  
Moes am yn un, y fyn fain,  
Em eigr, moes ym ugain : 20  
Moes ym gusan ychwaneg,  
Ar hyn o dâl, fy rhiain deg.  
Ac ymado 'n gymmodol,  
Mae'r lles, a'r neges yn ol.

MORFUDD

## LXXXVII.

MORFUDD A'R BARDD YN Y DEILDY.

**A** DEILIAIS dy fry ar fryn,  
 Diddos, i gadw deuddyn;  
 Ar ol ffair, nid ar ael ffyrdd,  
 O frig coedwig caeadwyrd.  
 Gwn nid ar waith diffaithdy  
 Cefndwn, yr adeiliwn dy ;  
 Ond ar waith fry hafdy hir,  
 O goed mân, i gadw meinir,—  
 Clîmu brig, clwm o bregeth,  
 Cyrs graen coed a'u blaen yn bleth :  
 Coedlofft ystlyshir firain,  
 Cell draws o frig cyll a drain.  
*Cwrt* i feinwar i chwarau,  
 Campus gaead-weddus gau ;  
 Cap o ddail, coppa ddulas,  
 Cangen i gadw gwen a'i gwas ;  
 Cwpl sfrengig bonheddigryw,  
 Caban o ddail mân ym yw.  
*Capel* crwn o'r cyplau cred,  
 Clos glwys diddos glas dudedd :  
 Cain guddigl, cyrs ffenigl ffyn,  
 Cowir diddos côr deuddyn.  
 Cadair lwys coed îr o lwyn,  
 Côr iarll cowir i orllwyn ;

4

8

12

16

20

Cefais

- Cefais noswaith gyweithas,  
Cysgu dan blu dien blas.  
Cael wrth ymddiddan dranoeth  
Clywed clymau ceingciau coeth;      28  
Cathl per o ben aderyn,  
Cerdd oedd ef ai carai ddyn:  
Ceiliog coednyth cilleadnaid,  
Clymwr cellweiriwr call haid;      32  
Cyw adeinfrith cudynfrych,  
Cynnydd côr gwŷdd cowir gwych.  
Swydd ddiwladaidd yw'r eiddo,  
*Siambrlen i feinwen yw fo:*      36  
A drogenais na cheisiwn,  
Ond myfi, a hi, a hwn;  
Eithr y bardd trwyndl rhadlon  
I ddal fy nhŷ fry ar fron.      40  
P'le bynag, diorwag dwrn,  
Yr adeiliais ar dalwrn,  
Mac yn ddiogel fy ngwely,  
Un haf ni noetha fy nhŷ.      44
- Er ofn un twrw' o ryfel,  
Na llu o Loegr ddu a ddel,  
Lle anhysbys dyrys dir,  
Blawdwraig, neu gawfswraig goesfir.      48  
Lle cadarn gerllaw coedydd,  
Lle mae heddwch goetgae hydd;  
Lle gwrthyd llawn-febyd llu,  
Dwyfron allt, dwfr o neilltu.

Hafdy

Hafdy dail, hefyd o daw  
 Ein cas i'r llethr i'n ceisiaw ;  
 Ni wyr Eiddig, wr addoed  
 Gynglwr cawdd, pa gongl i'r coed,      56  
 Pa lwyn o'r bedw, pa lannerch,  
 I ddifgwyd am feinwyl ferch.—  
 Na chaffo chwedl diledlyth  
 Na chymmun am ei fun fyth !      60

---

## LXXXVIII.

I FORFUDD PAN FLINWYD Y BARDD A CHYF-  
 RAITH AM EI DWYN ODDIAR Y BWA BACH.

**Y** Fun glaer fwnwgl euraid,  
 O Fon gynt yn fwyn a gaid,  
 Oes imi obaith fyth weithion  
 O'th weled ti wyth-liw tòn ?      4  
 Myn Deiniol sant, trachwant trwch  
 Ym di rhydd am dor heddwch,  
 Ys diriaid nad ystyriaus,  
 O'th gael y bu annoeth gais ;      8  
 Ni bu anrheg na neges,  
 Eithr fy lladd, waeth ar fy lles !

Trist fum na'th gawn, dawn diwael,  
 Tristach wyth gulach o'th gael !

Gwae fi a wnaethoſt, goſt gwyl,

Fy m̄ynu pan fum anwyl !

Ni buoſt gall na'm pallud,

Ni bu ddewin gyflin glud ;

Peraifft annog fy nhrogi,

Pe i'm cerit ni fynit fi !

Rhyfalch oedd i Bâb Rhufain

Fod ḡenyd, gwyn fy myd main !

Cymmer dan gel a wnelych,

Cymmod am hyn dyn gwyn gwych !

A dod feinit ym ddirwy,

Paid a'r cwyn dyn mwyn mwy !

16

20

24

Chwarzus fuom ar gam gae,

Chwerw fu diwedd y chwarae !

O buoſt riain fain ir

Fodlon imi dan Fedwlwyn ir,

Na phair ddyn deg, waneg wedd,

Grogi Dillyn y Gwragedd !

Dros beri, ddiweddi ddig,

Dihenyydu dwyēn eiddig.

28

32

Ym Mynyw yr wyf, ddyn hoywsar

Ym Mon yr haeddaift fy mār ;

Yno mi a fum ynod,

A gwae yw i mi fy mod !

Ai lles iti, Morfudd llwyd,

Yspeilio gwas a bowlwyd ?

36

*un wedi rillo es ben*

DUCHAN

## LXXXIX.

DUCHAN I EIDDIG, SEF Y BWA BACH.

**B**EUNYDD yr wylf, i boeni,  
 Yn caru dyn ni'm cred i ;  
 Rhois ar ferch drasorch a drig,  
 Esyllt wedd, a swllt Eiddig ! 4  
 Nid hawdd i dlawd ffawd, o'i phen  
 Go-ffol hwyr, gaffael hirwên :  
 Ni chaf fy rhiain feinael,  
 Ni âd ei cheidwad ei chael ! 8

O chyrch dyrfa, decca dyn,  
 Daw i'w harail dihiryn !  
 Na cheisified, a'i fawed fo,  
 Hon Eiddig ei hun iddo. 12

*Llunydd.*  
 Ni châr Eiddig chwaryddiaeth,  
 Chwerw ddyn, dros chwarau ydd aeth.  
 Ni châr nag eos, na chog,  
 Na llinos mwy na llwynog ! 16  
 Na diau lwyn go-dwyll,  
 Na chân cerdd, na chnau cyll :  
 Clywed cân adar mân mai,  
 Mewn dail îr, ai doluriai ! 20  
 Siarad bronfraith is irwydd,  
 Ac eos fwyn ei gas fydd :

Caibeth gan Eiddig fethiant,  
Glywaid bytheiaid a thant !

24

Eiddig wyddelig ddulas,  
Da fy nghof, ydyw fy nghas.  
Ysgared Gwen, dalcen dis,  
A'i chymmar cyn pen chwemis,  
Myfi ai câr hi yrhwag,  
Ni charaf ond merch wriawg.

28

Gwelwy' roi pridd a gwialen,  
A main ar wr meinir wen,  
A llwyth yr wyth ychen llog  
O'r tyweirch ar y taeog ;—  
O'm treftad y caniadwn  
Ei hyd o'r ddaear i hwn !  
Y ferch a welir yn fau,  
A gwr Esyllt dan groesau !  
A ffos gau, a phais gywarch,  
A gwernen felen yn farch.  
Fy Nuw ! pei cawn fy newis,  
Ni byddai fyw o'm bodd fis !  
Ni ddawr hi ddaearu hwn,  
Ei ddaearu ni ddorwn !

32

36

40

44

## XC.

DUCHAN I EIDDIG,—DYMUNIAD GAEL MOR—  
FUDD I'R LLWYN.

**Y** Ferch ni chwsg ai gwerchyd  
 A garaf yr haf ar hyd ;  
 Pa les, liw'r tes ar y twr,  
 Ei gweled lle bo' i gwiliwr ?  
 A chwyn oedd na chawn addef,  
 Chwarau dim a'i chwerwed efl  
 Carwdan fawr cryd dan f'aïs,  
 Cwrwgl bychan y cerais.  
 Y ferch wen at awenydd,  
 O daw i'r ffair, da yw'r ffydd :  
 Fo ddaw, nid nes gorawen,  
 Bwch yn ei hol, bychan hen,  
 Crych fyr yw, crach feriog,  
 Cryd gwern, nid cariad y gog !  
 Cribin glyn, crwban y gwlaw,  
 Crug Eiddig,—can-crog iddaw !  
 Crwcwd chwerw anwyd chwyrn,  
 Crin gyfgod croen ac esgyrn :  
 Gwr anhardd, llai na gwreinin,  
 Gwr llesg ond i gweirio llin !  
 O Dduw ! i'r fedwgoed ddien  
 A gair bi heb y gwr hen ?  
 A'r ferch mi ai hannerchwn,  
 A fydd hael, nid o fodd hwn :

8

12

16

20

Ac

Ac o chaf hon is Conwy,  
 Ganoed yn y mangoed mwy,  
 Beiddiwn i, o byddwn iach,  
 Gyfranu y gyfrinach !

28

## XCI.

I FORFUDD PAN ORFU I'R BARDD EI HEDFRYD  
 I'R BWA BACH.

**H**YDR y gwyddost, ail Indeg,  
 Hoedl i'th dwf hudoliaeth deg ;  
 Hoed a'm deily, hud am dilyn,  
 Hoyw dy dwf i hudo dyn ! 4  
 Gwaith pell, o fewn glowygell gled,  
 Dy drcisio, rhag dy drawsed :  
 Na ffo, cyfeiria forwyn,  
 Nid rhaid brys i'r llys o'r llwyn ! 8  
 Trwyddedwraig llen bedweni,  
 Trig a dyhudd Forfudd fi !  
 O doi i fedwgell bellach,  
 Fy nyn bychanigyn bach ! 12  
 Nid ai drachefn, wiwgefn wych,  
 Mul o dâl, mal y delych.—  
 Toft ni allaf dy attal,  
 Rhygaeth wyf ddyn deg ei thâl 16  
 Gan na allaf, dda Naf rhin,  
 Dy orllyd dan dwf eurllin !

Dôs

Dôs fau enaid yn gwблиach,  
 A Duw'n borth yt y dyn bach !  
 Dôs yn iach, gadarnach ged,  
 Dengwaith gwae fi o'r dynged !—  
 Yn iach y dyn, dawn y byd,  
 Ag annerch dy hun gènyd !

20

24

## XCII.

CWYN Y BARDD PAN ORFU ARNO DALU IAWN  
 I'R BWA BACH AM DDWYN MORFUBB.

**M**AU afluwyddiant.coddiant cawdd,  
 Mefl iddaw a'm afluwyddawdd !—  
 Sef yw hwnnw, bw! o baidd,  
 Eiddig leidr, Iuddew gwladaidd !

4

Ni adawdd, ni bu nawdd nes,  
 Da i'm helw,—Duw a'm holes !  
 Cyweithas hoywdras hydrum,  
 Cywaethog, fawreddog fum ;  
 Yr wyf, o wiw nwyf yn iach,  
 At lid bwyll, wr tlawd bellach !  
 Heb arian mewn llan a llu,  
 Heb drwsiad, heb wtresu,  
 Heb farch, heb barch, a heb ben,  
 O bur lid heb awr lawen !—  
 Fo'm cafodd heb ddim cyfaith,  
 Ond yr awen lawen laith !

8

12

O cefais i, cofus waith,  
 Brud gwyn, ei briod ganwaith !  
 Nef a rānodd o'r unwaith,  
 Del ym ged, dāl am y gwaith !      20  
 Curied deddf cariad diddim,  
 Digardd wyf, a'm dug ar ddim !

Na rodded un cun ceinsyth  
 Fryd ar y byd, fradwr, byth,—      24  
 Efron was, os dyry'n wir,  
 Fud ollwng, fe a dwyllir !  
 Hud yw golud, a gelyn  
 Brwydr dost yw, a bradwr dyn :      28  
 Weithiau y daw draw draha,  
 Weithiau yn ddiau ydd â ;  
 Mal trai ar ymylau traeth,  
 Gwedi llanw gwawd a lluniaeth.      32  
 Chwardded mwyalch, wych eurdoeth,  
 Y' nghelli las, cathlas coeth,  
 Nid erdir marlbridd iddi  
 I iraidd had, nid ardd hi ;      36  
 Ac nid oes edn feingoes fach,  
 A'i thruth oll, ei thrythyllach.

Llawen wyf, myn ein Llywydd !  
 Yn llunio gwawd mewn llwyn gwŷdd ;      40  
 Llawenaf, breiniolaf bryd  
 Yw'r bastyniwr, bost anwyd.

Wylaw a wnaf, bruddaf brŷn  
 Em oleu-ddeigr, am loyw-ddyn!  
 Llawen Eiddig a'm lluddia,  
 Cyw dewr du yn cadw'r da;  
 Oedd deg i'r Iuddew dygyn  
 Ddwyn fy nghywaeth, sywaeth syn,  
 A dwyn lloer?—dyna fy lladd!

48

Fy Morfudd liw-rudd loyw-râdd!  
 Gofrwnt y rhoes y gyfraith  
 Da a dyn i'r gelyn gaith,  
 A'm gado, ond tro trymddyn!  
 Heb ddyn, heb dda'n gla' mewn glyn!  
 Wylaw'r ol y wiw-ael rudd  
 Dwfr hallt, a dŷr ei elltydd!  
 Ac ni's gwyr Mair, loyw-air lud,  
 Ym wylo deigr am olud!  
 Am nad oes, dewin-foes deg,  
 Gymröaidd wlad Gymräeg,  
 Hyd na chaffwys, bwyf besfriaith  
 Dirfing wr, da er fy ngwaith;  
 Ac ni chaid, o'i chyhoeddi,  
 Dan emyl haul, dyn mal hi  
 Am fy nghanwyll i'm twyllwyd,—  
 Morfudd, liw goleu-ddydd, Llwyd!

52

56

60

64

## XCIII.

ERFYNIAD I'R HAUL DYWYNU LLES A  
 FFYNIANT AR FORGANWG, AM I WYR  
 Y FRO HONNO RYDDHAU Y BARDD O  
 DAN BWYS CYFRAITH Y BWA BACH AM  
 DDWYN MORFUDD.

**Y**R Haul deg ar fy neges,  
 Rhed ti, cyd bych rhod y tes,  
 O Wynedd, haelfedd hwylfa,  
 I Forganwg dwg dydd da. 4

Tecca planed yn 'hedeg  
 Ar helw Duw, yw'r haul deg;  
 Sul enw, disalw oleuni,  
 Ymdaith faith yw dy daith di! 3  
 O ddwyrein-wybr, hardd-lwybr hin,  
 Gorau lliw, i'r gorllewin.  
 Od ei dan wybren heno,  
 Llen fraisg y gorllewin fro, 12  
 Ymddangos yno, co' certh,  
 Yn entyrch 'wybr cyn anterth.

Llawn o ras i'th cwmpaswyd,  
 Llewychu oddeutu ydd wyd; 16  
 Tra-da Haul, trwydy hoywliw  
 Y cad i'r lleuad ei lliw:—

Rheol

- Rheol gamp 'wybr loyw gwmpas,  
Rhod gron, fawr ei rhad a'i gras ! 20  
Em loywnef, aml oleuni,  
Ymmerodres tês wyt ti !  
Gorau planed a garaf,  
Gwyn dy fyd, ar hyd yr haf ! 24  
Dyfod uwch, lle difai dydd,  
Ben holl Forganwg beunydd;  
Dinag bobl, doniog bybyr,  
O dir Gwent, lle mae da'r gwyr, 28  
Hyd lle y medri hedeg,  
Glyn Nedd, bro têyrnedd teg !  
Erof Haul, araf hoywlen,  
Na âd ar y win-wlad wen— 32  
Na rhylaw rhag peidiaw pynt,  
Na rhew ormod, na rhywynt,  
Na gwenwyn o fygn dygn dig  
Trwy goed, nag eiry trigiedig, 36  
Na chorwynt o bellynt bill,  
Na chrwybr yn nechrau ebrill.  
Arwain di orhoen y dydd  
I bennwn Morganwg beunydd ; 40  
A phrynhawn, lawn oleuni,  
Ymŷl i'm emyl a mi !  
Dull mawr cyfanhedd-lawr cain,  
Dyred eilchwyl i'r dwyrain,— 44  
Dôs ar fy neges, a dwg  
Ganwaith i wlad Forganwg

Dyddiau da gorseddfa ferch,  
O gènyf fi, ag annerch ! 48  
Tro, dy orchymun nid rhaid,  
Cylch eu neuaddau calchaid,  
Plasau teg yw'r pepyls tau,  
Y llennyrch, a'r perllanau ! 52

Hynod ydyw Dduw dy hanes,  
Hebrwng drwy'r 'wybr terydr tes !  
Cadw bob man cyfannedd,  
Coed a maes, lle caid y medd : 56  
Lle gorau llu a gwerin,  
Lle da gwyr, eu llad, a'u gwin,  
Lle daw pob man i'w hannerch,  
Lle dewr mab, lle diwair merch ! 60  
Lle hawdd, ar gyfair llu hoyw,  
Gweled mewn diwrnod gwiw-loyw ;  
Goreu-ferch a'i gwarafyn,  
Gwraig wych yn arwain gra gwyn : 64  
Cornel ar gyfair Cernyw,  
Cyntedd gwin, a medd ym yw.

Rhof henw, gyda rhwyf hinon  
Arlwyau teg, i'r wlad hon, 68  
Ar y gair, o wir gariad,  
*Iarlles, Arglwyddes* pob gwlad.  
Pe bai ar gred, pybyr gri,  
Na bai rydd i neb roddi,

Ni fedrai, fwnai fynag,  
 Neb o Morganwg roi nag;  
 Pe caeth i fardd bywiog cân  
 Y byd oll, a bôd allan,  
 Ef a gai, heb ofwy gwg,  
 Ei gynwys ym Morganwg!

76

## XCIV.

## I EIDDIG A DÒRODD LWYN COED.

**Y**Ddyn fwyn, addwyn faenawl,  
 Addewis ym ddwyoes hawl;  
 Gwaith gorwyfsg gwae a' th garawdd,  
 Gwayw i' th wr, onid gwaith hawdd!

4

Nid oes un man gan y gwr,  
 Os byw, na bo ysbîwr:  
 Mae weithian f'anian yn fwy,  
 Y mae f'ofn yma'n fwyfwy!

8

Ydd oedd i'r neb a ddyddiai,  
 Llwyn o goed, mwyn gangau mai:  
 Llas y clôs lluosawg glân,—  
 Lladdfa Caer Droia, druan!  
 Dau a fu a dwy fwyall,  
 Yn y coed, nid oedd un call:—  
 Angau a ddel i'r eangwyr,  
 Eiddig a'i was oedd y gwyr.

12

N 4

Glyn

Glyn yn noeth, glân, a wnaethant,  
 Gelynion ynt glan y nant,  
 Y lleidr dan gynnal lledwg  
 I'w lladd yr oedd a llaw ddrwg.—

20

Bywyd oer a fo i'r bawai !  
 Beunydd ar y dydd nid ai,

O daw tynfarch du tanfoll  
 Dan was drwg yw dinysfr oll.

24

Chwerwedd am ddyn wych eirian,  
 Chwannog yw'r taeog i'r tân.  
 Och weled lle fiomed ferch,  
 Y llwyn ar ael y llannerch !

28

Llawn bonion, llwyn heb unoed,  
 Llwybrau'r ceir lle bu'r coed !  
 Bonion ag arwyddion gwraidd,  
 Ac ysgladion gwas gwladaidd,

32

Hyn ydoedd eu hanwydau,  
 Hyll Diawl el a hwy ill dau !

Diryfedd, drwy lechwedd draw,  
 Fod Eiddig heb fedw iddaw :

36

Ni âd Eiddig, nid addas  
 Fod yn ei lwyn fedwen las.—

Ni cheidw barc, na choedwig,  
 Ni chais bren o achos brig !

40

Y dyn, yn enyd unawr  
 A droes y llwyn draws y llawr .

Tóri,—oer weddi iddaw !  
 Fry a chledd, ei fraich, a'i law.— 44  
 Gwayw 'n ei fola, garn filain !  
 O gwna'r haf egino'r rhain.  
 Enbyd waith yw'n byd weithian,  
 A ddaw mwy yno wýdd man ?  
 Pant truan *pantri* o wiail,  
 Na chant ddwyn eu chwant o ddail !  
 Llei cai fardd goris gardd gyll  
 A'i lateion le tywyll ? 52  
 A'r goedwig rhag ei gadaw  
 Yn noethdir oll a wnaeth draw.  
 Y mae modd os adroddaf  
 O ddial hyn pan ddel haf ;—  
 Fo wna gwen fwy nag unoed  
 O bwyth i'r earl boethi'r coed!

## XCV.

## YR HEDYDD.

" **O** RIAU hyder yr Hedydd  
 A dry fry o'i dy bob dydd ;  
 Boreuwr byd, berw aur bill,  
 Parth ar 'wybr, porthor ebrill.  
 Lle rhadlawn, llywiwr odlau,  
 Llwybr-chweg, llafur teg yw'r tau ; 4  
 Llunio cerdd uwchben llwyn cyll,  
 Lledneisgamp llwydion esgyll !

Bryd

Bryd y sydd gènyd, swydd gu,  
**A** brig iaith i bregethu ;  
**B**raisgc dòn uwch ffynnon y ffydd,  
**B**reiniau dwfn gar bron Dofydd,  
**F**ry yr ai, iawngai angerdd,  
**A**c sry y ceny bob cerdd !”

“ Fy llwytt-teg edn, fy llatai,  
**A**’m brawd awdurdawd, od ai 16  
**A**nnerch gènyd wiwbryd wedd,  
**L**oyw ei dawn, leuad Wynedd ;  
**A** chais un o’i chusanau,  
**Y**ma i’w ddwyn ym, neu ddau. 20  
**M**ygr swyn gaer magwyr fer,  
**M**aith o chwyldaith uchelder :  
 Dogn achub digon uched  
**Y** dringaist, neu’r geisiaist ged. 24  
**D**ysgawdr mawl rhwng gwawl a gwyll,  
 Disgyn, nawdd Duw ar d’esgyll !  
**M**olad pob mad greadur  
**E**i greawdr, pefr lywiawdr pur ; 28  
**M**oli Duw, mal i dywaid  
**M**il ai clyw, hoff yw na phaid !  
**M**odd awdur ferch mau’dd ydwyd,  
**M**wyn groywllais mewn grà llwyd.— 32  
**C**athl lân a diddan yw’r dau  
 Gethlydd awenydd winau.

- Cantor o *gapel* Celi,  
Coel fydd teg, celfydd wyt ti : 36  
Cyfar faint aml gwyraint gân.  
Coppa llwyd yw'r cap llydan,  
Cyfeiria'r 'wybr cyfarwydd  
Gwyddawl dir gwyndir gwŷdd. 40
- Dyn uch ben a' th argenfydd,  
Dioer, pan fo hwya'r dydd ;  
Pan ddelych i addoli  
(Dawn a' th roes) Duw Un-a-thri, 44  
Nid brig pen, uch ben y byd,  
A' th gynnal, mae iaith gênyd,  
Ond rhadau y deau Dad,  
A'i *fragl* am ei fwriad." 48
- " Dyfri yr wybrfor dyrys  
Dôs draw hyd gerllaw ei llys,  
Gwr iddi syfi a fydd,—  
Bar eiddig un boreuddydd ; 52  
Mae arnad werth cyngerthladd,  
Megys na lefys dy ladd :  
Be rhon' a'i geisio, berw hy,  
Bw! i eiddig, ond byw fyddy. 56
- Mawr yw *fercel* dy berclwyd,  
A bwa llaw mor bell wyd;  
Trawfdir fathr, trist yw'r seuthydd,  
Trwstan yn fy amcan fydd :— 60  
Trwch ei lid, tro uwch ei law,  
Tra el ei hobel heibiaw."

## XCVI.

AFLWYDDIANT Y BARDD AR NOSWAITH  
WLAWIOG YN CARU MORFUDD.

**G**WAE fab fu, gu gwehelyth,  
Hir ei boen yn herwa byth,  
A gwae noswaith i daithiaw  
Fal y cefais dromlais draw,  
Er mwyn bun, fanwallt euraid,  
Nis cwyn yn oerach pe's caid !  
Ydoedd oer ar ros dyddyn,  
Dan barwydydd herwydd hyn : 8  
Os oer bod yn y rhedyn,  
Oerais byth yn aros bun.  
Sefais a thòr ais beth awr,  
Sythais gymaint a feithawr  
Dan wlaw hagr o lawn ddagrau,  
Gyferbyn a'r mwynddyn mau.  
Haerodd ym gael o ddamwain.  
Hardd amnaid ar f'enaid fain ! 16

Yn niwedd anrhymfeddod,  
Fy mun a wybu fy mod  
Yn cwympo campau yssig  
Dan gel nos dawelnos dig :  
Syganai'r ferch, erfai fwyn  
O fwriad, wrth y forwyn  
“ Gresyn oedd fod yn rhodiaw  
Gwas ieuangc gwyd dan glych gwlaw ! ”

Syganwn

12

16

20

Syganwn innau'n druan,  
 Ar gyfair dyn leddfair lân ;—  
 “ Egor y ddor, mewn ydd wyd,  
 Erfyniaf, mawr yw f'anwyd ! ”      28  
 Gair o hud a garai hi,  
 A'r gair a bair egori.—

A mi a Gwen lawenaf,  
 Megis dan wŷdd hirddydd haf,      32  
 Mi glywn i'm tal ofalon,  
 Gwr y ty, gwae gariad hon !  
 Yn erchi, gwae fi er gwall !  
 “ Egorwch un ag arall.”      36  
 Euthum i dan enciliaw,  
 Yn gall, i'r drws arall draw ;  
 Ar hyd erw, ar draws derwgoed  
 Y cyrchais, cerddais i'r coed.      40  
 Ni bum drwstan mewn manddrain,  
 Nid oedd gi, na milgi main  
 A ddaliau, rhwng y ddeulwyn,  
 Y direidwas, meinlas mwyn !      44  
 Trwstan ac enbyd ydyw  
 Tri gelyn ferchogdyn syw !—  
 Dôr, sel gochel ei gwichiad,  
 Clo haiarn cadarn y cad      48  
 Eiddig dan encil cilio,  
 A'r drws gwichiedig ar dro.

## XCVII.

YMDIDDAN RHWNG MORFUDD A'R BARDD  
CYN DYDD.

**S**ONIAIS feinwar am garu,  
Saith mlynedd oferedd fu,  
Hyawdl o ferch ar ferch sum,  
Hyd neithiwyr oed a wneuthum.— 4  
Cefais dál o'm gofalon,  
Yn ol twyll, gan eilw tón;  
Cael cyrredd saith unwedd ferch,  
Gyda hon gwedi hannerch. 8

Cael ymddiddan ychwaneg,  
Cusaru dyn aelddu deg,  
A rhoi 'mraich, baich dibechod,  
Dan ben lloer wen, fal lliw 'r ôd! 12  
Fal 'r oeddem, mi ag E'm gu,  
I'm gwiw-radd, yn ymgaru;  
Soniais yn gall, deall dig,  
Am y dydd,—ammod eiddig, 16  
Yno dywod liw ôd lân,  
“ F'enaid aur fwyn ôd eirian,  
Clywir cyn dydd cethlydd cog,  
Croywgan y gwiwlan geiliog.” 20

“ Beth o daw cyn treiaw dawn  
I'w dy Eiddig wr diddawn?”

“ Dafydd!

[ 191 ]

“ Dafydd ! son am ddaioni,  
O sowaeth drwg yw d’obaith di !”

24

“ Gwen euraid liw gwawn oror,  
Gwelaf ddydd drwy gil y ddör !”

“ Lleuad newydd sydd, a ser  
Au pelydr drwy bob piler.”

25

“ Nage ’ngwen, haul ysblennydd,—  
Yn wir Dduw mae ’n awr o ddydd !”

“ Od wyd anwadal dy daith,  
Dewis ammod—dôs ymaith !”

32

Codais, cilialis rhag coelion,  
Am crys i’m llaw, a braw bron ;  
Rhedais drwy goed a rhedyn,  
Rhag dydd, i fewn glaswydd glyn :  
A’r dydd yn hwy na dwyoes  
O’m blaen o’m hol, ffol i ffloes !

36

XCVIII.

DUCHAN I’R GAUAF A’R CYFFYLOG.—

LUDDDED CARIAD MORFUDD.

A Fu ddim ddamwain breiddsyw,  
Mor elyn i ferchddyn syw,  
A’r gauaf oeraf erioed,  
Hirddu cas, yn hyrddio coed ?

Aruthr

Aruthr ei grwydr rhwng dwydref,  
 Oer o was, tad eiry yw ef !  
 Ni bu un na bae anawdd  
 Ganthaw,—ai hawdd cuddiaw cawdd      8  
 Mewn eiry er fy mwyn aros  
 A rhyn ôd, a rhew y nos ?

Haws oedd mewn castell celli,  
 Ar hafnos, ei haros hi ;      12  
 Gan glywed dignifed tôn  
 Y gog las ddigoeg leision !  
 Anhebig mewn coedwig mai,  
 A'i chyffes, oedd ei choffai      16  
 I rodio tref treigl anhun,  
 Tan fargod to fy eurgun.  
 Pe rhon' dranoeth o noethiad  
 Im' ei chael, ammau o chaid,  
 I dyddyn gwerndy diddos ;      20  
 Ofn a oedd y ngauaf-nos,  
 Na ddigonai chwai chwedl-chweg,  
 Engyn ar y dynyn deg.—      24

Cyfwrdd ddydd gwaith a wneuthum  
 Yn ddieithr, dan berth i bum  
 Efo 'r ferch a annerchais,  
 Orau ffydd oedd oer ei phais.—      28  
 Glân ymddidan ydd oeddem,  
 Glud gwyn, mi a gloywdeg Em ;

Gwnaeth

- Gwiaeth fraw, frych leidr anghyfrwys,  
A dychryn i'm gloywddyn glwys : 32  
Coel gylfinberf, gofer-fwyd,  
Y Cyffylog llidiog llwyd,  
Edn brych dilewych o liw  
O adar gauaf ydiw ! 36  
Modd y gwnaeth, nid maeth fy myd,  
Wrth hen bagl wrthban bawglyd.  
Cychwyn yn braff ei drafferth,  
Adain bôl, oddi dan berth, 40  
A neiddio hyd pan ydoedd  
Mewn perth ddu, nid o'm porth oedd !  
Gan faint trwst-grwydr ar lwyd-rew  
Dwy ffilog y taeog tew :— 44  
Tygesym dwyn deugwyn dig,  
Trifft oeddym mae trwst Eiddig !  
Golesg frys, rhwng llys a llwyn,  
Gwyllt-ruthr peisfrych gwaelldrwyn. 48
- Treiddia'n ffrom wrth domawg,  
Trwyddew tail a rhew y rhawg :  
Gwladaidd ei chwedl hocedlaes,  
A mul mewn buarth dail maes. 52  
Ni wyr yn llon ar fron fry  
Na llais aml, na lles ymy,  
Na cherddau i wych ordderch,  
Drwy nen y llwyn, er mwyn merch,

Ond arwain, durwaith feinffrom,  
Y bêr du a bawr y dom.

Yr edn brych a'r adain brudd,

Lidiwr a'i fagl galedrudd,

60

Y caffo, tro treigl gochfrych,

Boldawd brath mab alltud brych:

Ai caffo ar abod ceffyl,

Liw llyffant, mewn ceunant cul.

64

## XCIX.

DYMUNIAD O FODDI Y BWA BACH, A OEDD YN  
MYNED YN RHYW SWYDDOG GYDA RHYS  
WGAN I FFRAINGE A 300. O WYR GANTHO  
TAN EDW. III.

**E**F aeth heddiw yn ddiwael,  
Gyda Rhys i gadw'r hael,  
O frodyr ffydd Morfudd fraeth,  
A cheraint, mae awch hiraeth,  
I mi! ffrom ymmwrdd a Ffrangc  
O'r deau Mair ai diangc!  
Brehyrion weilch, beilch bylchgrwydr,  
Breiniolion brodorion brwydr.

4

8

Adre' y don', aeth o honyn?  
Gyda Duw, i gyd ond un.

“ Mab Gwgan, mae byggeyr  
Gyda chwi, o gedwch wyr,

Yn

Yn elyn di-anwylyd  
I fardd bun, ac i feirdd byd!"

" Un llygad, cymniad cawdd,  
Ac un clust yw a'r ganclawdd,  
A chorn celwydd-dwyll. pwyll pwl,  
A chosbwr bun a'i cheisbwl!"

16

" Pa fawl gwaith, rhag trymfaith trwch,  
Y ffoais gynt, coffewch, 20  
Rhagddaw'r cawall ysgaw cau,  
A'i dylwyth, fal medelau.  
Bid iddaw yn ei law lwyth  
O faw diawl, ef, a'i dylwyth !

24

" Od â a'i enaid, baid banw,  
I'r lwydlong wylt erlid-lanw  
Llonydd ni hir-gydfydd hi,  
Llun ei hwyl yn llawn heli : 28  
Gwifg ei phen fo'r ffirwd wen wawl,  
Gwasgwynes y waifg ganawl.  
Ni cherdda, ni hwylia hi  
Trychanddy n a'r trwch ynddi.—

32

Gwthier ef, a'i gwthr afangc,  
Dros y bwrdd ar draws y bangc.  
Y dòn hael, adain heli,  
Y tâl a ddylwn i ti.

36

Seithffrwd aig tramwy-wraig trai,  
Saig naw-ton a'i sughn attai :

O dòn i dòn, edn fugyndraeth,  
 Od à i Ffraingc y Du ffraeth;  
 Y sawl angheu-fagl y fydd,—  
 Hwynyn fo ei ddihenydd !”

40

“ Meddyliwch, graff braff broffes,  
 Am ei ladd,—gwnewch imi les :  
 Ac na edwch y cwch cau  
 I’m deol am Em y deau !”

44

“ Tithau albrysiwr tuthia,  
 Tafledydd defnyddwydd da,—  
 Brath y lleidr drwy ei neidrwydd, ~~temples~~  
 Beth ddawr ei ladd byth, gwr gwydd !  
 Trywana, na fetha frath,  
 Traidd o’r albras trwyddo ’r eilbrath :  
 Adnebydd seuthydd syth-arf  
 Sythion flew-seinion ei farf ;  
 A thafl o’r pren gwarthafl-fyr  
 Y saeth bythorud ys hyr.”

48

52

56

Diddan i’m ei drigian draw,—  
 Deuddeg anhawddfyd iddaw !  
 Diddestl fardd ffannugl grug-lwyn,  
 Dydd a fu nid oedd ef fwyn.  
 Diddig fydd bardd hardd o hyn,  
 Diddêl adref i’w dyddyn !  
 Y nos y dof nes i’w dy,  
 Ca’ weled ei gywely.

60

Cyd achwyn fi a'r fwyn-ferch,  
Iechyd in', a chyd annerch !

Cyd adde', cyd weddio  
O'i ol fyth na's del y fo.—

68

Ffrwyn Eiddig clöedig clod,  
Ffriw.ddifwyn o phraw ddyfod,—  
Wrth Wynn esgar, lafar lef,  
Y du leidr, y del adref!

72

## C.

## CAS EIDDIG I'R GOG.

**C**ERAIS ferch yn dra ferchog,  
Cariad wrth ganiad y gog ;  
Curiais dan fanddail caerog,  
Cerais gael cares y gog.

4

Gwr sydd iddi gorseddog,  
Gliniau gwydd, gelyn y gog !  
Diriaid yw a daueiriog,  
Digri' ganddo guro'r gog.

8

Rhag ofn ei drwyn myswynog,  
Digiodd ac wylodd y gog :  
Digrif mewn haf cynha fog  
Ddilio gwr am ddal y gog ;  
A chwÿnu bedw yn chwà nog,  
Mân ei gwallt er mwyn y gog.  
Y gwr sy'n anrhŷgarog,  
Yn bwgwt hroi gwth i'r gog,

12

O 3

Ac

Ac ni ád y gwan oediog  
 Gadair gwýdd i gadw'r gog.  
 Y bedw mae'n yn dra bidio,  
 Briwo y gwýdd a'u bwrw i'r gog : 20  
 A Gwen heb ddysg, nag annog,  
 Sy'n arail gwiall y gog.  
 Haf a ddaw na bo gwallawog,  
 Hir yw'r gwr, herwr y gog : 24  
 Od eir i wýdd cadeiriog  
 I ymlid na chegid, na chog ;—  
 Cred riain, cariad rywiog,  
 Sydd i'm llaw ar guddiaw'r gog ! 82

---

## CI.

X GRAWYS—TYMOR I YMWRTHOD A  
 MORFUDD.

**Y** Dydd o wynfyd Eiddig  
 Er doe a ddaeth, ordwy ddig!  
 Dydd a'i bwys mal diwedd byd  
 Ar awenydd yw'r ynyd ! 4  
 Dechreuad ffordd baradwys,  
 I dýnu pawb dan eu pwys:  
 Deugain nieu maddeuant  
 Y sydd i weddio saint.—  
 Och f' arglywydd ! cyd a blwyddyn  
 Y rhoed pob dwyawr o hyn ! 8

Hir

- Hir oedd ym, herwa ydd wyf,  
Dridiau 'n y byd yr ydwyf : 12  
Crefyddol aner o Rufain  
Ydyw'r mab dan wydr a main.
- Cywir wyf yn y crefydd,—  
Cywir yw bun, caru y bydd. 16  
Gan roi fal y Gwener yn  
Grawys-gwaith i'm goresgyn !  
Yn iach fy rhiaint fainwasg,  
Dillyn pawb, hyd Ddyllun Pasg ! 20  
Ni charaf, nid af o dy  
Etto unnos hyd hynny ;—  
Ni archaf gusan, f'anwyl,  
Mwy no dim i'm enaid wyl: 24  
Gwae fi aros y gyfraith  
Hon yn fud, a hyn yn faith !  
Nad ammod yn ei *damagf*  
Dalu'r pwyth hyd wyliau'r Pasg : 28  
Pan ddel y Pasg a'r glasgoed,  
Bun a ddaw beunydd i oed.—  
Yno y daw imi y dydd  
A'i lonaid o lawenydd ! 32  
A mai, a haf, mi a hon,  
A chogau fal merch Wgon :  
Ag ar *yfryd* o gyrs drain  
*Siaf* lawndeg fal *siep* Lundain,

A phob bedwlwyn mwyn manwallt,  
A phais werdd yn niffwys allt.—  
'Wybr eglur. a mor briglas,  
A llen gel yn y llwyn glas; 40  
A lle anial, a llannerch,  
A changen feinwen o ferch,  
A gorphen cwbl o'm penyd,  
A threio bâr, a throi byd,  
A rho fy melldith yr hawg 44  
Ar y gwanwyn oer gwnawg !

---

## CII.

## AMNAIAD AR FORFUDD.

**F**AL yr oeddwn ymannon,  
Druan iawn, ar draian nos,  
Yn rhodio, rhy-daer ddisgwyl,  
Rhy-addwyn oedd, rhyw ddyn wyl, 4  
Ger llys Eiddig a'i briod,—  
Gwaedd i'm ol pe gwyddai 'mod.  
Edrychais, drychaf drymfryd,  
Tew gaer galch y ty i gyd, 8  
Cannwyf drwy ffenesir wydrlen,  
Gwynfyd gwyr, oedd ganfod Gwen !  
Llyna ganfod am ystryw  
Yr un fun, orau yn fyw ! 12  
Llariaidd yw llun bun benwyr,  
A'i lliw fal Bronwen ferch Llyr;

- Nid oedd lun dydd oleuni,  
Na haul 'wybr loywach na hi ! 16  
Mawr yw *mir agl* ei gwynbryd,  
Mor deg yw rhag dyn byw'r byd !  
Mŷnais gyfarch gwell iddi,—  
Modd hawdd, i'm hattebawdd hi. 20
- Deuthum hyd am y terfyn,  
Ein dau, ni wybu un dyn,  
Ni bu rhyngom uwch trigair,  
O bu, ni wybu neb air. 24  
Ni cheisiais wall ar f'anrhaith,  
Pe ceisiwn ni chawswn chwaith.—
- Dwy uchenaid a roesom,  
A dòrai rhwym dur y rh'om ! 28  
Ar hynny cenais yn iach,  
Feinir, ni bu neb fwynach !  
Un peth a wnaf yn fy myw,—  
Peidio dywedyd pwy ydyw. 32

## CIII.

I'R BRAWD LLWYD AM GEISIO GAN FORFUDD  
FOD YN LLEIAN.

**R**HOED Duw hoedl a rhod hydlawd,  
Rhinllaes fran, i'r rhawnllaes frawd !  
A'th geblynt ni haeddynt hedd,  
Y Brawd o gyfgawd gofgedd !

Ner

- Ner a rifer o Rufain,  
 Noeth droed, unwallt nyth drain;  
 Rhwyd yw'r bais yn rhodio'r byd,  
 Rhyw drawfben,—rhad yr ysbryd! 8
- Periglor gwirddor geirddoeth,  
 Barcutan, da i can,—Duw coeth!  
 Mawr *farter* ei gartref,  
 Myharen o nen y nef. 12
- Hyawdl o'i ben gymhenair,  
 Hoedl o'i fin, hudol i Fair.—  
 Ef a ddywawd wawd wydnbwyl  
 Amliw'r dydd, aml yw'r dwyll, 16
- “Cymmer dy hun, ben cun cant,  
 Grusan rhawn, ambr, a grisiant.  
 Gwisg, na ddiosg wyth noswaith,  
 Gwasgawd mwythus lyfrgnawd maith.” 20
- Dirdra felly od *ordri*,  
 Duach fydd, a dwy och fi!  
 Foel llwyd ddeheuwawd frawd-ddyn,  
 Felly'r brawd du am bryd Dyn! 24
- Ni pheidiwn, pe byddwn Bâb  
 A Morfudd, tra fum oerfab.
- Weithion cyhuddion cawdd,  
 Y Creawdr ai hacrawawdd,  
 Hyd nad oes, o iawnfoes iach,  
 Un lyweth las anloywach! 28
- Nid

Nid a fal aur da liw'r dyn,  
Brad arlw y ar bryd erlyn : 32  
Brenhines bro anhunedd,  
Brad o gwyn o bryd a gwedd !  
Braifg oedd un anun einioes,  
Breuddwyd yw ebrwydded oes ! 36  
Ysgybell ar briddell brag,  
Ysgawen lwydwen ledwag,  
Hudolaidd yr adeiliwyd  
Ladrones hudoles lwyd , 40  
Hen llach magnel Gwyddeleg  
Hafod oer,—hi a fu deg !

## CIV.

I'R LLEUAD.

PWYN TIAU afrwydd drwy'r flwyddyn,  
A roes Duw i ruso dyn ;  
Nid eiddo ferchog diddim,  
Nos yn rhydd, na dydd na dim ! 4

Ni lefys dyn hacl ufydd,  
Na brawd lwybro yn y dydd,  
Neud gwedi gwydn o gyfudd,  
Nid nes lles, nid nod ai lludd ! 8  
Na bydd mawr gwynebydd mau,  
Na fal tra fo nos olau ;

Neud

Neud ofer brig llawer llwyn,  
 Neud wyl glaf am deg loyw fwyn ! 12  
 Gwn ddisgwyl dan gaing ddwygoed,  
 Gwae fy nhrem ag ofn fy nhroed !

Nid oedd ddim gwaeth rhygaeth rheg  
 I leidr na nos oleudeg : 16  
 Gwaeth no'r haul yw'r oleuloer  
 Gwaeth lle'r oedd, mawr oedd mor oer  
 Blin yw ar bob blaen-newydd,  
 Blodeuyn o dywyn dydd, 20  
 Gweniaith rwydd, gwae ni o thrig,  
 Gwae leidr a so gweledig !  
 Ei threfn fydd bob bythefnos,  
 Ei thref dan y nef yw nos. 24  
 I ddwyn i chwrs oddiyma,  
 Myfyr wyl, mwyfwy yr â  
 Hon, oni fo dau hanner  
 Huan o seirian y fer ! 28  
 Hyrddai lanw, hardd oleuni !  
 Haul yr ellyllon yw hi :  
 Rhyleidr hyfer gwarafun,  
 Rhyloyw un ger hyloyw fun ! 32  
 Eiddig dawel o'i wely  
 Wrth bryd llwyr fryd y lloer fry,  
 I'n gwâl dan y gwial da  
 A'n gwyl o'i emyl yma !

- Hyborth i'm gwr yw'r flwring,  
Rhyngthi a'r nef, dref y dring.  
Rhywel yspardun rhewynt,  
Rhry Gron yw hon ar ei hynt. 40  
Plwyfogaeth seroliaeth sant,  
Planed pob blaen y tyfiant:  
Rhwyfstr serchog, anfoddog fydd  
Rhyw wegil torth rhewogydd. 44  
Rhy uchel yw ei gwely,  
Rhan Dduw fraisg ar hindda fry!  
Cenyw lle bwyf, canwyll byd,  
*Cufert*, o'r 'wybr y cyfyd. 48  
Cyflun ddelw gogr cyflawneddelt,  
Cynnefin ei min a mellt.  
Cerddedwraig llwybr dan wybr-nen,  
Càrai o fodd cwr y fen: 52  
Cyfled ei chae a daear,  
Cyfliw gwersyllt gwyllyt a gwâr.  
Camp mesur lamp maes ferloyw,  
Cwmpas yr wybren las-loyw. 56  
Dydd heb haul, dyddiau Polart,  
Dig fu i'm gyru o'm gwart.  
Disgleirbryd, dwys eglurbrim,  
Da oedd in', pei deuau ddim! 60  
Tra fo nos loyw ddiddos lân  
Tywyllid Tad Duw allan,

Er anfon llateion taer,  
Difyr chwedl, i dy f'eurchwaer, 64  
Rhywyr teg oedd i'r rhewydd,  
Rho Duw yn olau rhoi dydd,  
A rhoi nos yn y rhan oedd,  
Yn dywyll i ni 'n deuoedd ! 68

---

## CV.

## CYFFELYBIAD RHWNG MORFUDD A'R DELYN.

**C**AEAU filldarènau serch  
Er gwawd y tafawd hoywferch,  
A'r aur gwn dy ddiheuraw,  
I'th lys a roddais i'th law. 4  
A nyn wych loyw un a chlwysf,  
A daigr nych-drem edegr-nwyf,  
Fy ngelynion holion hy  
Fedel aml fu dâl ymy.— 8  
Yn iarlles eiry un orlliw,  
A welwn, gwedd memrwn gwiw !  
Yn Herlod fâlw i'm galwud,  
I'm gwydd drwy waradwŷdd drud, 12  
A gwe deg, liw gawad ôd,  
A firig a rois erod :  
Ni roit ti eroi faint  
Y mymryn, gwenddyn gwyndaint ! 16  
Gwaywwyr serch gwaeth no gwyr faint,  
A gefais drwy ddigofaint !

Gwiw-ddyn

Gwiw-ddyn wyd, gwaeddan ydwyt,  
Gwaethwaeth newidwriaeth nwyf !

20

Gýraist fi, yr un gerynt,  
Gwaeddan am ei gapan gynt,  
O hyd a rhyw symud rhus,  
A lledrith yn dwyllodrus.

24

O ddyad twyll ydd wyt ti,  
Anfoes aml, yn fy siomi !  
Dyn ganaid doniog anwyd,  
Ddifai dwyll, o Ddyfed wyd ;

28

Nid dim ysgol hudoliaeth,  
Na gwarau twyll, cymmwyll caeth,  
Na ~~hud~~ Menw na hoed mynuch  
Na brad ar wyr, na brwydr wych,

32

Eithr afael wyth arofun,  
Diau hud o'th air dy hun !  
Tri milwr gynt, trem olud,  
A wyddyn' cyn no hyn hud ;

36

Cad brofiad ceidw brif enw,  
Cyntaf, addswynaf, oedd Fenw,  
Ar ail fydd dydd da ddeall,  
Eiddilic Cðr, Wyddel call ;

40

Trydydd oedd ger muroedd Mon,  
Maeth, rhwy' arfaeth rhi Arfon.

Cerddais a'r holl bencerddiaeth,  
Cyfnod gwyll cyfnewid gaeth :

Anaml y cedwi unoed,  
Ail rhyfel llwyd, fab cel coed.

Da dyly gwen gymhendwyll  
Delyn ariant, tant y twyll !  
Henw it' fydd tra fo dydd dyn—  
Hudoles yr hoyw delyn.  
Enwog i'th wnair, gair gyrrdbwyll,  
Armes, telynores twyll.

Y delyn ai adeilwyd  
O radd nwyf,—aur o ddyn wyd :  
Li llorf a'm pair yn llwyr farw,  
O hud gwir ai o hoed garw ;  
A'i chwr y sydd, nid gwýdd gwyllyt,  
O ffurf gelfyddyd fferyllt.  
Mae arni nadd o radd rus,  
Ac ysgorth celi, ac esgus :  
Twyll ebillion sy'i honno,

A thruth, a gweniaith, a thro !  
Wi ! o'r wengerdd, wawr wingoeth,  
A fedri di, fydr doeth !

Trech yw meddir, crefft hir hud,  
Liw gwylan befr, no golud !  
Deulafn o aur a dalant,  
Y dwylaw tau yn dal y tant.

Cymmer frad nifer bryd Nyf,  
Ganwyll gwlad Gamber gényf,  
Law-rydd ffawd lariaidd ei pharch,  
Lc'r wyl gényf, liw'r alarch !

48

52

56

60

64

68

## CVI.

I'R WYDD.

**F**AL yr oeddwn gynt noswaith,  
Gwiw fu'r dyn, gwaes fi o'r daith!—

Gwedi dyfod yn grwydr-ball

Yn lle 'dd oedd gwen gymmen gall,

4

“ A'i hir genyd, i'r ydwyd

Un ddioddefgar, ferchog wyd!

Fy aur! gwyddost mae rhy-hir,

Am baham na bai yn hir?”

8

Nycha y clywn wr traglew

Yn bwrw carwnaid, llygaid llew!

Yn dwyn lluchynt i'm ymlid,

Yn greulawn ac yn llawn llid,

12

O ddig am ei wraig ddisglair,

Un dewr cryf, myn dyn a'r crair!

Rhwygais y coedydd rhagddaw,

Du ing lid, diengais o'i law:

16

Hŷr i'w felen yspardun

A rof fi heno fy hun;

Arfau drwg i ddigoni,

Yw'r cywyddau sydd dau di.

20

Ciliais i 'stafell gell gau,

Ag addurn oedd i'r gwyddau;

Meddwn i o'm ystafell,

“ Ni bu rhag gofal wâl well.”—

- Codes hen famwydd drwynbant,  
A'i phlu oedd gysgod i'w phlant,  
Datod mantell i'm deutu,  
Dialaeth y fammaeth fu. 28
- A'm dilyd o'r wydd lud lai,  
A'm dinistr a'm bwrw danai.  
  
Carodd, drwg iawn i'm cyweiriwyd,  
Cu aran balf ludan lwyd. 32
- Meddai fy chwaer im' dranoeth,  
Meinir deg, a'i mwyn air doeth,  
“ Seithwaeth genthi na'n cyflwr  
Ni'n dau, ag na geiriau'r gwr, 36
- Gweled hen famwydd blwydd blu,  
Gogan wddw goeg, i'm maeddu.”  
Pe talai'r wydd arglyddiaeth  
Gwyr Caer, a'u gwareuau caeth, 40
- Gwnawn i'r famwydd, dramgwydd dro,  
Rhybyddied rhai ai beiddio.—  
Ammarch i'w chorpwys nawmlwydd !  
Am ei hwyl, i'r wyl yr Wydd ! 44

## CVII.

MAWL I'R FRAN.

“ **Y** Fran dreigl ymwan draw,  
Elfingorn, ddiwyl fangaw ;  
Dwy-goes gadr, digwsg ydwyd,  
Da ci modd, edn du ym wyd.—

Dra fych ar bren gwyrènig,  
 Fry yn eithafon ei frig,  
 Wedi cael, afael ufydd,  
 Gwâl o'r dail, da gweli'r dydd."

8

" Ni'm caiff eiddig, ddig ddeu-gwyn,  
 Ynghyd a gwyn y myd mwyn;  
 Trwsia hyder traws'hedeg,  
 Tra fych di, trofa wych deg ;

12

Pan fych y'ng hoed bedw'n lledwýdd,  
 Y fran, yn darogan dydd,  
 Prophwydes, abades bur  
 Clog werthiog ceiliog Arthur,

16

Cwyn i's deml, cenaist ymy  
 Cyn y dydd rhag cwyn o dy:  
 Ag erchi, drwy naw gorchesf,  
 Ffo oddiwrth f'eurddyn yn ffest."

20

" Nawdd Fair arnad i'th adu  
 I'th blas, cywir wyd i'th blu !  
 Rhag brwydr, rhag ynni llwydrew,  
 Rhag llam coesud, rhag glud glew,  
 Rhag maglo linyn tragloyw,  
 Yrhawg am yr esgair hoyw ;  
 Rhag pell affaith pwyll offol,  
 Rhag pen bollt bedwarollt bol,  
 Rhag gwenwyn ewybr grwybr-bleth,  
 Rhag pwyo pen, i'hag pob peth !

24

28

Ni cheisit pan fynit fudd,  
 Goeg na chel, gig na choludd;  
 Haws gènyd wy naws gynnydd,  
 Ar dasg bob amser o'r dydd,  
 Rifo gwenith cyn rhithiaw,  
 I drais oddiar y cae draw."

36

## CVIII.

## TRI PHORTHOR EIDDIG.

**T**RI phorthor dygyfor dig,  
 Trafferth oedd, tri phorth Eiddig:  
 Trefnwyd hwynt i'm tra-ofni,  
 Trwch fym gyfarfod a'r tri.—

4

Cyntaf, i blas dygnwas dig,  
 Pyrth a'i rodd, porthor Eiddig,  
 Cî glew, llafarlew llwfrlud,  
 Cawn ddrwg sen, cynddeiriawg sud.

8

A'r ail porthor yw'r ddôr ddig,  
 Wae eichodwr, wichiedig.

Trydydd, gwn beunydd benyd  
 Am lludd i gael budd o'r byd,  
 Gwrach heinus ddolurus ddig,  
 Dda i'w dydd, ddiwyd Eiddig:

12

Pe

- Pe cyd y nos, pe caid nef,  
A dengawr, wrach ddidangnaf, 16  
Un awr mewn gwâl chweiniai chwyrn  
Ni chwsg, am nad iach esgyrn;  
Ceinach nychlyd yn cwynaw  
Ei chlun, (ddrwg ei llun !) a'i llaw, 20  
A dolur o'i dau elin,  
A'i phalfaïs yn glais, a'i glin !
- Deuthum echnos, du nos dig,  
Afrwyddwr, i fro Eiddig ; 24  
Carchar bardd, a mi'n cyrchu  
Yn ddigyngor y ddôr ddu,  
O radd da ruddiau, dioer !  
Ym weled ag Em wiwloer, 28  
Neidiodd mŷnodd fy nodi  
Ci coch o dwlc moch i mi,  
Rhoes hêr ym yn dra farug,  
Rhoes frath llawn yn rhawn yr hug, 32  
Cynhiewawdd, caer gawdd, ci'r gwr,  
Cabl am sum, cwbl o'm simwr:  
Gwthiais y ddor, gogor gawg,  
Dderw, hi aeth yn gynddeiriawg ! 36  
Gwaeddodd, fal siared gwyddau,  
Och ym ! o beiddiais ei chau.  
Cael awen wrid, clywn y wrach,  
Coelfain oedd waeth mewn cilfach, 40

Yn teuru, penyd dyrys,  
 Wrth wr y ty, fry ar frys,  
 " Mae'r drom-ddor yn egori,  
 " Mae'n fawr, braich cawr, broch y ci!"

Neidaias yn fwrth i'm gwrthol  
 I'r drws, a'r ci mws i'm ol.

Rhedais, ni hir sefais i

Gan y mur,—gwn ym oeri, 48  
 Oddiar y gaer loyw-glaer lân

I ymarail, em eirian.—

Seuthais drwy'r mur gur gywrain,  
 Saethau ferch at y ferch fain ;—

Seuthodd o'i gloyw-fron glau  
 Serch ymannerch i minnau.

Digrif oeddym o sym ferch,  
 A meinir yn ymannerch,

Cwynais mynegais fy nig,  
 Du-oer oedd gar dôr Eiddig.

Bid y gwr oll ar golli  
 Ei wrych gawr, ei wrach a'i gi,

Cyd gallo'r wrach, cyd golli  
 A'r ddôr islaw'r côr, a'rci.—

Fy lluddiais, glud addas glyn,  
 A'i dai, Eiddig, a'i dyddyn.

Rhwydd y mae Duw yn rhoddi  
 Coed briglaes, a maes i mi !

48

52

56

60

64

## CIX.

YMDDIDDANION SERCH RHWNG Y BARDD  
A MORFUDD.

“ MORFUDD weddaidd anghywir,  
Gofwy gwawd, gwae fi ! a'i gwir,  
Etto o nwyf iti, fy nyn,  
Difrodi dy wir frawdyn ? 4  
Yr hwn a wn o'i ynni  
Nith Eigr deg, ni'th ddigar di !  
A gadael i gael galar,  
O'th gof y truan a'th gár, 8  
O serch ar ormodd i son  
Neu yn hydr a'i anudon ?”

“ Yn wir tyngai ni weryd  
Dy ddigaru, ni bu i'm bryd,  
Myn y gwr (mewn cyflwr cawdd straitened  
Ddafydd) a ddioddefawdd ! 12  
Mwy carwn ôl mewn dolgoed,  
Dibrin drin, dy ebrwydd droed, 16  
Na'm godlawd wr priawd prudd,  
Ne a ddeiryd ei ddeurudd.—  
Dydi yw'r dyn, du dewr doeth,  
A'm gwr yw'r anwr annoeth ; 20  
Dydi yw'r corph am gorphen,  
Yntau yw'r cysgod hynod hen !

Y fo yw'r briddell, ddichell ddu,  
Dithau 'm henaid canaid cu !

24

Fy mugail yw, magail arw,  
Dithau ym llaw doeth o'm llw,  
Coelia dan goed a ddodais,  
Nag ammau y geiriau ar gais.”

28

“ Dygaisf des a gwres i'm grudd,  
Dyn fawr-falch,—da iawn Forfudd !

Fy mendith ym mhob rhith i'th ran,  
Am dy addaw mwyn diddan !

32

Ef a ddaw byd, bryd brydu,  
Ar wr dig wedi'r eiry du ;

Cân yn iach i'th goegfachwr,

Na chydfydd i'th ddydd a'th wr :

36

Na phar i Eiddig, ddig ddu,

Llawn och, mor llawenychu,

Na chaffwy' dda oddi fry,

O cheid modd o chydmyddy !”

40

## CX.

Y CEILIOG DU YN LLATAI AT FORFUDD.

“ **G**YDAG ieir cei dy garu,  
Y ceiliog dewr a'r clog du :  
Cwrel-ael yn caroli,  
Cyfliw bais fal cofl y bi.  
Cydwr fry coed ieir y fron,  
Cwbl o ammod, cyw blowmon ;

4

Castellwr

- Castellwr, diddanwr dyn,  
Casulwyrdd edn cefeilwyn. 8  
Ysgutyll yn cynnull cad,  
Esgyd 'wybr, ysgod abad.  
Ysgwl du ym mlaen osgl dâr  
Esgoblyn mewn ysgablar. 12  
Delw eglwysfwr dail gleision,  
Delw'r brawd, bregethwr bron.  
Dy lisrai o'r mwrai main,  
Dy lawes o dew liain; 16  
Dwbled yt o blu y dòn,  
Dwyael dy fentyll duon.  
Crefyddwraig yt a wisgwyd,  
Crefydd ferch, crefyddwas wyd: 20  
Ni mŷnyd, ben ymwanwr,  
Bwyd y dydd, ond bedw a dwr:  
Bwyd o frig coed bedw y fron;  
Bwyd ieir mewn bedw irion. 24  
Dy waith fydd dwywaith bob dydd,  
Er eu mwyn, ieir y mynydd,  
Yn ael coed cynnal cadoedd  
A rhif gwyr tra rhyfig oedd!" 28
- "Gwyddost gyfran ar lannerch,  
Holl gampau mesurau ferch.—  
Beiddiwr aer, bydd yr awron  
Latai ym at eiliw tòn; 32  
Cyfeiria accw yforu,  
Y dwyrain deg, aderyn du,

- O**n i ddelych i ddolydd  
**A** dyffryn gweddeiddwyn gwŷdd; 36  
**A** phrif afon, fferf fwyfwy,  
**A** ran y ddol wair yn ddwy;  
**A** dail yn lled eilio'n llawn,  
**A** g adar gogyfoediawn. 40  
**D**isgyn edn, dôs gennadwr  
**A**r lwyn dail, ar lan y dwr;  
**G**wyl o'r coed, gwylia wr cain,  
**H**ael dewr, am haul y dwyrain. 44  
**D**egle'n nes, dwg i liw Nyf  
**D**ddeg annerch, oddi gènyf.  
**D**an arwydd ddoc, dawn i'r ddyn!  
**E**rch i ym ei gorchymyn.— 48  
**D**oe yn llan ei charu dan llaw,  
**A**g o beth ei gobeithiaw:  
**D**ywaid i wen ysplennydd,  
**D**eled i oed, deuliw dydd! 52  
**O**s daw, nos da i'w hwyneb,  
**I**fynydd, ni wybydd neb.”

## CXI.

YR HUN FELUS, Y BARDD YN BREUDDWYDIO  
 AM FORFUDD.

**N**OS da i'r fernos dawel,  
 Neithiwyd, mi ai gwyr heb gel;  
**A** channos da'n ychwaneg  
 i'g gwely ai dyl y'n deg.

Yn

Yn ol anhunedd, meddir,  
 Yn hwn y cefais hun hir,  
 Yn gweled fy nyn gulael  
 Drwy fy nghwsg, deryw fy nghael.

8

A'm anwyl gyda minnau,  
 Lle nid oedd ond llai na dau ;  
 Yn elio 'n glyd ael yn glos,  
 A breichiau, heb fawr achos :  
 Gwyn y myd gwen a'm edwyn,  
 Tra fu nos yn troi fy nyn  
 O'r llaw, er dyhuddaw dall  
 Er lliw eiry, i'r llaw arall.—

12

16

O Fair ! ys teg o forwyn,  
 A fu ar fraich faich mor fwyn !  
 Simion wirion a orug  
 Ei Dduw yn ei gof a ddug.

20

Cefais fal y gwr cyfon,  
 Cofl aur deg cyfliw a'r dòn ;  
 F'anwylyd drwy wynfyd draw,  
 Fain Olwen, rhwng fy nwylaw !  
 Os nef a geisiwn ofyn,  
 Fy nef oedd weled fy nyn :  
 Dihirach, afrwyddach fry,  
 Dihuno wedi hynny.  
 A bun wrth fy rhaib innau,  
 Dydd a fu nid oedd fau :

24

28

Nid

Nid oedd oer ond a dderyw,  
Ni chyfawn tra fyddwn fyw. 32  
 Rhoddwyd ym, rhywdda' damwain,  
 Hun euraid am f'enaid fain :  
 Hun o nef fry, henwaf radd,  
 Hun o'm hoedl, honno 'm hadladd. 36

O Dduw ! er nad oedd ddeuddyn,  
 A gaf yr hawg gyfryw hun ?  
 Ni bu mewn gwely, dyn bach  
 Fal *esai*, hun felysach ! 40  
 Hun Bawl abostawl oedd bér,  
 Hon oedd bérach o'r hanner :  
 Hun y seithwyr yn hunog,  
 Hun Melwas dan y glas glog ! 44  
 Ni chae wr, nych a wared,  
 Hun bach ddigrifach o gred !  
 Hun Ieuan yn F'amcan fu,  
 Ban roes i ben ar Jesu ! 48  
 Rhystud sant, rhyw ystod ferch,  
 A'i elinedd ar lannerch,  
 A'i ben ar Ddwynwen enyd,  
 Huno bu'n hwya'n y byd.— 52  
 Tristeais lle i'm traïs d'hun,  
 'Trist wyf na bai hwy fy hun !

## CXII.

Y DEILDY.

**H**ERBER o ddail gwiall gwiw,  
Hir ddadl o ferch hardd ydiw !

Campus lle cefais gusan,  
Cwmpas is bedwen las lân. 4

Hwn am cudd rhag cyhuddwr,  
Bach anrhaith gydymaith gwr !

A deildy ferch i ferched  
Ar dàl glyn, ir adail gled ; 8

Cerdd ddiddig, car i ddeuddynt,  
Côr adar mewn branar bryn :

Main bebyll, mwyngyll mangoed,  
Hoewnar ai car, heiniar coed. 12

Ar ael maingc hir wiall mai,  
Cuddigl gwyngyll a'm cuddiai.

Hoywddyn yno bum heddiw

Fal ancr dan y gwyrdancr gwiw,  
Yn aros dyn feindlos fwyn,  
Dawn arlwy ferch, dan irlwyn.— 16

Yno'dd oedd, mae yw choddi,

Bach gydymaith maith i mi :

Glwys o edn glas ei adain,  
Ceiliog bronfraith, mwyntiaith main : 20

Blingar

Blingar ar imp ei chwimpin  
 Crechwenfain g'oedd, a'i floedd flin.      24  
 Cadeiriodd lwyn coed eres,  
 Cangau flin tònau flaen tes ;  
 Lle daw'r fun, d'lueiddfun dlos,  
 Lle cain yw, lle càn eos ;      28  
 Hynod yw ei glod gan gler,  
 Hirbarch i hyn o *Herber!*

## CXIII.

DUCHAN I'R GARREG LEFAIN A ATTEBAI Y  
 BARDD YN GALW AR FORFUDD.

**Y**CHYDIG o gerrig geirw  
 Un arfer, widdon oerferw,  
 A'r garreg hen gurog gau,  
 Gyfstones drwsgl gyfstagau !      4  
 Mwy y ddyweid heb beidiaw,  
 Ar ael y glyn ar ol gwlaw,  
 No Myrddin sonfawr mawrddig,  
 Fab Saith Gudyn, y dyn dig !      8

Agos ym ag i'm fiòmi,  
 Yn eryl o'i hymyl hi ;  
 Ac aros merch goris maes,  
 Dan goedlwyn, dinag adlaes.—      12  
 Hy hi i'm ceisio i'n wyl,  
 Minnau yn ceisio em anwyl :

Fal

- Fal y ddau ychen, hen hy,  
Fànog, ba beth y fìny. 23
- Galw bob un ei gilydd,  
I'm gael i gyd da fyd fydd;  
Fi a'r fun, fy aur fenaig,  
Yn gwasgod maen, graen y graig. 24
- Er syn y daeth gyn ifed  
Yr ymddiddan i'm grym gred,—  
Atteb a gwrt heb yn gau,  
Yn ei hiaith, a wnae hithau! 24
- Diliw o'r ferch, delwy'r fain,  
“ Dala ofn rhag dy lefain.  
Ffuanaidd rydd ffo yna,  
A phwy o ddyn ni ffœ'n dda: 25
- Artaith oer, duoer dyblyg  
Ar freunant y creig-nant cryg.—  
Cyrner a fref, fal cornfawr,  
Cyrner foel fal caer ner fawr. 32
- Mae naill y mewn ei hellyll  
Ynddi, hen almari hyll,  
Ai cwn yn y carreg cau,  
Sy'n cogor, a'i fwn cawgau: 36
- Gwaedd hunlle 'n lladd gwydd henllom,  
Goslef gaſt gref dan gift grom.  
Gwiddon groch yn gweiddi'n greg,  
Er gyru ofn o'r garreg.

Llidwawr rif, lled warafun,  
 Lluddiodd fi lle dd'oedd fun ;—  
 O lluddiau dd y wawdd ei was,  
 Meñi iddi am y luddias !

44

## CXIV.

DUCHAN I'R BWA BACH AM DÖRI ELWYNI  
 LLE CYNHALIAI Y BARDD OED A MOR-  
 FUDD—MAWL I'R EOS.

**M**ADOG ab Gruffydd wydd-dær,  
 Medri aur glod, mydrarf glaer ;  
 Cynnydd Mordaf, a Rhydderch,  
 Canwyr a synwyr y ferch. 4  
 Cywirach oeddyd na neb,  
 Cyweirdant y cyweirdeb :  
 Ti a ddaethost at Ddafydd  
 Ab Gwilym, a gwawdrym rudd. 8  
 Ai cof oll o'm cyfeilliach,  
 A'm cwyn am y bedwlwyn bach ?  
 Am aur wyf fi, ei ddiosg  
 Heb ymladd, heb ladd heb losg. 12  
 O Eiddig oerfel iddaw !  
 A'i gaib, wb o'i raib ! a'i raw :  
 Afraid yt ddala trymfryd  
 Am bren, na bedwen o'r byd !

Tra

Tra gatai Dduw y celyn,  
 Ni's llysg ac ni's diysg dyn :  
 Ac er addel o ddryccin  
 Ni bydd llwm, na chrwm, na chrin.      20  
 Di gwynid, dioer, yn llwyr  
 Be darffai yt, byd orffwyr,  
 A ddarfu ym, mau lym lid,  
 Nod mwy osn, neud mau ofid !      24

Nid oedd ym o ddiddanwch,  
 Na dyhuddiant, trachwant trwch !  
 Na cherdd ar fedwen wen wiw,  
 Ond Eos loywdlos lwydliw      28  
 Synia arni os gwely  
 Ystofwraig mydr, gaen hydr hy,  
 Serchog y cân, dan y dail,  
 Salm wiw, îs helm o wial !      32  
 Deolwraig ar fynaig fwyn  
 Daffithlen mewn diffeithlwyn.  
 Cloch aberth y serchogion,  
 Claer chweg, a theg yw ei thôn !      36  
 Bangaw fydd ei hun bengerdd,  
 Ar flaen y wialen werdd :  
 Boreuwraig serch ferch firain,  
 Burddu drem uwch byrddau drain.      40  
 Chwaer Cyhelyn, befrddyn bach,  
 Chwibanogl, chwe buanach !

- Meistres organau Maestran  
Na chant, o'r cildant y cân. 44  
Ni adewais y' Ngwynedd,  
Er pan aeth, ond waethwaeth wedd !  
Lladrones fach llwydroneill,  
Llatai ni weddai un well.— 48  
Poed ar ddor y pibori,  
Amen fyth ! o mŷnaf fi,  
Y doter gynnifer un,  
Ai ditiodd y' Ngheod Eutun. 52  
Yn y fro tra fynno trig,  
Yno deil y nadolig :—  
Bydd serchoccaf lle y bo,  
Da gutorn, Duw a'i gatto ! 56
- 

## CXV.

YMDIDDAN A'R BARCUD YN Y LLWYN  
WRTH DDISGWYL MORFUDD.

- A** Mi noswaith, nid gwaith gwych;  
Yn aros rhiain eurwych :  
Ac yn disgwyl yr wylan  
Fwyn arafaidd lariaidd lân, 4  
Gwelwn Farcud clud clodfawr,  
A ffîl a mwyn, a phlu mawr,  
Yn disgyn fal dewin dwys,  
Eus edyn, o baradwys.  
O falchder

O falchder gwnai f'aderyn  
 A'r-dôn siwrl dewi yn syn ;  
 Sefais innau heb sonio,  
 Yn fud yn ei ymyl fo ; 12  
 Fo ddaeth fy ngwalch balch, heb wedd,  
 Yn dawel yn y diweddu.

“ F'anwyl pa beth a fynni  
 Dan fedw teg ?—ynfyd wyt ti !” 16

“ Aros haul yr Ynys hon,  
 A gorwedd ar fein geirwon.”

“ Rho Duw ! ffol wrth dy holi,  
 Rhoed yt well !—yr ydwyd ti ?” 20

“ Dig wyf am ddyn deg o wedd,  
 Ar gerrig yma'n gorwedd !—  
 Er Mair dod gyngor i mi,  
 D'enaid a gaiff daioni ?” 24

“ Nid oes un cyngor ond un,  
 Coelia a thyrd i'm canlyn ;  
 A gad ferched y gwledydd,—  
 F'enaid teg na wna oed dydd ! 28  
 A gwrthod pob priodas,  
 Ond gwaith y gog dan glog las.”

“ Ni byddwn i heb ddyn wen  
 Ei od, gedorwrach aren !

Rhaid i mi o rodio mae,  
 Ymliw a'th adain emlaes.  
 Garw yw dy barabl gwrol,  
 Gad i mi ffo, gidwm fföl !  
 Bydd gydymaith gloywiaith glân,  
 Ymddiodda'n well ymddiddan !”

36

## CXVI.

MAWL I FAI, A DYCHANU Y MIS DU.

**H**AWDDAMOR, glwyfgor glasgoed  
 Fis Mai, o'i leision dai doed !

Cadarn farchog, ferchog fal,

Cadwynog feistr coed anial ;

Cyfaill cariad ac adar,

Cog a ferchiogion ai cár :

Cennad naw ugain cynadl,

Caredig urddedig ddadl.

Mawr a fydd, myn Mair ! ei fod,

Mai-fis difai, yn dyfod

Ar ddail arddel frwd urddas,

Yn goresgyn pob glyn glas !

Gwisgiad praff, gwasgod priffyrdd,

Gwisgai bob lle a'i we wyrdd !

Pan ddel yn ol rhyfel rhew,

Pill doldir y pall deildew,

Gleision fydd, Mai grefydd grill,

Llwybr obry lle bu'r Ebrill.—

4

8

12

16

I ddaw

A daw ar ucha' blaen dâr,  
Caniadau cywion adar, 20  
A chog ar lan pob rhandir,  
A chethlydd a haf-ddydd hir!  
Ac wybren hoyw ar brynhawn,  
A fydd glwyfswŷdd, a glaswawn; 24  
Ag adar aml ar goedydd,  
Ac irddail ar wial wŷdd;  
A chof am Forsudd, f'eurferch!  
A chyffro saith nawtro serch. 28

Anhebig iw'r mis dig du,  
A gerydd i bawb garu:  
A bair brithwlaw, a byrddydd,  
A gwynt yn yspeiliaw gwŷdd; 32  
A niwl gwyn yn ael y gwynt,  
Yn diffriw canol dyffrynt;  
Ac wybren dremled ledoer,  
A'i lluch yn gorchuddiaw'r lloer; 36  
Ac annog llanw, ac anwyd,  
Ac mewn naint llifeiriaint llwyd!  
A llawn son mewn afonydd  
Yn ysu dwr, nos a dydd; 40  
Ag oersel rhyfel, a rhew,  
A llaesglog a chenllysglew.—  
Del iddaw, rhyw addaw rhwydd,  
Deuddrwg am ei wladeiddrwydd!

## CXVII.

MORFUDD YN HEURU I'R BARDD HENEIDDIO.

**D**AN y rhod, dyn oreuryw,  
Da Forfudd finoblrugg syw !  
Di-lwch riain dàl uchel,  
Er dig i'r byd, dygi'r bêl!

4

Clod awen, goleuben gwlad,  
Gwawr eurner, ai gwir arnad,  
Ddywedyd na fynyd, fun,  
I chwarzau wr a chorun ?

8

O ddyn ! pam loer ddinam lî  
I'r hònaist y gair hwnnw ?  
Nid oes destyn, fun feinael,  
Ar brydydd, hoyw Forfudd hael !

12

Er syrthio'r gwallt, cwnfallt cur,  
Ar fy iad, erfai awdur !

**A**m hyn i'r wyf rhwymglwyf rhaid,  
Fy mhoen Morfudd a'm henaid !

16

Disglair haul, dysgl o'r heli,  
Ddeuliw tes a ddylyd ti,  
Berw enwog nwyf burwen gnawd,  
Bwrw un destyn barawd ?

20

Eithr oroen, iaith oreuryw,  
I'th fardd gwynfydig i'th syw !

- Er syrthiaw, breuddwydiaw brad  
Wyth gur, ei wallt o'th gariad, 24  
Ni bydd un Dafydd difai,  
Na bum *novis* ym mis mai !  
Ni wisgais, dileais lid,  
Na gwiw ben-gwfl, nag abid; 28  
Ni ddyfgais gwbl drais o drin  
Ar wiw-ledr air o Ladin.  
Nid llwyd fy marf, arf erfai,  
Nid lleddf fy ngorun, nid llai 32  
Na phan ydd oeddem, gem gu  
Einyd gur, yn ymgaru !  
Aethost, wi ! o'r gôst ar gamp  
Yth wely, bryd wyth wiwlamp, 36  
A'th freichiau, hoen flodau haf  
Em, yn dŷnion am danaf !

- Ond nad rhydd gynedlydd gân,  
Gwir oll honi'r gair allan, 40  
Awr ddi-salw, aur ddwys olud,  
Er hyn ferch, fy rhiaint fud !  
Dywaid pa un ai dewis  
Erof fi, ai aro fis ? 44  
Eriod ni welais yr hyn,  
Euraid wylt, a roe destyn,  
Na cheffid meddid i mi,  
Dyst yn orn, destyn arni.

Os gwirthod ffurf ammod ffydd,  
 Gorug rwyf, gwr o grefydd,  
 Er genau aur ag owmal  
 I ti fy nyn arail tal,  
 Bodlon wyf is bedwlwyn ir,  
 Etto fun iti feinir!

52

Os tremig hoen llathrfrig haf,  
 Fy nghrair, neu ornair arnaf,  
 Morfudd hael, fwy arael fun,  
 Fu'r gair am fy aur gorun.  
 Rhyddwys, fy nyn rhieddawg,  
 Y rhoest y testyn yrhwag.—  
 Oerfel ym, fy nyn eurfa'i  
 Eirian hwyl fuan haul fai,  
 Dywaid fy nyn, a dewis  
 Pa un a wnai, haul-fai-fis,  
 Ai bydd gywir hir hoywrym  
 O gariad di-ymwad ym,  
 Dywaid ti i mi, fy nyn,  
 Ni byddi, wyneb eiddun?  
 Os edifar fy ngharu  
 Genyd y rhyw syd a fu,  
 Caf ran tra fo cyfrinach;  
 Car Dduw yn ol, cerddan iach,  
 Ag na ddywaid f'enaid fun  
 Air chwerw am wr a chorun.

56

60

64

68

72

## CXVIII.

V SEITHFED A SAITH UCAIN CYWYDD I  
FORFUDD.

**Y** Fun a wnaeth wayw yn f'ais  
A garaf, ac a gerais !  
Dy liw a wnaeth Duw lywydd,  
Dy dàl fal llygaid y dydd ! 4  
Dyw a roddeis it' ruddawr,  
Dy wallt fal cawad o aur ;  
Dy lygaid fal dau liwgae,  
Dy drwyn ar ddyn mwyn y mae ; 8  
Dy fwnwgl yn dwf uniawn,  
Dy frònau'n bellènau llawn :  
Deurudd ysgarlad is ael,  
Dull Llundain riain yw'r ael.  
Dy wén yw'r pum llawenydd,  
Dy gorff hardd am dug o'r ffydd ! 12  
A'th fwyned fal nith Anna  
A'th liw yn deg, a'th lun da !  
Dy fwyned dan do fanwallt,  
Dy decced ! dyred hyd allt.—  
Gwnawn wely fry yn y fro  
Bedeir-oes mewn bedw irion ! 16  
A matras o ddail glas glyn,  
A ridans o'r mân redyn  
A chwrlid rh'om a churwlaw,  
Coed a ludd cawod o wlaw !

- Gorweddfa lle bu Ddafydd  
Brophwyd, hir obraff oed hydd :  
**Y** gwr a wnaeth er gwawr Nyf  
Saith salm, bu faith i Selyf.— 28  
Canaf innau o'm annerch  
Salmau o gusanau ferch !  
Saith gusan gan rianedd,  
Saith fedwen uwch ben ei bedd, 32  
Saith osber, faith offeren,  
Saith arraith bronfraith ar bren ;  
Saith accen o'r awen rydd,  
Saith o gaeau, faith gywydd :— 36  
Saith gywydd i Forfudd fain,  
Seth hoywgorph, a faith ugain.—  
Llýma glo cariad taladwy,  
Ni ddyly hi i mi mwy ! 40

## CXIX.

## Y CYWYDD DIWEDD A F FORFUDD.

- P**RYDYDD i Forfudd wylfi,  
Prid ei swydd, prydais iddi :  
Cywyddau twf cu wiwddoeth,  
Cof hardd am dwf caeth-fardd coeth ! 4  
Ni bu ag hwyn, pwynt ympêl,  
Un organ mor annirgel !  
Mae'n dy ferch, unfam undad,  
Dan fy mron yn dwyn fy mrad

Holl

Holl gwmpas y lledr-was llwyd,  
O'r hyn oll i'r hennillwyd.

Rhoes iddi bob ryw fwyddau,  
Rhugl foliant o'r meddiant mau ;  
Gwrddlef telyn ag orloes,—  
Gormodd rhodd,—gwr meddw ai rhoes.

Heuais, fal orohian,  
Ei chlod y' Ngwynedd achlan ;  
Hydwf y mae yn 'hedeg,  
Had tew,—llyna heuad teg !

Pybyr fu pawb ar fy ol  
A'u " pwy-oedd ?" ym mhob heol :  
*Pater-noster annistaw,*  
Pawb ar a gant, llofrdant llaw,  
Ym mhob cyfedd, rhyfedd rhi'  
Yw ei cherdd, yn wych erddi !  
Tafawd o'm twfawd ganmawl,  
Teg ei gwên, amen y mawl !—  
Can's ar ddiwedd pob gweddi,  
Cof cywir, yr henwir hi.

Chwaer ydyw, tywynliw tes,  
I ferch Wgan, farchoges.  
Un llais wyf, yn lle safai,  
A'r gog, morwyn gyflog mai.—  
Honno ni fedr o'i hanwyd,  
Eithr un llais, a'i thorun llwyd :

12

14

20

24

28

32

Ni

Ni thou y gog a'i chogor,  
 Crygu mae rhwng craig a mor ;  
 Ni chân gywydd, lonydd Iw,  
 Nag accen, onid—“ gwccw ! ”

36

Gwŷs ym Mon mae gwas mynaich  
 Fum i, yn ormod fy maich ;  
 Yr hwn ni wna dda ddeutrew  
 Lafur ond un loyw-fron dew.  
 Dilonydd bwyll, ddidwyll ddadl  
 Dilynais fal dal anadl,  
 Defnyddio i'w hurddo hi,  
 Defnyddiau cerdd dwfn erddi !  
 Yn iach bellach, heb allel  
 Na chudd am dani, na chel !  
 Talm sydd iddi, os tolia,  
 Ac o dodir ar dir da :—  
 Adyn o'i chariad ydwys,  
 Aed a gwynt dieuawg wyf !

44

48

52

Pan ddel gwasgar ar esgyrn,  
 Angau a'i chwarelau chwyrn  
 Dirfawr, fydd hoedl ar derfyn ;  
 Darfod a wnadafod dyn !  
 Y Drindod, cyn cydfod cwyn  
 Mawr ferw, Mab Mair Forwyn  
 A faddeuo 'ngham dramwy,—  
 Amen, ac ni chanaf mwyl !

56

CYWYDDAU YR YMRYSON RHWNG DAFYDD  
AB GWILYM A GRUFFYDD GRYG.

## CXX.

G. GRYG YN GOGANU D. AB GWILYM ♀  
HERWYDD EI DRASERCH AM FORFUDD.

**T**RUAN mor glaf yw Dafydd!  
Trwyddew o ferch trwyddo sydd!

Eres yw Ddafydd, oeryn,  
Fab Gwilym gam, ddinam ddyn.

4

Gwas trahy, cywely cawdd,  
Gwewyr ganwaith a'i gwywawdd!

Hefyd, y mab anhyfaeth  
Yn llochi cerdd,—llechu caeth!

8

Maith eiddilwaith ei ddolef,  
Mam i Dduw!—i mae, medd ef,

Artaith ddirym ar Gymro,

Eres yw ei fyw y fo!

12

Gwewyr, rhif y syr, y sydd  
Yn difa holl gorff Dafydd:

Nid gwayw terfysg ym mysg mil,

Nid gwayw Iddw, ond gwayw eiddil;

16

Nid gwayw y'nghefn, wiwdrefn wedd,

Nid sylwayw, onid salwedd!

Er dengmlynedd i heddiw

Dafydd a ddywawd, wawd wiw,

Fod

- Fod yn tho gant, ond antur,  
O frathau dyrnodau dur !—  
Celwydd, mwyn brydydd mewn brad,  
A draethodd Dafydd, druthiad ! 24  
Pei bai Arthur, ddur ddewrgorf  
A wnai ffysg derfysg ar dorf,—  
Gwir yw, pe bai 'r gwewyr oll,  
Cynnyrchiol mewn can archoll,  
Gwyllt rysel a gynhelis,  
Gwir yw, na bydda fyw fis ! 28  
Ym mhob rhyw fan, gran grynwyf,  
Mair a glyw, mae mawr ei glwyf ! 32

- Chwaethach meinwas yw'r gwas gwiw  
Gweinidog cerdd gwan ydiw ;—  
Och ym ! pe's brathai Gymro,  
A gwayw o Fon ond gwae fo ! 36  
A'i eurllaw ar ei arloft,  
Dan ben i fron don yn doft !  
O byddai farw y bore',  
Yn fyw, truan yw, tu'r ne',  
Chwaethach crybwyll mewn pwyl per,  
Llefain rhag gwewyr llifer.  
Enbyd iddaw, rhag praw prudd  
Angau am arfa Morfudd ! 44  
Eil i liain yw ei lias,  
Ei liw ag arfau a lás !

Y'ngred y mab arabddoeth,  
 Cyd foed yn wr campus coeth,  
 Y gwnai wr call arallwlad  
 Cwyn a faeth irwyn a sad.

43

## CXXI.

DAFYDD YN ATTEB, GAN HEURO MAE  
 BENTHYCCA CERDD YR OEDD G. GRYG.

**G**RUFFYDD Gryg wyg wag awen,  
 Gynedig boenedig ben,  
 Cyn-ofydd cerdd bun un-flwydd ;  
 Coeg yw un dyfiad cyw gwyllyd.

4

Nid llai urddas, heb ras rydd,  
 Na gwawd, geuwawd o gywydd ;  
 Cywair ddelw cywir ddolef,  
 Cywydd gwiw Ofydd, gwae ef !  
 Un a'i cais arall a'i cant,  
 Enw gwrthgas, un a'i gwrthgant,  
 Un a'i teisf yn oed diflas,  
 Hen saw ci, hwn a fo cas.

8

12

Telyn, ni roddwyd dwylaw  
 Ar ei llorf, glain irgorf gwlaw :  
 Ni warafun Bun o bydd  
 Ei cheuedd, gyda'i chwyddydd,  
 Yn nhafarn cwrw anhyful,  
 Tiner a'i cant wrth fol tancer cul.

16

Cwrach

Cwrach memrwn, welfgrwn waith,  
I'r dom a fwriwyd ymaith ;  
Diddestl, wrth ei fedyddiaw,  
Ei bennill ef, bin a llaw.

20

Ba'r achos i barnasam  
Beio cerdd lle ni bo cam ?—  
Cam amcan yw'r awenydd,  
Draw i'm diswyddaw y sydd.  
Gruffydd, ddigudd ymddygiad,  
Ab Cynfrig, Wyndodig dad :  
Gwr heb hygarwch gwawdydd,  
Gwyro o'i ben gerdd y bydd.  
Crair pob ffair, a ffurf gweheirdd,  
Cryglyfr boft, craig lefain beirdd.  
Nid oes lle mae maith y medd  
I geiniaid cerddau Gwynedd,  
Eithr tòri athrod hiraen  
Braisg gof yw y brisg o'i flaen !

24

28

32

36

Ni chân bardd wiw hardd, ei hun,  
Gywydd i ddyn deg addwyn ;—  
Ac ni chân Gruffydd, brudd braw  
Gwedderthwch, gywydd wrthaw.  
Pawb a wnai adail pybyr,  
O chaid gwýdd, ag iechyd gwyr :  
Haws yw cael, lle bai gwael gwýdd,  
Siwrnai dwfn, saer na defnydd.

40

O myn

O myn wawd, urddwawd eurddof,  
Aed i'r coed, bennadur cof.

Nid tra-chyfrwys, Iwys lysenw,  
Ei gywydd clod, hynod henw ;  
A fai raid o fwriadau,  
A defnydd ei gywydd gau ;  
A'i law ar ganllaw'r geinllwyr,  
Rhydain hên a red yn hwyr.

48

52

Caned fardd i ail harddlun,  
Gwydd o'i henwedd ei hun ;  
Rhoddaf, anwylaf yn ol,  
Rybydd i Ruffydd ryffol ;—  
Taled y mab attaliaith  
Tâl am wawd, talm ym o'i waith.

56

## CXXII.

YMDDIFFYNIAD G. GRYG, YN DANGOS Y  
MEDRAI GANU.

**G**WYLLT yw, ni wn ai gwell ym  
Gweled Dafydd ab Gwilym,  
A'i law dwyllfraw, elw dullfreg,  
Dau-wynebydd Dafydd deg !  
Da i'm gwydd ysgwydd esgud,  
A drwg i'm habsen, a drud.

4

Dywaid i wyr y Dœau,  
Dafydd, ar ei gywydd gau,

R

Nad

Nad oedd ym ddif dim ond gwawdlef;—

Eithr ei ddyfsg athro oedd ef.

Dywaid gelwydd, myn Dewi !

A phrofer pan fynner fi !

12

Tyngodd na wnaf a'm tafawd,

Gorau gwr, ond gwyro gwawd;

Arwydd na fynwn eiriawl,

Wyro ermoed, air o'r mawl !

16

Syml hwylys, os aml holion,

Os hoff gan Ddafydd ei son,—

Hoff gan bob edn alednais,

Ym medw gled, Iwysed ei lais !

20

Dryglam oer, drwg glwm eiriau,

I'r dyn o honom ein dau,

A difa ei ben, a'i dafawd,

Lle bai a newidiai wawd !

24

Er bod cryg, ynnig enni,

Yn nhwff dig fy nhafod i,

Nid yw ungamp nid angerdd,

Nid cryg, myn Mair, gair o'r gerdd

28

*Hobi-hors* ym mhob gorsedd,

I fae hoff ni feiai wedd.—

Degle'n nes, dwy glun effyth,

Diflas wyt, dan daflu syth :

32

Dilys na bu hudoliaeth.

O ben malwen, wythen waeth !

Ail

Ail yw'r organ ym Mangor,  
Rhai ai cân er rhuo'n y côr. 36

Y flwyddyn, erlyn oerlef,  
Daith oer drud i daeth i'r dref  
Pawb o'i goffr a roi offrwm,  
O'r plwyf, er a ganai'r plwm, 40  
Trydar i daerfar ar darf,  
Brydydd yw Dafydd dewfarf:  
Hoff oedd y' Ngwynedd, meddynt  
Yn newydd, ei gywydd gynt.—  
Bellach gwywach ei gywydd,  
Aeth y'ngwyllt ei waith y'ngwydd.

Paham am gam Gymräeg,  
Na wyl mab Ardudfyl deg 48  
Pwy yw ef? ddig-lef ddeu-glwyf,  
A phwy wyf innau? —hoff wyf!  
O bai deccaf gan Ddafydd,  
Heb gel, gaffael rhyfel rhydd,—  
Bwgwl gwlad fydd rhuad rhai,  
Bawddyn oedd na'm rhybuddiai,  
Rhag fy nghael y'nghwlm coddiant,  
Yn lledrad, fal y cad cant; 52  
Ceisiodd fi, casäodd fudd,  
Rheibiwr y gerdd, heb rybudd;  
Ni roi neb, ac ni rown i  
Seren bren er ei sôri!

## CXXIII.

DAFYDD YN ATTEB DRWY YMFFROST, AC  
YN HERIO G. GRYG.

**G**RIFT y plwyf ei grefft ai plyg,  
Graffei ddeigr Gruffydd Ogryg;

Dihareb wr du, erof

Da y cân, dieuawg cof.

Ymannerch teg, o mŷnai,

A gair caredig a gai;

Ac oni fyn, gefyn gau,

A fŷnwyt a wnaf innau!

Nid gwiw er ymliw am lais,

Wadu'r hyn a ddywedais;

Na bai raid tynguaid tangnaf,

Ys aml wawd, gwr syml yw ef.

4

8

12

Llyma'r tyft, lle mae'r teitun,

Gwardd hir, yn ei gerdd ei hun;

Cynt i'n gwydd i cânt yn gerth,

(Cefn i'r Dudur ab Cyfneth)

16

Ym, er march gwŷdd, hydd hoywddaint,

Ag i'r organ feinian faint;—

Caniad talm, cyn oed dolef,

Cenau ſaer, nag y cânt ef.

20

Pam i rai ddifai ddefawd,

Pefr nerth dros dalu gwerth gwawd,

W 23

Was dewr hy ei west yr hawg  
Ar Dudur, wr odidawg? 24  
Mŷned fab i gydnabod,  
Mulder glew, mold ar y glod;  
Ac na fyned, ced nid cel,  
Ar ddychan arwydd ochel. 28

Ynfyd yw i wiw syw was,  
Anfon an rhegion rhygas:  
O Fôn, holion a helir  
I mi, hyd Bryderi dir.— 32  
Henw'y ngwlad yw Bro Gadell,  
Hônaid ei gwyr hyn neud gwell!  
Yftod o'i dafod a dyf,  
Yfto garth, os dig wrthyf, 36  
Deuwn i gyd, da fyf fu,  
Lawlaw rhwng ein dau loywlu,  
Ymbrofwn od ŷm brifeirdd,  
A dau dafawd, hyrddwawd heirdd; 40  
A'n dwy gerdd serth, dig yw'r son,  
A'n deu-gorph ffynedigion!  
A'n dau dafawd, breuwawd braw,  
A deulafn dur i'n dwylaw,— 44  
A gwrdd hwrdd ar heirdd wychdraed,  
Ac o ryfel a el, aed!—  
A gaded ym ei ddigoeddi,  
Gwden ym, o gadawn i!

Dyrnawd o hirwawd herwa,  
Yn rhad gan ei dad nid â !  
O bydd heb fôri, cri cryf,  
Digynnen ydyw gênyf,  
O fîr, lle gwesgyr gwafgwyn  
O'm dawr, Gwyn ab Nudd i'm dwyn !

CXXIV.

GWRTHATTEB G. GRYG, YN ANNOG DAFYDD  
I YMLADD.

**D**AFYDD! pam nad edifar  
Dyfu'r hyn a fu o fâr?  
Rhoed ethrod ammod imi,  
Rho Duw mawr y rhad i mi!  
Credaist ef, croyw-dyst osfer,  
Crediad yw a glyw y gler.  
Dwy och ym o'u dychymig,  
O'm dawr o dug orn y dig!

Mawr oedd gènyd dy fryd fry,  
Mwyfwy dy son na myfy;  
A bychan a rybychud  
Im' o gerdd, rym agwrdd ddrud!

Amlwg dy chwant i ymladd,  
Aml am ras, a mul am radd ;—  
O'm nwyt, nad arhowyt yr haf ;  
A chael fy mun, o chiliaf !

- Er un-fardd, ofer ynfyd,  
 Droedfedd, na modfedd fy myd!  
 Mawr dy son am ddigoni,  
 Meddyt, dewr iawn oeddyt ti!— 20  
 Dewis Dafydd, a dywaid  
 Ym beth a fynych, neu baid,  
 Ai ymsang, wr eang wg,  
 Am radd, ai ymladd amlwg? 24  
 Ai dannod, ac ymdynu  
 Tros dwr, wr trahäus du?  
 O sòraist, od wyd farug,  
 Os aml dy ffull, syml dy ffug, 28  
 Dod y mau, bwhwman byd,  
 Dy anfodd wr du ynfyd!  
 Mae rental, mi a wrantwn  
 Ar led dy gwgwall twll twn. 32  
 A llwydd y'ngwydd llu ddengwaith  
 Ymbrofi a thi o'th iaith!  
 Ni wys o gorff na orphwyf,  
 Neu o gerdd, anniog wyf! 36  
 Down i gyd, gwyr dinag ym,  
 A deu-gledd odidawglyn,  
 Prifewn 'n dysg, profwn ein dau  
 Pa wr ym mrwydr, pwy orau! 40  
 Dafydd, o beiddir dyfod  
 A main gledd, o mÿni glod,  
 Duw a ran rhwng dau angerdd,—  
 Dyred i'r cych, daradr cerdd!

Aed i ddiawl, dragwyddawl dro,  
Y galon lefr a gilio !

Trwch iawn i'th farnaf Dafydd,  
Trifft a fu Dyddgu o'r dydd ;  
Didrift wy', ffieiddwy' ffio,  
Didrift Gwerfyl a'm didro !  
Gwae Ddyddgu, ddyn gweddeiddgall,  
Gwyn fyd Gwerfyl ni wyl wall !

48

52

Llew ydwyt cryf, llo ydwyt !  
Cyw'r eryr wyf, cyw'r iar wyt !  
A dewr ydwyt, a dirjaid,  
A rhwysg bonheddig yn rhaid ;  
A cherdd ben y sydd genyf,  
A Chryg i'm galwant, a chryf !  
Ag ni'm dawr, newyddfausr nwyf,  
Byth yn ol beth a wnelwyf !  
A thrawaf, heb ethrowyn,  
A min fy ngledd dannedd dyn !

56

60

Bychan iawn a rybuched,  
A gair genyf fi o ged.  
Annodd i brydydd unig  
Ymmwrdd a dyn agwrdd dig :  
Medra' bwyll, a mydr o ben,—  
'Mogel !—nid wyf Rys Meigen !

64

## CXXV.

DAFYDD YN ATTEB I DAWELU G. GRYG.

**G**RUFFYDD Gryg ddirmyg ddarmerth,  
 Grugiar y gerdd somgar ferth,  
 Mefl ar dy farf yn Arfon,  
 Ac ar dy welf mefl ym Mon! 4

Doeth wyd, da fu Duw a thi,  
 Dan nyddu gwg, dy noddi.  
 Diangc rhag cler yn eres  
 I'r wyd, tew lygrwyd dy les : 8  
 Rhyw elyn cerdd rheolud,—  
 Rheola dy draha drud !  
 Ffraeth arfaeth, erfain haerllug,  
 Ffrwyna, dyffygia dy ffug ; 12  
 Gwahawdd nawdd, nyddig fuost,  
 Gwahardd di fastardd dy fôst !  
 Gwaę di na elli 'n hy hyn,  
 Gwadu'r cwbl, gweawdr copyn ? 16  
 Am ddeu-gyw, ammau ddigawn,  
 Eryr ar iâr, oerwr iawn !

Gair ar gam, rhyfig erwyr,  
 Garw dy gerdd, y gwr du gŵyr ! 20  
 Di wyl dy hwyl i hoywllys  
 Di-elw o ddyn, ei alw 'dd ŷs,  
 " Draenen gwawd," drueni gwedd !  
 Neu " eithinen iaith Wynedd."

A

A chadw cam, o chyd cemir  
 No thi ar fordwy a thir,  
 Daith draws, ni wnei dithau draw  
 Amgenach nag ymgeiniaw :  
 Hy fydd pawb dan hoyw-wydd perth,  
 Yn absen ofn wynebserth.

28

Lle clowyf, heb loyw nwyf lyg,  
 Air hagr o'th gerdd, wr rhygryg,  
 Talu a wnaf leiaf ludd  
 Driphwyth o wawd it' Ruffudd.  
 Ni bydd im' un farn arna',  
 O beiddiwyl hyn ni bwyf ha,  
 Na'th ofn, ni heuddaist annerch,  
 Na'th garu, nes heuddu serch.

32

Af i Wynedd aml wledd ym  
 Ar dy dör, wr du dirym :  
 Os cadarn dy farn arnaf,  
 Main ag aur ym Mon a gaf,  
 Tithe' o'r lle 'th adwaenir,  
 O doi di i'r Dêau dir,  
 Ti fydd, cydbar far y farn,  
 Broch y'nghôd, braich anghadarn !  
 Cawr dilyw, cair dy weled  
 Heb groeso yn crwydro cred!  
 Cystal wyf, cais dy loyw-foes,  
 I' th wlad ti, a thi i' th oes !

36

40

44

48

Gwell

Gwell na thi, gwall na'th eiddun,  
Glud fy hawl i'm gwlad fy hun!

52

Trafferth blin yw yt Ruffudd,  
Chwyrn braw, od a'r chwarzau 'n brudd!

## Ystyr di Ruffydd ruddlwm

Bod blaen dy dafod yn blwm,

Genyd ni ddaw yn ddilestair,

Druan wr, draian o air !

Nod disal, onid twysaw

Gwr dall ar draws ysgall draw.

56

Da i gwn, wiw gyfylwn enw,  
Ditiana' nad wyt un-enw,

A Meigen Rys, megin refr,

Magl floneg, heb ofeg befr!

Mawl ni bu mal i buost,

'Mogel di fod mwygl dy fôst !

## Yn Rhys wyrfau rhus arfer

A lâs a gwawd alas gwer.

I dau dithau, da deuthum

Sarhaed fi, syr hoed a fum.—

Mi a wn nad wyd llwyd-far

## Un enw fyth yr anhy-tardd

A Rhys Meigen, rhos magawd:

Gwn fo las y gwas a gwawd;

Gallai fod am dafodau,

Unwedd ych diwedd eich dau.

65

68

72

## CXXVI.

GWRTHATTEB G. GRYG.

**G**WERFYL wawr eddyl ryddoeth,  
Gwae fi fod cydnabod coeth !

Mae'n rhaid ym, yn rhyw dymawr,

Oedi dy wawd,—ydwyd wawr l

Aml o'm tafawd dy wawdair,

A maint i'th gerais, myn Mair !

Medrai ganu, mae drwg annel

Yn llestair cerdd, llaeftir cel.—

Dafydd, eiddil, ab Gwilym

Ni âd o anghariad ym

Dychanu neb anhepcor,

Na phrydu mwy i wen-ffrwd mor !

Na sŵr, oleuliw naws hardd,

Werfyl er mwyn dy wirfardd !

Tra cyfan i'm diddanwyf,

Dôs yn iach un difon wyf.

4

8

12

16

Tudur Goch, glawrlyd froch gler,

Ym mhob glyn gelyn y gler;

Cwyno a wnaf rhag cyni

Cenau tom, canu iti !

20

Nychdawd i'th farugwawd sur,

Nocht ydwyd, yn iach Dudur !

Rhaid i Dafydd, gwehydd gwawd,

Ddial yr hyn a ddywawd.

Cytgerdd

Cytgerdd eos mewn coetgae  
Cytgam ar mawrgam i mae.

Nid teg gan neb, nid digam  
Myn llaw y Pâb fab ei fam ;  
Am radd y mae 'n ymroddi,  
Ymryson ym Mon a mi  
Undad nid wy' tra bwy' bardd,  
Nag unfardd a'r gogansardd !

28

32

Y mae faith o gydymethion  
Ym, yn Aberffraw ym Mon,  
Aml eu rhoddiad profadwy  
Am un i Ddafydd, a mwy,  
Mawr eisio cerdd ar glerddyn,  
Mal Dafydd awenydd wyn.—  
Herio ymladd, cyn addef  
Ym mlaen gwawd ei dafawd ef!  
Da tybiawdd gael gafael gall,  
Llusg ongl, ar ddyn llesg angall ;—  
Diosn i'r bardd o'r Dêau  
Fyddaf ni thawaf, o thou !  
Fy ngherdd yn erbyn fy nghas  
A rof, am na bum ryfas.  
Am cerdd fawr dan fedw laswydr,  
Am callder a'm hoywder hydr.

36

40

44

48

Am sonedd ym a fenaig,  
Am ddyddiant gwrygiant gwraig.—

Gofynner

Gofyner herber, hirbell  
 Ardudfyl, o Werfyl well ;— 52  
 Gwyr ymoglyd anudon,  
 Gwr iddi wyf si o Fon.—

Cefais serch gan sun serchog,  
 Llawen ged, yn llwyn y gog; 56  
 Nid er bôst na thrybestyd,  
 Ond er adde' beie'r byd,  
 Ac ar hon, ddyn gyfion gu,  
 Ennillais fab gwan allu ;—  
 A'i henw ydoedd yno  
 Yn Ddafydd o'i fedydd fo.—  
 Mynd a wnaeth, yn grach-fachgen,  
 Ar niwl baw, yn ol i'w ben; 64  
 Mawr o'r orn ar gyfeiliorni,  
 Tua'r Deheudir dir du!  
 Ac ni ches mo hanes hwn,  
 Oer ellyll, er a allwn.— 68  
 Tybio 'r wy', nid wy' annoeth,  
 Mae fo 'r pryd ydd newydd noeth,  
 Gwedi cael, gwedi 'r calan,  
 Droi Griffyn yn Wilyn wan.  
 Cs mab ym oedd, gyhoedd gof,  
 Ni hanyw ddim o honof ;—  
 A drwg y peirch, er eirchiad,  
 Y pryd ydd Dafydd, ei dad ! 72

## CXXVII.

ATTEB DAFYDD.

**A** ERBLANGC yw Gruffydd wyrblyg,

A bwa crefft, cyd bai cryg;

Seuthu y mae, wae wahawdd,

Pob nôd, nid rhydd i'r Pâb nawdd !

Ac odid, le unwrid liw,

Un a feidr, anaf ydiw !

Ond dwyn y gerdd wrthwyneb

Y glod yn anglod i neb.

Pettwn hebddo, yngo angerdd,

Aed fyd cof, adfydig cerdd !

Llai cywilydd oedd iddaw

Ddial fy llid, ddal fy llaw,

Nag edliw ym, gyflym gawdd,

Fy nrhwydded fan i'r haeddawdd !

4

8

12

16

20

Pedfai ffyrch, nid llwyrgyrch llesg,

Dan aeliau dyn anolesg,

Ef all y tafawd wawdar,

Gwan unben, gwenwyn bâr !

Dygyfor y digofaint,

Dan ei fron, a dwyn ei faint.

O chafas y gwas, wg wên,

Radd newydd, ar ddwyn awen

Ysgil

Ysgil, etto os gwelwyf,  
Ysgeulus nwyfus iawn wyf!

24

Gallasau, ar dröau draw,  
Berchi gwir, eithr i athraw;  
Mŷnai glod o fod i fi,  
Diwyd ammorth, yn dad imi!

28

Gwr iau ydyw mewn gwradwydd,  
Mewn difri, na'm fi o flwydd!

Dyna ddyn ynfyd anhael  
I'ch gwydd ar gelwydd i gael.—

32

Dyn ydwyt di-anudon,  
A fu gan wreigan o Fon;  
Yno cad, oerfad yrfa,  
Mab cryg, nid mewn diwyg da;

36

Gruffydd liw deurudd dirwd.  
Molld y cwn, fab Malld y cwd.  
Gwraig i Gleision Uwch Gonwy,  
Gwn, gwn! pam na wypwn pwy?

40

Haws y' Ngwynedd oedd weddu  
Tad i Fleddyn o'r dyn du,  
Nag efo hwyliau heli,  
O dud Mon, yn dad i mi.

44

Ef all a chi oer ddusrych,  
Croen oer goel, llonaid corn ych:  
Ni wnai, oni mŷnai dwyll,  
Bod dygymod, dig anmwyll!

4

To

To llingarth, tywyll angerdd,  
 Tudur Goch, taw di a'r gerdd!  
 Grawys enau groesanaeth,  
 Graful mefl, a fu welfl waeth?  
 Rhyfawr gas, rhof argyswr  
 'R angau gwael, gad rhyn go'r gwr!

52

## CXXVIII.

## MARWNAD GRUFFYDD GRYG.

**T**RIST oedd ddwyn traïs cynhwynawl,  
 Tlws o'n mysg, Taliesyn mawl!  
 Trwst eres, nid traïs diarw,  
 Trwm oer fal y try y marw!  
 Treiwyd gwawd, nid rhaid gwadu,  
 Tros fyd gwlad eiddia' traïs fu!  
 Tros fy ngran ledchwelan lif,  
 Try deigr am wr tra digrif! 8  
 Gruffydd hyawdl ei awdlef,  
 Gryg ddoeth, myn y Grog oedd ef!  
 Oes dig am ei ostegion,  
 Ys gwir mawl, eos gwyr Mon!  
 Lluniwr pob deall uniawn,  
 A llyfr cyfraith yr iaith iawn;  
 Egwyddor y rhai gwiwddoeth,  
 A ffynnon cerdd, a phen coeth; 12  
 A'i chyweirgorn, ddiorn dda,  
 A'i chyweirdant,—och wyr.da!

4

8

12

16

- Pwy a gân ar ei lân lyfr,  
Prydydd goleuddydd liwlyfr ! 20
- Mel oedd o'i ben awengerdd,  
*Primas* ac urddas y gerdd !
- Ni chair son gair o gariad,  
Na chân gan ochain a nâd,  
Er pan aeth, alaeth olud,  
Dan ei fedd i dewi'n fud ! 24
- Ni chwardd udfardd o adfyd,  
Ni bu ddigrifwch o'r byd ! 28
- Nid byw edn glân a ganai,  
Nid balch ceiliog mwyalch mai ;
- Ni chynnydd mewn ferch annog,  
Ni chân na hedydd, na chog,  
Na llinos yn agos i ni,  
Nag irddail yn y gerddi ; 32
- Na bronfraith, ddwbliaith ddyblyg,  
Ni bydd wedi Gruffydd Gryg ! 36
- Na choedydd, dolydd, na dail,  
Na cherddi,—yn iach irddail !
- Toft o chwedl, gan ddyn edlaes,  
Roi'ngôr, llawn fynor, Llanfaes,  
Gymain' (dioer, gem a'i deurudd) 40
- O gerdd ac a roed i gudd !

Pwy gân, i ddyn lân o liw,  
Gwydd dan hoyw-wydd heddiw ?

- Nag anglod, mwy nog englyn  
I eiddig chwerw-ddig ddyn !
- Rhoed ferchawgrwydd egwyddor  
Mewn cist y' ngwaelod y côr : 48
- Cist o dderw, cyftydd irad !
- A gudd gwalc y gerdd falch fad !
- O gerdd sain, gywir ddi sal,  
Ni chaid un giftiaid gyftal ! 52
- O gerdd euraid gerddwriaeth  
Doe'r ym i gid yn *derm* gaeth !
- Llywiwr iawngamp llariangerdd,  
Llyna gift yn llawn o gerdd !
- Och hael grair Fair, uchel Grifft ! 56
- Na bai agorai ei gift !
- O charai ddyn, wych cirian,  
Gan dant glywed moliant glân ;
- Gweddw y barnaf gerdd dafawd,  
Ac weithian gwan ydyw 'n gwawd ! 60
- E aeth y brydyddiaeth deg  
Mal ar wyfsl, mul yw'r osdeg !
- Gwawd graffas, gwedy Gruffydd  
Waeth-waeth, heb Ofyddiaeth fydd !
- Edn glwys ei baradwyflef,  
Aderyn yw o dir nef ! 64
- O'r nef y daeth goeth gethlydd  
I brydu gwawd i bryd gwydd,
- Awenfardd awen winfaeth,  
I'r Nef, gwiw oedd ef, ydd aeth !

## CANIADAU AR AMRYW DESTYNAU.

## CXXIX.

YR ADDEWID DDYWSADWRN.

**M**AE addo oed, hoed hydr-ferch,  
I mi Ddywsadwrn a Merch :

Serchog fydd masw dan lafwydd  
Swrn o Ddywsadwrn y fydd.

Hir yw'r haf ei harofyn,  
Hwy hyd Dywsadwrn yw hyn !

Mae o Ddywful, gul geli,  
Mis i Ddywsadwrn i mi !

Gwnawn ar Ddywllun gain winllan,  
Sud glaer, i Ddywsadwrn glân  
Neu Ddywmawrth, o wiw ddamwain,  
Sud cerdd i Ddywsadwrn cain.

Dywmerchyr mae 'n bybyr bwyll,  
Doed yn Ddywsadwrn didwyll !

Difiau dranoeth, er Dofydd,  
O Fair ! ai Dywsadwrn fydd ?

Dywgwener, dydd amser da,  
Noswyl Ddywsadwrn nesa' :

Poen triniad, pan nad tranoeth  
Y daw y Dywsadwrn doeth !

4

8

12

16

Bob

Bob wythnos gynt, hynt hiroed,  
 Yr oedd Ddywsadwrn erioed ;—  
 Weithian mewn mis, ddewisfddyn,  
 Nid oes ond un Sadwrn yn !

24

Dysgu rwy', ddyn wen wiwddoeth,  
 Disgwyl Dywsadwrn dwysgoeth ;  
 Rhag myned, trwm godded traw,  
 Hybarch Ddywsadwrn heibiaw.  
 Nid â chwibaniad o'm dwrn,  
 Oed dwys-hydr, hyd Dywsadwrn :—  
 Dydd y daw rhiain gain-foes  
 Erioed Ddywsadwrn a roes !

28

A wyr un heb ddyhunaw  
 A doeth, Dydd Sadwrn a ddaw ?  
 O Fair ! a ddaw, braw briwsyth,  
 Na Bun, na Dywsadwrn byth ?—  
 Pe cawn i'r fun i'r unoed,  
 O daw ar Ddywsadwrn, doed !

32

36

## CXXX.

Y CEILIOG MWYALCH,

“ **Y** Ceiliog mwyalch balch bwyll  
 Dawn i'th dàl a Duw ni'th dwyll !  
 Cyfion mewn glyn d'emyn di,  
 Cyfon o union ynni :

S 3

Crefyddwr

Crefyddwr wyd anwydawl  
 Credi fi, croyw yw dy fawl.  
 Gwisgaist, enynaiſt annerch,  
 Gwisg ddu, nid er selu ferch :— 8  
 Gwisg a ddanfones Jesu  
 Is dail it' o osai du,  
 A dwbwl gwell no deuban,  
 Mawr ei glod o'r mwrai glân. 12  
 Sidan gapan am gopa,  
 Yn ddu rhoed yn diau 'r ha',  
 Dwbled hardgled mewn rhedyn,  
 Gloyw-ddu glir uwch glandir glyn; 16  
 Muchudd dy ddeurudd eirian,  
 Pig cwrel, gloyw angel glân.”

“ Prydydd wyt medd prophwydi,  
 Cywyddol manol-i mi 20  
 Awdur cerdd adar y coed,  
 Esgud cyw mwyn-drud meindroed !  
 Os gwyddost yn osgeiddig  
 Annerch gwen dan bren a brig ; 24  
 Os gwn innau o newydd,  
 Ys gwir gwawd *yfgwier* gwŷdd,  
 Ganu moliant a'i wrantu  
 I ti y celiog wyt du.— 28  
 Du yw dy gwfl, da ei dôn,  
 A'th gasful, edn iaith gyson !

Mydriwr wyd a brophwydais,  
 Medrud son uwch Medrod Sais :—  
 Duw a'th gatwo, tro traferch  
 Adain syw, byw Edn y Serch !

32

## CXXXI.

YMDIDDAN A MERCH DAN EI PHARED.

DIGIAIS am na chawn degau  
 Di-hun, hael fun, fu'r hwyl fau !  
 Dyfod dan wyrddion defyll  
 Bid ei chael mewn bedw a chyll ;—  
 Can hawddfyd, ar hyd y rhiw,  
 I winllan bun ewyn-liw !  
 Tuchan yn daer wrth gaer galch,  
 A gruddfan am Eigr ruddfalch !

4

8

Pan glybu bun, harddlun hud,  
 Gwynfan trwstan rhag tristud,  
 Llariaidd y rhoes, drwy foes fwyn,  
 Llef aur ar ei llawforwyn ;—  
 “ Y mae draw, mewn anghyflwr,  
 Yn y winllan gwynfan gwr !  
 Myfi âf,” mwy o ofal  
 Morwyn deg a mirain dàl,  
 “ Drwy wydring draw i edrych  
 Y truan oer mewn tro o nych !”

12

16

“ Pa ddrychiolaeth, gaeth geithiw,  
Y sydd yn y gwinwydd gwiw ? ”

20

“ Un diriaid enyd oroen  
Enaid em hònaid ’y mhoen ! ”

“ Pa un wyd yn penydiaw  
Dy glwyf o fewn ôd a gwlaw ? ”

24

“ Dy fardd poenedig ddigus,  
Dewrfawr wyl, mewn dirfawr rus ! ”

“ Dôs ymaith rhag dy siomi,  
Dilwydd daith, neu dy ladd di ! ”

28

“ Oernos a welych arnaf,  
'Y myd aur, i mi od af !  
Oni wypwy', clydwy clod,  
Pwy drechaf, myn Pedr uchod ! ”

32

Ai ti ai mi o 'mafael,  
Ai mi ai ti, fy myd hael !  
Glân oedd i'm enaid, o glod  
Fy aur eirian, farw erod !  
Dillwng dy fardd a dwyllwyd  
I mewn ddyn, i'r man ydd wyd !  
Neu ddyred,—och na dderwyf !  
Yman ddyn i'r man ydd wyl.”

36

“ Ni wnaf, ddyn truan annoeth,  
Yr un o'r ddau mewn rhin ddoeth ; —

40

Pa

Pa beth a gais gwr o bell,  
Geirfas dwf, ger fy 'stafell?"

44

" Ceisiaw heb gur drwy 'r mur maen  
Dy weled loywged liw-gaen!"

" Pa ddysged, neu pa ddisgwyl  
I'dd wyd, y gwas gwiwlas gwyl?"

48

" Dwysgall deall a'm diaur!  
Disgwyl llun dyn, dwysgall aur!"

" Pa ryw orllwyn mewn llwyni,  
Yn y dail yna wnaid di?"

52

" Gorllwyn dyn mwyn, dawn im' wyd,—  
Nid gorllwyn Gwraig y Garllwyd!"

## CXXXII.

## Y CELYNLLWYN.

**Y** Celynllwyn cau iawnllwyth,  
Caer ar ael ffridd, cwrel ffrwyth;  
Cor gweddaidd ni's diwraidd dyn,  
Clos tew diddos, ty deuddyn.  
Twr i feinwar i'm arail,  
Pigau yspardunau dail:  
Pwy mewn gauaf a gafas  
Fis mai yn dwyn *lifrai* las?

4

Gwr

Gwr wyl yn rhodio gar allt  
 Dan goedydd, mwynwydd manwallt:  
 Rhoed i gadw rhydeg adail,  
 Rhodiais wýdd, dolydd a dail.

12

Cof y sydd cefais heddiw  
 Celynnllwyn yn nhrwyn y rhiw;

Yn adail serch ym ydoedd,  
 Un lifrai a mai im' oedd.

16

Cyd irgoed lle caid organ,

Cadriblas uwch piler glas glân:

Pantri cerdd, nid paintiwr cawdd  
 Pentis, llaw Duw ai paentiaidd!

20

Deuwell y gwnaeth Duw diwael

Rhyw bart teg, no Rhobert hael:

Hardd oglau ffynnónau ffydd,

Tew byrwallt was tabarwýdd.

24

Hywel Fychan, hael fuchedd

Geirdwys gwawd, gwr dewis gwedd;—

Moli a wnaeth, nid milain,

Angel coed y' ngwely cain.

28

Ty adar gwlad paradwys,

Teml gron o ddail gleision glwys!

Nid fal hen-fwth, lle glwth gwlaw,

Diddos fydd dwynos danaw.

32

Dail ni chrinant, ond antur,

Celyn un derfyn a dur;

Penfar

Penfar heiyrn, pan fo' r hirnos,  
 A rhew ym mhob llwyn, a rhos  
 Ni phawr gafr hyd yn Hafren,  
 Un bauch o hwn, na bwch hen :  
 Ni chyll pren teg ei ddegwm  
 Er llef gwanwynwynt oer llwm.  
 Capel cywir-ddail irion,  
 Cyfyltedig uwch brig bron !

36

40

## CXXXIII.

## Y PWLL MAWN.

**G**WAE fardd fai gyfa ei orn,  
 Gofalus ar gyfeiliorn !  
 Tywyll yw'r nos ar ros ryn ;—  
 Tywyll, och am y tewyn !  
 Tywyll draw, ni ddaw ym dda,  
 Tywyll, mawr ammwyll, yma !  
 Tywyll heno yw'r fro frad,  
 Tywyll yw twf y lleuad !

4

8

Gwae fi na wyr Lwyr loywryw,  
 Da ei llun, mor dywyll yw !  
 A bod bardd a'i chlod achlan,  
 Mewn tywyllwg mein-wynt allan !  
 Nid call i fardd arallwlad,  
 Ac nid teg mewn breg a brâd ;

12

O'm

O'm caid mewn un-wlad a'm cas,  
A'm daly, mi a'm march dulas;

16

Ond casach, dyrysach draw,  
Fy nghael wedi fy nghiliaw?  
Ym mawnbwll ar ol mwynbarch,  
Gwedi boddi, mi a'm march!  
Pydew rhos, agos eigiawn,  
Pwy a all mwy mewn Pwll Mawn?  
Pyfgodlyn i Wŷn, yw ef,  
Ab Nudd, a bu 'n i oddef:  
Pydew rhwng gwaun a cheunant,  
Plas yr ellyllon a'u plant.  
Llyn gwinegr, llanw gwineugoch,  
Lloches lle'r ymolches moch.

24

28

Llygrais achlan fy 'fanau  
*Cerfi o Gaer*, mewn cors gau!  
Ni wn paham ond ammarch,  
Yr awn i'r pwll mawn a'm march.

32

Oerfel i'r delff' a orfu,  
Ai cloddies ar foledes fu :—  
Hwyr y rhof, o dof i dir,  
Fy mendith yn y mawndir!

## CXXXIV.

Y CLEDDYF, GAN DDANGOS EI GAMPAU.

**R**HYHIR wyd, goflwyd gyflun,  
 Rho Duw gledd ar hyd y glun :—  
 Ni âd dy lafn, hoyw drafn hy,  
 Gywilydd i'w gywely. 4  
 Cadwa fi di i'm dêau,  
 Cedwid Duw y ceidwad tau !  
 Mau gorodyn, mygr ydwyd,  
 Meistr i'm grymuster wyd : 3  
**G**wr fy myd nis câr fy myw,  
 Gwrdd i'rwystr gerdd o'r ystryw.  
 Tawedog enwog anwych,  
 Tewddrwg mul ei wîg, mal ych ; 12  
 Weithiau i tau, anwyd da,  
 Ac weithiau i'm bygythia.  
**T**ra 'th feddwyf, angerdrwyf gwrdd,  
 Er ei fwgwth, arf agwrdd, 16  
 Oerfel uwch ben ei wely,  
 A phoeth fo dy feistr o ffy ;  
 Nag ar farch, dibarch dybiaw,  
 Nag ar draed er ungwr draw. 20  
 Onis pair cas, deuair dig,  
 Cosb i'th ddydd, casbeth eiddig !  
 Catgno i gilio gelyn,  
 Erchyll gneifiwr, deifiwr dyn ;

Coethaf

- Coethaf** cledren addaf wyd,  
**Collaist** rwd, callestr ydwyd:  
**Coelfain** brain brwydr trwy grwydr-drin,  
**Cilied** Deifr, caled deufin. 28  
**Cyfylfin** cai usellfellt,  
**Cadwa'** dydi i'th dy dellt;  
**Cwysgar** wyd rhag efgar ym,  
**Cain** loywgledd, canolyglyn! 32  
**Llym** aer grym, llyma ar gred,  
**Lle** 'th roddaf, llaw a thrwydded,—  
**Rhag** bod y' nghastell celli  
**Rhyw** gut nos, i'n rhagot ni. 36  
**Rhwysig** mab a buarth baban,  
**Rhed** y dur fal rhod o dân.  
**Ni** chel ysgwyd Cyhelyn  
**Ar** fy llaw, o daw y dyn; 40  
**Glew** fidell, gloyw osodiad,  
**Rhyfel** wyd fy mettel mad!  
**Ti** a'm ceidw rhag diriedwyr,  
**Rheitia** cledd, gwyr rhawt y clyr. 44
- Ar** herw byddfaf ar hirwyl,  
**Dan** y gwÿdd, mi a'm dyn gwyl:  
**Nid** ansyber ym herwa,  
**Os** eirch dyn, nid a serch da: 48  
**Talm** o'r tylwyth a'm diaur,  
**Tew** fy ol ger tai fy aur.—  
**Ciliawdr**, cof nid wyf Ofydd;  
**Calon** serchog syberw fydd.

## CXXXV.

Y MWDWL GWAIR.

**A** I llai fy rhan o anhun  
 Na lles a budd, gar llys bun?  
 Nid hawdd godech, na llechu,  
 A glewed yw y gwlaw du!  
 Pe rhon' i'r ddôr egori,  
 Y nos ni lyfaswn i:  
 Yn gwahawdd bun ar ungair  
 Ai gwaeth yn y Mwdwl Gwair? 8

Dawn ym dy fod yn fwdwl,  
 Digrifwas pengrychlas pwл:  
 Da fu'r grabin ewinhir,  
 Doe a'th gynnulloedd ar dir. 12  
 Mi'th wifgais a maith wasgawd,  
 Mal cochl gwyrddlas uwch gwas gwawd:  
 Ceisiais genyd gael cysellt,  
 Clomendy y gwely gwelit. 16  
 Erfai o un i'th luniwyd,  
 Un-fath llydan-dwmpath llwyd:  
 Glyd i'th folaf a'm tafawd,  
 Gnu gwaun, da le i weu gwawd!  
 Un dramgwydd a'th arglwyddi  
 Teg, ac un artaith wyt ti;— 20

Ef

Ef a'th lâs a dur glas glew,

Fwrdais y weirglodd ferdew !

Yforu sy' iti *sir*

24

O'th lesgedd ef a'th lusgir,

Drènydd, uwch llanw manwair,

Dy grogi, a gwae fi Fair !

28

Cymunaf dy gorff adref

I'r nen, a'th enaid i'r nef;

Megis angel i'm gwely,

Ddydd brawd, uwch taflawd y ty.—

32

Yn dysod i gnocio'r drws,

Y Mwdwl Gwair ai madws !

### CXXXVI.

#### DIWEIRDEB MERCHED LLANBADARN.

**P**LYGU rhag llid yr ydwyf,

Pla ar holl ferched y plwyf!

Am na chefais, drais drawsoed,

O naddun' yr un erioed !

4

Na morwyn fwyn o Fenaig,

Na merch fach na gwraction, na gwraig !

Pa ddrudiant, pa ddireidi,

Pa fethiant, na fynant fi ?

8

Pa ddrwg, y rhiain feinael

Y'nghoed tywylldew 'y nghael ?

- Ni bu amfer na charwn,  
Ni bu mor ddrud hud a hwn; 12  
Anad gwr, unoed Garwy,  
Yn y dydd, ai un ai dwy !  
Ac er hynny, nid oedd nes  
Ym gael wen, na'm gelynes ! 16  
Ni bu ful yn Llanbadarn  
Na bawn ac eraill a'm barn,  
A'm wyneb at fun gur-goeth,  
A'm gwegil at Dduw gwiwgoeth ! 20  
A gwedi'r hir edrychwyf  
Dros eu plu, ar draws y plwyf,  
Eddywed un yn fygr-groyw,  
Wrth y llall, hawdd-ddeall hoyw,— 24  
“ Y mab llwyd wyneb murfen,  
A gwalt ei chwaer ar ei ben ! ”  
Godinebus fydd golwg,  
Gwir y ddrem garu i ddrwg ! 28  
“ Ai'n rhith hynny yw gantaw ? ”  
Yw gair y llall, ger ei llaw :  
Attab ni's caf tra fo fyd,  
“ Atteb i ddiawl beth ynfyd ! ” 32  
Tâl maith ym reg y lwyf-ferch :  
Tâl bychan am syfrdan ferch !  
Rhaid oedd im' fedru peidiaw  
A'r foes hon, freuddwydion fraw ! 36  
Gorau ym fyned fal gwr,  
Yn feudwy, swydd anfadwr !

T

O dra

O dra disgyl, dysgiad certh,  
 Drach 'y nghefn, drych anghysnerth ; 40  
 Fe dderwy ym, gerdd-rym går,  
 Bengàmu heb un gymmar !

---

## CXXXVII.

## I'R GAINGC SYMLEN.

D YSGAIS ryw baradwysgaingc,  
 A'r dwylaw mau ar dàl maingc ;  
 A'r dysgiad diwygiad dyn,  
 Eurai dalm, ar y delyn. 4  
 A hon yw'r gaingc ar faingc fau,  
 O blith oed o blethiadau ;  
 O deilyngfawl edlingferch,  
 A brydais i a brwyd ferch. 8

Meddant ferched y gwledydd,  
 Am danaf fi, o'm dawn fydd ;  
 " Symlen, fy newis amlwg  
 A symlyn yw'r dyn a'i dwg." 12

Solféais a'm salw ffaint  
 Salm rwydd, ys aelaw'y mraint ;  
 Ac erddigan gan y gaingc,  
 Garuaidd medd gwyr ieuagingc. 16  
 Cael ufydd-bwngc celfyddber,  
 Cael ym glod neud cwlm y gler :

Gwae

Gwae fi na chlyw, mawr yw'r aingc,  
Dyddgu hyn o brydydd-gaingc !  
Os byw, hi a'i clyw i's Clwyd,  
Ysbyslef eos beisflyyd.

20

Addysg Hildr oedd i's cildant,  
Gormodd cerdd, gwr meddw a'i cant :  
Llef eurloyw fygr llafarlais,  
Lleddf ddatbing, llwybr sawdring Sais.

24

Ni wnaeth pibydd ffaeth o Ffraigc,  
Na phencerdd ryw saffancaingc :—  
Poed anolo fo ei fin,  
A'i gywydd, a'i dddeg ewin!

28

A gano gerdd ogoniant,  
Ni cherydd Duw, na cherdd dant,  
Gwiw loywglaeer ddyn golyglon,  
Ac yn cael canu'r gaingc hon.

32

## CXXXVIII.

I DREF RHOSYR YM MON.

**H**AWDDAMAWR mireinwawr maith  
Tref Niwbwrch trwy iawn obaith !  
A'i glwysdeg deml, a'i glasdyr,  
A'i gwin, a'i gwerin, a'i gwyr ;

4

A'i chwrrw, a'i medd, a'i chariad,  
A'i dynion rhwydd, a'i da'n rhad!

Cornel ddiddos yw Rhosyr,  
Coedgae y 'wareu i wyr :

8

Llwybrau henwyr, lle breiniawl,  
Llu mawr o bob lle a'i mawl.

Lle diofer i glera,

Lle cywir dyn, lle cair da;

12

Lle rhwydd beirdd, lle rhydd byrddau,

Lle ym yw ar y llw mau !

Pentwr y glod, rhod rhyddfyw,

Pentref dan y nef, dawn yw !

16

Pantri difrydig digeirdd,

Pentan, buarth-baban beirdd.

Paement i borthi pumoes ;

Pell ym yw, eu pwyll a'u moes :

20

Coetty 'r wlad rhag ymadaw,

Cyfnither nef yw'r dref draw !

Côr hylwydd, cywir haelion

Cysfannedd, mynwent medd Mon !

24

Cystedlydd nef o'r trefi,

Castell a meddgell i mi :

Perllan clod y gwiodydd,

Pair Dadeni pob rhi rhydd ;

28

Parch pob cyffredin ddinas,

Penrhyn gloyw feddyglyn glas !

## CXXXIX.

Y DELYN LEDR.

**R**HO Duw hael rhadau helynt  
 Gwawr rhif, Gymru ddigrif gynt!  
 Gorau man, gwinllan y göft,  
 At fydd, o fywyd fuost,  
 Tra fu amser i glera,  
 A dysg yr hen Gymry da!—

Weithian, dioer! oer addysg,  
 Y mae cerdd seiniar i'n mysg.—

8

Diflo anghyfan wan-gledr,  
 Telynau, llidiardau lledr:  
 Nid oedd un tant, ffyniant ffydd,  
 O ddefaid meirw i Ddafydd.—

12

Ni wnaeth clau ddewiniaeth cler  
 Ddafydd brophwŷd ddiofer  
 Un delyn, ddiddan angerdd,  
 Onid o rawn, gyfawn gerdd!

16

Doeth yw'r ymadrawdd, hawdd hoyw,

Y delyn o rawn du-loyw:

Y delyn rawn, dawn difas,

O rad y Drindod a'i ras,

20

A ddyfod oll i Ddafydd,

A fu, a rhagllaw a fydd;

O ddechrau'r byd, bryd breichfawr,  
Hyd ddyddbrawd, myfyrdawd mawr!

24

Nid oes a fyn oes o'n iaith,  
O gwybydd gaingc, na'i gobaith,  
I beri son, wb o'r swydd!  
Ond telyn ledr, nid hylwydd;—  
Ac ewin gorn, dorn difwyn,  
A gwas, un diras, i'w dwyn.  
Annawdd i brentis, fis fydd,  
Ystofi miliaft efydd;

28

Anferth o bla, llun bwa llwm,  
Enfys ac echrys gochrwm.  
Cywion brain yn ymgreiniaw,  
Ciwed yn ymglywed gwlw!—  
Ni cherais, iawngais angerdd,  
Na'i chafn botymog, na'i cherdd;  
Na'i choludd, sain damwain dig,  
Na'i rhifwnt liw, na'i rhyfig;  
Na'i chwr bergam ddisgàmar,  
Na'i llorf cam, un llwrf ai cár.  
Drwg yw dan bwyth yr wythfys  
Llun ei chroth, lliain ei chrys:  
Ni luniwyd ei pharwyden,  
Na'i chreglais ond i Saishen.  
Gweryriad gwylt rhoad gau,  
Gwilff felen am gyffylau;

36

40

44

Chwaer

Chwaer undad, hwyrnad hirnos,  
 Pr̄ oer Fad Felen o Rôs.  
 Sain gwydd gloff, anhoff yn ȳd,  
 Sonfawr Wyddeles ynfyd :      52  
 Ysgwd melin, lawdgrin lam,  
 Ysgyfar waeddgar wddgam.  
 Crȳman pren o fursen fu,  
 Crimog hen wrach yn crȳmu.      56  
 Ceisied pob prentis cyson,  
 Hyd o Fars-dir Lloegr i Fon,  
 Delyn eirian i'w chanu,  
 I ranu dysfg, o rawn du ;—  
 Mal yr oedd mau gyhoeddi  
 Yn oes ein hen deidiau ni :  
 Na cheisied, ddiged ddeugwyn,  
 Y dydd brentisiaid i'w dwyn !      64

## CXL.

Y MURDDYN.

**T**YDI y Bwth tinrhwth twn,  
 Rhwng y gweundir a'r gwyndwn,  
 Gwae a'th weles, dygesynt,  
 Yn gyfannedd gyntedd gynt !      4  
 Ac a'th wyl heddiw 'n friw frig,  
 Dan dy ais yn dwn yffig !

- Ef a fu ddydd, cerydd cur,  
 A hefyd dan dy hoyw-fur; 8  
 Ynod ydd oedd ddiddanach  
 Nog yr wyd, y gronglwyd grach !  
 Pan welais, pefr gludais glod,  
 Yn dy gongl un deg yngod ;— 12  
 Forwyn fonheddig, fwyn' fu,  
 Hoyw-dwf yn ymgyhydu ;  
 A braich (pob un-gofn fun fydd)  
 Yn gwlm am gylch eu gilydd. 16  
 Braich meinir, briw uwch manod,  
 Goris clust goreuwas cloð ;  
 A'm braich innau, gorau gwawd,  
 Am fein-gorph yr em fwyn-gnawd ! 20  
 Yr hawddfyd da i'r hafddydd,  
 A heddyw nid ydyw'r dydd !  
 Ys mau gwyn geirswyn gwersyllt,  
 Am hynt a wnaeth y gwynt gwyllyt : 24  
 Ai'r diriaid wynt o'r dwyrain  
 A wnaeth gur hyd y mae main ?—  
 Yntau gwynt, garw-hynt gawdd,  
 Y dœau ai di-dœawdd ?— 28  
 Ai'r gwynt a wnaeth helynt hwyr ?  
 Da nithiodd dy do neithwyr !  
 Hagr y tiores dy effyth,  
 Hudol enbyd yw'r byd byth ! 32  
 Yn ddiau mae i'th gongl ddwyoch ;  
 Gwely im' oedd, nid gwâl moch !

Doe'r oeddud mewn gradd addwyn,  
 Yn glyd uwchben fy myd mwyn,  
 Hawdd oddadl heddyw 'dd ydwyd,  
 Myn Pedr ! heb na chledr na chlwyd.  
 Amryw bwngc ymmwngc ammwyll,  
 A'i hwn yw'r bwth twn, bath twyll ?  
 Aeth talm o waith y teulu,—  
 Dafydd ymgroes, da f' oes fu !

36

40

## CXLI.

I FERCH A COLLASAI EI CHYDΝABOD A'R  
 BARDD.

**T**RASERCH ar wenferch winaeth  
 A rois i, fal i'r ae saeth;  
 Mi a eura' bob morwyn,  
 O eiriau mawl er ei mwyn !  
 Och fi ! drwg yw ei chof draw,  
 Am danaf mae'n difwynaw :  
 Bum gynt ger wyneb em gain,  
 Anwyl-fardd i wen aelfain ;  
 A phellach ér na phallwyf,  
 I'sgil ferch, ysgesus wyf !  
 Gorweddais ar gwr addail,  
 Gyda'r ddyn dan goed irddail :  
 Bum grair, er na bae im' grefft,  
 Groengroen a'r ddyn gywrein-greff.

4

3

12

Ni

Ni fynai 'mun er fy mod,  
 Fyd annibech, f'adnabod!  
 Ni chaf mwy, o eithr drwy drais,  
 Wraig ieuangc er a gefais:  
 Ni fyn merch er ei pherchi,  
 'Ngolud yw, fy ngweled i,  
 Mwy na phe rhoid mewn ffair hâf  
 Barf a chyrrn byrfwch arnaf!

16

26

## CXLII.

TRWSTANEIDDWCH Y BARDD MEWN LLETY  
 CYFFREDIN YN CEISIO MYNED AT EI  
 GARIAD YN Y TYWYLL.

**D**EUTHUM i ddinas ddethol,  
 A'm hardd was ieuangc i'm hol;  
 Cain hoywdraul, lle cwyn hydram,—  
 Cymro i'r byd o febyd fum!  
 Llety, urddedig ddigawn,  
 Cyffredin, a gwin a gawn!

4

Canfod rhiain addfeindeg,  
 Yn y ty,—fy enaid teg!  
 Bwrw yn llwyr, fal haul dwyrain,  
 Fymryd ar wen, fy myd main!  
 Prynu y rhoft er bostiau,  
 A gwin drud i liw gwawn draw:

8

Gwareau

Gwareau a gar gwyr ieuatinge  
Galw ar fun, ddyn gwyl, i'r faingc.—

Gwedi myned, tynged tyng,  
Y rhwystr gwedi yr hufyng,  
A gwledd, ac anrhyydedd mawr  
A wnaethon', fwy no neithiawr.

Hufyng, bum wr hy astud :  
Ddeu-air a hi, ddiweir hud :

A rhyngom ni bu dri-air,  
O bu, nichlybu neb air.  
Gwneuthur, ni bu segur ferch,  
Ammod dyfod at hoyw-ferch,  
Gwedi'r elai finteioedd  
I gysgu : bun aelddu oedd.

Wedi cysgu, tru tremyn,  
O bawb, eithr myfi a bun,  
Ceisiais yn hyfedor fedru  
Ar wely'r ferch, alar fu !

Deuthum lle'r oedd mwroedd mawr,  
Dri-Sais, mewn gwely drewsawr ;

Mewn trafferth am eu tri phac,

*Hiccyn a Sioccyn a Siac :*

Suganau'r delff soeg enau,

Aruthr o ddig, wrth y ddau,

" Mae'r Cymro, taer gyffro twyll !

" Yna'n rhodio'n y twyll !

16

20

24

28

32

36

" Lleidr

“ Lleidr yw ef, os goddefwn ! —

“ ’Mogelwch, cedwch rhag hwn ! ”  
40

Haws codi drygioni drud  
Yn drwsgl, nag yn dra esgud. —

Cefais pan soniai yna,  
Gwymp dig, nid oedd gampau da :

41

Trewais, ysligais, nid iach,

Y grimog, a gwaer gròmach !

Wrth ystlys, och o’r ostler !

Ystol grech ffol, goruwch ffer :

48

Trewais, drwg fu’r tra-awydd,

Yrhawg ni chefais gam rhwydd.

Mynych dwyll ammwyll ymmwrdd,

Taro ’nhalcen wrth ben y bwrdd !

52

Syrthiodd y bwrdd, dragwrdd drefn,

A’r ddeu-drestl, a’r holl ddodrefn,

Lle’r oedd cawg, yrhawg yn rhydd,

A llafar badell efydd. —

56

Rhoi diaspad o’r badell

O’m hol, fo’i clywid ym mhell.

Gweiddi, gwr gorwag oeddwn,

O’r cawg, a’m cyfarth o’r cwn :

60

Codi’r osler niferoedd

I gid, a chwedl dybryd oedd !

Gygus oddynt i’m gogylch,

Chwilio i’m ceisio i’m cylch ;

A minnau, yn fardd hagr hyll,  
Yn tewi yn y tywyll.

Gweddiais, mewn gwedd efn,  
Dan gel, megis dyn ag ofn; 68  
Ac o nerth gweddi gerth gu,  
Ac o ras y gwir Jesu,  
Coel mwyniant o'm cwlm anhun,  
Gael fy fâl hen-wâl fy hun.— 72  
Diengais i, da myn y Sant;  
I'm Naf archaf faddeuant!

## CXLIII.

## Y DEWINIAETH.

"**Y** Ferch hygar ruddellen  
Eiliw eiry wyl arwyl wen;  
Hyd i Gwyr hoyw wyd a gwen,  
Hil addaf hael o Lowdden!" 4

"Dewinio 'dd wylf, nid â'n ddig  
Dewindabaeth dawn debig;  
Dau gur afael deigr Ofydd,  
Dy gael ferch, diogel fydd.  
Fod e'n hawl feddygawl fyd,  
A gynwys ym fod gennyd,  
Un o radd, mae yno rus,  
Dy genedl, rai digonus!" 8

Yr

**Yr ail gwedi** 'r fasnach rwydd  
**Ar gelu oriog aulwydd :**  
**Moywliw geirw hael a gerais,**  
**Haul y gwedd, trydedd yw traïs :**  
**Nigmars dy fardd ysgar-syw,**  
**Poed awr dda, pedwerydd yw."—**

16

" Ni ddiengy hundy hyd,  
**Dengoch fai by diengyd !** 20  
**Nid rhyfedd am y trasacl,**  
**Am dy gerdd i mi dy gael :**  
**Nid wylf wladaidd nag ciddil,**  
**Na gwr mân, hyn ai gwyr mil ;**  
**Nag anferth o brydferth bryd,**  
**Nag anfonheddig ynfyd ;**  
**Na chas, annodd i'w cheisiaw,**  
**Na thlawd,—hwde bunt i'th law."** 28

24

28

## CXLIV.

I'R MIS MAI.

**D**UW gwyddiad mai da gweddai  
 Dechreuad mwyn dyfiad mai !  
 Difeth ir-gyrs a dyfai  
 Dyw-calan mis mwynlan mai : 4  
 Digrin flaengoed a'm oedai,  
 Duw mawr a roes doe y mai !  
 Dillyn beirdd, ni 'm rhy-dwyllai,  
 Da fyd ym oedd dyfod mai !

4

Hardd-was

- Hardd-was teg a'm anrhegai,  
Hylaw wr mawr hael yw'r mai !  
Anfones im' iawn fwnai,  
Glas defyll glân mwyngyll mai : 12  
Ffloringod brig ni'm digai ;  
*Flur-de-lis* gyfoeth mis mai.
- Diangol rhag brad i'm cadwai  
Dan esgyll dail, mentyll mai : 16  
Llawn wyf o ddig na thrigai,  
(Beth yw i mi?) byth' y mai !  
Dofais serch a'm hannerchai,  
Dyn gwiwryw mwyn dan gôr mai : 20  
Tadmaeth beirdd heirdd am hurddai,  
Serchogion mwynion ym mai !  
Mab bedydd Dofydd difai,  
Mugr-las, mawr yw urddas mai : 24  
Or nef y doeth a'm coethai,  
I'r byd fy mywyd yw mai !  
Lle glas gofron, llon llatai,  
Neud hir ddydd mewn irwydd mai ! 28  
Neud fer nos, nid trwm siwrnai ;  
Nid heirdd gweilch, ond mwyeilch mai ;  
Neud golas nid ymgelai  
Bronwydd a brig manwydd mai ! 32  
Neud llon eos lle trosai,  
Llafar yw mân adar mai !  
Neud esgud nwyf am dysgai ;  
Nid mawr ogoniant ond mai :

Paun asgell-las dinasdai,  
 Pa un o'r mil, pèna'r mai !  
 Pwy o ddail ai hadeiliai,  
 Yn gyd a mis o goed mai ? 40  
 Magwyr laswyrrd a'i magai,  
 Mygr irgyll, mân defyll mai.  
 Pwyllo, gorau pwy pellai  
 Y gauaf,—mwynaf yw'r mai ! 44  
 Dechrau haf llathr ai fathrai,  
 Deigr ai mág, diegr y mai.  
 Deilgyll gwyrddrisg a'm gwisgai,  
 Da fyd ym yw dyfod mai ! 48  
 Duw doeth gadarn a farnai,  
 A Mair i gynnal y mai !  
 Mýnwn, pe nef ac mýnai,  
 Pe deuddeg mis fo mis mai !

---

CXLV.  
I'R BIOGEN.

**F**AL 'r oeddwn yn nhrewyn y rhiw  
 Goedog, ple bynnag ydiw,  
 Yn disgwyl y feinwyl ferch,  
 I gynnal oed ag annerch ; 4  
 Daeth uwch fy mhen i'm sénw,  
 Ei bwriad fyth o'm brad fu,

Edn

Edn dig a'i llembig llymbwyll,—  
Egwan Bi a gwyneb gwyll.

8

“ Pa'r oferw pur oferwas  
S'yma 'n llyn, yn y glyn glas,  
Dan y dirgel wyddeli,  
Heb fod neb yn d'atteb di ?”

12

“ Och i'th drwyn ! na chais gwyno,  
Beth wyddost di Bi na bo ?  
Gad lonydd mewn glaswydd glân  
I mi aros Em eirian :  
Ac i wneuthur mesurau  
O bennillion mwynion mau.”

16

“ Rheiach yt, anwych ytwyt,  
Brudd o wr na'r berw ydd wyt,  
Arfer a'th bader i'th ben,  
A thewi fyth a'th awen.”

20

“ Gwyddwn bader a gweddi,  
A'u doedyd, pei tewyd ti !—  
Gwyddost dithau, gau gylfin,  
Blethu manwydd crychwydd crin ;  
A'i eilio, wrach brudd ruddfain,  
A'i gleio, a'i drymio a drain :  
Ti a'th adar ni chara',—  
Na bo yt oes, na byd da !”

24

28

## CXLVI.

I'R TAFOD.

**Y** Tafod nid wyt hyfedr,—  
Taw druan, fawd lydan ledr!

Pam na cheisi dy diddos,  
Pa ddail a wnaid pan ddel nos,  
Na fedri, noeth ynfydrim,  
Yleni dewi er dim?  
Mwy na rhegen mewn rhagnyth,  
Myn nith Fair, hon ni thaw fyth!  
Hon ni thou heb y tafawd,  
Ni thou gwynt a nithio gwawd.  
Modd yr wyd am ddireidi,

Colyn oer, i'm calyn i ;

Awr daw heb hyd dalm o'r dydd,

A wyl ferw ymlaferydd;

Ti wnai beth er na wnai neb,

Hoel gwtta, holi ac atteb.

Tyfaist y'nhyf god dwy-foch,

Fal tafell o fara cell coch :

Clicciedyn yn cloi ceudawd,

Cloren gwern, clap breuan gwawd.

Mae'r naill beth, achrath echrys,

Ai bod braw gyfarfod brys,

Ai hunlle, fodd henllwy faith,

Arnad yn siarad surwaith.

Os bydawl eisbau bedydd

Arnad, yn siad siarad sydd,

12

16

20

24

Offeiriad

- Offeiriad meddw, gweddw Gwyddel,  
Gynt a' th fed yddiodd dan gel. 28
- Yfed llyn gwerth dan berthi,  
Nos a dydd, yw dy naws di;  
Ymddyfalu meddw folaid,  
Son yn ffraeth am gwrw Sanffraid. 32
- Hynny, myn Mair! a bair bœd  
Bugunad debig ynod,  
A bloeddio fal pabl Iuddew;  
Mi a adwaen flaen dy flew. 36
- Dwg yn wag gwaith o ragor,  
Yn llawn aniawn moelrhawn mor;  
Pan ddel llanw gwylt hyllt holltir  
Nefai ei flew fal soflîr: 40
- Rhuo a wnai a rhyw nad,  
A briw ferw âb rhyferad.  
Traian sôr, truan farug,  
Trwn sôr ffals, treinsiwr ffug: 44
- Meistr dyfrllyd mafw a drig  
Mesfrig a mân yfwr eig.  
Mawr ei angerdd mireingoch,  
Cleddau cerdd, celwyddog coch; 48
- Perygl yt y paraf glwyf,  
Ag ellyn gynta' gallwyf  
Dŷnu, myn Delw Deinioel,  
O'r gwraidd, lafn mileinwraidd moel! 52

- Coffa mor dda i'm caffud,  
Cyn no hyn o wn can hud;  
Doed dy gof diotta gynt,  
Diodydd medd da ydynt. 56
- Megaist di fal mŷn magod,  
Mefl o mewn, mau ofal fod;  
A minnau er na mŷnwn  
O rânau byth i'r neb ei wn, 60  
Er ugein-morc, neu gan-muw,  
Gwelyt dwyll mewn gwlad Duw!  
Hawdd yw adnabod yr hen  
Gorflewyn, gwr aflarenn  
Gau genau y geg annoeth,  
Gael attat beth gatyd boeth. 64

## CXLVII.

I'R CAE BEDW A MODRWY A GAWSAI MADOG  
BENFRAS Y BARDD GAN EI GARIAD.

**A**NFON a wnaeth rhieinferch  
I Fadog, orseddog ferch,  
Dodrefn cariad hyd adref,  
O do dail, da dylau ef. 4  
I Dduw, Madog a ddiylech,  
Gan ei chwaer hael gael y cylch:  
Aml y gwifg ymylau gwýdd,  
Am ei ben i mae beunydd.

Cae

Cae o'r unwedd, cywreinwaith,  
Ydyw'r mau, nid o aur maith;  
Bagadfedw, bu egwydfodd,  
A bun ai rhoes yn ben rhodd.

12

Blaenion caingc, blin iawn ai cár,  
Blethedig o blith adar:  
Bawd ai lluniodd, bedw llannerch,  
Blaguryn o symlyn ferch.

16

Gwell gan Iorwerth gywerthydd  
Ei wawd, nog anrheg o wýdd;  
Trysorer cerdd tros ariant,  
Ac aur coeth, fal y gwyr cant.

20

Rhyw dudedd bys rhoed iddaw,  
Rhod lân rhag rhydu ei law:  
Rhoi wnaeth rhiain fain fynwaur,  
Rhwydd yw hi, rhoddi ei hausr.

24

Rhaid bychan oedd gan y gwr  
Rhwymo bys cyfan-rhinwr.  
Dwy droedfedd, fab da drudfaith,  
O dir iach lle mae da'r iaith;  
O'i unlle, cariad ai cur,  
A edy Madog awduri,

28

Ar Iorwerth, gerddgerth gyrrddgun,  
Ac ar bawb o garu bun.

32

Ni fyn Madog, mydr ddoethlef,  
Aur am wawd ei dafawd ef;

U 3

Amab

A mab y Cyriog ym Mon  
Ai cais am gywydd cyson.

Rhagawr mawr, gerddawr gordderch,  
Y sydd rhwng golud a serch; 40  
Cae gwiall, er na thalo,  
Dda ei barch iddo y bo.  
Teilwng seren bedwèni,  
Talm mawr, ef ai tâl i mi:  
Cusan morwyn ddianhael,  
Duw ai gwyr, da yw ei gael !

Nid oedd nes i wtres hen  
Ei brŷnu ef no brwynen ; 45  
Ni cheid ar ei wylleidiaeth  
Na medd, na gwin, min ai maeth:  
Unrhyw yw hyn o anrheg  
O fedw glas, teuluwas teg ;  
Aur gan unben a chwenych,  
Ei bedw glas a gâs gwas gwych :  
Yn dwyn nwyf, nid yn ofeg,  
Fy mrodyr teuluwyr teg.— 50  
Maelier y gerdd a'i molawd  
Yw Iorwerth, a werth ei wawd.—  
A Madog gweinidog gwŷdd,  
Digrifwas, da ei grefydd ;  
Cytgerdd Eos gyw coetgae,  
Car ym yw,—caru y mae !

## CXLVIII.

I WENHWYFAR O FON A ACHWYNASAI AR  
Y BARDD WRTH EI GWR.

**D**A o beth fydd deubeth fwyn,  
Y mai irwŷdd, a morwyn ;  
Dau gydymaith gywaithas,  
Dau olwg leddf, a dail glas.

Dyn a roes, dan yr asau,  
Drem gynt na'r adar yn gwau ;  
Deliais ar yr hudolion,  
Dur yw fy mriw dtwy fy mron !

Afon ai llif o fewn llaid,  
Mae awch hon i'm uchenaid ;  
O Dduw gwyn, seddyg einioes,  
Nad i ferch newidio f'oes !

*Aner* wyf fi'n cweirio ei fedd,  
Ond aros mynd i orwedd ;  
Oni bai wyneb ewyn,  
E fuasai'n hwy f'oes na hyn !

Pe caid a'm dieneidiodd,  
Mi gawn fun mewn amgen fodd.

Trist a'm ferch troes Duw ym fâr ;  
Mi eiddilgorph meddylgar :  
Meddyliais am a ddelai,  
Meddwl trwm a ddilid rhai.

- Ni wyr y llin ar y llaw  
Ba feddwl i bwyf iddaw, 24  
Ni lanwaf fal yr afon,  
Ar ei meinheis, er mwyn hon,  
Profais fy mhais a'm hosan,  
Ni wn i maint yn un man : 28  
Mal nodwydd ym mlaen edau  
Y mae lliw hon i'm lleihau.—  
Oes un gwr am gwelsai gynt,  
Ym myw dyn, a'm adwaenynt? 32  
Yr wyf eisoes ar faswedd,  
Allan o gwrs, llun a gwedd :  
Diried yw ym i daw'r dis,  
Dyn a'r ôg dan ei wregis.  
Doeth am ferch adwyth ym fu, 36  
Dwyll disil dillad Jesu ;  
Dwedais y byd a ydoedd,  
Jê Fair wen, ofer oedd !  
Byw mal hyn bum bum-mlynedd,  
Braidd na bum bridd yn y bedd :—  
Ni ddorwn i ddoe, er neb,  
I ba fan i bai f'wyneb ! 40  
Un swydd fum y nos heddyw  
A nofio mor yâ fy myw,  
Fal llong foel a olyngir  
I ble tyn, heb weled tir :

Twrch a'i dy dan freichiau dár,  
 A gae filgwn gafaelgar.  
 A mab i ddwyn ol y ddau  
 Oll o fewn cynllyfanau ;  
 Ni ddetyd mebyd em ais,  
 'Y nrhem o'r man i rhwymais !

52

## CXLIX.

TRAETHODL YMDDIDDAN RHWNG Y BARDD  
 A'R BRAWD LLWYD.

**G**WAE fi na wyr y Forwyn,  
 Glodfrys a'i llys yn y llwyn,  
 Ymddidan y Brawd llygliw  
 Am dana' i y dydd heddiw !

4

Mi a euthum at y Brawd,  
 I gyffesu fy mhechawd ;  
 Iddaw'r addefais, hyd gwn,  
 Mae eilun prydyyd oeddwn ;  
 A'm bod erioed yn caru  
 Rhiain wynebwen aelddu.  
 Ac na bu im' o'm llofrudd  
 Les am unbënes, na budd,  
 Ond ei charu 'n hir waſtad,  
 A churio 'n fawr o'i chariad ;  
 A dwyn ei chlod drwy Gymry,  
 A bod hebddi er hynny :

8

12

I

A dymuno

A dymuno ei chlywed  
I'm gwely rh'o'r pared.

Heb y Brawd wrthyf yna,

“ Mi a rawn it' gyngor da ;

20

O cheraiſt eiliw ewyn,

Lliw papir, oed hir hyd hyn,

Llaesa boen y dydd a ddaw,

Lles yw i'th enaid beidiaw ;

24

A thewi a'th gywyddau,

Ac arfer o'th baderau.—

Nid er cywydd nag englyn

Y prynodd Duw enaid dyn !—

28

Nid yw'ch cerdd chwi y Gler

Ond truth, a lleisiau ofer,

Ac annog gwyr a gwragedd

I bechod ac anwiredd.

32

Nid da 'r moliant corphorawl,

A ddycco 'r enaid i ddiawl !”

Minnau attebais i'r Brawd

Am bob gair ar a ddywawd.

36

“ Nid ydyw Duw mor greulon

Ac y dywaid hen ddynion ;

Ond celwydd yr Offeiriad

Yn darllain hen grwyn defaid :

40

Ni chyll Duw enaid gwr mwyn,

Er caru gwraig, na morwyn.

Tri

- Tri pheth a gerir drwy'r byd,  
Gwraig, a hinon, ac iechyd.— 44
- Merch sydd deccaf blodëuyn  
Yn y Nef ond Duw ei hun!
- O wraig y ganed pob dyn,  
O'r holl bobloedd ond tri-dyn ; 48
- Ac am hynny nid rhyfedd  
Garu merched a gwragedd.—
- O'r nef cad pob digrifwch,  
Ac o uffern bob tristwch.
- Cerdd a bair yn llawenach 52
- Hen ac ieuangc, claf ac iach :—
- Cyn rheitied i mi brydu,  
Ac i tithau bregethu ; 56
- A chyn iawned imi glera,  
Ac i tithau gardotta.—
- Pand englynion, ac odlau
- Yw'r hymnau a'r *secuensiau* ;  
A chwyddau i Dduw lwyd 60
- Yw Llafwyr Dafydd Brophwyd.—
- Nid ar un bwyd ac enlyn
- Y mae Duw 'n porthi pob dyn. 64
- Amser osoded i fwyd,  
Ac amser i olochwyd ;
- Amser i gynghaneddu,  
Ac amser i bregethu.—
- Cerdd a genir ym mhob gwledd,  
I ddiddanu rhianedd,

- A phader yn yr eglwys,  
I geisio tir paradwys.— 72
- Gwir a ddywed Ystudfach,  
Gyda'i feirdd yn cyfeddach,—  
Wyneb llawen llawn ei dy,  
Wyneb trist drwg a ery. 76
- Cyd caro rai sancteiddrwydd,  
Eraill a gár gyfanheddrwydd ;  
Anaml a wyr gywydd per,  
A phawb a wyr ei bader.— 80
- Ac am hynny'r dwyfawl Frawd,  
Nid cerdd sydd fwyaf pechawd.  
Pan fo cystal gan bob dyn  
Glywed pader ag englyn, 84
- A chan forwynion Gwynedd  
Glywed cywydd o faswedd,—  
Mi a ganaf, myn sy llaw,  
Y pader syth heb peidiaw ! 88
- Hyd hynny, mefl i Ddafydd,  
O chân bader ond cywydd !”

- B.—“ Dôs o'r byd a'th gywyddau !”
- D.—“ Dôs dithau i ffwrdd i'r poenau !” 92
- B.—“ Dôs di i boen a phenyd !”
- D.—“ Dôs dithau frawd du o'r byd !”
- B.—“ Dôs di i boenau uffernawl !”
- D.—“ Dôs dithau frawd i law Diawl !”

CL.

I FERCH.

**G**WEWYR cyseddachwyr cof

A ymwan trywan trwof,

Am, wrth ei chwrtais geisiau,

I'r fun drwm warafun draw.

4

Cynt no hwyl i dan ddwylaw

Y pilwrn drwy'r brwynfwrn draw,

Rhag mor derwyn gynhwynawl

Y gwrthyd fy myd fy mawl !

8

Saeth awchlem wylt, syth awchloes,

Dan ben ei bron gron yn groes ;

Drwy na thoro, tro treiglfrys,

Na'r croen, nag unpwyth o'r crys.

12

Bach haearn, gafaelgarn gael,

Dan ddwyen y dyn dduael :

Diwael gulael, a golwg,

Drwy na chyfarfo dro drwg.

16

Uchel iawn rhof fy llawn llef

Och ! fwy nag och fi ! — nagef !

Taro ei phen, cledren clod,

Ag isarn ar un gosod !

20

Rhydraws yw eu gwarafun,

Wb gwae fi ! ai byw gwiw fun ?

Os marw fydd, ys mawr wae fi !

Y gwiwddyn bach o'm gweiddi :

Rhag

Rhag mor anhawdd, drym-gawdd dro,  
 I ennill hoedl i honno !  
 Dewisaf, oedd gyhoedd ged,  
 Ei diangc, rhag ei daued !

28

## CLI.

YMDDIDDAN RHWNG Y BARDD A MORWYN  
 SERCHOG.

**L** LUNIAIS oed mewn mangoed mai,  
 Dawn Dafydd, a'm dyn difai ;  
 Cywir fun a'm cyfarfu,  
 Bron deg, goris y bryndu. — 4  
 Rhoi cusan, rhai a'i ceisiai  
 I'r fun, ni wn arnai fai,  
 Ei gael ym, golau'y mun  
 O em rwydd, ddau am yr un ! 8  
 Hyfach oedd, wrth gyhoeddi,  
 'Y mun o lawer na mi !  
 Pan welais fy llednais ddyn,  
 Larieiddgu, mor hy a hyn, 12  
 Ciliais i'm corn fal ornair,  
 Cael ysgwd celais y gair ;  
 Yn is fy nghlap anhapus,  
 I'm bryd ar beidio a'm thus.  
 Dirwyn fy rhan o'r deri  
 'Y myd a'mliwiodd a mi !

16

“ Ni

“ Ni ddaethoſt ddifōſt Ddafydd,  
 Wr doeth, i gywi'r dydd;  
 Ond ar hyder llawnder lles,  
 Coel dinag, cael dy neges!”

20

“ Nagê fy rhiain fain-gu,  
 Rhan fod, nid er hynny fu;  
 Ond o'th gariad ni wadaf,  
 Annoeth gwyn, mi wn na'th gaf!”

24

“ Diau i'th ol y dolwyn,  
 Ddafydd wr digelfydd gwyn,  
 Ni ddown i oed i'r goedfryn  
 Erod fab, ddiwybod ddyn,  
 Ond ar hyder o'r rhwyddwy  
 'Y myd, fod yn forwyn mwy!”

28

“ Morwyn fyddi, ddiddial,  
 Erof fi, wedd eiry y fâl:  
 Iaith irber, del i'th erbyn,  
 O Fair! os dithau a fyn!  
 Ni fyna', ni wedda'n wir,  
 Faith gwyn, ef a'th ogenir:  
 Nid heb achos i'th oeda'  
 Call iawn wyf rhag colli'na:  
 Aet na sînwn, gwn gymau,  
 Afles fwriad i'r tad tau!”

36

“ Taw a'th esgus fedrus-gel,  
 Er delw Ddewi, del a ddel!

40

Y mae

Y mae da diball allan,  
Ar facs, neu ryw ysgrublfañ !”

“ Pe rhon’, a chael cyfael-wg  
Hoen ddudrem, hyn yn ddiddrwg, 48  
Y mae archdiacon mawr,  
Rhyged a fyn ei ragawr.  
Gwela’ nad gwell na gelyn,  
O’i foddy ysgymuno a fyn,  
Fry oni chaiff yn ei fro,  
O ddogn nawdd ddeugain iddo.”

“ Och ! mor galed fawedig,  
Wyd Dafydd dan fronwydd frig ! 56  
Na fydd hebo’r Cymro cain,  
Rhad agos, er rhoi deugain !”

“ Beth oni bydd, hafldydd hyf  
Yn gynnar, ddeugain gënysf ?” 60

“ Cael gan i, fab arab gwyn,  
Yn uchel a wnai’n echwyn :  
Dylwn wawd, a’i dalu’n wych  
I minnau pan y mŷnch !” 64

Yno nid oedd gyhoeddi,  
Un esgus medrus i mi,  
Eithr bod oni’m gwrthododd,  
Mi a lloer fun, o’m llwyt foddy ! 68

## CLII.

YMDIDDAN A MERCH DAN EI FFENESTR.

**C**ARU perchen cae arian,  
 Caru a wnai'r cryf yn wan;  
 Caru yn dŷn, mi a'i cafas,  
 Caffwy' a gaffwy' o gas : 4  
 Caru merch nis cae'r marchog,  
 A fu rhwng y porth a'r ôg.  
 Mae cloun iâ i'm calon i,  
 A'm pen y sydd i'm poeni; 8  
 Am fy mod dan gafodydd  
 A'r dagrau iâ 'r hyd y grudd :  
 Ar ôd mynch y rhodiwn  
 Llawer gwaith, lliw eira, gwn. 12  
 Rhaid i mi ddysgu neidio  
 Y nos, drwg yw'r ffos i ffo ;  
 Trwm yw'r pridd, anhawdd troi'r pren,  
 Braenia unwaith a brwynen. 16

“ Duw a wyr dy fod mor wan  
 Dy ddull i ddywaid allan ;—  
 Egor y ddôr, ddiweirwen,  
 Sy' fry uwch dy wely wen !” 20

“ Nid agor hon un gronyn,  
 Ymdiddan oddi allan ddyn !”

“ Mae y ffenestr yn llestair,  
Tŷn er da ’r pren, wen ddiwair ! ” 24

“ E wich y ddôr oddi danawdd,  
Fy nhad a ddeffry yn hawdd ! ”

“ Mae’n cyfgu, un du diddim,—  
Myn nef fry, ni ddeffry ddim ! ” 28

“ Fei’n clyw fy mam, cam a gaf,  
Esgeirwen, os egoraf.”

“ Gwlych a’th boer lle y rhoe’r rhestr  
Blaen ffyn colyn y ffenestr ;  
Gwedi hyn, gwada’ heniaith,  
Och ym! pan wishio ychwaith.” 32

“ Yn niwedd dy daeredd di,  
O gariad, llyna ’gori ! ” 36

“ Y fun berffaith i’th luniwyd,  
Nos da it’ mor onest wyd ! ”

“ Croeso fwynwas, myn Asa !  
Nos da’d, od oes neges da ! ” 40

“ Cennad i ddywad yn nes  
I fynegi fy neges.”

“ Anghwrtais wyd o cheisi,  
Myn Asa ! ni feiddia’ fi.”

" I'm bron mae dirfawr ddolur,  
Fal blaenau nodwyddau dur;

A'm calon, er a soniant,

Sy'n sefyll ar gyllyll gant!

48

Rhaid im' ddwyn pridd ar f'wyneb,

Rhag bod i'm adnabod neb :—

Fy niwedd, chwedl diledlyth,

Yw gorwedd yn y bedd byth !"

52

## CLIII.

## CYNGOR I FORWYN.

**C**ERDDAIS yn gynt, helynt hir,

Na meldden ddeunaw milldir;

Ni chyhwrddawdd, naw gawdd nwys,

Neithwyr (ym tra a wnaethwyf)

4

Blaen 'y nhroed, blin yw fy nhrangc,

Ar ddaear, arwydd ieuangc !

Un fryd wyf, yn y fro deg,

A Thrystan, eithr ar osdeg,

8

Ni thŷr crinbren, dien dwyll,

Dan droed i'm dyn drud ammwyll.

Ni thröais, annoeth rôl,

Fy wyneb er neb yn ol,

12

Eithr yn gynt na hynt gwynt gwylt

I lys y fun ail Esyllt !

Rhoddais, ac ni henwais hi,  
Gain roddiad, gyngor iddi.—

16

“ Na fydd salw yn syn dalwifg,  
Ar dy fryd, hoen eiry dy frifg ;  
Yn ol hir, y feinir fwyn,  
Ymaros ym mraint morwyn.—

20

Na fyn, dros ymofyn mai,  
Fawddyn, drwg yth gydfyddai :  
Cenedlog rywiog riain,  
Câr di a’th gâr, dyn doeth gain !”

24

“ Ys gwaeth, medd y famaeth fau,  
Ym weithian am fy moethau ;  
Gwelais amser, fab Gwilym,  
Gael gwr a wnelai gelg ym :  
Nid celgwr gwr a garo,  
Ni thrig mewn gweniaith na thro.”

28

“ Ni mŷnwn, bai gallwn gael,  
Dy dwyllaw, du dy ellael !  
Nid oedawn, wr glerwr glân,  
I’th dwyllaw o’th dy allan.  
Ni’th dwyll dyn byw, nawdd yw Ner,  
In lle bwyf, enllib ofer !

32

36

Dianair yw dy wyneb,  
Dillyn yn, ni’th dwylla neb !”

## CLIV.

YMDDIDDANION RHWNG MERCH A PHRELAD

**D**OE gwelais, arswydais oed,  
 Dyn lwysgaingc befr dan lasgoed ;  
 Cyfarch o'm bun deg hoywfaeth,  
 Gwall i'm nwyf, gwell ym a wnaeth :      4  
 A chael gafael ogyfarch,  
 Ar fy nhwng, ym mwng y march ;  
 A dechrau, heb led ochri,  
 Fal hyn, ymosyn mi.—      8

“ Rhy dew glain, rho Duw *glement* !  
 Rhwydd y gwsgaryd dy rent  
 Ystyr ym, os da wr wyd,  
 Yn rhoi oed yn rhi ydwyd !      12  
 “ Y nghred *Brelad* afradlawn,  
 Uthr blangc, ydwyd ieuangc iawn ! ”

“ Y'nghred mai ieuangc gwr eang crwn,  
 Wych ryw feddwl ! cryf oeddwn,      16  
 Pan fedyddiais, drais draserch,  
 Dy dad, fun ;—da doed yd ferch ! ”

“ Llyma goed lle mae gwawdydd,  
 Teg yw hon, pe tygai hydd.”

“ Esgud ydd awn dan las goed,  
 Pan fu, em gu, yma goed ;  
 Fy ngwawr nid oes yr awron,  
 I gyd fry o goed y fron,  
 Eithr dryll o esgyll ysgorodd,  
 A fin yn ymyl y ffordd !”

24

“ Pam gytgàmwr, siòmwr ferch,  
 Yw gènyd mau ddig annerch,  
 Fwrw drem las o'th gasul  
 Arnaf, Bâb salwedd, bob Sul ?”

28

“ Pwl oedd fy nrhem hen *glement*,  
 Pebr-wisg ferch sidanwisg *dent* :  
 Annodd ym, iawnfodd annerch,  
 Dy adnabod, fwynghlod ferch :  
 Yn anad merch loywferch liwys,  
 Fain rugl, o fewn yr eglwys.”

32

“ Pam yw gènyd, loybryd liw,  
 Dy falw hedd ddywsful heddiw ?  
 Sengi megis gloes angau,  
 O'th droed ar fy neudroed mau.”

49

“ Gwr arall, liw gwawr aurym,  
 Gwaith oer, a rodde gwth ym,  
 Hyd pan aethym fal sym sach,  
 Aur liw hoyw, i'r llawr hayach.”

“ Pam

“ Pam y mae cas o’th drasferch  
Gènyd son am ganiad ferch ?”

“ Ar ganol oriau gwiwnwyf,  
Fy mhylgain, riain, yr wyf ;  
A’r dydd yw fu o’r deuddeg  
Diwrnod teilyngdod teg,  
Yr erchist nef, didrist daith,  
Eu cadw rhag pob cydwaith.  
Ni thyr cryf yn awr crefydd,  
Heiniar deg, am hanner dydd.”

43

52

“ Rhyfugus wr, moethus maith,  
Byd iawnwych, be baid ymaith,  
Pam pan roddych, lewych len,  
Bob ffurf y bara ’fferen,—  
O’m gwasgod pam i’m gwesgy  
O’t law fy neheulaw hy ?”

56

60

“ Fy nghamp rhag ofn fy nghwymppaw,  
Pebyll oer, gwafgu pob llaw ;  
Pan welais traiglais y trai  
Am nith Eigr ym na thygiai,  
Na gwad, aur fwriad forwyn,  
Nag esgus, ddyn foddus fwyn.  
Euthum law-law draw i’r drain,  
Dan lasgoed, a’m dyn lwyfagin ;  
Dygum ar hon, wirion wrangc,  
Gwareau mal gwr ieuangc.—

64

68

Gwell Gwen, clyw wr hen yr haf,  
 Yn yr ing no'r ieuangaf:  
 Oroen fydd ei hen eiriau,  
 Er hyn o fôst aran fau."

72

## CLV.

## I FERCH.

**G**WN ledrith un gain lwydraf,  
 O'i hymlyd er hyd f'or haf,  
 Fal na bo heno i hon  
 Gyd gyfraith goed, na gofron,  
 Na chesail bryn taerwyn teg,  
 Na rhedyn i'm dyn rhydeg;  
 Nag unlle mewn banne' byd,  
 Hoyw fun, i'm gochel hefyd.

4

8

Os marchog urddol bogsyth  
 A gâr bun yn ei gair byth,  
 Mi addefwn, em ddifas,  
 Yn ei rith, mae yno ym ras.  
 Os ef *ysgwier* arferawl,  
 A gâr y fun o'r gaer fawl,  
 Gwenddydd, pan ddel hirddydd haf,  
 Os gwawr fydd, *ysgwier* fyddaf.  
 Os ammaeth, gwn ammaethud,  
 A gâr hon, heb ungair hud;  
 Er mwyn gwawr llwyn o garllaw,  
 Daliwn aradr a'm dwylaw.

12

16

Os.

Os galwai nid ai o'm dadl  
 Gènyf tra gaffwyf gynnadi,  
 Dysgwn, a chludwn ei chlod,  
 Budd iawn elw, byddwn eilwod.

24

Os dyn dedwydd bob blwyddyn,  
 O'r gaer ddail, a gâr y ddyn ;  
 Gwyn grair yn arwain y gra,  
 Da feddwl, dedwydd fydda'.

28

Os gwr ieuangc gwarëus  
 A gâr hon, heb ungair rhus ;  
 Byddwn, ni chelwn ei changc,  
 Gwarëus fal gwr ieuangc.

32

Os diriaid ddyn, fyn fwynaf,  
 Gwr hy, a garit ti'r haf ;  
 Bum dra diriaid fy neidiau,  
 O gariad march y tad tau.

36

Os gwas march a barcha bun,  
 A dofi, ferch a dyfun ;  
 Beiddiwn hawl, a byddwn hy,  
 Etto yn was march itty.

40

Yr adar bach a rwydud  
 A'th iaith dwyllodrus, a'th hud ;  
 Mileihiaidd, wen, yw d'anwyd,  
 Ffagl yr a ffugiol ydwyd.

44

Er Mair ! dod anair arnaf,  
 A'th gas,—mi a wñ na'th gaf !

## CLVI.

I'W HEN GARIAD AI GOLLYNGASAI YN  
ANGOF.

**Y** Ferch addfwyn o Wynedd,  
Sy' ymmysg osai, a medd;  
Bonheddig osgeiddig wyd,  
Ac anwadal, gwen, ydwyd.

Beth a dal anwadalu,  
Gwedi'r hen fargen a fu?  
Os balchder sy'n ei beri,  
Hayach, nid anfalchach fi!  
Od wyd fonheddig, a doeth,  
A gafael yt ar gyfoeth,  
Na fydd falch, fy myn galch-liw,  
Nid gwaeth na byddych, nid gwiw!  
Nid hwyrach ym anturiaw  
Un falch, na difalch o daw.

Er athrodion gweision gwych  
Na wna goel, oni gwelych:  
Na'm gwirthod, lliw manod mân,  
Mewn gwg, rhag mynu gogan.—  
Os edifar fy ngharu,  
Fe hönir, feinir, a fu;  
Er yt, deg wen gymmen gall,  
Yr awron garu arall.

16

20

Er

Er dim, wnel Dewi a Non,  
 Igael wrth fodd dy galon,  
 Ac i minnau, gem anwyl,  
 A fynno Duw, f'enaid wyl !  
 Nag ym orfod, rhag bod bâr,  
 Gàmu bys ar dy gymmar.

24

28

Y dydd a fu, mewn deddf wych,  
 Em dawel i'm gwrandewych !  
 Llawer cusan, ac annerch,  
 Llawer amnaid, falchblaid ferch,  
 Llawer arwydd, lloer eurwallt,  
 A llawer oed uwchllaw'r allt ;  
 Llawer cae bedw dan fedwgoed,  
 A llawer rhwym i'm llaw roed ;  
 A heddyw gwn, hoywedd gwir,  
 Y myd wen, ni'm adweinir :  
 Llidiaist wrth a geraist gwen,  
 Och ym ! od wyd dra chymmen.  
 Cais o bwyll, wen, cospi llid,  
 Câr Dduw, cywira 'ddewid ;  
 'Mogel dy farnu megis  
 Chwerwedd, o dwyllchwareydd dîs,  
 Er ennill mewn awr enyd,  
 Truan yw'r bai, troi wna'r byd ;  
 Felly gwen-gu, lliw gwyngalch,  
 Y try byd at y rhai balch.

32

36

40

44

Os ydych, ddyn wych o wedd,  
**Yn** dilyn anwadaledd ;  
'Mogel ferch, er annerchynt,  
Dýnu i gwrs y dyn gynt :                           52  
Colli'r clustiau cau cedyrn,  
Cilwg hir, cyn dael y cynr !

Gan dy fod cyn gwybod gwall,  
Dwys air, yn dewis arall ;                           56  
Cwynaf, riain addfain-ddyn,  
**Gwn** na chaf amgenach hyn !—  
Yn iach fy fiomgar gariad,  
Mi gela', Gwen, gael a gad :                       60  
Er canu 'n iach drwy achwyn,  
Anghywir ferch, yw'r ferch fwyn !  
Cymmer, wen, rybudd genni,  
Er lles, deuliw'r tes, i ti ;—                      64  
'Mogel gael, gafael gyfell,  
Fy ngwaeth, wrth geisio fy ngwell !

## CLVII.

## I OFYN CYMMOD.

**E**R un-ferch oer iawn yw f'ais,  
A garaf, ac a gerais !  
Rhoi 'sywaeth a wnaeth neithwyr,  
Ei gwg ym, a gwae a'i gŵyr !

O Dduw !

O Dduw! a'i gwnel yn ddiwg,  
 A'i o gas ydyw ei gwg?  
 Os cas yw, nid oes cwys iach,  
 Os moethau, mae'n esmwythach;  
 Os anwes, eisiau synwyr  
 Ydyw ei gwaith, bedw a'i gwyr.  
 Ni bydd pêr llais aderyn,  
 Os cas oedd esgus y ddyn:  
 Gwedded yr ehedydd  
 Lleufa'r gwg, er lles i'r gwŷdd.  
 Ni chaf wiail, ni ddeilian'  
 Yma, na chog mwy ni chân:  
 Y hi, olwg a'i haeliau,  
 A barodd hyn, ym bruddhau.—

Gwnaed bellach fi'n iach, sy nyn,  
 Ar hyder tyf y rhedyn:  
 Gwell i'r fun, myn llun fy llaw,  
 Gymmodi nag ymadaw!  
 Rhown aur i wen, rhif yr ôd,  
 Ar ei cham, er ei chymmod!  
 Nid cymain' ar y min mau  
 Blys gwin, a blas ei genau!  
 Os cymmod gyfnod a gaf,  
 Gwych fod dus, ac iach fyddaf;—  
 Ail haf ni byddaf i'r byd,  
 Na chwe mis, oni chymmyd!

## CLVIII.

Y WRACH.

**M**I a gerddais wyth milldir  
 Ar fy hynt, bu yrfa hir,  
 O anial dir yn uniawn,  
 Nos na dydd ni bu naws dawn. 4

Tri pheth ni bydd eu heilryw,  
 Grymialög, ferchog, a syw:  
 Y fi'n dyfod tua'r ty,  
 (Am hanner nos oedd hynny) 8

Lle'r oedd y Fun a garwn,  
 Ag aur ar wregys ei gŵn.—

Mi a roddais dri chnipws,  
 Er ei mwyn, ar drwyn y drws.— 12

Egori diwyd latai,  
 A'i 'sgusodion chwithion chwai;  
 A'm troi ar y llaw arall,  
 Is cil y ddôr, cyngor call, 16

Oni threawais gwîr fy ngân  
 Ar ucha' côn yr ychen;  
 Lle'r oedd fodryb i Eiddig,  
 O Wrach ddygyn fantach ddig.— 20

Suganai'r Wrach fantfach-fain  
 O'i nyth, lle chwyth llau a chwain.—

“ Beth sydd yna gar dy law,  
 Hebot yn myned heibiaw ? ”

“ Beth

“ Beth a fynyt, Wrach, ei fod,  
Onid myfi a'm cyfgod !”

“ Beth a wnai'r fantell orwen  
Yn drafeth am beth o'i ben ?”

28

“ Pelydr y lleuad ydoedd  
Ar y ddôr, a'i arwydd oedd.”

“ Beth a wnai'r cledd a'r bwced,  
A dau lun ar ei glun gled ?”

32

“ Myfi fy hun a lysgws  
Ar fy ol drofol y drws.”

Tra fu y Wrach, fantach faw,  
A'i morwyn yn ymeiriaw,

36

Myfi euthum i fyny,  
Rhaid yw twyll ar hyd y ty,

Hyd wrth wely bun ddiell,  
A'i chern ar riniog ei chell ;

40

Syganai'r Wrach yr eilwaith,  
Ei hun er gwarafun gwaith.—

“ Pa beth sydd yna 'n chwiltath ?”  
Tyngais i'm cyffais mai cath :

44

“ Rho Dwynwen ! gwan yw'r ddichell :  
Ai'r gath agorodd y gell ?  
Nagê, myn mair ! loyw grair lân,  
Cliccied y ddôr yn cleccian.

Nagê

Nagê, myn mair! trymair trift,  
 Y llygod dan y llawgïst.  
 Och i mi! henw dyrys,  
 Ond dwyn rhai o'r wyn yr ys!"

52

Pan oedd orau fy 'nghyflwr,  
 Erchi egori o'r gwr!  
 Neidiodd y Wrach afiachus  
 O'i chrwm, heb gymaint a'i chrys!  
 Cael i minnau, bradiâu braw,  
 Fy nillad, yn fy neill-law,  
 Ac i'r drws arall allan:  
 (Pand diras fydd y gwas gwan?)

56

A thros gae drain cyfain call,  
 A throws oedd, a thros arall;  
 Hyd i'm gadodd i gyfugu,  
 Farchog trift taeog traws du.—  
 Pe cawn afiach athrugar  
 Ar iad cydymaith yr iar,  
 Mi a wnwawn i'r lleidr coesgrach  
 Na chanai mwy,—mab wy bach!

60

O daw i dir gogyfuwch  
 Y cadno a gno ei gnuwch! *top knot*  
 Oni bai fod yr hedydd  
 Ar gân yn darogan dydd,  
 I'm goddiweddsid llid llu  
 Ar fy lloches yn llechu.—  
 Rho Duw iechyd, nos a dydd,  
 A hoedl a fo i'r hedydd!

68

72

I'R

## CLIX.

I'R DYLLUAN.

**L**AWEN nos Jau lluniais oed,  
 Lle dirgel gerllaw derwgoed,  
 A rhyw un o'r rhianedd,  
 Rhwydd i fil y rhoddai fedd.  
 Liw eiry, wych lariaidd wen  
 Lawir ebrwydd, liw'r wybren;  
 Feinwedd Eigr foneddigryw,  
 Fwyn a diwair,—f'enaid yw!  
 Fy Nuwies berty, Fenws bêr,  
 Afal Awft o felysder !

Lliw dydd y daw lle doddyw ;  
 Llewych haul ar y lluwch yw :  
 Oni ddaw, draw gerllaw'r llwyn,  
 Ni thrig yno eithr gwanwyn !  
 F'enaid dlos, ni ddaw nosi  
 I adail haf y del hi ;—  
 Gwedi, del lygaid y dydd,  
 Meillion gwynion, a gwinwydd ;  
 Ac nag ofnwy'r gauafnos  
 Blodau'r haf ar belydr rhos !

O lluniais, mewn lle anial,  
 Ganwaith oed a gwen ei thâl :  
 Nith yr haul, ni thòrai hon,  
 Ni thòrais a nith Euron.

Y

A mi'n

4

8

12

16

20

A mi'n gynnar yn aros  
 Gwen yn y nant, gan y nos,  
 Y Dylluan rhag anwyd  
 A floeddies,—ladrones lwyd !      28  
 Disfryw mawr, fal cof trofus,  
 Yn y trwn, a niwaid rhus !  
 Ni ddoe'r fun, a ddymunaïs,  
 Fewn y llwyn rhag ofn ei llais :      32  
 Tarfodd y fun, twrf oedd fawr,  
 Tristëais o'r trwst dwy-awr !

Dirfawr goeth a darfu'r gân,  
 Del liwiad i'r Dylluan!      36  
 Crechwen oer mewn crochan iâ,  
 Câr Eiddiorwg, cyw'r dderai !  
 Triflam i'r ddihawddmawr,  
 Talcen moel myharen mawr :      40  
 Wyneb budr hen abades,  
 Neu din âb,—be deuai'n nes !  
 Rhud tongraig 'r hyd hengroen,  
 Rhai ai geilw, " Gwrach y Rhuglgoen."      44  
 Gwasgod llawn chwilog a llau,  
 Gwrach lygodgoeg lygadgau.  
 Gwâr âb oedd yn gyru bw ;  
 Gwreigan gul greg yn galw :      48  
 Gweryriad gregyr aran,  
 Gwr y gôd bob gair a gân.

Claphew bendew, heb undaint;

Coriar nos yn caru'r naint.

52

Croch yw'r llais, erycha' yw'r llethr;

Cwthr bran wan-gân ewingethr:

Cloc ellyll, ceiliog gwylliad,

Cenau diawl—cwyno i'w dad!

56

Coriar zwen ylflingorn,

Cenau cath yn canu corn:

Coeg utgorn, cyw gwag atgas,

Cefndedyn croenfelyn cas.

60

Cyw rhawn-fyr accw o'r hen-fath;

Cryglais gwiddon mewn croglath:

Cesur edn, cas yr adar

Crygedd gwýdd, crogwýdd a gár.

64

Ni thariaf wrth ddihirog,

Gêñ oer gul, dan ganu'r gog.—

Aed i ddiawl, gydwedd eulun,

Yn ei byw, am ofni bun!

## CLX.

I'R FEDWEN A WNAED YN BAWL HAF YN

LLANIDLOES.

**Y** Fedwen las ynfyd-wallt,

Hir yr wyd ar herw o'r allt!

Llath sygr i'r coed lle 'th fagwyd;

Llen i'r draetures llwyn wyd:

Y 2

Llety

Llety i mi a'm llatai  
 Oedd dy glos ym mernos mai !  
 Aml iawn gynt, mae'n gerynt gas,  
 (Ycethlwy irfrig coethlas) 8  
 Pob caniad, ffyrfeiddiad ffyrdd,  
 A glywid o'th oglauwyrdd !  
 Pob llysiâu, rhwng ceingciau cyll,  
 A dyfodd dan dy defyll, 12  
 Pan oedd wrth gyngor morwyn  
 D'annedd er llynedd yn llwyn.

Byddar y trig dy frig fry,  
 Bellach merch nid ymbwylly : 16  
 O'th gorffolaeth yr aethost  
 O'r parc cain, er peri côst,  
 I dir, nid er braint arwydd,  
 I dref plas eyfnewid plwydd. 20

Cyd bo da, doeth noddfa dawp,  
 Tref Idloes, tra fwyf fodlawn,  
 Nid â, fy medwen, genyf  
 Dy lathlud, na'th dud na'th dyf. 24  
 Nid dien na'th ogenir,  
 Di le yn arwain dail îr:  
 Post dinas garddblas gwyrddblu,  
 Pand anghymmen fedwen fu 28  
 Beri draw dy ddiwreiddiau di,  
 Pawl îr ai'r llawr *pilwri* ;

Ynys

Ynws dail ynys dilech  
Y' nghanol croes heol sech.

32

Cyn bo cyfannedd, meddant,  
Dy le, bren, gwell nen y nant;  
Ni chwsg aderyn, ni chân  
Meinlef ar dy frig mwynlan  
Gan amled fydd, gwinwŷdd gwyll,  
Trwst y bobl tros dy bebyll.  
Gwyllt dy glwyf ni thyf gwellt glas  
Danad gan fathr y dinas,  
Mwy nag arllwybr, lle 'wybrhynt,  
Addaf a'r wraig gyntaf gynt.  
Marc porthmonaeth i'th wnaethwyd,

36

Mul o serch, maelieres wyd :  
Pawb o'r ffair, wyr air oroen,  
Y ddengys a bys dy boen,  
I'th unbais lwyd a'th henban  
Ymmysg marfiandiaeth mân!  
Ni chudd wrth aros y chwaer  
Rhedyn, uch o'r bedw rhydaer:  
Ni cheli rin a chyfrinach  
I'th wasgod is bargod bach :  
Ni cheli drem iawn wychrdraidd,  
Fri briallu ebrillaidd !  
Ni ddaw cof yt ymosfyn  
Ai dy glych adar y glyn!

40

44

48

52

Llwyr gwae fi! wyl gwyni gwad,  
 Mythl oernych, gael methl arnad!  
 Dygiad Tegwedd sonheddig,  
 O doi fry i fwrw dy frig,  
 Dewis dau, canghennau caeth,—  
 (Diferch yw dy fardd disaeth!)  
 Ai cyrchu'n ffyrf-gadr adref,  
 Ai erinaw draw yn y dref?

69

## CLXI.

I'R FFENESTR DDERW.

**C**ERAIS o fewn cydleisiau,  
 Cerdd wamal fu'r mwngial mau,  
 Dan ystlys dýrys diroedd,  
 Hundy bun, hyn o dyb oedd.  
 Da arganfod dewr geinferch,  
 Drwy frig y llwyn er mwyn merch;  
 Fsurf gariad, dygiad agerw,  
 Ffenestr gadarn o ddarn dderw.

4

8

Erchais gusan gweddlanach  
 I'r fun, drwy'r ffenestr dderw fach;  
 Gem addwyn, oedd gam iddi,  
 Gomeddodd; ni sýnodd fi!  
 Astrus fu'r ffenestr oesdraul,  
 Lle rhoed i ddwyn lleufer haul:  
 Na bwy' hen a bu o hud  
 Ffenestr a hon unffunud;

12

Dieithr

Dieithr hwyl, da uthr helynt.  
 Yr hon o Gaerlleon gynt,  
 Y doe Felwas o drafserch  
 Drwyddi, heb arswydi serch,  
 Cur trymhaint cariad tramawr,  
 Gynt ger ty ferch Gogfran Gavr.

20

Cyd cawn fod, ped fai 'n odi,  
 Hwyl am y ffenestr a hi ;  
 Ni chefais elw fal Melwas,  
 Nych i'r grudd yw na cheir gras  
 Betaem am y dlys-em dlos,  
 Wyneb yn wyneb nawnos !  
 Heb wyl fäl, heb olau ser,  
 Heb elw rhwng y ddau biler,  
 Mwy'r cawdd, o bob tu'r mur calch,  
 Finfin mi a'm dyn feinfalch :  
 Ni allem, aur em wryd,  
 Gael y ddau ylfin i gyd !  
 Ni all dau enau unoed,  
 Drwy ffenestr gyfingrestr goed,  
 Fangau græn fyngau o gred,  
 Fwngial rhag ei chyfynged !  
 Ni phoened neb wrth ffenestr,  
 Rhwng ffanugl nos a rhos rhestr,  
 Heb hunaw, fal i'm poenwyd  
 Heb hwyl hoyw am ddyn loyw lwyd !  
 Tored diawl, ffenestrawl ffau,  
 A phwl arf ei philerau !

24

28

32

36

40

Awch Iwyr llid, a'i chlawr llydan,  
 A'i chlo, a'i hallwedd achlan!  
 Ac a wnaeth, rheolaeth rhus,  
 Rhestrau, bilerau rhwystrus!  
 (Lladd canaid a'm lludd cynif!) 48  
 A'r llaw ai lluniodd a llif,  
 Lladd dihir a'm lludd dihun;  
 Lluddiodd fi lle 'dd oedd y fun!

---

## CLXII.

MAWL I'R HAF AC I'R HAUL.

**T**YDYL'R Haf, tad y rhyfig,  
 Tadwys coed brwys cauad brig;  
 Teg *wdwart* feistr tew goedallt,  
 Twr pawb wyd, töwr pob allt. 4  
 Dydi a bair, air wryd  
 Didwn ben, dadeni byd;  
 Ac y sydd, berydd barabl,  
 Tyddyn pob llysewyn pabl: 8  
 Ac eli twf, ddwdwf ddadl,  
 Ac enaint coedydd cynnndl.  
 Da gwyr, myn Dewi, mai gwir!  
 Dy law cadeiriaw coed i'r. 12  
 Hoff anian bedwar ban byd,  
 Uthr y tyf, o'th rad hefyd,  
 Adar, a chnwd daear deg;  
 A heidiau ant i 'hedeg:

Bragwair

Bragwair gweirgloddiau brigwydr,  
Bydyau, a heidiau hydr !  
Tadmaeth wyd, prophwyd priffyrrd,  
Teml daearlwyth, garlwyth gwyrdd :      20  
Impiwr wyd i'm pur adail,  
Impiad, gwiw ddeiliad gwe ddail.—  
A drwg yw yn dragywydd  
Nesed Awst, ei nos a dydd,  
Am wybod o'r maethod maith,  
Euraid dymor, 'r aid ymaith !”      24

“ Maneg im' Haf, nid cam hyn,  
Myfi a fedr dy 'mofyn,  
Pa gyfair, neu pa gyfoeth,  
Pa dir ydd a'i, er Pedr ddoeth ?”      28

“ Taw fawlfardd, tau afalfydr,  
Taw fôst feistrawl, hydrawl hydr !  
Tyngedfen sy'm, rym ramant,  
Tywysawg wyf, tes a gant.  
Dyfod tri mis i dyfu,  
Defnyddiau llafuriau llu ;      32  
A phan ddarffo' do a dail  
Dyfu, a gwau y gwiail,  
I ochel awel auaf,  
I wlad annwfn ddwfn ydd âf.”      36  
40

“ Aed bendithion beirddion byd,  
A'u canhawddàmor cenyd !—

Yn iach Frenin yr Hinon,  
 Yn iach ein Llywiawdr a'n Ion! 44  
 Yn iach y cogau ieuange!  
 Yn iach hin Fehefin fangc!  
 Yn iach yr Haul yn uchel,  
 Ar wybren dew bolwen bel! 48  
 Deyrn byddin, dioer! ni byddy  
 Yn gyfuvch fryn 'wybr luwch fry,  
 Oni ddel, diogel degardd,  
 Eilwaith yr Haf a'i lethr hardd!?

## CLXIII.

I FERCH, CAN OGANU HEN EIDDIG AI CARAI.

Y Fun araf fain eirian,  
 A'r tâl fal yr aur mál mân,  
 A'i chorphi megis y porphor,  
 A'i lliw glân mal marijan mor; 4  
 A'r anadl oll, a'r wyneb,  
 Fal aroglau *Siopau Sieb!*  
 Da ddwy-rod yw dy ddeuruidd,  
 Neu blu rhos is *nobl* aur rhudd;  
 Uwch yw'r gwrid dwy-ael fidan,  
 A'r plethau na'r tónau tân!

F' adduned, nid tyngedsen,  
 Yrhawg yt garu gwr hén: 12  
 Gwell yt, anrheith obeithiaw,  
 Dy brydydd, ryw ddydd a ddaw!  
Gwell

Gwell oedd i gleiriach gwrachan,  
A thy, a chlydwr, a thân. 16  
 Ond Cymro, medd llyfr Ofydd,  
“ Pa hynaf ynfytaf fydd.”  
 Coelia fy rhiaint fain-hir,  
A gwyl ddihareb mae gwir,— 20  
 Pren hen, heb ddail pryn eilwaith,  
Gwae a’i pryn er gofyn gwaith !  
 Un drwg rhwng merch ac erchwyn  
Hen ringyll, nid ennill dyn. 24

Un ai wellwell dan gelli,  
O chaid, fae orau i chwi.  
 Iawnach oedd iddo ’mofyn,  
Myn Oswallt ! a’i wallt yn wyn, 28  
 Margen am gael dadeni,  
Na cheisio eich hudo chwi !  
 Neu gael ffynnon Iorddonen,  
Gwawr haf, i fwrv’r gwr hen ;] 32  
 Ac yno dringo heb drangc,  
Naw oes a gaiff, yn ieuangc !

Brenhin ferch, a gordderchwr,  
Oedd gynt, pan fu fywiog wr : 36  
 Bu ddewr, o bu ef ddyrys,  
O gael rhan rhwng llan a llys,  
 Mae yn grwm yn bwhwmman,  
Mae’n gwest o’r lluest i’r llan.

Pa ryw les, onid gresyn,  
 Er cael o'r henwr hael hyn :  
 Ond truan ei ddychanu,  
 Serchocced, a'i fwyned fu ;  
 A maint gweiddi gwrachiod  
 Ei fyw, ac na ddichon fod !

44

## CLXIV.

I YRRU'R WENNOL YN LLATAI AT EI GARIAD.

**C**ANIAD yw'r nwyf a'm cynnail,  
 Caru 'dd wyf mewn caer o ddail,  
 Golud gwyr, gwiw leuad gain,  
 Gwylferch ardderchawg aelfain.

4

Gwedus yw llun y fun fau,  
 Garedig ddigar oedau :  
 Gwn gael (main ei hael yw hi,  
 Gwawr eirddoeth,) mawr gur erddi !  
 Cyd bo digrif gan brifardd  
 Garu hon, ddyn gywir hardd,  
 Gwynfyd oedd ym er gwenferch,  
 Goris allt, gurio o'i ferch !

8

12

Ni ddilid man ydd elwyf,  
 Ni wn pa les, yn un plwyf,  
 Rhoi fy mryd ar fy rhiain,  
 I mi dan ragtal a main.

Yr

Yr haf, ni chelaf fy chwyl,  
 Ni chaf fyned i'w chyfyl,  
 Na hon ni chaf ei hannerch,  
 Na chwerthin finfin a'r ferch !

20

Talm o bryder a'm peris,  
 Truan ym yw traian mis,  
 Na bai o ged i neb gael  
 Fyned at fy nyn feinael ;  
 Na golwg ar fun gulael,  
 Na son wrth fy Nuwies hael !

24

“ Wrthyn hydyn yn 'hedeg,  
 Yn ael dydd y Wennol deg ;  
 Adeiniog edn bywiog bach  
 Wyd imi, main yw d'omach ;  
 Arlwy dadl, erlyd oedau,  
 Er mwyn a fynyth o'r mau,  
 Dala ferchawgrwydd dylyn,  
 A dôs i'mweled a'm dyn,  
 I'r llys y mae iarlles mawl,  
 Naws dedwydd, yn waftadawl,  
 I geisio ym ddau gusan,  
 Gyfnewid ail Enid lân !”

28

32

36

“ Oni'th edir, nyth odo,  
 I'r drws pan ddelych ar dro  
 Neitia, hyn yw dy natur,  
 I mewn dros raddau y mur,

40

Neu'

Neu'r ffeneestr restr ar ofteg,  
 Neu drwy'r nen er Dwynwen deg.  
 Salw'th gais, swl-iaith gyson,  
 Saf uwch y dylath a son :  
 Sym breichledr ar gledr y glwyd,  
 Sidell gyweithas ydwyd.

48

Cyngor wyd ym o'm cangell  
 Cyfarch o'r nen i Wen well:  
 A gofyn yn deg usydd  
 I Luned, ail 'leuni dydd,  
 Pa beth, ddyn felenbleth fwyn,  
 Yw ei meddwl, em addwyn ;  
 Ai gwra, ferch a gerais,  
 Yn y sir Gymro, neu Sais.  
 Ai gobeithiaw y daw dydd  
 Y delom dan fedw dolydd,  
 Aur ei llorf, er ei llawrodd,  
 Y'nghyd a'n byd wrth ein bodd."

52

56

60

" Os ymaros am wra,  
 Ar fy nawn, erof a wna,  
 Dyred o'th genadwri  
 Hyd atta', nad oeda di.—  
 Didolc a llym yw d' adain,  
 Dy wobr fydd dau gywydd gain."

64

## CLXV.

I HEN WRACH A GODODD O'I GWELY I  
GEISIO DAL Y BARDD.

**W**EDI dysod a dofi,  
Dyn feinlas, i'w hoywblas hi,  
Tewais, ni soniais innau  
Ddiweiriad gwas a'r ddôr gau.  
Gwiliais am gael y gwely,  
Rhediad tost ar hyd y ty,  
Gwedi cael gafael gyfun,  
A gwilio bod gwely bun :—  
Rhoi fy min heb gyffini,  
Main ei hael, wrth ei min hi.—  
Dechrau bach gyfrinachau,  
Myn dyn ! yr oeddem ni'n dau ;  
Yna y clywn mewn mwnws,  
Yn rhuo draw rh'oif a'r drws,  
Gwrach anhygar ni'm caref,  
Ewinog, grafangog gref.  
A bras gerdded, a brysiaw,  
A'i ffon fach, a'i ffugen faw.

“ Beth” eb 'y Ngwen dan lèni  
Oglais deg “ a glywaist di ? ”

“ Peth abrwysg a ddaeth obry,  
Heibio, mae twyllo'n y ty ! ”

“ Os

8

12

16

20

“ Os y cenau ni’s cwynwn,  
 Glew ei sud, mi glywais hwn;  
 Mawr ei anffawd yn ymffast,  
 A’r pru yn glynw’n ei glust.”

24

Tra fu Wen yn ymsènu  
 A’r Wrach fforchog ddeifiog ddu,

28

Rhedais, ni pheidiais a ffo,  
 O’r ty allan, rhag twyllo.

Rhaid yw gochel heb gelu  
 Yr hwch o ddyn, y Wrach ddu;

32

A gwnawn oed mewn mwyngoaed mân  
 Wiw dlos, i aros eirian :

Pob urddas mewn dinas do,  
 Ufudd enw, a fydd yno :

36

A phob edn glân a ganai  
 Wiw gywydd mewn manwydd mai !

Gwedi doe (gwad a’i dyfyn)  
 Dan len ddail ael-winau ddyn ;

40

Cyd ymddiddan a’m hanwyl,  
 Cyd eifte’, ddyn gole’ gwyl :

Newidio glân gusanau,  
 Cyd chwerthin yn y miñ mau !

44

Wrth weled dan uthr fedwen,  
 Mor felus yw gwefus Gwen,

Diofryd er hyd fo’r haf,  
 O’r addysg hwn a roddaf ;

48

Na wnaf gydgam na thramwy,  
 Drwch ei min, i dy’r Wrach mwy !

## CLXVI.

## HENW CARIAD Y BARDD.

**Y** Ferch fach dda ei hachen,  
 Lawer gwaith a elwir Gwen;  
 Llysenw ferch y ferch fach,  
 A'r enw mae'n gyfrinach. 4  
 Myfi wyf yn ymofyn,  
 Mwy na dim, am enw'r dyn;  
 Hwyrach riain addfain-ael,  
 Rhyw ddydd noi gilydd ei gael. 8  
 U sy' fry, H hy hoywen,  
 A thair D ac Y ac N;  
 Ysbel Mabli, Gwenllian,  
 Dyddgu, neu Leucu wen lân; 12  
 Gwerfyl deg, gwawr fal y dydd,  
 Elen, Efa, lân Ofydd;  
 Neft, Gwenhwyfar, a Chari,  
 Tonwy, merch Gittin a mi; 16  
 Siwan, a ludd son o lid,  
 Wythliw ydiw ond odid,  
 Morfudd, Hunydd o'i hannerch,  
 Sioned, neu Farged yw'r ferch.— 20  
 Ar hyn fe ddarfu ei henwi,  
 Un o honynnt hwy yw hi.

## CLXVII.

YR ADDAW A'R NAG.

**Y** Ferch wyl fawr ei chelwydd,  
 Feinael deg, fwyn eiliw dydd;  
 F'enaid nid oedd neb fwynach,  
 Oni bai yr un bai bach.— 4  
 Addaw teg ym ydd wyt ti,  
 Gwyd yn, a'm gommedd gwedi:  
 Gwell oedd naccau âr ddau-air,  
 Na chael addewid ni chair! 8  
 Mi a gawn gan un wendeg,  
 Neu hudol gwineu hoywdeg,  
 Roi aur rhudd i'm dyhuddaw,  
 Er llyn yngheuedd fy llaw.— 12  
 Ac yn ol egin alaeth,  
 Y llaw'n wag, a llyna waeth!

## CLXVIII.

I FERCH I'W GWR THOD ONI CHAE Y BARDD HI.

**Y** Fun fach fwyna'n y byd,  
 Fain, a elwir f'anwylyd;  
 Ni bu'n rhoi cusan yn bêr,  
 Yn fyw undyn un fwynder! 4  
 Mînu tan mwyned honno,  
 A bair ym fyned lle bo.

Ni

Ni wn i ddyn mor ddiell,  
Na dyn a wyr da yn well.

8

Och Fair! na chair (oni chad)  
A geiriau llyfr o gariad,  
Ofyddes, i'm santes i,—  
Ufudda' dyn wyf iddi.

12

Hawddàmor hon i'r frion fry,  
Os hawddàmor sydd ymy ;  
A dyddiau da aed iddi,  
Dyddiau 'mun da oedd i mi,  
Gan ni allaf fi ddial  
Ar y dyn, unwedd aur dàl !

16

Oni chaf fi hi, hoywfun,  
Ni chaiff hithau finnau, fun !—  
Oni chaf fi hi'n ei hoes,  
Ni chaiff hi fi yn Peinioes !—  
A chan hoedl yw chanheidlun  
A hefyd, hawddfyd i Fun !

20

## CLXIX.

## GWRAIG Y CRYDD.

CARU 'r wyf, pwy ai cerydd ?  
Gem ait groes, gymmar i grydd :  
Deuliw'r haul ar y dolydd,  
Dyn grair i'w gweled dan grydd.

Z 2

Canwyll

- C**anwyll merched y gwledydd ;  
**C**red a roes honno i'r crydd :  
**C**af esgob, nid cob cyhydd  
 Tor cred, i'w hyfgar a'r crydd. 8  
**C**aiff esgidiau tew newydd,  
 Modd eiry craig, er maddau'r crydd :  
 Nid medrus awydd Madrydd,  
**Y**sbiwr crwyn, os byw'r crydd. 12  
**C**yd rho ddiofryd prydyyd,  
 Na chymred un o gred grydd :—  
**G**well diarchen awenydd,  
 Na chroen ireiddlyd, a chrydd. 16  
**G**wedi dygo serch gwawdydd  
 Na chywired gred i grydd.  
 Mwyn, myn y nef! yw'r grefydd,  
**M**wyna' gwraig, oni myn grydd : 20  
**G**weled im' wen cyn trenydd,  
**G**yda'r crwyn, yn gado'r crydd,  
**T**rwsiaf gerdd fal wtrefydd ;  
**T**eg, myn Mair ! yw crair y crydd : 24  
 Rhaid im' am wen liw 'sblennydd,  
 Ei dwyn o blith crwyn y crydd.  
**U**wch adfyd, wen na chydfydd  
 A hen garwden o grydd :— 28  
**B**wyf fi bardd was dan laswŷdd,  
 Brisiwr crwyn, bŷr-oes i'r crydd !

## CLXX.

Y CELU.

**G**WAITH anorphen sydd gènyf,  
 Caru crefft er curio cryf:  
 Gwn frad, ail gariad Geraint,  
 Gan hwn yr egina haint. 4  
 Hanner hun yr aderyn  
 A gyngaf, o hunaf hyn !  
 Myned (hir yw'r dynged hon)  
 Yr wyf a'r gogr i'r afon : 8  
 Cerais un dyn cwrs hin-deg,  
 Dan gariad y teirgwlad teg.  
 Do'n fy fwydd lawer blwyddyn,  
 Del im' o hap dál am hyn : 12  
 Tybied yr wy' nad diboen  
 Ei charu byth,—och o'r boen !  
 Aeth yn gur, weithian y gwn,  
 Pwys yw cariad ! pes carwn 16  
 Tra fae, trwy faith obeithiau,  
 Yr haul yn troi 'r helynt draw ;  
 Ni fýnai, dilynai lid,  
 Wen, ei chael oni chelid ! 20  
 Gwae fi ! na chair deuair deg,  
 Oni chawn un ychwaneg ;  
 Pei gallwn ni's mýnwn mwy,  
 Gwen, gael oed ond a gelwy'.

Carwn, dymunwn fy mod  
 Gan bawb a gawn heb wybod :  
 Cael un oed ni's cel annoeth ;  
 O'i gael a dyn a gel—doeth !      28  
 Rhai ai celai rhag cilwg,  
 Rhai ai cel draw rhag cael drwg ;  
 Suddas fydd dyn os addef,  
 Os cel mae'n angel o'r nef.—      32  
 A fo doeth efe a dau,  
 Annoeth ni reol enau :  
 Da gan Dduw, dygwn ddeall,  
 Na wypai'r llaw a wnai 'r llall.      36  
 Da medrwn, pei gallwn gael,  
 Da iawn gelu dyn gulael ;  
 Down erddi, nid anurddas,  
 Duw a wnel in' dan wê las :      40  
 Ail Fenws olau feinael,  
 Fedru ei chelu a'i chael.

## CLXXI.

YMDDIDDANION RHWNG Y BARDD A'I GYSGOD.

**D**O'E'R oeddwn dan oreu-ddail  
 Yn aros Gwen, Elen ail :  
 Yn gochel gwlaw dan gochl glas  
 Y fedwen, fel ynsfydwas,—  
 Nycha gwelwn ryw culun,  
 Yn sefyll yn hyll ei hun.      4

Ysgydigaw,

Ysgydigaw, draw ar draws,  
O honof, fal gwr hynaws; 8  
A chroesi, rhag echryshaint,  
Y corph mau a swynau saint.  
“ Dywaid! na phaid a’th dewi,  
Od wyt wr,—pwy ydwyt ti?” 12

“ Myfi!—gad dy ymofyn;  
Dy gysgod, hynod yw hyn:—  
Taw er Mair, na leffair les,  
I fynegi fy neges.— 16  
Dyfod ydd wyf, defod dda,  
I’th ymyl yn noeth yma:  
Hoff yw gènyf dy ddilin,  
Was da, ac ni fydda’ flin,  
I ddangos, em addwya-gwyn,  
Rhyw beth wyt, mae rhaib i’th ddwyn.”

“ Pa achos mor ddiddos ddyn  
Cilaidd, i’r wyd i’m calyn:— 24  
Ai cyflog sydd, was gaslhir,  
I ti, y drwg hudwg hir,  
Am fy ’sbio, enfys bawaidd,  
Gan Eiddig, oer floeddig flaidd ?” 28

“ Nagê wr hael, anwr hyll,  
Nid wyf felly, dwf ellyll !”

“ Beth yntau? cenau y cawr,  
Hen arthfoel gwyl anferth-fawr!

Ond teg o'r widdon gegrwth,  
 Tebycach wyt, gleiriach glwth,  
 I ddrychiolaeth hiraethlawn  
 Nag i ddyn mewn agwedd iawn.

36

Heusor mewn *secr* yn cecru,  
 Llorpau gwrach a'r dudfach du.  
 Bugail ellylon bawgoel,

Bwbach ar lun mynach moel :

40

Grëwr y chwarau griors,  
 Gyr llawn yn pori cawn cors.  
 Fal gyr llwyd yr wyd ar iâ  
 Fewn canol a fae'n cawna :

44

Garan yn bwrw ei gweryd,  
 Gàrau'r wyll, ar gwîr yr yd.  
 Wyneb *Palmyr*, a hurthgen,  
 Brawttu o wr mewn brât hen ;  
 Drum corph wedi droi mewn carth,—  
 Ble buoſt? hen bawl buarth!"

48

" Dy galyn 'r wy' dan gelu,  
 Erioed, ar hyd y coed cu,  
 O ddyn a marcio 'n eiddil  
 Dy gaſtiau, a'th feiau fil :  
 Llawer dydd yt pe's lliwiwn  
 Gyda thi, gwae di o'th wn!"

52

" Pa anaf arnaf amgen,  
 A wyddost ti, wddw ystê,

Ond

Ond a wyr pob synhwyrawl  
O'r byd oll?—ac yt baw diawl! 63  
Ni chatgenais fy nghwmwd,  
Ni leddais wyn, leddf, ysgwd,  
Ni theftais ieir a thaflfain,  
Ni fwbechais rai bychain, 64  
Ni rwystrais wraig yr estrawn  
Nemmawr waith, na morwyn iawn!"

"Myn fy nghred! pe mynegwn  
I'r rhai na wyr hyn a wn,  
Dir enyd, cyn tòr annog 68  
Y'nghred, y byddit ynghrog!"

"Ymogel, tau 'y magl tost,  
Rhag addef y rhai gwyddost,  
Mwy na phei bae, tra fae'n fau,  
Gawni ar gwr y genau." 72

## CLXXII.

## TRAETHODL Y DYN DAN Y GERWYN.

**F**AL yr oedd fawr ei hafrad,  
Ei hun, yn y ty'n gwarchad—  
Gwelai'r mab, mwya' garai!  
I mewn yn dyfod attai: 4  
Ac i'w bwrw ar y gwely,  
Gwell y gwnai na gwr y ty.

Ac fal yr odden' ill dau

Yn gorwedd dan gwrlidau,

Yna y clywen' y Gwr

Yn dweud wrth ei gyfarwr,—

“ Awn i ’redig y tyddyn

Sy’ rhwng y ty a’r odyn,—

Neidiodd y Wraig yn addwyn,

Trawodd y Dyn dan gerwyn;

Ac aeth hithau ei hunan

Ar y gwely i ruddfan.

8

12

16

“ O Dduw pa beth a glwyfau

’Y myd, a oedd iach gynau?”

“ Llawer clwyf, llawer dolur,

Yn ol llugged, a llafur,

A dderfydd i’n cyfryw ni

Heb feiddio ei fynegi!—

Dôs, a dywaid i’r wraig draw

Y clefyd sydd i’m clwyfaw:

Dywaid fy mod i’n gorwedd,

O’r clwyf y bu hi’r llynedd;

A’m bod mewn perygl angau

O’r clwyf gynt y bu hithau!”

20

24

28

“ Arch iddi o fod yn gre’,

Yn y modd gweles finne’:

Mi ddeua’ cyn pen hayach,

Ac yna mi ai gwna’n iach.”

4

A thra

A thracafus hi gyflwr  
 Tra ciniawodd y craswr,  
 Rhoes hi ffagl yn yr odyn,  
 Ond aeth hi'n dan ufelyn.  
 Tra fu'r cymdogion achlân  
 Yn achubaw y gwyllt-dan,  
 Codes y Wraig y gerwyn,—  
 Cafodd y Dyn y coll-lwyn,  
 Colles y Wraig ei llymaid,  
 Cafodd y Dyn ei enaid.

36

40

## CLXXIII.

I'R FIAREN.

CWRS digar, cerais degau,  
 Cwyn cyfar mwyn, cof yw'r mau:  
 Coflaid lanwaith gyweithas,  
 Curiad balch, nid cariad bas,  
 Cefais ym gyngor cyfun,  
 Cof a bair hir lestair hun.

4

Dawn myfyr dinam ofeg,  
 Dwyn taith i garu dyn teg :  
 Llwybr edifar i garu,  
 Llefg o daith foregwaith fu.—  
 Curiad gwiw, caredig waith,  
 Cyn gwybod, cain yw gobaith,

8

O neb

O neb cyn dechrau mebyd,  
 O'm bro lle'r oeddwn a'm bryd.  
 Hwyr y cair (aur grair o gred)  
 Hawl i'r faenawl ar fyned  
 I geisio, lle tygaswn,  
 Hawdd hud o gawdd hyd y gwn;  
 Gwaeth yw'r fal, gwedd tal y tir,  
 Golud mwyn, gweled meinir.  
 Gochelais, pan glywais glod,  
 Serch gof eurferch gyfarfod:  
 Dirgel fydd, da'r gelfyddyd,  
 Dawn o'r bwyll, a dyn o'r byd.

16

20

24

Gadewais a hyntiais hwnt  
 Prifyrdd y bobl a'r priffwnt;—  
 Cerddais ymmysg y cordderw,  
 Cof oedd, a chaeroedd uwcherw;  
 O gaer y glyn a'i gôr glwys,  
 Goeglwybr rhwng craig ac eglwys.  
 Goryw treigl gariad trâglew,  
 Gael gwylly y coed, tywylly tew:  
 Ar draws un yr ymdrois i,  
 Er morwyn, o'r mieri.—  
 Rhwystrus oedd, hi a'm briwawdd,  
 Ysgymun coluddun clawdd:  
 Hagr dŷn, rhyw eirionyn rhus,  
 Honno drychiolaeth heinus.—

28

32

36

- Cyflwm awch lun ei dannedd,  
Coel gwarth, cyd bo cul ei gwedd, 49  
Dysgodd ym anhoff gloffi,  
Dilwydd faint a'm daliodd fi.  
Yn nhâl i gwâr anial goed  
Nidrodd y'nghylch fy neudroed, 44  
Cefais, tramgwyddais trwm gawdd,  
Gwymp yno, rhugl-gamp annawdd.  
Yn ael y glyn arail glud,  
Yn wylwg 'y mhen yn esgud. 48  
Un-lli' gul yn llaw gelyn,  
Rhega' did sy'n rhwygo dyn;  
Hislengarth ar roslangoed,  
Perfedd diawl mewn enguriawl goed!— 52  
Càrai groen ceir ar y grwn,  
Draenog coed coliog, coeliwn  
Cas ei gwaith yn cosi gwŷdd,  
Cebystr ar gringae cybydd. 56  
Coes garan ddygn, dan sygn fer,  
Cyngafog gangau ofer:  
Gwarth i'r budr-beth atethol,  
Murniai fardd, mae arnaf ol, 60  
Mal y gwnai, ni haeddai hedd,  
Mul dŷniad mil o'i dannedd.  
Ysgor flin, gerwin yw'r gair,  
Asgen ar fy nwy esgair!

Llesg ac ysgymun ei llwyth,  
 Lliw ofer-friw, fwyar-ffrwyth :  
 Gwdan rhy-braff ei thrapherth,  
 Gwyllt poen, a llinyn gwalt perth.      68  
 Tant rhwyd a fwriwyd o far,  
 Telym ar lethr pen talar ;  
 Tytmwy ar adwy ydoedd,  
 Tant coed ar nant cadarn oedd.      72

Buan fo tânلuman lem  
 Brid ysgwthrlid ysgythrlem !—  
 Lluniodd ym anhoff *broffid*,  
 Ai llosg a ddial fy llid !

## CLXXIV.

## I'R PIBONWY RHEW.

**G**WAE a garodd gwag ciriawl,  
 Eithr yr haf, mae'n uthr yr hawl,  
 Ar ol unnos am dlosferch,  
 A gefais i mae'm gof serch.—      4  
 Y gauaf, addefaf ddig,  
 Dulwm wedi'r nadolig,  
 A'r eira, oer yw'r arwydd,  
 A'r rhew, a'r pibonwy rhwydd.      8  
 Da rwydd hwyl, f'ysgwydd a farn,  
 Dyfod yn frwyfg o'r dafarn,  
 I geisio 'n eglur mur mau :  
 Gweled serchawgddyn golau

Drwy

Drwy goed y glyn, ni'm syn ferch,  
Am y maensur a mein-ferch.

- Drwg fu i mi defni'r dòn,  
Cwfällt a'r bargod cyson; 16  
A phan ddeuthum, gwybum ged,  
Perygl ym gerllaw'r pared,  
Tew oedd dan frig y to oer  
Rhyw-lwyd bibonwy rhewloer. 22
- Hyfedr i'm safn y dafna,  
Rhwyfsg oer, chwibanogl rhisg iâ;  
Disglair grabin ewinrhew,  
Dannedd ôg rhywiog o'r rhew. 24  
Canhwyllau (defnyddiau dig,  
Pyrs addail) Parys Eiddig.—  
Dagrau oer, da gyrai iâ,  
Cofus, o ddurew cyfa: 28  
Dûg sy ngwâr, dig alar dôn,  
Gloes y gwerthydoedd gleision.

- Gwneuthum amnaid, dan gnithiaw  
Yn llaes o'r ffeneestr a'm llaw; 32  
Cynt y clybu, bryd cyatun  
Gerwin fu, y Gwr na'i Fun.—  
Golinio rhiain fain-loer  
A wnai a'i benelin oer: 36  
Tybiaw fod, rhwydd ammod, rhai  
Manwl yn ceisio mwnai.—

Cod

- Codi wnae'r delff celfaint  
 O'i wâl ei hun, awel haint. 46
- Llwfr fu ddigwas anrasol,  
 Llefain o'r milain i'm ol;  
 Dug am fy mhen daith enbyd,  
 Dorf o gas y dref i gyd! 44
- Rhoi canwyll Fair ddieiroed  
 Yn ael rhych yn ol 'y nhroed;  
 A gweiddi o hwn, gwn ganllef—  
 "Llyma ei ol ! llym yw ef!" 48
- Yna cilialis, drais draglew,  
 Ar hyd dugrin ar y rhew,  
 Igyrchu 'r bedwlwyn mwynaf  
 Ar hynt, a'm lloches yr haf.— 52
- Tybiaswn fod, clod clydreg,  
 Y ty dail, a'r to yn deg,  
 A mwyn adar a'm carai,  
 A merch a welswn ym mai:— 56
- Yno nid oedd le unoed,  
 Llyna gawdd ! eithr llwyn o goed;  
 Nag arwydd ferch, nag arail,  
 Na'r dyn a welswn, na'r dail.— 60
- Nithiodd y gauaf noethfawr,  
 Dyli las, o'r dail i lawr:  
 Am hyn mae ymofyn mai,  
 A meiriawl hin ni'm hoerai.— 64
- Dyn wy' ngharchar dan Auaf;  
 Ar hir, hawddamor i'r Haf!

## CLXXV.

YR HIRAETH.

**H**IRAETH fydd bob dydd i'm dwyn,  
 Haint ferch, am lasferch laswyfwyn:  
 Henw a dyn enw ei dad;  
 Hiraeth magwriaeth gariad.—  
 Heno i'm gad dan f' adain,  
 Hiraeth o ferch y ferch fain !  
 Heddyw, y gwn, mal hydd gwylt  
 Hiraeth magwriaeth gorwylt: 4  
 Hwn a drig dan frig y fron,—  
 Hiraeth magwriaeth gwirion !  
 Hyn troes iâ, haint roes ym,  
 Herod hiraeth, ferch hoywrym,  
 Hwn oedd ddig heddyw i'w ddwyn; 8  
 Hiraeth dyn lasfaeth lwyfwyn,  
 Hiraeth a bair hwyr laith boen !  
 Hi ni's gwyr hoyw naws goroen;  
 Hwn a weuodd hen wewyr;—  
 Hai how ! hiraeth, ow ni thyr !  
 Hyn a roes bun yn un-awr,  
 Hiraeth tramwytaeth tro mawr;  
 Hwyr ym allael gadael gwaeth,  
 Herwydd ym gario hiraeth !  
 Hwn nid â, er enwi dydd;  
 Hiraeth sydd boenwaith beunydd ! 20

A a

Hwnt

Hwnt a rydd haint o'i wreiddin,  
 Hiraeth led blaened ond blin :  
 Hyrddiodd i'm calon hwyrdig,  
 Hiraeth llym doraeth, llam dig !      28  
 Hynod y medraf henwi,  
 Hiraeth fal mammaeth i mi ;  
 Hwn a'm gyr heno i'm gorwedd :  
 Hiraeth, myn Mair ! a bair bedd.      32  
 Hynaws boen, hyn sy' benyd ;  
 Hiraeth a'm gyr, byr, o'r byd !  
 Hiraeth am Wen gymmen-gamp,  
 Hiraeth gur, hwyr arraith gamp.      36  
 Hiraeth, rhyw odiaeth ydoedd,  
 Hai how ! gwae fi, hygof oedd !  
 Hon a ddaliodd hen ddolur,  
 Hiraeth magwriaeth o gur :      40.  
 Hon a roes hoen i'm poeni,  
 Hiraeth, gefyniaeth—gwae fi !  
 Haint yn fy nhàl, gofal-fyd ;  
 Hiraeth heb obaith o'r byd !

## CLXXVI.

## YR ANNERCH.

" **A**NNERCH, nag annerch gennad ;  
   Mi wn pwy, merch macwy mad.  
 Arch i'r ferch a annerchais,  
 Ni wn pa beth rhag treth traes,

Ddyfod

Ddyfod yforu'n fore,  
 Pwl wyf, ac ni wn pa le:  
 A minnau ddof, gof gwiwsyth,  
 Ni wn pa bryd, o'r byd byth ! 8  
 O gofyn hi, gyfion hawdd,  
 Poen eirchiad, pwy a'i 'nerchawdd ;  
 Dywaid dithau, dan dewi,  
 Ysgogan iawn,—ni's gwn i ! 12  
 O gweli deg ei golwg ;  
 Er na's gweli, nid drych drwg :  
 Gwiw loywbdryd haul goleubrim,  
 Amnaid, ac na ddywaid ddim.”

## CLXXVII.

I FERCH NI RODDAI ATTEB.

FAL yr oeddwn yn myned  
 Dros Fynydd Gwyr, crefydd cred,  
 A'm hoyw duded am danaf,  
 I'm ymdaith mewn hiraeth haf; 4  
 Gwelwn gangen ar y rhos,  
 O forwyn, yn fy aros.—  
 Cyfarch, meddwl alarch mwyn,  
 Gwell iddi, ddyn gall addwyn ;— 8  
 Atteb a wnaeth ei phrydydd,  
 Atteb serch o'm tyb y sydd :

Cyd gerdded mal merched mai,  
Ag oerddyn ni chyd gerddai.

12

Gofed ar gynnyg cusan  
I'r fwyn Iwys ber-aur-fwyn lân ;  
Canmol ei llygaid gloywlon,  
Canmolid prifeirdd heirdd hon.

16

Gofyn cyn del rhysfeloedd,  
Y fynnai fi; fy nef oedd !

“ Ni chai fab o ael y fro  
Un atteb,—ni wn i etto :  
Dof i Lanbadarn Ddywful,  
Neu i'r dafarn, wr diful ;  
Ac yno 'n wir i'r irgoed,  
Mwyn iawn wyt, a ni wnawn oed.  
Ni fŷnwn, rhag cael gogon,  
Wybod fy mod mewn un man.”

24

“ Llwfr iawn i'm bernir o'th ferch,  
A dewrddyn yw dy ordderch :  
Nag eiriach dy lediach do,  
Er cynnen y wraig honno :—  
A wnaid mewn plas o lasgoed,  
Yr ail ni's gwybu erioed.”

28

Gwir addef, os gwyr eiddig,  
Ni âd ben ar bren, na brig.  
Cymrodd ei chennad forwyn,  
Gwir dduwies, lladronec llwyn.

Ni

Ni wnai hocrell afrywiog,  
 Ni wnaeth a'i gair, nith y gog,  
 Addo ffrol a'm gwnae'n llawen,  
 Addewid gwir fydd oed Gwen.

---

## CLXXVIII.

## I FERCH ANWADAL.

**Y** Ferch anllad a'm gwadawdd,  
 A'r lliw haul, ar ei llw hawdd ;  
 Cam iawn gwedi'r gymmwynas,  
 A'i geiriau glud, a'r glog las,  
 Och feirddyn ! na chyffyrddawdd  
 I mi a hi, ammau hawdd !  
 Eiliw Enid, lw annoeth,  
 Elid i nol aelwyd noeth.  
 Dod dy law, da deuluwas,  
 Dawn y bardd, da enau bâs :  
 Da ddwyfron yn y fron frad,  
 Da ddeufraich, nid oedd afrad :  
 Da bob cyfryw byw o beth,  
 Digrif son, da groes eneth.—  
 Deddyw o'i phen lw diddim,  
 Do, do 'n wir Dduw !—ai do ddim ?

4

8

12

## CLXXIX.

I FERCH A WRTHODODD Y BARDD O EISIQ  
EI FOD YN GYFOETHOG.

CARU dyn ieuangc irwen,  
Erioed heb unoed i ben ;  
A phan oeddwn, gwn gyni,  
Mewn gobaith, o'i hafiaeth hi,—  
Sugana'r ferch a'nerchais,  
Wrthy', er llysu fy llais,  
“ Ni charaf ddyn, dremyn dro  
Ddiaddfwyn, heb dda iddo.”

Pan glywais hoyw falais hon,  
Tybiais ddeall ei hattebion ;  
Gwneuthum dy i garu gwen,  
Diynfydwaith, dan fedwen :  
Trefnais gwmpas urddasawl,  
Adeiliad man-blethiad mawl ;  
A'i doi a dail manwial mwyn,  
Mal *teyllys* ym mol tewlwyn.

Ac yn y ty, mwyngu maith,  
Ddau *denant* ddiwyd unwaith :  
Dau geiliog serchog ei son,  
Firain freithwych fronfrithion :  
Dau bencerdd y loywgerdd Iwys,  
Pur, o adar paradwys.—

Saith

4

8

12

16

20

Saith gywydd peunydd o'u pen,  
 Yn weddus ar winwdden;  
 Ac o'r saith, yn gywir son,  
 Mynaf gyfrif mewn gofron.

24

I'm bun wych y chwenychwn,  
 Dal y ty a'r 'deiliad hwn ;  
 Oni chaf ddyn wych ieuangc,  
 O gyfoed, i'r bedwgoed bangc :—  
 Rho' ddiowryd rhyw ddirwy,  
 Adeiliad serch er merch mwy !

28

## CLXXX.

YMDDIDDAN RHWNG Y BARDD A MERCH.

B.—**D**YDD da yt riain serchog !

F.—Croesaw, brydydd gwýdd y gog !

B.—Wyd iach a llawen wenddyn ?

F.—Wyf, a hoff gënyf fi hyn.

4

B.—Teg i'th welaf, fy nghariad !

F.—Llawer oferdyn ai dywad !

B.—Teg yw dy bryd, wyd weddi.

F.—Teg heb un diolch i ti !

8

B.—Gwyn yw dy wyneb fun-gan !

F.—Gwyn ar fy nghost fy hunan.

B.—A meinion yw dy aelaiu.

F.—Yn y modd i maent, mi piau,

A a 4

B.—Duon

- B.—Duon dy lygaid tirion.  
 F.—Ba waeth i ti ba liw bon' ?  
 B.—Da iawn y gwyddost atteb !  
 F.—Gwell ym fy hun nog i neb, 16  
 B.—Dywaid ym atteb, neu dewi ?  
 F.—Nid hawdd i neb d'atteb di.  
 B.—Dywaid ferch, onid wyd fud ?  
 F.—Ond ydwyf yn dywedud ! 20  
 B.—Oes dál, ferch, am dy garu ?  
 F.—Nag oes, fab ywch, ofer fu.  
 B.—A gaf fi ond a gefais ?  
 F.—Na chei, ac er dim na chais ! 24  
 B.—Dywaid ar lai na deuair,  
     A'th gaf, neu ddywaid na'th gair ?  
 F.—Myn Mair ! ni'm cair, a mi'm cof,  
     Ni thyngaf am waith angof. 28  
 B.—Na wrthod dy briodas !  
 F.—Na phraw fy ngheisiaw, fy nghas !  
 B.—Mi a'th ddalia', nith Olwen !  
 F.—Minnau ro' waedd, myn Mair wen ! 32  
 B.—Awn ar grair dan law 'ffeiriad.  
 F.—Ni wnai ddim twyll, ddyn, i'm tad !  
 B.—Beth weithian a obeithiaf ?  
 F.—Arwydd ar wýdd hirddydd haf. 36  
 B.—Gwreicca, fun araf, a wna'.  
 F.—T'w! wyl ! gwra wnaf inna'.

## CLXXXI.

## TRAETHODL Y GATH A'R LLYGODEN.

**Y**R wyf fi yn caru dyn  
 Grinach ei chred na blewyn ;  
 Fal y bydd rhai o'r merched ;  
 Nid gwiw coelio dim o'u cred,  
 Mwy no chred y llygoden,  
 A syrthiodd oddiar nenbren.

Y llygoden a roes naid  
 Mewn cwrw newydd hidlaid ;  
 Beth a wnaeth cath lwyd addwyn  
 Ond neidio 'r gŵr y gerwyn,  
 Fal na feiddiai 'r llygoden  
 O'r cwrw godi ei phen ;  
 Na'r gath lwyd fyned atti,  
 I'r gerwyn, rhag ei boddi.  
 Y llygoden a roes Iw,  
 Cyn ei myned o'r cwrw,  
 Ar ryngu bodd i'r gath lwyd,  
 Cyn ei myned i'r gronglwyd.  
 Pan gafodd y llygoden  
 Fyned rhwng y ddwy wialen,  
 A chael gafael yn y to,  
 Ni ddoi hi ddim oddiyno.  
 " Llygoden, cywira gred ;—  
 Rhy bell yr wyt ti'n myned !"

" Y gred

4

8

12

16

20

“ Y gred a rois ar y llyn,  
 Na lasur byth ei gofyn :  
 A'r gred a rois ar feddwdawd  
 Ni's cywiraf hyd ddydd-brawd.”

28

Ac am hynny, ferch feinwen,  
 Ni bydd cred i lygoden :  
 Ac am hynny, Wen, yn wir,  
 A wnel dwyll, ef a dwyllir.

## CLXXXII.

I'R LLWYNOG.

**D**OE 'r oeddwn, dioer, eddyl  
 Dan y gwŷdd, gwae'r dyn ai gwŷll  
 Yn aros dan bren arael,  
 Ag aur a main gwrwm ael ;

4

Gorsefyll dan gyrs ufydd,  
 Ac aros gwen goris gwŷdd.

Fal 'r oeddwn, anseiliwn sail,

Lonyddaf dan lwyn addail,  
 Gwnaeth ar fy hwyl ym wylaw,

8

Gwelwn, pan edrychwn draw,  
 Llun gwrab, lle ni's carwn,

Llwynog coch, ni châr llun cwn,

12

Yn eiste' fal dinastwrch,  
 Ger ei ffau, ar gwr ei ffwrch.—

Anelais rhwng fy nwylaw  
 Fwa yw drud, a fu draw;

I

Ar

Ar fedr, fal gwr arfodus,

(Ar ael y rhiw arial rhus)

Yrru llem faeth o'r orallt,

Benddu, i waedu ei wallt.

20

Tynais, o oergais ergyd,

Heb y gern heibio i gyd ; —

Mae och ! aeth fy mwa i

Yn drichnap, anian drychni !

24

Llidais, nid arfwydais hyn,

Arth ofidus, wrth fadyn.

Gwr yw ef a garai iar,

A choeg edn, a chig adar :

28

Gwr yw ddilid gynn ddolef,

Garw ei lais, a'i garol ef.

Gwridog yw ym mlaen grodir,

Gwedd ab, ymhllith y gwyydd ir :

32

Lluman brain, gerllaw min bryn,

Llamwr erw, lliw marworyn.

Drych nod brain, a phiod ffair,

Draig unwedd daraganair :

36

Cenau ar fryn, cnöwr iar fras,

Cna' diarab, cnawd eirias.

Taradr daeargadr dewrgau,

Tanllestr ar gwyr ffenestr ffau :

40

Bwa latrwm, didrwm draed ;

Gefel unwedd gyflinwaed.

Nid hawdd i mi ddilid hwn

I'w dy annedd hyd annwn :

Cyfarth

Cyfarth a wnai'r ci efydd,  
 Byrgluf, y bore-glas-ddydd.  
 Deugwae'r talwrn lle digwydd,  
 Delw ci 'nadolwg gwydd : 48  
 Rhodiwr coch, rhydir i caid,  
 Rhedai 'mlaen rhawd ymlyniaid;  
 Llym ei ruthr, llamwr eithin ;  
 Llewpart a *dart* yn ei din.

## CLXXXIII.

## ACHAU Y DYLLUAN.

“ **T**YDI Dylluan tudwyll,  
 Teulu a'th wyl, talaith wyll;  
 Cenau mab cath yn canu,  
 Cyw gwydd, llai no blwydd o blu: 4  
 Jarlles feiniles arthwen,  
 Ergyd bollt ar gw̄r dy ben !  
 Cynnydd anfwyn mewn ceunant,  
 Cuchiog wyd, cai ochai cant.”

“ Er da, fab, difai ym wýdd,  
 Yn y llwyn,—gad fi'n llonydd  
 I ddwyn poen o dôn penyd  
 A bâr holl adar y byd ! 12  
 Er hyd y nos, rhaid i ni  
 Godde' anwyd, a gweiddi ;

Gobaith

Gobaith nid oes ond gwybio  
Y dydd, ar sy ffydd, a ffo!"

16.

" Er hyn, pa 'deryn, pa'r haint,  
Pwy dy henw, pryd henaint?"

" Bonedd gwell-wedd i'm gelwynt;  
Blodeuwedd wrth gyfedd gynt:  
Merch i arglwydd, ail Meirchion,  
Wyf fi, myn Dewi! o Fon."

20.

" Hoywfun wen gwawr ei henwi,—  
Er trist ion! pwy a'th troes di?"

24.

" Gwdion fab Don ar Gonwy,  
Hudlath, ni bu o'i fath fwy,  
A'm hudodd i o'm hoywder,  
I'r poen a weli, nid per!  
Haul dramawr o hil dremynt,  
Am heuru i garu gynt,  
Gronwy fab Perf Goronhir,  
Arglwydd Penllyn, hoywyn hir.

28.

## CLXXXIV.

## I'R DYLLUAN.

**D**RUAN i'r Dylluan deg,  
Radd ddisdaɬ, na rydd osdeg!  
Ni ád ym ganu 'mbader,  
Ni thau tra fo sognau'r Ser;

Ni

Ni chaf, och! o'r gwarafun,  
Gysgu, na heddychu hun!

Ty o drym yr ystlymod  
A geiff, rhag piglaw ac ôd:  
Beunydd bychan rhaib ynol,  
I'm clustiau, ceiniogau cof.  
Pan gauwyf, poen ogyfarch,  
Fy llygaid, penaethiaid parch,  
Hyn a'm deffry, ni hunais  
Gan y Dylluan, a'i llais;  
A'i chrochwaedd, aml ei chrechwen,  
A'i ffals g'wyddoliaeth o'i phen.

A hynny, modd i'r henwyf,  
Hyd wawr ddydd, annedwydd wyf!  
Canu bydd, annedwydd nad,  
“ Hw ! ddy hw ! ” hoyw ddyhêad.

Ynni mawr, myn gwyrth Anna!  
Annos cwn y nos a wna;

Budrog ddienwog ddynwaedd,  
Benfras anghyweithas waedd!

Llydan-dàl, griafal groth,  
Lygod-wraig, hen lygadroth;  
Ysdig ddielwig ddiliw,  
Wyftyn ei llys, 'staen ei lliw.

Uchel ei chrech mewn teccoed;  
Och o'r eân uwch aerwy coed!

8

12

16

20

24

28

A'

A'i gwedd-wynebpryd dyn gwâr,  
 A'i sud, ellylles adar:  
 Pob edn o'r byd alltudryw  
 Ai baedd,—ond rhyfedd ei byw !

32

Fraethach yw hon mewn bronallt,  
 Y nos, na'r eos o'r allt :  
 Ni thyn y dydd, crefydd craff,  
 Ei phen o geubren gobraff.  
 Uda'n ffaeth,—adwaen ei friw,  
 Eden Gwyn ab Nudd ydiw.  
 Wyll ffladr a gân i'r lladron,  
 Anffawd i'w thafawd, a'i thôn !  
 Er tarfu o'r Dylluan  
 Oddiwrthyf, mae gênyf gân :—  
 Rhof tra fwy yn aros rheu,  
 Oddaith ym mhob twyn eiddew !

36

40

44

## CLXXXV.

## TRAETHODL EIDDIG A'R TORYN.

**N**ID oes dychymyg ym Mon  
 Am wragedd gwyr eiddigion,  
 Fel y mae mewn gwlad arall,  
 Am wragedd cyfannedd call.

4

Eiddig ydoedd yn disgwyl,  
 Gwaith oedd arno Sul a Gwyl;

Eiddig

Eiddig oedd yn drwg-dybio,  
Defnydd drwg-dyb oedd iddo.— 8

E ganfu Liddig ddeuddynt  
Yn mynd i'r coed yn gytun:  
Eiddig a gerddodd droed-droed  
A'r ddeuddynt wyl tua'r coed.— 12

Arganfu Eithig doryn  
Ei gymmar yn y rhedyn:  
Eiddig a dynodd gyllell,  
A thöri ael y fanteil. 16

A phan godafon' hwythau,  
Drwy garedig barablau,  
Ac adnabod caffael siom  
Aneiddil gan Eiddig ffrom.— 20

“ Gwnaw'n innau'n dau yn ein dig,  
Yn hydda, siom i'n heiddig.”

“ Gwae fi, fy anwylgar hy,  
A'm byd, na ellym hynny !” 24

“ Mae i mi gymydoges,  
Oni ddichon hon im' les,  
Nid oes y' Ngwynedd heno,  
Er ei galled, a'i gallo !” 28

Myned, yn anhyf ofnog,  
Tua thy ei chymydog;  
Dyfod yn ofnog anhy,  
A wnaeth y wraig tua'r ty.

Fal mŷnodd Nef o gyflwr,  
 Nid oedd yn ty ddim o'r gwr.  
 A chael doedyd ei hanes,  
 I'w hanwyl gymydoges.

36

" Oni ddarfu amgenach  
 It' na hynny, mi 'th wna'n iach.—

Y mae i minnau Doryn,  
 O'r un frithedd, 'r un frethyn;

40

Yr un bris yn y sylldy,  
 Yr un draul wedi hynny.—

Hwde di'r Toryn cywair,  
 Heno i gywiro d'air.—

44

Moes i minnau d'un dithau,  
 Er tōri un o'r aeliau;

A mi ddeuaf yforu,  
 Cyn ei godi o'i wely,

48

I'w fiômi ef yn ei wydd,  
 Ac i ddangos yr arwydd;

Ac i ddoedyd mae fyfys,  
 O gyd wall, a gad felly."

## CLXXXVI.

CYFFELYBIAD TEGWCH RHIAIN I'R ADARWR.

**A**DARWR o rew dwyrain,  
 Neu herod eiry gawod gain;  
 Ym mrysg dydd ym mraisg dioer,  
 Ym mron wiwlion auaf-loer.

B b

O daw

O daw gwrthlys melgawad  
 Ganthaw, a'i rhwyddaw yn rhad,  
 Glud wiail a glydwyan'  
 Glânau gloyw ffynnònau glân.

8

Pan ddel edn, poen ddeiliadaeth,  
 I Fon gyfagos dros draeth,  
 I'r adnebydd, dra-rydd dro,  
 Dirionwch dyfrdir yno.—

Disgyn a wna, od ysgyg,  
 Ei blu mewn dwfrllyd a blyg,  
 Oni ddel, cof ryfel cawdd,  
 Llawr hwylwydd a'i llwyr helawdd.

12

16

Felly gwnaeth dynoliaeth dad,  
 Da i'm cur, do a'm cariad;  
 Mal eiry y rhew lliw Llywy,  
 Wyneb un, mi a wn bwy.  
 Ffynnònau difas glas-ddaigr,  
 Yw gloywlon olygon aigr:

Aeron glân,darparan' glod,  
 Eurychiaeth Mab Mair uchod!

20

Canoch fi! pan ymcanynt,  
 Caeau da, nad caead ynt!  
 Glynodd serch a golanwyf,  
 Rhwym o glud y rh'om o glwyf.  
 Drud ofal cariad afael,  
 Drud a mi ar funud ael;

24

28

*Pefrllys pen gytgamus pwyll,*  
 Meddwdod ei llygaid modd-dwyll,  
 Mwy nag edn, mynawg ydiw,  
 Mae'r glud llaes, mawrglod y lliw.  
 Ar gariad dybrydiad bryd,  
 Pwyll dirgel, pell yw d'ergyd!  
 Ei meinion dduon ddwyael,  
 Yw'r gwiall glud, golud gwael;  
 Mwy ar ddyn aelblu mwyalch,  
 Na llinyn saer ar gaer galch.  
 Breiniawl-wedd wybren eilun,  
 Hydraul bwyll, hyd ar ael bun:  
 Hualwyd, cadwynwyd cof,  
 Haul y dawn, hoelied ynof!

32

36

40

## CLXXXVII.

## I ANFON YR ERYR YN LLATAI.

“**Y**R Eryr, hardd arwyrain,  
     A gâr mawl, ac aur a main;  
 Mireingorph uwch mariangoed,  
 Milwr cylch ymylau'r coed;  
     Ymlyniad wyd ym mlaen dar,  
 Mewn gwyrdd-goed mai yn gerddgar.  
 Myn dêyrnged o'r gwledydd  
 Melus y rhan, myn lys rhydd.”

4

8

“Cyrch at lys glân rianedd,  
 Paradwys, mamwys fy medd,

Lle mae fy nghrair ddisglaer loyw,  
Lliw prynhawn eglurwawn gloyw !

12

Disgyn, y dewin diwael,  
Ar ei llys hwnt, iarlles hael:  
Ymddiddan a'r feingan ferch,  
Ar dwyn, ac er Duŵ annerch,  
Dan arwydd nad un wriawg,  
Aŵyr hi wra yr hawg.”

16

“ Ei llaw sydd iarlles heddyw,  
Er ei bod mewn gweddwdod gwiw:  
A bod arwydd a wyddwn,  
Rh’of fi a hi yr haf hwn.  
Dywaid euraid aderyn,  
Deuliw’r haf, i deccaf dyn,  
Fod ei bardd, anwahardd-ryw,  
Heb obaith (fanhaith!) i fyw;  
A’m bod hir o’i chariad tau,  
Yn yngod ar lun angau !”

24

28

“ Na thària, ymdaith wryd,  
Oni welych befrddrych byd !  
Amgylch awyr y dwyrain,  
Ysgwyd y corph esgud cain ;  
Brysia hyd ei bro, Esyllt,  
Brenin adar, gwar a gwylt !  
Maneg dan gel dy helynt,  
O wrthiàu gwawd, wrth y gwynt ;

32

Mabmaeth

Mabmaeth erioed glyn-goed glân,  
 Mwyn dy gais, myn dau gusan.  
 Euraid ffriw, at Fair wiwddoeth  
 Angel yn ddirgel a ddoeth ;      40  
 Dull angel a ollyngaf  
 I dramwy serch, dri-mis haf."

## CLXXXVIII.

## Y SERCH DIRGEL

**M**YFI y sydd, deunydd dig,  
 Lleidr Serch dirgeledig !  
 Gwyltion adar, glaeар glod  
 Anian uthr, a wna nythod ;      4  
 A sef y gwnan' dan y dail,  
 Ym mhlethiad gweuad gwial,  
 Yn lle diarffordd, rhag llu,  
 O fygr synwyr i fagu.—      8  
 Yn unsud, yn un ansawdd  
 A hynny, cywely cawdd,  
 Cariad a wnaeth, caeth yw'r cof,  
 Annoethineb nyth ynof !      12  
 A'm fy nwy-ais, myn Dwynwen !  
 Sy' gul a gwael, heb gael Gwen !  
 Gwiall ydynt, hynt hyfriw,  
 Dau ystlys gwas deftlys gwiw :      16  
 Canu a wnaf, cyd cwynwyf,  
 A'm calon fyth yw nyth nwyf !

- Ni chair ferch y loywferch lân,  
Ni thwyllir o'i nyth allan : 20  
Ni fedr Eiddig, anfadwr,  
Ar y nyth hwn, arw-noeth wr:  
A mi ni'm dawr, gawr garsyth,  
Er na's medro y fo fyth. 24  
Dilys gênyf, fardd dilyth,  
Yn wir, na wybyddir byth;  
Oni's pair, drwy anair drwg,  
Twrn aelaw tirion olwg. 28  
Meddwl calon, a bron brudd,  
Drwy amgylch, draw a ymgudd :  
Ple bynnag, ddinag ddeu-nwyf,  
Fab oedd yn y ty i bwyf; 32  
Ar drem goris ael dramain,  
I'm cenfydd, cof hafdydd cain,  
Llw beiddiad, o'r lle byddwyf,  
Minnau a'i gwyl, engyl wylf. 36  
Er chwerthiniad gariad gael,  
A'i munud ar ei meinael ;  
Newidio drem, ni wadaf,  
A'm chwaer, dim amgen ni chaf. 40  
Ef aeth ei threm, Gem Gymry,  
A'i chariad, ehediad hy,  
Dyn fain wengain ewyn-gorph,  
Drwy 'mron, a'm calon, a'm corph!

Mal ydd ai, gwiw ddifai gof,  
 Gronfaeth drwy ysgub grinsolf.  
 Ni âd Beuno, tro tremyn,  
 Abad hael, fyth wybod hyn ;  
 Gymro dig, heb Gymru dir  
 I byddaf, o gwybyddir !

48

## CLXXXIX.

I YRRU'R BIOGEN YN LLATAI AT WRAIG  
 O FEIRION.

“ **C**YRCH yr Edn dialednais,  
 Cychwyn, wan benlöyn lais ;  
 Difai yw'r Ferch a'm dyfun,  
 O'r dêau at y fau fun.      4  
 Medr wlad Feiriawn, dawn difai,  
 Medr dy sain mewn eurddrain mai ;  
 Buan dy hynt uwch punt perth,  
 Marchog bedw cangog cyngerth.      8  
 Adain flin-lais ylfin-lwyd,  
 Edn o bedwar-lliw ydwyd,  
 Gwyrdd, a glas, eurwas arail,  
 Gwyn, a du, yn gwnio dail.      12  
 Cyfaill dynionau ieuatingc  
 Er na bych mawr, cerddawr caingc ;  
*Ysgwl* trin a chyfrinach,  
 Esgud wyd, edn bochlwyd bach.”

B b 4

“ Dwg

" Dwg ruthr fal gwynt, helynt hwyl,  
 I Feirionydd, fro anwyl,  
 At wiwddyn, yt a wedda;  
 Dwg i wraig Dafydd dydd da.  
 Fy mun oedd! er fy mwyn i,  
 Aur ei chuddugl, arch iddi,—  
 Gorne gwendon Meirionydd,  
 Nad el na lliw nos na dydd,  
 (Fail enaid fraisg, euraid frig,  
 Wyl oedd) ar wely Eiddig.  
 Hefyd, *y/gwier* hoywfalch,  
 Awdur gwýdd a edy'r gwalch,  
 Didrwch berchénog deudroed  
 Meinion cymdeithion coed,  
 Taer fyddid, nid hwyr feddwyl,  
 Bydd daer ar fy chwaer un chwyl.  
 Dywaid, edn diwyd awdur,  
 Dewin coed, *wy'* yn dwyn cur,  
 Fy mod a mydr annerchwawd  
 Ym mro Deheubarth, fy mrawd!  
 A sain gofal i'm calon,  
 A saeth o hiraeth am hon!  
 Wrth weled Iwysgred leisgroyw,  
 Mygr o lun, ger magwyr loyw,  
 Hiraeth am dug am denyw  
 Er ys mis,—eres fy myw!"  
24  
28  
32  
36  
40

## CXC.

I YRRUR' ALARCH YN LLATAI.

“ **Y**R Alarch ar ei wiwlyn,  
 Abid galch, fal abad gwyn;  
 Llewych edn y lluwech ydwyd,  
 Lliw gwr o nef, llawgrwn wyd.      4  
 Dwys iawn yw dy wasanaeth,  
 Hyfryd yw dy febyd faeth:  
 Duw roes yt yn yr oes hon  
 Feddiant ar Lyn Syfaddon.      8  
 Dau feddiant rhag dy foddi,  
 Radau teg, a roed i ti;  
 Cael bod yn ben pysgodwr,  
 Llyna ddawn, uwch llyn o ddwr;      12  
 ’Hedeg ymhell a elly,  
 Uwch law y fron, uchel fry;  
 Ac edrych, edn gwyn gwych gwar,  
 I ddeall clawr y ddaear;      16  
 A gwilio rh’od a’r gwaelod,  
 A rhwyfo’t aig rhif yr ôd.  
 Gwaith teg yw marchogaeth tòn,  
 I ragod pysg o’r eigion;      20  
 Dy enwair, wr dianhardd,  
 Yn wir, yw’r mwnwg! hir hardd.  
 Ceidwad goruwch llygaid llyn,  
 Cyflifiadaidd cofl o ewyn;

Gorwyn

Gorwyn wyd uwch geirw y nant,  
 Mewn crys o liw maen crisiant;  
*Dwblod fal mil o lili,*  
*Wasgod teg, a wifgid ti;*  
*Siecced o ros gwyn yt fydd,*  
*A gw̄n o flodau'r gwinwŷdd."*

28

" Cannaid ar adar ydwyd,  
 Ceiliog o nef, clog-wyn wyd,  
 Gwrando f' achwyn, addwyn wr,  
 Wrthyd, a bydd ym nerthwr.—  
 Merch fonheddig sy'n trigaw,  
 A gwawr dlos, sy' gar dy law ;  
 Brysia dithau, gorau gwr  
 Wyn ei gefail, negefwr ;  
 Nofia'n ufudd, ni'th luddir,  
 A dôs i Gemaes i dir.  
 Deled i'th gof ei gofyn,  
 Deuliw'r lloer o Dal-y-Llyn :  
 Enw'r Ferch a annerchir,  
 Hyn yn wawd ei henw'n wir,  
 U sy' fry, H hy hoywen,  
 A thair D, ac Y, ac N.

32

36

40

44

Cyrch yn araf ei 'stafell,  
 Cyfarch o'th ben i wen well:  
 Addef sy nolur iddi,  
 A maint yw sy ammwynt i.

48

Dwg i mi, dig wyf am Wen,  
 Wr lliwus, eiriau llawen :  
 Duw i'th gadw rhag pob adwyth,  
 Teg ei ben,—ti a gai bwyth !”

52

## CXCI.

YMDDIDDAN A GWRAIG.

“ **Y** Ddyn fegis Gwen o'r Ddol,  
 Rywiog araf ragorol,  
 Rhinweddol yth ganmølaf,  
 O flaen neb dy fawl a wñaf !”

4

Cerais hon, cares Anna,  
 Llawen o ddyn a'i lliw'n dda :  
 At hon i daethym i'r ty,  
 Doe'n un-awr, fal dyn anhy ;  
 O'i ferch braidd y medrais i,  
 Ferch weddus, gyfarch iddi !  
 Gwen oedd eiliw ei gwaneg,  
 Gweniad dyn, ganiad deg.

8

Hon oedd wen, a hyn oedd dda,  
 Minnau hyfach fum yna :  
 Dywedais wrthi hi hyn,  
 Dwyael loyw, dàl ewyn,—  
 “ Dydd da 'r anhepcor Forwyn !”  
 “ Dydd da'd y Mab diriaid mwyn !—  
 Moes ryw beth masw o'r byd,  
 Chwedlau, fab gwinau gènyd ?”

12

16

“ Nid

“ Nid oes, deuliw ’r ôd, o’r dydd  
Dámwain yw, dim o newydd.”

“ Dywaid was, da yw dy sud  
Mwynaidd, beth a ddymunud ?”

24

“ Dymunwn, riain feinir  
Un-lliw ag ôd, yn lle gwir,  
(Dy boen a ddygum beunoeth !)  
Dy gael, ddyn deg oleu-ddoeth !”

28

“ Synwyr yt fab ! na sónia,  
Cel dy wawd, ag yt gael da !  
Can’s mae i mi wr priod !”

“ Bythawr fyth, beth er ei fod ?”

32

“ Rhois fy nghred, llei gweled llw,  
Na soniwn, yn oes hwnnw,  
Am annerch mab o’m unoed,  
Uthr yw, nag am wneuthur oed :  
Ond na allaf warafun  
I ti, ar dy fwyd dy hun,  
Ganu gwawd, fab gwinau gwych,  
F’anwyl i’r neb a sýnych !”

36

40

“ Dy garu, deg ei goroen ;  
Dy gellwair a bair ym boen !  
Os fyfi a fynni, ferch,  
Nid â unnos heb d’ annerch ;

Ac ni chanaf a'm tafod,  
 Yn neutu glyn, ond dy glod!  
 I'lh ganmol ferch urddolwaed :—  
 Dy wedd! —dôs, a dyddiau daed!"

---

## CXII.

TRAETHODL Y CEILIOG RHEDYN A'R  
 GRUGIONYN.

**M**I a wnaf, ac mi a wnaf,  
 I'r wraig aeth i daith yr haf,  
 Fal y gwnaeth y grugionyn  
 A'r ceiliog rhywiog rhedyn.— 4  
 Y ceiliog rhedyn a fu  
 Yn llemain, ac yn llâmu,  
 O wyl Jeuan yn yr haf,  
 Oni ddaeth dyw-c'langauaf.— 8

Dyw-c'langauaf, y borè  
 Fe a droes y gwynt o'i le,  
 I odi, ac i luchio,  
 Oddiar lechwedd Moel Eilio.  
 I luchio, ac i odi  
 Oddiar ystlys Eryri.

Fal yr oedd y grugionyn  
 Yn ei esmwyth glyd dyddyn,

Wedi

Wedi cael yn ei gywair,  
 Ei gynnyd, a'i yd, a'i wair;  
 A'i larder i nen ei dy,  
 A'i farch ū traed ei wely;  
 A'i wraig yn chwilio ei ben,  
 Yn hyfryd, ac yn llawen;  
 Fo glywai o gil y ddôr  
 Egwan yn erchi egor.

20

24

“ Nid er d'ofn, nid er d'arfwyd,  
 Ond er gofyn,—pa un wyd ? ”

“ Myfi sydd redyngar geiliog,  
 Dy frawd ffydd, a'th gymydog,  
 A'th gâr, a gwr o'th unwlad,  
 Yn dyfod i west attad.”

28

“ Mae yma y grugionyn,  
 Dy frawd ffydd, a'th gyd-tyddyn :—  
 Ple buost ti'r haf hirwyn?  
 Neidio a llâmu rhedyn?  
 Rhodia etto, llâma'n dda,  
 Heno ni ddoi di yma ! ”

32

36

“ Duw bellach a'm cynghoro !  
 I ble'r af innau heno ?  
 Os myned i barc y glyn,  
 Lle bum gynt yn feistr rhedyn.  
 Mi daria' yma'n agos ;  
 Ni bydd marw march er unnos ! ”

40

Yna

Yna doedai rai doethion,  
Pe bai gorphydd oedd galon :— 44  
Yna doedai rai doethiaid,  
Pe bai gorphydd oedd enaid.  
Dyna gigle, ni cherddodd  
Led yr erw oni rŷnodd !—  
Fel dyna'r modd y darfu  
I'r ceiliog rhedyn cynta' fu.— 48  
A phoed felly y darffo  
I'r ceiliog rhedyn cynta' fo.

## CXCIII.

## AMCANIAD O DDWYN RHIAIN.

CARU 'r wyf is cŵr yr allt,  
Cerais berchēnog hirwallt ;  
Caru un dyn a'm curiodd,  
Caru bun ni's cair o'i bodd. — 4

O Dduw ! ai rhydd yw i wan  
Garu dan gaeau arian ?  
Lliw can addfwyn fwyneidd-falch,  
Lliw 'r corph o'r peillwy, a'r calch ; 8  
Lliw'r gwin, lliw eira gweunydd,  
Gerllaw ei gran yw lliw'r grudd :  
A'r graen megis y manod,  
A'r ael fal ingc ar liw'r ôd :

Delw wen falch dan fain fuchudd  
Du, a roed uwch ei dau rudd.

Ni feiddiaf rhag anfoddion,  
Drych yr haf, edrych ar hon ;  
Ei thad ei ungwaith ydyw  
Gadw'r lloer : deged ei lliw !—  
Ni âd hwn fynd yw hannerch ;  
Nid da i'w mam gadw ei merch.

16

20

Pe bae yn bridd pawb o'n bro,  
Ei hunan i'm cadwai honno :  
Canwaith myfi amcenaïs  
Dwyn fy nyn, dryglwyn o drais.  
Mae 'n annawdd ym yleni  
Dreiflaw hon, medrus yw hi :  
Mi a gawn, liw manwŷdd mai,  
Deugain o wyr a'i dygai.

24

Pe rhon' bob cyngor morwyn  
Ucho'n dau, a chawn ei dwyn ;  
Dilys ym, myn delw Seimon !  
Y fyr rhai o threifir hon.  
O Dduw ai cair yn ddierbyn !  
A ddaw hi o'i bodd ei hun ?—  
Os daw, hi a'm gwna'n llawen,  
Oni chair,—yn iach i'r wen !

28

32

## CXCIV.

TRWSTANEIDDRWYDD Y BARDD AR Y IA  
WRTH DY EI GARIAD.

**D**EINCRYD mawr, ar led ancrain,  
Fu'r mau gerllaw'r muriau main :  
Neithiwyr y'nghanol noethwynt,  
A rhew,—och mor oer fu'r hynt!  
Gnwd gauaf-rwd, gnawd gofron  
Gerllaw fy hoen gorlliw Fon.  
Gofyn o glyd gofion glân,  
Am y mur, o'm em eirian.—

4

8

“ Ai diddan anwyd oddef:  
Ai dyn wyd, er Duw o nef?”

“ Dyn oeddwn heddyw liw dydd,  
Byawl, wedi cael bedydd ;  
Ac ni wn o'm pwn poenglwyf,  
Weithian byth, cirian, beth wyf!”

12

Cwympais ar draws, dygn-naws dioer,  
Clwydau o iâ caled-oer :  
Y'ngaer ferw dwfr, y'ngarfoll  
Y syrthiais, yffigais oll !  
Pan dôres Fael, eres wedd,  
*Plats* gron-gledr dwyfron dyfredd ;  
Pell glywid o'r pwll gloyw-iâ :  
Garm a bloedd, garw mau bla!

16

20

- Gwēau anaelau o nych,  
Gleision, mal 'wybr goleu-fych: 24  
Golwg bwl amlwg blym-lawr,  
Gwydr-ddrychau marlbyllau mawr  
Certh eu llun, carthēnau llaid,  
Cleddiwig lithrig lathraig. 28
- Weithian, gwaeth yman ymy,  
Nog yn y fron gan iâ fry;  
Bwgwth mae'r gloywlon bigau,  
O'r bargawd, y mein-gnawd mau: 32  
Cryn hoelion, diferion farn,  
Cyhyd a rhai ôg hacarn!  
Gwir mai rhaid, garmau rhydew,  
Gochel arfau rhyfel rhew: 36  
Pŷnau ferthau pan syrthynt,  
Pob un oll pibonwy ynt.  
Sŷnawdd arnaf a'i syniaid  
Silldrwm, gwewyr plwm gaer plaid: 40  
Cyllyll, rhew defyll, dioer,  
Newydd-lif yn niwedd-loer.  
Byrblu rhewedig berwbla,—  
Borau oer i'r berau iâ! 44
- Ys gwae fi! rhewi ar hynt,  
Ysgillwayw drwg a sgellwynt:  
Ys gwn mai gwell, faith-bell farn,  
Ysgidiau rhag iâs gadarn. 48  
Nwyf clwyf clai farw ferwinwaed,  
Nog na bain' ar druain draed;

Mi yw'r gwr, mawr a guria,  
Mwyn, a ddaeth i'r mynydd iâ. 52

Etto gwelir, hir fy hun,  
Olwg doft ar ei eulun ;  
O herwydd trangc difangcoll,  
Yn wyw iawn, ac yn iâ oll ! 56

Ysgorn arnaf a gafas,  
Ysglem glew o'r crimprew cras :  
Ys glŷn fal glud, drud y dring,  
Iâs greulon fal ysgrawling,  
Gan na chaf, geinwych ofeg,  
Le mewn ty liw manod teg. 60

Yn hwyl ynial yn helynt,  
Oedd raid ym, be caid, be cynt,  
Tes gloyw teg, twysg liw tywyn,  
A Haul a ddattodai hyn. 64

## CXCV.

## Y SERCH LLEDRAD.

**D**YSGAIS ddwyn cariad esgud,  
Diwladaidd ledradaidd drud ;  
Gorau modd o'r geiriau mad,  
Gael adrodd serch goledrad. 4

Cyfryw nych cyfrinachwr,  
Lledrad gorau gariad gwr;

Tra fuom mewn tyrfäau,  
Fi a'r ddyn, ofer o ddau, 8  
Heb neb, ddigasineb son,  
Yn tybied ein hattebion.—  
Cael o herwydd coel hir-hynt  
A wnaetham, ymgytgam gynt; 12  
Bellach, modd caethach i cair  
Gyfran drwy organ drigair :  
Difa ar un drwg dafod,  
Drwy gwlm nych, a dryglam nod.— 16

Ni chawn mwy mor tramwoyo  
'R hen lwybrau gorau o go';  
Yn lle bwrw enllib eiriau  
Arnam, enw dinam, ein dau : 20  
Tra-balch oedd, tra chaid rhybudd,  
Tra caem gyfrinach trwy gudd.

Cerddais, addolais i ddail,  
Tref eurddyn, tra fu irddail : 24  
Digrif fu'r hin in' enyd,  
Dwyn dan un bedwlwyn ein byd.—  
Cyd chwerthin ar fin a fu,  
Y'nghoed loches cyd lechu :  
Cyd fwhwman marijan mor,  
Cyd aros mewn coed oror.—  
Cyd gadw bedw, gwaith dedwydd;  
Cyd blànu gweddeiddblu gwŷdd:

Cyd

Cyd adrodd ferch a'r ferch fain,  
 Cyd edrych caeau didrain !  
 Cyd yfed medd ar sedd ferch,  
 Cyd gerdded coed a gordderch ;                            36  
 Cyd wyneb, cyd awenu,  
 Cyd chwerthin fin-fin a fu !—  
 Cyd ogwyddaw gerllaw'r llwyn,  
 Cyd ochel pobl, cyd achwyn ;                            40  
 Cydfod mwyn, cyd yfed medd,  
 Cyd arwain ferch, cyd orwedd :—  
 Cyd ddal cariad celadwy  
 Cywir, ni's mynegir mwy.

## CXCVI.

CYNGOR Y BARDD I WRAIG A BRIODASAT  
 GAR IDDO, YR HWN OEDD AFREOLUS.

“ **D**YDD da fo 'r rhagor forwyn,  
 Y ferch a welais yn fwyn !—  
 A ffŷnodd, mewn deufodd da  
 Gwn yt air, genyt wra ?”                                  4

“ Na ffŷnodd, gormodd ai gŵyr !  
 Nid gwell son, ond gwall synwyr !

“ Dywaid y fun, lun loywferch,  
 Ai da gènyd dy fyd ferch ?

“ Nid cystal, trwm ofal traïs  
 Y golau, ag i gwelais !  
 Diras ydi'r aderyn,  
 ’Sywaeth ysmonaeth ni’s myn !— 12  
 Treulio ei dda wna y nos,  
 A’i guddiaw i wrageddos :  
 Er nas dygen’ o’i anfodd  
 Yr eiddo, fo rydd o’i fodd !— 16  
 Yn llwyr ddig gwna’n llawr ei dda,  
 Heibiaw tŷn i buteinia ;  
 Oddiynaw daw, yn ddyn dig,  
 I’r dafarn fal pendefig : 20  
 Wtres rhodres gwrhydri  
 Y’ngwas dull ar ’y nghôst i ;  
 A chanmol ei wroliaeth,  
 Maneg ym mwy nog a wnaeth. 24  
 Yn niweddy gyfeddach,  
 Ysgelus wr ysgil sach :  
 Dyna ddig, a dwyn ei dda,  
 A’i bilyn yn y Bala.— 28  
 Nid hawdd ym gaffael byd da  
 Diwall am y dwyll yma !—  
 Pan ddeel ef i’w gynnefin  
 I gŵr ei blas, fal gwr blin,  
 Eiste’n sad yn ei gadair— 32  
 Ar d’én nag yngen un-gair  
 O gellwair un gair ag ê,  
 Amnaid rhywiog, fe’m trawe !—  
 Dafydd !

Dafydd ! mae yn edifar,  
 Dig wyf am briodi dy Gâr !—  
 Pât iddo, mewn pur weddi,  
 'Mendio, neu 'mado a mi !'

49

“ Paham fy Ngwen gymmenddysg ?  
 Etto ddyn yw iti ddysg ;—  
 Pan ddel a'i ffrost ar osteg,  
 Rhag d'enaid dywaid yn deg !      44  
 Oni's cymmer heb derfysg,  
 Gwna etto ddull,—Gwen yt ddysg !  
 Bydd di, oni ellî'r naill,  
 Ddyrus fal gwragedd eraill.—      48  
 Dod gwlbren ar nen ei ael,  
 O lonaid dy law, wen-hael :  
 A dod whap, megys clap cledd,  
 Er da, ar ei wår dewedd ;      52  
 Cur yno fyth, cair y fo  
 Yn was doeth oni 'stwytho.

## CXCVII.

YMDDIDDANION RHWNG Y BARDD A MERCH  
 MWY CHWANNOG I OLUD NA SERCH.

**A** Mi ar deg foregwaith,  
 Aur mál a dál ym y daith,—  
 Mi a merch dau ordderchael,  
 Mwyn yw hon, a main ei hael,

C c 4

Dechreuais

Dechreuais wrth lednais-ferch  
Dreuthu son, gwn druthio ferch.

“ Dywaid i mi, ail riain,  
Beth sy’th fryd, gwyn fy myd main !  
Ferch, ai cymryd gordderchwr,  
Pryd gwyn, ai priodi gwr ?”

“ Taw ! nid oes, einioes anhun,  
I’m bryd, wr ynsfyd, yr un !”

“ O wiwddyn ! pa ddyweddi,  
F’enaid teg, a synnyt ti ?”

“ Perchen o wr a’m parchai,  
Parchus mewn daionus dai.”

“ Dyn deg wyd, nid am do gallt—  
Beth amgen, feinwen fanwallt ?”

“ Ammaeth arddwr fae wrwl,  
A’i eilwad, a’i had i’w ol :  
(Unig wyl anogyfuwch)  
Neu hwsmon neu borthmon buwch.”

Bwriais inne’, nawne noeth  
Ffordd driniaid, i ffwrdd dranoeth :  
Margen yn lew ddyniewid,  
Ac wyn, yr oeddwn i gid ;  
A masnach y buffachiaid,  
Yn y ffair cywair i’m caid :

Tybiaid

8

12

16

20

24

Tybaid, wrth ei hattebion,  
 Y doe'r ferch diwair o Fon.  
 Hustoing wr, haftoing o air  
 Yn ei chluft,—anwych leſtair !

32

A doedyd (nid oedd fyd fo  
 Wrthi drwg fo Duw wrtho)  
 Nad oedd ym, wiwrym wryd,  
 Na dyn byw, na da'n y byd ;  
 Ond 'y mod, yn rhagod thus,  
 Yn rhodiwr tlawd, yn rheidus.—

36

I fedd Dwynwen yleni  
 Y tyngai na fynnai fi,  
 Oni chai, dan ddifai ddail,  
 Gan-fwllet o aur dan gwnfail !

40

“ Mi a rown bunt yn un-tal,  
 Er cael serch merch, yn aur mäl.”

44

“ Aro fab, difri abwy,  
 A roi er merch o aur mwy ?”

“ Rhoddwn, pe meddiannwn dda,  
 Oerwr wyf, aur Arafia !

48

“ Ond oes i'th law, cludaw clod,  
 Trysor—par feichiau trosod.”

“ Ni chawn i, liw lili lân,  
 Feichiau am geiniog fechan !”

52

Rhyfedd yw natur rhuddaur,  
 Maint yw bryd fy myd am aur ;

Ni

Ni aned yn ei wyneb,  
 Dyiad nwyf, da gyda neb ; 56  
 Ac ni wyl, emyl ammwyll,  
 Dyn ai pyrth, da iawn y pwyll.—  
 Rhoed pob Indeg deg ei dàl  
 Ufudd, ar Dduw ci ofal !

---

## CXCVIII.

## CYNGOR Y BIOGEN.

**A** Mi'n glaf er mwyn gloyw ferch,  
 Mewn llwyn yn prydus swyn ferch,  
 Ar ddiwrnawd pereiddwawd pill 4  
 Ddichwerw 'wybr, ddechrau ebrill ;  
 Dolydd, a choed yn deiliaw,  
 A chog lwyd, a 'chydig wlaw.—  
 A'r gog, a'r ysgydogyll  
 Ya briwo cerdd mewn brig cyll ; 8  
 A than fy mhen obennydd  
 O fanblu pebyll gwyll gwŷdd :  
 Ac uwch fy mhen fedwen, fau  
 Gaer Ioywdeg o gwrlidau. 12  
 A'r eos ar âr wiai,  
 A'r fwyalch deg ar fwlc'h dail :  
 A'r fronfraith ddigrifwaith gref,  
 Ysginllwyth edn ysgawnllef,

Bardd

- Bardd coed, mewn trefgoed y trig,  
 A bronfraith ar ūr brenfrig,  
 Cyn y glaw yn canu'n glau,  
 Ar lasbangc irlwys byngciau:                           20  
 A'r hedydd afonydd ei lais,  
 Cwcyll-lwyd edn, cu call-lais,  
 Yn myned, mewn lluddled llwyr,  
 A chywydd i entyrch awyr.                                   24  
 Finnau, fardd thiain feinir,  
 Yn llawen iawn yn llwyn ūr;  
 A'm calon fradw yn cadw cof,  
 A'r enaid yn ūr ynof!—                                   28  
 O lawened! gweled gwŷdd,  
 Gwaisg nwyf, yn dwyn gwisg newydd!  
 Ac egin gwin, a gwenith  
 Ar ol glaw, a niwl, a gwllith;                           32  
 A dail glas ar dâl y glyn,  
 A'r draenwŷdd yn ūr drwynwyn!
- Myn y nef! yr oedd hefyd  
 Y Bi, ffèla edn o'r byd,                                   36  
 Yn adeiliaid brad brydferth,  
 Ym mhengrychedd perfedd perth;  
 O nyth drain, priddgalch balchborth,  
 A'i chymmar yn ei chymmorth.—                           40  
 Syganai'r Bi, cyni cwyn,  
 Drwynllem falch ar y draenllwyn.—

“ Mawr dy ferw, gochwerw gân,  
 Henwr, wrthyd dy hunan :                                  44  
 Gwell oedd fod draw yn llawen,  
 Gerllaw tân, y gwr llwyd hen,  
 Nag yma, ymhlið gwlið, a gwlaw,  
 Yn yr irlwyn ar oerwlaw ! ”                                  48

“ Taw a’th son ! gad fi’n llonydd  
 Enyd awr, oni so dydd :  
 Traferch i ddewisferch dda  
 A bair ym y berw yma.—                                  52  
 Y Bi, cyd bo du dy big,  
 Uffernawl edn tra ffyrnig ;  
 Mae i tithau, gau gofwy,  
 Swydd falch, a llafur sydd fwyo :                          56  
 Toi nyth, fal twyn o eithin,  
 Tew o ddraenwýdd crynwýdd crin.—  
 Mae’t blu brithddu, cu cyfan ;  
 Mae’t boen a brys, mae’t ben bran ;                          60  
*Mwtlai* wyt, mae yt liw teg ;  
 Mae’t lys hagr, mae’t lais hygreg ,  
 A phob iaith, bybyriaith bell,  
 A ddysgud, freithddu a sgell.                                  64  
 Dydi Bi, ond du dy ben,  
 Cymmorth fi, od wyd cymmen :  
 Dyro ym gyngor gorau  
 Am y pîch, a’r mawr-nych mau ! ”

“ Gwyddwn yt gyngor gwiwdda,  
 Cyn dyddiau mai o gwnai,—gwna :  
 Henfardd wyt, ni’th gâr harddfum ;  
 Nid oes yt gyngor ond un—  
 Dwys iawn fyd, dôs yn Feudwy,  
 Och wr mul ! ac na châr mwy.—  
 Cais ddillad yn anad neb,  
 A thân cyfuwch a’th wyneb !”

72

76

“ Aiê yr edn, oer rwydus,  
 Afrywiog liw, friwiog lys !  
 Dy gyngor o dew gangef,  
 Draig un waith, drwg iawn yw ef !—  
 Ni’s gwna’ mo hyn, ddiried-gyw  
 Y Bi, cyd y bwyf fi byw !—  
 Llyma ’nghred, gwilied geli,  
 O gwelaf nyth, byth, i’r Bi,  
 Na fydd iddi hi o hyn,  
 Nag ây deor, nag aderyn !

80

84

## CXCIX.

ARWYRAIN MORWYN AI HENW YDOEDD CADÍ.

CADI, dyn ieuangc ydwyd,  
 Call ar son, cellweirus wyd ;  
 Gwyddost, Gadi deg wiwddyn,  
 Lyfr Ofydd mewn glaswîdd glyn.  
 Marw fyth yma’r wylfi,  
 A’m gwae ydoedd am Gadi !

4

O’m

- O'm golwg mae mwg wylaw,  
Cadi lân, fal casod wlaw!— 8  
Cariad fal plwm trwm y trig,  
Cadi, mewn twr cauedig:  
Dygum gwynfan am danad,  
Cadi, haul goleuni gwlaid! 12  
Cerddor wyf mewn cae irddail,  
Cadi, down rhwng coed a dail:  
Callaidd wyd ym mhob cellwair,  
Cadi, da y cedwi d'air. 16  
Canu gwaith accen y gog,  
Cadi, mewn gwyrddlwyn coediog.—  
Myn y Tad! ni chair, Cadi,  
Amgen air o'm genau i: 20  
Cadi, ni chredi, wych rodd,  
Canu o'r neb ai cwynodd.  
Yr aur wawd, orau a wn,  
Ar Gadi yr ergydiwn: 24  
Nid ergyd ffraeth saeth feuthydd,—  
Ergyd ferch ar Gadi sydd.  
Cai, Gadi lân, yn d'annerch,  
Ergydion feuthyddion ferch. 28  
Gwae fi, Cadi, o rhag cyd  
D'aros, fal rhoi diowryd!  
Colli gwas glân, anlan oedd,  
Cadi, mwyaf pwngc ydoedd:— 32  
Ni ddoedaf, ni fynnaf fi  
Chwedl onid Duw a Chadi!

## CC.

## ARDDWRIAETH Y BARDD,

**C**EFAIS ddoe, ym mlaen cyfair,  
 Ymddiddan rhyw gyfran gair  
 A merch a gerais ermoed,  
 Meingofl iarlles y mangoed. 4  
 Ddifai sut oddefais i,  
 Addef fy nghariad iddi :—  
 Meddai, ni fynnai, f'anwyl  
 Ddyn lwyd, lathrfrain aelfain wyl, 8  
 Un bardd, oni bae arddwr,  
 Neu hwsmon gwirion i'w gwr.

O enw bardd mi a wn beth,  
 Os mynni, o hwsmonaeth :— 12  
 Prif hwsmon ar Feirion wyf,  
 Prisiwr awdl prysur ydwyt.  
 Mae i'm bryd, rhag deintcryd dig,  
 O radau Duw aredig. 16

Aradr o ferch annerchion  
 A rof fry ar erw y fron ;  
 A swch o wawd gnawd gnydau,  
 Cwyldwr mwyn yw'r callder mau ; 20  
 Penfestr glanwaith, mydriaith mad,  
 Addail cur a ddeil cariad ;  
 Jeuau o ammodau mad,  
 A dolau mwyn adeiliad ;

A thidau

A thidau cerdd blethiedig,  
 Gwaith unben dan bren a brig ;  
 Llatai, hwyl difai hael Dad,  
 Ofydd gwyl, a fydd geilwad :      28  
 Am fy hun, em ffrwythlun ffaeth,  
 O foddy m, a fydd ammaeth.

Dal a wna' rhwng dôl a nant,  
 Y borau, aradr beiriant,      32  
 Hyd y nos, nid achos dig,  
 Yr ydym yn aredig,  
 Wrth gywydd, beunydd i ben,  
 Er achub gwaith yr ychen.      36  
 Braenaru cylch bron eirian,  
 A chlod teg, ar ât achlan ;  
 A thynu'n hy, fry ar fron,  
 Cwysau cydweddaidd cyson :      40  
 A'm bryd innau i hau had,  
 A geiriau mwyn o gariad.

F' eginodd, fel y Ganon,  
 Addswyn faich rhwng braich a bron :      44  
 A hydwf, mae'n ehedeg,  
 Y cnwd hwn yn y cnawd teg ;  
 Oriau hwyl dyddiau haul da,  
 A hawdd-fyd ai haddfeda.      48  
 Pan ddel amfer, nifer nwyf  
 Mawl am yd, mal i medwyf,

Wedi darffo, addo oedd,  
 Cludo ffrwyth clod y ffithoedd,                    52  
 A roes Duw, orau ei 'stôr  
 O ras gwbl, i'r ysgubor,  
 Mae i'm bryd, enyd annerch,  
 Wedd haul fau, wahawdd hael ferch:                56  
 A rhan a gai o'r heiniar,  
 A'r yd a ddelo o'r âr.

---

## CCI.

## ARWYRAIN I'R HAF.

**G**WAE ni hil eiddil Addaf,  
 Fordwy rhad, fŷred yr haf!  
 Rho Duw! gwir mae dihiraf,  
 Rhag ei ddarfod, ddyfod haf.                    4  
 A llednais 'wybr ehwybraf,  
 A llawen haul, a'i lliw'n haf;  
 Ac awyr erwyr araf,  
 A'r byd yn hyfryd yr haf!                        8  
 Cnwd da iawn, cnawd dianaf,  
 O'r ddaear hen a ddaw'r haf:  
 I dyfu glasu glwysaf  
 Dail ar goed y rhoed yr haf.                    12  
 A gweled modd y chwardda  
 Gwallt ar ben hoyw-fedwen ha'!

- Paradwys, iddo prydaf;  
Pwy ni chwardd pan fo hardd haf? 16
- Glod anianol y molaf  
Glwysfodd,—wi! o'r rhodd yw'r haf!  
Deune geirw dyn a garaf  
Dan frigau rhyfig i'r haf: 20
- Cog yn serchog, os archaf,  
A gân ddiweddu huan haf!  
Glasgain edn glwys ganiadaf,  
Cloc'h osber am hanner haf; 24
- Bangaw lais eos dlosaf,  
Bwyntus hy dan bentus haf;  
Ceiliog, o'r frwydr y ciliaf,  
Y fronfraith hoywfabiaith haf! 28
- Dyn a fydd hirddydd harddaf  
A draidd gair hyfaidd, yr haf;  
Eiddig, cyfwynfab Addaf,  
Ni ddaw hwn oni ddaw haf: 32
- Rhoed ei gyfoed o'r gauaf,  
A rhan serchogion yw'r haf!  
Minnau dan fedw ni's mînaf  
Mewn tai llwyn ond mentyll haf;— 36
- Gifgo gwe lân am danaf,  
Pybyr gwnsallt harddwallt haf.  
I dai dail y didolaf;  
Anwyd ni bydd hirddydd haf: 40
- Lledneis-ferch os annerchaf  
Llon yw hwyl hon ar ael haf.

Gwawd

Gwawd ni lwydd, arwydd oeraf  
 Gwahardd ar hoyw fardd yr haf; 44  
 Gwynt ni âd gwasgad gwisgaf  
 Gwaeddem hwnt,—guae ddoe am haf!  
 Hiraeth, nid ymddiheuraf,  
 Dan fy mron am hinon haf!— 48  
 O daw hydref, ef auaf,  
 Eiry a rhew i yrru'r haf,  
 Guae finnau ddyn! gofynaf  
 Os gyr, mor rhyfyr mae'r haf!

## CCII.

I'R CUSAN.

**H**AWDDAMAWR ddeulawr ddilyth,  
 Haeddai fawl i heddyw fyth!  
 Yn rhagorol dwywol daith,  
 Rhag doe, neu echdoe wychdaith; 4  
 Nid oedd debig, Ffrengig ffriw,  
 Dyhuddiant doe i heddiw.  
 Nid un wawd, naid anwadal,  
 Heddyw a doe, hoywdda dâl! 8  
 Jê'n ddiwad, 'e ddaw dydd  
 Un-liliw a heddyw hoywddydd:  
 Heddyw i cefais hoywddawn,—  
 Hêr i ddoe, hwyr yw ei ddawn! 12  
 Cefais werth, gwnaeth ym chwerthin,  
 Can-fwlld a marc, cwnsfalld min;—

- Cusan fun, cyson wyf fi !  
 Cain Luned càn oleuni ; 16  
 Calènig lerw ddierwin,  
 Clyw, er Mair, clo ar y min !  
 Ceidw yno serch y ferch fad,  
 Coel mawr gur, cwlm ar gariad ;  
 Cof a ddaw ynof i'w ddwyn,  
 Curied mawr, cariad morwyn.  
 Coron am Ganon Genau  
 Caerfyddin cylch y min mau. 24  
 Ffrwyth *Bags* min diorwagserch,  
 Cwlm hardd rhwng mwyn-fardd a merch :  
 Cynneddf hwn neb ni's cenyw,  
 Cynnadl dau anadl,—da yw ! 28  
 Cefais, ac wi ! o'r cyfoeth !  
 Carodyn min dyn mwyn doeth ;  
 Cryf wyf o'i gael yn ael nod,  
 Crair min disglaир mwyn dwysglod !— 32  
 Criaf ei wawd, ddidlawd ddadl,  
 Crŷnais gan y croyw anadl !  
 Cwlm cariad mewn *tabliad dwbl*,  
 Cwmpas gaer min campus-gwbl. 36  
 Cyd cefais, ddidrais ddwydrin  
 Heiniar mawl, hwn ar ei min ;  
 Tryfor ym yw, tri-sawr mel :  
 Teiroch ym os ceiff Tyrrel ; 40  
 Ac os ceiff hefyd, bryd brau,  
 Mursen fyth, mawr son fwythau,

Ni bu ddiwg, gwg a gaf,  
Lai na dwrn Luned arnaf. 44  
Ymfeiliodd, a hwyliodd hi,  
Mul oeddwn, fy mawl iddi;  
Ni ddaw o'm tafawd wawdair  
Mwy er merch berwferch a bair, 48  
Eithr a ddel, uthr wedd wylan,  
Ar fy nghred i Luned lân.

Eiddun anadl cariadloes !  
O Dduw mwy a ddaw i'm oes 52  
Yn rhyw ddydd haul wenddydd wiw,  
Am hoywddyn, yma heddyw !

## CCIII.

PRYDFERTHWCH DEILDY Y BARDD.

**H**EIRDD feirdd fyrdiwn diledryw  
Hawddamor hoen goror gwiw  
I fun Iwys a'm cynhwysfai  
Mewn bedw a chyll, mentyll mai ! 4

Llathr daerfalch uwch llethr derfyn,  
Lle da i hoffi lliw dyn:  
Gwerdd haf blas cyweithas-deg.  
Ple mae gwell y 'stafell deg, 8  
Gwir ddodrefn ar gaer ddidryf,  
Gwell yw ystafell, os tyf:  
Nid mal mewn congl dan gronglwyd  
Y gwnaeth 'deiladaeth Duw Iwyd !

Un-air wyf fi am unoed,  
 Yno y cawn yn y coed  
 Glywed siared gan adar,  
 Clerwyr coed, clau wawr ai cár.— 16

Mil o gerddorion melys  
 Yn fwnio 'n llawn sy'n y llys,  
 Cywyddau, gwéau gwiail,  
 Cywion priodolion dail :— 20  
 Cenedl da ei chwedl di-chwerw,  
 Cywion cerddorion caer dderw.

Neuadd hardd newydd yr haf,  
 Ai ais yw goglais gwiw-glaf: 24  
 Daw hin hyf o dewyn ha',  
 Dwylo mai ai hadeilia:  
 A'i linyn yw'r gog lonydd,  
 A'i 'sgwir yw eos y gwýdd; 28  
 Ac allor ferch yw'r gelli,  
 Yn gall a'i fwyall wyf fi.—

Ni chaf yn nechrau blwyddyn  
 Yn hwy y ty na hyd hyn.— 32  
 Gobrin ym roddi gwobrau  
 I wrach am hen gilfach gau,  
 Er dwyn yn rhwydd f' arwyddion,  
 Coflaid hardd caf weled hon: 36  
 Ni cheisiaf, adroddaf drais,  
 Wrth adail a wrthodais.

## CCIV.

Y DAS GWAIR.

**M**I a fedraf ystafell,  
Dâs o wair nid oes ei well ;  
Cysgod i ddeuddynt unair,  
Castell ni bu well o wair.— 4  
Clochdy hardd i fardd yw fo,  
Clyd addas, mae clod iddo :  
Da gênyf, dioganair,  
Ymwasgu gwen, ymmysg gwair ; 8  
A rhoi cufan ac annerch,  
Ar wair hir, i'r feinir ferch.

Dyn ni fudai dan fedwen  
O gael gwair a gelai gwen ; 12  
To gweunydd, tew ei gynnrych,  
I'r ty gwair y cair ein cyrch.—  
Gwyrain adail gwern ydoedd,  
A gwair mab o gât ym oedd :  
A'r mab yn perchen hen-wair,—  
Einioes iddo i gweirio gwair !  
Da medrodd, eurodd wryd,  
'Y nghâr roddi gwair y'nghyd : 20  
Llunio dâs o feillionwellt,  
A gwair yw hwn hwy na gwellt.  
Di-hagr wair, da y gwyr hon  
Dylofi ar dàl afon,

Ffaling gwmpas o lafswair,  
A gwawn wisg i'm gwen o wair.

Glas fydd perllan y gwanwyn,  
Glas fydd coedwig, a brig brwyn,      28  
Glas yw'r ewybr, glwys ruban,  
Gleision fydd y meillion mân,  
Mwyn fydd meinwen mewn manwair,  
Glas ydyw'r gwas o dy'r gwair.      32

Gwell gan feinir gywiraw  
Oed ar wair glas wedi'r gwallaw,  
Na'r berth drwydoll, na'r collwyn :—  
Mair ro ym wair er ei mwyn!

CCV.  
I'R EIRA.

**N**I cherddaf, nid âf o dy,  
Ym mhoen ydd wyf am hynny :  
Nid oes syd, na rhyd, na thiw,  
Na lle rhydd, na llawr heddiw !—      4  
Ni'm twyllir o'm ty allan  
Ar air merch i'r eira mân !  
Plâ yw'r gwaith, plu ar y gŵn  
A drig fal chwarau dragwn :      8  
Fy esgus yw'r fau wisg fydd  
Mal unwiseg y melinydd.

Ai

- Ai celwydd wedi'r calan  
Wisgo o bawb wifg o bân? 12
- Mis Jonawr, blaenawr y blaid,  
Mae Duw 'n gwneud meudwyaid.
- 'E ddarfu Dduw'r ddaear ddu,  
O gylchoedd, ei gwyngalchu : 16
- Ni bu is coed heb wifg wen,  
Ni bu lwyn heb liwionen :
- Blawd mân yw'r pân ar bob pill,  
Blawd 'wybr fal blodau Ebrill. 20
- Llen oergur uwch llwyn irgoed,  
Llwyth o'r calch yn llethu'r coed:
- Lledrith blawd gwenith a gad,  
Llurig ystym llawr gwaftad. 24
- Grut oer, yw'n gweryd tir ár ;  
Gweren dew ar groen daear :
- Cawod rydew o ewyn ;  
Cnüau, mwy no dyrnau dyn. 28
- Trwy Wynedd i trywenynt,  
Gwenyn o nef, gwŷnnion ynt.
- Ple cymail Duw plu cymaint,  
Ple gwedd fawl? plu gwyddau faint : 32
- Gwas ungroth ag eisigrug,  
Garlwm grys, gwyr lâmu grug.
- Y llwch aeth yn lluwch weithian,  
Lle bu'r Mai uwch llwybrau mân :— 36
- Oes un a wyr fis Jonawr  
Pa ryw lu sy'n poeri lawr?

Angylion gwŷnion, nid gwaeth,  
Sy' o'r nef yn saerniaeth.

40

Gwelwch dŷnu o'r gwaelawd  
*Lifft o blangc o lofft y blawd.*

Arianwisg yr iâ enyd,

Arian byw oera'n y byd.

44

Simwr oer siom yw'r aros,

Siomiant bryn, a phant, a ffos.

Pais durdew pwys daeardor,

*Palment mwy no monwent mor.*

48

Mawr syrth ar fy mro y sydd,

Mur gwelw o'r mor bwygilydd;

Neu'r ddaear o bedwar ban

Sydd oll a'i 'mennyydd allan.—

52

Ple y taria'r pla torwyn,

*Plastr a hyd, pwy lestair hyn?*

Pwy faidd ei ddiwladeiddiaw,

Plwm oer ei glog,—ple mae'r gwlaw?

## CCVI.

## Y BRITHYLL YN LLATAI.

“ **O** Frithyll fyfyr ieithydd  
A thyfyt yt fyddaf i'th ddydd;  
Pasg a deu-lyn pysg dilwfr,  
Pefr Frithyll o defyll dwfr.

Mabmaeth

Mabmaeth, taer arfaeth terfysg,  
 Llyn Tegyd, lle pesgyd pysg,  
 Rhed o ddawn, er hyd ydd wy',  
 Eginyn pysg o Gonwy.—

8

“ Nid oes gennad geladwy,  
 Na chyngor i'r faenor fwy,  
 Tew frwysg oleuan Tâf fry,  
 Tadwys i ddwfr, ond tydy.

12

Dur ni'th ladd, dewredd glädd glân,  
 Dwfr ni'th fawdd, Deifr ni'th feddwan';  
 Ni'th glyw neb yn gohebu,  
 Ni'th wyl llwfr yn y dwfr du,  
 Nid rhaid yt, myn dawn y crair !  
 Nag anwyd, nag ofn genwair.

16

Cred fardd croyw awdur o Fon,  
 Craidd ar ddwfr croyw-rudd afon :  
 Pysg o drichan-ffrwd, ffrwd ffaeth,  
 Pell-ferw o ddwfr pebyllfaeth,  
 Pênaig hoyw ar ddwfr croyw cred,  
 Pwrcas arweddawr perced.

20

24

“ Tro hyd pan dôro dwy-rwyd,  
 Tewfyr creadur cryf wyd;  
 Duw ren arglwydd rhagod rhwydd,  
 Ac erof fi dwg arwydd.—

*Insel*

*Insel* cariad, brofiad braw,  
**O** air orn a roir arnaw;  
 Nofia gyfair llys Grairwy,  
 Nwyf ym wyd, na nofia mwy.

32

Di-ddwylaw ar nawf i'r nef,  
 A di-droed i doi adref :—  
 Bryfia, na hir rodia ryd,  
 Dwg ein chwedlau da gènyd !”

## CCVII.

AR WAITH MERCHED YN YMBINCIO.

**R**HAI o ferched y gwledydd,  
 Ar ddyw-gwyl ffair, ddiwair ddydd,  
 Rhoi *perl* a *ruwbî* pur-loyw,  
 Ar eu tâl yn euraid hoyw.  
 Gwisgo rhudd, llyfieuwydd serch,  
 A gwyrdd,—gwae a fedd gordderch!  
 Ni welir braich, goffaich gael,  
 Na mwnwgl un dyn meinael  
 Heb o'i amgylch, taerwylch tes,  
 Baderau y byd eres!

4

8

Y bwa ſyw, ni bo iach,  
 A der dau hanner hayach;

Ag

Ag aur y lliwir ei gefn:  
 Bydd hwn yn ddidwn ddodrefn;  
 Ac er mawr-werth y gwerthir  
 Y bwa hwn, gwn mae gwir.

16

Ni thebygir, gwir gariad,  
 Mewn peth deg fod breg na brad:  
 Mair ai gwaith yw y mur gwyn,  
 Dan y calch, dòniog cylchwyn,  
 Na phe rhoed, o ceid y gwr,  
 Punt er dyfod i'r paintiwr,  
 I baintio 'n hardd bwyntiau'n hoyw,  
 Lle arloes a lliw eurloyw;  
 A lliwiau glân ychwaneg,  
 A lluniau tarjànau teg.—  
 Nid rheidiach i'm byd rhydeg  
 Rhoi rhactal am y tâl teg.

24

28

Dilys, fy nghorph lle delwyf,  
 Deuliw'r ser, dolurus wyf!  
 Ti er difrodi dy frawd,  
 Dynyn danheddwyn haeddawd,  
 Nag edrych yn y gwydryn,  
 Da iawn yw gwedd y dyn gwyn.—  
 Ai rhaid i'r haul draul dramwy  
 Lle mae, i geisio lliw mwy?—  
 Nid gwaeth, wrth hyn, bais wen wiw,  
 Nag iarlles mewn gwisg eurlliw:

32

36

## CCVIII.

AFLWYDD Y BARDD AR NOS DYWYLL, A  
MAWL I'R SER A'I GOLEUODD YN DDIOGEL.

**R**HO Duw mawr mae'n i mi  
Olwynau mai yleni,

Rhag cerdded gowared gwiw  
Y gelltydd fy nyn gwalltwiw,  
Cyn yfed llyn ar fryn fry,  
A gweled dan fedw ein gwely.

Dryd yw'r ferch, mae'n drydar son,  
Drudaniaeth a dry dynion:  
Dygum, mae gofid digawn,  
Draian nos hynt druan iawn!  
Ar odde' cael, hael heulfodd,  
Cufan bun, cawswn o'i bodd.

Dros ffordd cyfraeth yr aethum,  
Dall y nos ar foel-ros fum;  
Neithiwyd hir-ffordd gawr orsu,  
Fal trwstan am feingan fu!  
Llawer cefnfaes gwlyb cefnhir  
A gerddes i, gorddwy fir:  
Cerddais ar draws naw cardden,  
Ac ar hyd moel gaerau hen,  
Ac oddiyno i ddinas  
Ellylon, cyfeillion cas:

Cyrchais

4

8

12

16

20

- Cyrchais o'r ddinas glasfawr  
 Gorfydd ar ael mynydd mawr;    24  
 Twyllawdd, ni bu hawdd hyn,  
 Y morben du i'm erbyn  
 Fal pettwn, frwydr dal-grwydr frad,  
 Y'nganol geuol gauad.—    28
- Ymgroesais, astednais floedd,  
 A rhywyr oll, rhy-oer oedd,  
 Dysgais, oerais yn aruthir,  
 Gywydd i gyweithydd uthr;    32  
 Canawg risg mewn eurwisgaen,  
 Garw fu yn y gerwyn faen :  
 Minnau yw'r ail, a'm annawn,  
 Yn y gors wenwynig iawn ;—    36  
 Addaw myned, ged gydsach,  
 I Landdwyn er 'nwyn yn iach.—
- Ni chwsg Mab, grair arab gred,  
 Mair wyryf, pan fo mawr wared !—    40  
 Gweles faint poen fardd gwiw-lun,  
 Gwyl fu Dduw, goleusodd un !—  
 Cefais o 'wybr ddeuddeg sygn  
 Gafod deg, rhag gofisid dygn:    44  
 Syber fuan ymddangos  
 Sêr i ni, yn seirian nos.  
 Gloyw fu y goleu-faint,  
 Gwreichion goddaith faith o saint :    48  
 Eirin llam o anhoff loer,  
 Aeron rhylon y rhewloer.

- Cylch y lleuad taladwy  
Cynhwyllion hinon yw'n hwy: 52  
Llewyrch gorddygnau lleuad,  
Lliw bron tes, llwybrau ein Tad.  
Arwydd cyffredin hindda  
Yr awyr, ardymyr da. 56  
Drych cenlysg haul goleufawr,  
Drychau dimeiau Duw mawr.  
Glwys ruddaur glasfrew oddef,  
Gêmâu crwper nifer nef. 60  
Cywraint bob ddwy cyweiriwyd,  
Cad Gamlan 'wybr lydan lwyd.  
Hwyl iawn i ni hoelion ais:  
Hyd y nef had a nofais. 64  
Ni's dymchwel awel ewybr  
O'u pill dyllau ebill 'wybr.  
Maith ei cylch, ni's gylch gwynt,  
Marwydos 'wybr mawr ydynt. 68  
Gwerin ffristial a thawlbwrdd,  
Claer eu gwaith, clawr awyr gwrdd.  
Nodwyddau, ni a'u diddawr,  
Gwifg pen y ffurfaen fawr. 72  
Hyd neithiwyr, bellwyr balloed,  
Crwydr, ni wybum i ermoed:  
Mawl goleulwys, mal gloyw-wybr.—  
Gwnaethan' les o'u hanes hwyr,  
Gild y rhew, goldwyr awyr. 76

Canhwyllau cwyr, cain hollawr,  
 Ar ober maith yr 'wybr mawr.  
 Da eu gwedd, baderau Duw gwyn,  
 Yn ei lanestr, heb linyn.

80

Dangosasant bant o bwyll,  
 A bryn i'm obryn ammwyll,  
 Y ffydd i Fon, y ffordd fau,  
 Y meddwl oll Duw maddau !  
 Deuthum heb huno hunyn,  
 Gwawr ddydd, i lys gorau ddyn.  
 Diwagsaw yw fy nhrafael,  
 Eithr hyn, ddyn uthr hael :  
 Taro'r fwyall afallwy  
 Yn ochr maen, ni chara' mwy.

84

88

## CCIX.

TRASERCH Y BARDD AM RIAIN NI'S RHODDAD  
 OBAITH IDDO O'I CHARIAD.

**R**HOED cas er hyd y ceisiwyf  
 Hudol ferch, ehudlais wyf,  
 Herwydd main yw'r arwydd mau,  
 Hel a dal haul y Dëau :  
 Hardd yw y gaen ar faen faingc,  
 Hael dduael, hi a ddiaingc !  
 Teg o mewn rhyw i'm llw llon,  
 Golau dan gangau gwynion ;

4

E e

Ni

Ni cha'r ddyn lân o'i hanfodd,

A bun ni'm cymmer o'i bodd!

Ni thawaf od âf heb dâl,

Mwy nag eos mewn gwial!

Mair, a Dewi, a Mordeyrn,

Y rhai a wyl fy chwyl chwyrn,

A wnel, hyn yw'r rhyfelnwys,

I mi y naill am y nwyf,

Ai buan farw, heb ohir,

Ai cael bun hael a byw'n hir!

Rhy debyg, medd rhai dibwyl,

Na wn pa nad bwn y twyll;

Prydu gair pryd a garwyf,

Eithr yr un, athro oer wys.—

O ganmawl bun, hun heirdd-ryw,

O gerdd dda, ac arwydd yw

Ni roe ryw borthmon llon llwyd

Er ugein-punt a ganwyd:

Ni roed ym o rad ammwyl

Gwerth hyn, onid gwarth a thwyl!

Mul anrheg oedd, mal unrhyw

O bai wr a bwa ŷw,

Yn seuthu, lle fathr angor,

Gwylan gerllaw marijan mor;

Heb goel budd, heb gael y byllt,

Na'r edn ewinwedd wenwyllt:

Gwydn wyf, bwrw gwawd yn ofer,

Ai gwaeth ym fwrw saeth i'r ser?

12

15

20

24

28

32

Pei

[ 419 ]

- Fei prydwn, gwn, gan englyn  
Er Duw, a brydais er dyn,  
Hawdd y gwnae erof, o'r hawl,  
Fyw o farw, fwy-fwy eiriawl !— 40  
Ni wnae hi erof fi faint  
Y mymryn, gwenddyn gwyndaint !  
Gwell gan fun, ni'm gad hun hawdd,  
Ei hensail clyd, a'i hansawdd, 44  
Na bod ymhliith ger gwlith gwledd,  
Gwirfawl gain, Gwerfyl Gwynedd !  
Ni newidia iawn wawdair,  
Lle mae, o bod ger llaw Mair; 48  
Ni aned nierch, dreigl-ferch draidd  
Felenwallt, mor fileiniaidd !  
O gwrthyd liw eiry gorthir  
Y fau wawd, hon a fu wir, 52  
Gwrthodiad y marchnadoedd  
Gwrthodiaeth F'anwyl wyl oedd !—  
Gwelwyf glwyf gloywaf feinwen,  
Plwm a ffals,—pla am ei phen !

---

CCX.

YMDDIDDAN RHWNG Y BARDD A'R GOG A  
ANFONASAI AR LATEIAETH.

“ **D**YDD da i'r Gôg serchogfwyn  
Ei llais ar ganghen-frig llwyn !—  
Ple buoſt edn diwedn-lais,  
Pa wlad bell? Flu yw dy bais !”

E e 2

“ Bum

“ Bum y'nglyn, megis dyn dall,  
 Edeir-oes mewn byd arall :  
**Cla'** fum, a gwan o anhun,  
**Collais** fy harddlais fy hun.—  
**Sefyll** dan'r irgyll yr wyd ;  
**Myn Pedr!** ni wn pwy ydwyd !”

“ Myfi yw'r Bardd digrifair,  
**Serchawgfryd**, myn 'mawrbryd Mair !  
 A'th yrrodd, ni'th gwahoddes,  
**Wila** o'r tir, at eiliw'r tes.”

“ Henwa, ddyn ffraceth hiraethwych,  
**Henw'r Gymraes** walltaes wych ?”

“ Hawdd y medrwn, gwn gan-clwyf,  
 Henwi gwen, dihunawg wyf !—  
 S, ac E, a llythr hefyd,  
 N, ag A, dwg hynny gyd.”

“ Erchis Gwen, eurchwys ei gwallt,  
 D'annerch dan frig bedwenallt.”

“ Moes arwydd, drwg i'm llwyddwyd,  
 Madws oedd,—ai mudes wyd ?”

“ Y ddyn lawer annerch ddwg,  
 Fain oedd wyl fwynaidd olwg :  
 Hir y bydd hwn, gwn gellwair,  
 Ar frig llwyn yn gorllwyn gair,”

Oui

Oni ddaeth byd hagr-noeth hyll,  
Od tew, a gauaf tywyll:  
Euthum gan oerwynt trymnoeth  
Gyda'r dail, gwiw awdur doeth."

32

Mae'r arwydd o'r mawr arail,  
Y Gog ardymioig o'r dail."

" Cyffylog anserchog-fwyn,  
Coch westai, 'ddawsai ei ddwyn;  
Pan oedd yn arwain pin iâ,  
Du-y-dom, yn d'wad yma."

36

" Pa bryd doeth y cyw noeth-frych?"

" Gwyl y Grog i gil y grwych."

40

" Ynfyd fu ei anfad fær,  
Efgeulus edn ysgeler:  
Gwn ei ladd, lid ergydnerth,  
Gwr a bolld dan gwyr y berth.—  
Dwg 'hediad, deg ei hadain,  
Dôs eilwaith at f'anrhaith fain!—  
Dwg hed dan frig coedwig cyll,  
Disgyn dan ledu d'esgyll:

44

Lateies, dwg gae Esyllt,  
Loywlais wawd, ferch liw-las wyllt;  
Dyro, a hed ar fedwlwyn,  
Lythyr i'r ferch lathrair fwyn,—  
Dywaid erchi f'enaid ferch,  
O honof fi ei hannerch.

48

52

Swn cloch mewn perth, ni'th werthir,  
 Swyddoges gwŷdd hafddydd hir : 56  
 Anwybod wyd, Gog lwydfain,  
 A nidr wyd yn y twyn drain.—  
 Hed o fedwen gaenghenlas  
 Ar bren plan, ger bron y plas : 60  
 Mwyn o drebl, mŷn di rybydd  
 I'r eurloyw deg ar liw'r dydd.—  
 O berth i berth anferthol  
 Minnau ddo' hyd yno'r d'ol ; 64  
 A dwg wen eurwallt bennoeth  
 Allan i'middidan, em ddoeth :—  
 Drwy dy nerth di a'r Rhiaint  
 Dygwn y ferch deg wen fain."

## CCXI.

## TADOGAETH HIRAETH.

**D**IGWSG sum am ail Degau,  
 Dihun, hael fun, yw'r hwyl fau!  
 Deu-fis am dwf yr un-ferch  
 Ni chyfgais i (ni chwsg ferch!) 4  
 Dros un noswaith hyd neithiwr,  
 Wiw loer deg, ond wylo'r dŵr!  
 A myfi yn ymafael  
 A chŵr fy hun, fy chwaer hael,—

Gofyn

Gofyn a wnaeth ar gyfair,  
Gofal cariad irad air.

“ Mae'r bardd mwyn, loywradd law,  
Hynod, phei paid a hunaw ! ”  
Garw a fydd murn dolurnwyf,  
Egor y ddôr, agwrdd wyl ! ”

12

“ Pe rhown, ai 'gori pe rhaid,  
Pa ddyn, néu pwy a ddywaid ? ”

16

“ Rhai a'm geilw, difeilw dwys,  
Amheuwr hun ym Mhowys,  
Hiraeth fab cof, fab cyngyd,  
Fab gwan fy meddwl, fab gwyd ; ”  
Fab ehud-nych, fab hoed-nwyf,  
Fab gwayw, fab hud, fab clud clwyf,  
Fab deigr digwsg, fab dig byth,  
Fab trymfryd, fab hawddfyd fyth,  
Fab poen, fab gwenwyn ai pâr,  
Fab golyg-wlyb, fab galar,  
Fab anhun du, fab annerch,  
Fab fyth, fab Adda fab ferch.— ”  
Gwi bonheddig ryddig rhwyf,  
Diledach, duwiol ydwyf :  
A hefyd meddai hoyw-ferch  
Ys pen fer ar feler ferch.— ”  
Rhaid ym bob awr, drwy fawrloes,  
Gyd a thi ymgadw i'th oes.”

20

24

28

32

## CCXII.

PAN FUASAI Y BARDD YN CYFWRDD A<sup>Y</sup>  
GARIAD.

D<sup>I</sup>GRIFF fu sy ngwaith neithiwyr,  
Rhwng gras a dawn brydnawn hwyr ;  
Cyfliw gwr cael ei garu,  
Glew rhwng llen dew a llwyn du : 4  
Ceiliog bronfraith cyweithas  
Oedd uwch fy mhen ar len las ;  
Yn gyrru cynnyrch cyrch cof,  
Coel iawn enw, calon ynof. 8

“ Gwyddwn yt gyngor gwiwdda,  
Hir ddyddiau mai, os gwnai,—gwna,  
Ag eistedd dan fedw gastell,  
Duw a wyr, na bu dy well ! 12  
A than dy ben obennydd  
O fanblu gweddeidd blu gwýdd,  
Ac uwch dy ben fedwen fau,  
Gaer loywdeg o gwrlidau.” 16

Nid wyf glaf, ni feiddiaf fod,  
Nid wyf iach, myn nef uchod !  
Na marw, myn Pedr diledryw,  
A Duw a farn, nid wyf fyw ! 20  
Pei cawn un eiddun addef,  
Orau dawn, o radau Nef,

Ai

Ai marw yn ddiarw annerch,  
 Ai byw'n ddyn fyw i ddwyn ferch!  
 'E fu amser, neu dderyw,  
 Och fi! ban oeddwn iach fyw—  
 Na chae haul uchel Gel  
 Ledratta haf arnaf fi!

24

## CCXIII.

Y BARDD A'I GARIAD YN CYFEDDACH.

**G**ILDIAS fal gildiwr ar fin,  
 Gildio'n lud, *Golden Ladin*;  
 Gildiais yn ddinidr ddihaint,  
 Gildiad mal goleuad saint:  
 Gildiad, nid chwitafad hallt,  
 Gildwyn ar sy nyn goldwallt.

4

Gwych y medrais, haeddais hedd,  
 Gwaith da rwyddfaith di-ryfedd;  
 Gwiw·ddysg wyf, roi gweddus gnwd  
 Gwinwŷdd Ffrainge ar gwenwedd ffrwd.  
 Pettaem Ddyw-pasg yn Gwafgwyn  
 Buan fyd, mi a'm bun fwyn,  
 Didlawd oedd, pa'i'n diawdlyn  
 Er cl aer dwf, o'r clared yn:  
 Herwydd barn y tafarnwas,  
 Hir i'm car, a hwyr i'm cas.

3

12

I

Y pedwerydd

Y pedwerydd mydrddydd mad  
**F**u heddyw, fai wahoddiad ;—  
 Meddwn innau, gau gerydd,  
 (Truan nid oedd traian dydd)  
 Ef a bair dyn gywair ged  
 Fy nwy-forc i ddyn ysed.  
 Gwelit er gwen ar ben bwrdd  
 Gwanegu gwin yn agwrdd;  
**H**ir yw'r cylch, cylchwyf didryf,  
 A hy yw'r cariad ai hyf :—  
 Hawdd yfaf dibrinaf bryn,  
 Hawdd yf a wyl ei hoywddyn.

20

24

## CCXIV.

I FERCH A ANGHOFIASAI Y CARIAD A  
 FUASAI RHYNGTHI A'R BARDD.

**E** FA fonheddig ddigawn,  
 Arglwyddes, duwies y dawn,  
 Gwna' o flaen tyf, cyn'r Yftwyll,  
 Ymliw a thi, aml ei thwyll !

4

Tebyg, myn fy enaid dibwyll,  
 Na'm adwaenost, tost fydd twyll !  
 Och ! ai meddw, wych-em, oeddyd  
 Yllynedd, cyhydedd hyd ?  
 Rhag cam ddeallt dy wallt melyn,  
 Ni ddoedaf mwy, deccaf dyn !—

8

Bun

- Bun ry-haerllug fuddugawl,  
Bid i'th farn, a'r byd a'th fawl;      12  
 O bu ymannerch ferchbryd,  
Na gair rh'om, ne garw rhyd:  
 Ac o bu gynt, tremynt tro,  
Bai ditiwr mawl, bid etto.      16  
 Ond ni ddylit ti ddilëu  
 Y rh'om fyth y rhwym a fu;  
 Na haedd organ, fal anhael,  
 Ac na fydd adwerydd wael.—      20  
 Anglo ni wna dda i ddyn,  
 O anglod gwilia englyn!  
 Terfyn anghof yw gofal,  
 Gwen brydferth ddierth na ddal:      24  
 Nid wyf i'th ddeallt, curwaltt dda;  
 Galw dy gof, gwylddeg Efa,  
 Nid taerwedd y gwneit erof,  
 Nid da, deg Efa, dy gof!—      28  
 Na fydd anghywir hit-hynt,  
 Na ad dros go'n wtres gynt.

## CCXV.

Y BARDD YN CYFFELYBU EI HUN MEWN  
CARIAD I UN YN CLISIO DAL EI GYSGOD.

**U**N agwedd, oferedd fu  
 Oerni cur, arnai'n caru  
 A'r fföl yn ymlid o ffyrdd  
 A'i gyfgod, drwy goed gwisgwyrd.

Parabl

Parabl mab a fydd tra-balch,

Cyd bo cynt no'r gwynt, neu'r gwalch:

Naws dig, ni bydd nes i daw;

Barn hen oedd brynhawn iddaw.

Brwysg fodion braisg gyfaddas,

Eyr ei glog y borau glas;

Nid ai ei gyfgod, od au,

O'i ymyl, myn ei ammau:

Un fodion, anrhyfeddoed,

Wyl a hwn,—mae ofwy hoed.—

Minnau fydd, meinwas oeddwn,

(Mawr o hud, myn Mair, yw hwn!)

Yn nychu, yn wan achul,

O ferch ar y feinforch ful.

Hyn a wasg 'y ngrudd glas-grych,

Huno nid oes, hoywnod nych,

Gael meddwl rhiain fain-hir,

Na'r dydd cyntaf o'r haf hir,

Mwy na'r ffol, ar ol yr ôd,

O'i gwyl am ddal ei gyfgod.

Diommedd i'm gommeddwyd,

Diriaid ym ddiweiried wyd!

Ni symud munud meinir,

Na'i gwêr er celwydd, na gwir:

Mynawg wedd, mwyn yw a gwiw,

Mwy no delw manod eiliw!

8

12

16

20

24

28

Nîm

N?m cymmer i fy rhiaint,  
Ni'm gwrtwyd f'anwylyd fain ; 32  
Ni'm lludd meinwar i'w charu,  
Ni'm lladd ar unwaith,—em llu !  
Ond o'm gwyl gwen gynhenwaith,  
Degau chwimp, yn digio 'chwaith. 36  
Cael a wnaf er celu nwyf,  
Cusan yr awr y ceisiwyf ;  
A glas chwerthin, gwedd hinon  
Gwen gain, hawdd, a gawn gan hon ! 40  
Ni wn pa un, fun feinir,  
Yw hyn, lliw gwyn yn lle gwir,  
A'i gwatwor, cynnar i cad  
Am wir gur, a'i mawr gariad. 44  
Deg ddadl, digio ydd ydwyf,  
Da bychan i'm dibech nwyf,  
Dwyn hirnach, er gwych ei gwedd,  
Dwŷ-oes—a marw o'r diwedd !— 48  
Diammynedd i'm gwneddyw,  
Diriaid ym, ddiweiried yw !

## CCXVI.

I'R AWRLAIS A DDEFFROASAI Y BARDD PAN  
YDOEDD YN BREUDDWYDIO AM EI GARIAD.

C YNNAR fod Cain arfeddyd,  
Canu'dd wyf fi can-hawdd-fyd  
I'r dref wiw ger Rhiw Rheon,  
Ar gŵr y graig, a'r gaer gron.—

Yno

Yno gynt fy enw a gad,  
 Mae dynion a'm adwaeniad :  
 Hawddàmor heddyw yma,  
 Hy yn nhydlyn y ddyn dda !                            8  
 Beunoeth, fonheddig-ddoeth ferch,  
 I mae honno i'm hanerch ;  
 Bryd cwsig, megis brad y caid,  
 Breuddwyd yw, braidd y dywaid.                            12

Neithiwyr huno a wnaethym,  
 Braw a'm llas gael breuddwyd llym ;—  
 Gwelwn ddarfod, mewn gwiwlys  
 Fry, ei phriodi ar frys ;                                16  
 A fy mhen ar obennydd,  
 Accw y daw cyn y dydd,  
 Y' ngolwg eang eilun,  
 Angel bach y'ngwely bun.                                20  
 Tybiaswn, o'm tyb isod,  
 Gan fy mun gynnau fy mod :—  
 Pell oedd rhyngof, trym-gof traïs,  
 A'i hwyneb pan ddihunais !                                24

Och ! i'r cloc yn ochr y clawdd,  
 Du ei ffriw, a'm deffroawdd !  
 Diswyn fo'i ben, a'i dafod,  
 A'i ddwy raff eiddo, a'i rod,                            28  
 A'i bwysau, pelenau pwyl,  
 A'i fuarthau, a'i fwrtbwyl,  
 A'i

A'i hwyaid yn tybiaid dydd,

A'i felinau a夫onydd !

33

Cloc anfwyn yw'r clec ynfyd,

Cobler brwysg, cabler ei bryd ;

Coluddyn ffals celwyddawg,

Cnyciau ci yn cnecian cawg :

36

Mynych glep y menach-glos,

Melin wyll yn malu 'nos.

A fu fadler, crwper crach,

Neu deiler anwadalach ?

40

Oer ddialedd ar ei ddolef,

Am 'y nwyn yma o nef !

Cael ydd oeddwn, coel ddiddos,

Hun o'r nef, am hanner nos ;

44

Ym mhlygiau hir-frechiau hon,

Ymhllith deifr, ymhleth dwyfron !

A fu criod afar waeth,

Wlad Eigr, i weledigaeth ?

48

Etto rhed atti ar hynt,

Freuddwyd, ni'th ddwg afrwyddynt.—

Gofynir i'm dyn, aur do,

A ddaw hun iddi heno,

I roi golwg, wir galon

52

Nith yr haul, unwaith ar hon !

## CCXVII.

I UN O'R BRODYR LLWYDION A GYNGHORASAI  
Y BARDD I YMADEL A'I GARIAD.

**C**O SBWR y marwol bechawd,  
Casbeth genyf bregeth brawd !—  
Pobty y bara peinioel,  
Pibl weddi, almari moel ; 4  
Gosgedd gryglus, gweddus gwiw,  
Gwas baglog mewn gwisg bygliw :  
Llwgwr o bys y llygod,  
Mair a glyw, nid mawr ei glod ! 8  
I bob dyn, dan ei atteb,  
Y rhydd nawdd mwy na rhodd neb :  
Suganai'r brawd i'm gwahardd  
Mygr ddiwair, dan air, dyn hardd ; 12  
Doeda'r enfys oedranfoel,  
Wrthyf fi,—yr hen arth-foel !

“ Os bardd ydwyt i feinir,  
Ysbys wawd mae'n ysbys wir. 16  
Jawnach, heb gel, gan delyn.  
Moli Duw na mawlhou dyn,  
Ar rinwedd y faith weddi  
Pader teg, myn Pedr, i ti ! 20  
A phaid, er maint mawr-fraint Mair,  
A'th gywydd,—iaith ddigywair!  
Pawb a gasul ful foelrhawn,  
Pibl iaith yn dwyn pobl i iawn ; Gefail

- Gefail o gylch, a heulrhod,  
Geuwedd cloch am gywydd clod.—  
Bydd yr un rhôl ag Jolo,  
Defod hardd, hen fardd y fro;      28  
A wisg y munudiau certh,  
Dew rawnbais du eirinberth :  
Cais grys o'r *maulus mulaen*,  
Oer yw ei grefft ar dy groen.      32  
Gwan iawnlon gwawd gwyndawd gwiw,  
Gwenyn-llestr, nid gwan un-lliw ;  
Moel uriad o baradwys,  
Morfran yr ysbryd Glân glwys ;—      36  
Ac yn rhwydd, dros y flwyddyn,  
Cynnydda'n gwaith da i ddyn.”
- Ffriw dig Sain Dominig swyn,  
Ffrwyth mawr un-llwyth meirinllwyn !      40  
Bran ar led yn echedeg,  
A'i bryd ar nef dangnef deg ;  
Tafod cloch bres yn cresu,  
Taer y dysg y toryn du.      44  
Y gwas gwar yn gwarafun,  
Cenau'r fall ! ganu i'r fun !  
Am warafun i'r fun fawl,  
O'r brawd du oer-bryd dwysfawl,      48  
Ceiliog i'r dòniog dangnef,—  
Calon oer i'r cul o nef !

## CCXVIII.

Y DRAENLLWYN.

“ **Y** Draenllwyn glas urddafawl,  
 Llety mwyn, lle tyfai mawl;  
 Mewn dail a rhisg i’th wifgwyd,  
 Mab lledrithiog arfog wyd:      4  
 Mynych y symud maner,  
 Maith dy sud, anwylyd ner.  
 Mwyn yw dy gof yn y mai,  
 Manod-lliw, gwell na mwnai;      8  
 Doe yr eurfodd dŵr arfau,  
 Teg floteiaeth yw'r dur tau:  
 Gweli ryfel gan d'elyn,  
 Gwae fi! ple'r wyt ti ond hyn?—      12  
 Nid oes mewn man dy hanner,  
 Na’th draian, liw seirian fer:—  
 Tôres, fy nghrair, d'esgeiriau,  
 Twrn ffyrnig, a'r tew-frig tau!      16  
 Dywaid, liw cawod ewyn,  
 Poen a’th ddug, pwy a wnaeth hyn?”

“ Ni’s gwn, o achos gwan wyf;  
 Dig a briwedig ydwyl!—      20  
 Onid carnfilain annoeth,  
 A mi ddoe yma, a ddoeth,  
 A bwyall droed afall, draw,  
 O’m cwr i’m lladd, a’m curaw:      24  
 A dwyn

A dwyn fy siop, a'm topiau,  
 A'r pigau cain, a'r main mau !—  
 Y fo'n llusgo'r naill esgair,  
 Gyda'i was,—gwaes finna' Fair !”

28

“ Tyfu cwrel i'th welais,  
 Tegach dy dop na siop Sais !—  
 Taw a'th ddigofaint, fanwyl,  
 Ti a gai iawn, tegau wyl ;  
 Lladd y taeog, a'i grogi,  
 A cherdd, gan farwed a chi !”

32

## CCXIX.

## Y CEILIOG BRONFRAITH.

**M**AWR yw'r gelfyddyd, a maith,  
 Ar brenfrig a roe'r bronfraith,  
 Wybod dattod mydrglod mawl,  
 Yn y llwyni meillionawl.  
 Clo mydr, clyw ei ymadrawdd,  
 A chlo y cán ni chlyw cawdd :  
 Modd y gŵyr, medd a garai,  
 A merch ai gwrendy ym mai.—

4

8

Y ceiliog, ferchog ei son,  
 Bronfraith dylediaith loyw-dôn,  
 Dawn fad lun dan fedw, ei lais,  
 Deg loywiaith, doe a glywais.—

- Ba ryw ddim a fu berach,  
Blethiad ei chwibaniad bach:  
Pylgain y darllain deir-lith;  
Plu yw ci gaful i'n plith.—      16
- Pell y clywir uwch tiroedd  
Ei lef o'i lwyn, a'i loyw floedd;  
Prophwyd rhyw praff awdur hoed,  
Pencerdd gloyw angerdd glyngroed.      20
- Fob llais diwael, yn ael nant,  
A gân ef o gu nwyfiant;  
Pob caniad mad mydr angerdd,  
Pob cainge ar organ, pob cerdd;      24
- Pob cwlm addwyn, er mwyn merch,  
Ymryson am oreu-ferch.—  
Pregethwr, a lluniwr llên  
Per ewybr, pur ei awen;      28
- Prydydd cerdd Ofydd ddifai,  
Prif urddas mwynwas y mai:  
Adlais lon o dlos lannerch,  
Odlau, a mesurau ferch.—      32
- Edn diddan, a gân ar gyll,  
Ymwisgiad angel esgyll,  
Odid ydoedd i adar  
Paradwys cyfrwys, ai cár,      36
- O dre iawn-gof drugan-gerdd,  
Adrodd a ganodd o gerdd.—  
Adwaen ef, o'i fedw nwyfoed,  
Awdur cerdd adar y coed!

## CCXX.

I FERCH A ADAWSAI Y BARDD — I'W HAIL  
YMOFYN.

**Y**Ddyn a'm newidiodd ddoe,  
Wychdeg oedd yn fau echdoe :—  
Dywful hon a'm rhoddes i  
Gair mawrsyth, er gramerfi.  
Ni's rhoddwn innau'n ddioed, 4  
Er merch ni welais ermoed,  
Er myned o wr meinwych  
A'i benthyg i'r goedwig wych. — 8  
Erchwch iddi, gwedi gwaith  
Adolwyn, ddyfod eilwaith :  
Ni wnaeth drwg ai diwygiodd,  
Haedded, a mŷned fy modd.  
Q'r holl ddrygau diau da, 12  
Gŵyr llawer, gorau'r lleia':  
O daw'r ferch at ei pherchen,  
Er dim a wnaeth nid gwaeth gwen :  
Oni welant a wnelwyf, 16  
Doed adre' wen, didra wyf.  
Treich a geifiodd o'i foddfis,  
Gwag ydoedd, nag a gedwis :  
Ni chair elw, myn y ddelw-fyw,  
O esgeulusrwydd, asrwydd yw!

F f 3

O daw

O daw gwen, da oedd y gwaith  
 Drwy f'anwyl, adref unwaith,  
 Profwn, a mŷnwn roi mach,  
 O gellwn fod yn gallach,  
 Nid ai byth onid i'w bedd,  
 F'anwyl, o dan f'ewinedd.—      24  
 Ni chai fy myd enyd awr,  
 Dan ammod, rodio nemmawr.  
 Oni ddaw Gwen eiddig wylf,  
 Lliw manod, i'r lle mŷnwyf.      28  
 Ar fy mhen rhodden' yrhawg  
 Benllinyn o bân llwynawg ;  
 Oni ddaw Gwen o ddeuair,  
 Dwyn tân i'm capan i cair ;      32  
 A churo cwn a cherrig,  
 A ffon ag amgarn a phig.  
 Tôren' ar fargen a fu,  
 Mae'n fadws ym ynfydu.—      36  
 Os hon ni ddaw i'm gras i,  
 Os haeddodd, andras iddi !

## CCXXI.

## YR ANHUNEDD.

**Y** Ferch borffor ei thoryn,  
 Hir nid addefir i ddyn ;  
 Annodd ym gysgu un-hun  
 Be canai Dewi ei hun !

A&amp;h

Aeth ulw dros frig wyth aelwyd,  
 Oia gyfsgu ddu mau 'dd wyd :  
 Anhunawg wyf, clwyf yw'r clo,  
 Anhunedd a wn heno !

8

Mi ni ddeil fwrn meddyliau,  
 Byth neud mul am beth nid mau,  
 Rhag llid, ac ni's caf rhagllaw,  
 A gofyml ym ei geisiau.

12

Nid amgen gwen a'm gweheirdd,  
 A lwydda bun o ladd beirdd ?  
 Dibwyll i'w bardd, hardd heirdd-ryw.  
 Dybio ei chael,—dibech yw !

16

Hael yn nhref am hail-win rhwydd,  
 Hoen gwylan, hunog aelwydd ;  
 Gŵyr luddias gwr i lwydd-oed,  
 Gwrwm ei hael, goryw ym hoed !

20

Yfydd-gamp leddf y feddgell,  
 Diog i oed, pwyllog pell ;  
 Hael am y parch ni's archwyf,  
 Cybyddes am neges nwyf.

24

Diriajd y deli, heb ystryw,  
 Olwg ar wr, ail Eigr yw :  
 Digoll-wawd bardd digellwair,  
 Da ei chlod, di-uchel air.

28

Dyfr o bryd em byd o'm barn,  
 Difawr ei brys i dafarn ;  
 Dihoffedd bryd a gwedd gwyr,  
 Dihuftyng, da ei hyfyr ;

Diddig yn cynnig ciniaw,  
 Dig wrth y llatai, o daw :  
 Diddig ei phendefigwalch  
 Wrth wyr y byd, bywyd balch, 36  
 Ni bu, nid oes i'n hoes ni,  
 Ni bydd debig neb iddi ;  
 Nid mor ddihareb neb-un  
 I'n gwlad ni, a hi ei hun.—  
 Yn hael iawn, yn hil ynad,  
 Yn heilio gwledd, yn haul gwlad ;  
 Yn ennill clod yn anwyl,  
 Yn dda ei thwf, yn ddoeth wyl ; 40  
 Yn rhy ddiwair ei hairioes,  
 Yn ddyn mwyn dda iawn ei moes !—  
 Tyfodd ym frad lleddfad illu,  
 Twf coeth tawelddoeth aelddu, 44  
 Tegau iesin ddoethineb,  
 Tegach yw honno no neb !

## CCXXII.

CYNGOR I FORWYN GARU YN IEUANGC.

**Y** Ferch mae rh'om annerchion,  
 Wifg-rudd dàl, deurudd y dòn ;  
 Ni bu'r beril, na'r lili,  
 Nith haul, gyn decced a thi ;  
 Na chalch ar blu mwyalch mân,  
 Na'r eiry ar fryn yr Aran !

Ai

Ai byddar wyd, fy nghariad,  
Ai ysgorn heb geisio gwâd?

8

Os gweniaith y sy' gènyd,  
Ni pheru felly dy fyd;  
Os thyfig, ryw ffyrnig ffydd,  
Er dybryd ar dy brydydd:—  
Myn Deiffr! mwyn yw dy ofeg,  
Megir ym mhob tir ddyn teg.

12

Dwg urddau ar dy gerddawr,  
Ni pheru'r byd enyd awr;  
Mal asgell gwalch dros ellyn,  
Yltyr di ryw 'stori dŷn.—  
Pan êl y gwaltt hir felyn,  
A'i frig fal y *caprig* gwyn;  
A gorlliw'r aur o'r ddeurudd,  
Ac yn grych mwnwgl a grudd,—  
Gwrach a fyddy i'th dy tau,  
Och f'anwyl! a chlairch finnau!—  
Edrych yn y drych dy dro,  
A'th wyneb yn cethino;  
Ni'th eilw cerdd, na thelyn,  
Ni'th gâr ar y ddaear ddyn:—  
Câr y ddyn rhyfedd heddiw,  
Tra fych i'th lewych, a'th liw.

16

20

24

28

Awn i'r goedwig, ewig wych,  
A minnau yn garw meinwych:  
Myn Lleuddad! o daw dy wr  
Ar ffîrwst ar ben fforestwr,

32

Mac

Mae dwy-lys, mai adeiloed,  
O daw i'n ceislaw i'r coed.—  
Yn olrhain y rhain yr haf  
Y bydd mal Seth ab Addaf.

36

Herwr wyf yn nhör yr allt,  
Herwa a wnaf am hirwailt:  
Mae ferch yn 'y mynwes i,  
Meddyliwn am ei 'ddoli;  
Rhag i ffyrning ysbïaw  
Ol y traed, na'u gweled draw.

40

Mis Ebrill, fal maes wybren,  
Ucho yw'n parc uwch ein pen:—  
'E gauodd mai a gwiail,  
Y llwybrau yn dýrau dail.  
Ofer yn yw dyn heb dad,  
Oferach wyf o fwriad:  
Aed yn un castell bellach,  
Budd lawen, y fedwen fach !

48

## CCXXIII.

TRASERCH Y BARDD AM RIAIN.

**Y** Fun a wnaeth fwy na neb  
O weniaith, do yn f'wyneb!  
A'i lliw'n wŷnach na'r lliain,  
A'i llun fal y lleian fain!—  
Od wy' gul, a digalon,  
Pei mynnai, fe'm helpai hon:

Ni

Ni fyn Gwen leihau 'mhenyd,  
Ni ad bun newidio byd !      8  
Deliais gan ei hudoliaeth  
Feddwl fal swmbwl, neu saeth:  
Yr ydwyl, hyd yr adwaen,  
Yn dwyn haint, ni'm gad yn hen.—      12  
Anfwynaidd iawn oedd feinir,  
Deg wych, na ddywaid y gwir:  
Fe fu ddeg o feddygon  
I'm edrych, gwr brych gar bron:      16  
Er hyn ni wyr fy anhun  
Na'm haint, onid mi fy hun!  
F'anwyl a edu a fynwy',  
Addaw 'y myd, ni ddoe mwy:      20  
Gweniaith y mae 'n ei gynnal,  
Diweniaith wyf, dawn ei thâl.—

F'anrhaith ! oes ym obaith mwy.  
F'anwyl,—dywaid a fynwy'—      24  
O chaf oed, iachau adwèn,  
Oni chaf oed, ni chaf wên!

## CCXXIV.

YMDIDDAN A'R BRAWD FFYDD.

\* \* \*

A 'R rhain a fydd, ffydd ffalls-ddull,  
Ar hyd yr holl-fyd yn rhull:  
Pwl gwfaint, pobl o gyfoed,  
Pob ddau dan yr iau a roed.—

Yna

Yna cefais druth atcas  
 Gan y Brawd, a'r genau bras;  
 Yn ceisio, nid cyfwilt rhwydd,  
 Fy llygru a'i haerllugrwydd.—  
 Llyma fal y cynghores  
 Y Brawd, a'r prudd dafawd pres.

8

“ Yfyr pan welych y dyn,  
 Ebrwydd yr â yn briddyn;  
 Yn ddilys yr â ei ddelw  
 Yn y ddaear yn ddielw.”

12

“ Cyd el y dywarchen ffloch,  
 Yn bridd hagr, y Brawd du-goch,  
 Nid â llewych cnawd mirain,  
 Pryd balch, ond yn lliw'r calch cain.”

16

“ Dy ferch ar y ferch fein-loyw,  
 Oreu-wallt, a'r hirwallt hoyw,  
 Hyn a'th bair i'r pair poeth-groen,  
 Ac byth ni'th gair o'r pair poen !”

20

Yna dywedais wrthaw,  
 Y Brawd du ei bryd, bryf taw.

24

“ Twrn yw anheilwng i ti  
 Tristau y dyn tros Dewi;  
 Er dy lud, a'th anudon,  
 A'th eiriau certh, a'th ferth son,—  
 Mefl ym, o gwrrhyd Dafydd  
 O rai teg, ddeg yn un dydd !”

28

## CCXXV.

I FERCH A ROESAT GOLLEN I'R BARDD.

**T**RYMLUOG oediog ydwyf,  
Trwstan o ddyn, tristau 'dd wyf;  
Am garu, gwn dýnu dig,  
I'm nodir yn enwedig!—  
Cam oedd i wen, gymmen gu,  
Fy nhroi a 'nhör i fynu :  
Trwfio ym, nid er traferch,  
Ddwyl gollen o't feinwen ferch!  
Ac eraill, a'm digarai,  
Ym a'u rhoes ym mynwes mai:  
Collwyni, nid call annerch,  
Nid arwyddion mwynion merch!  
Gwae fi o'r tâl am garu,  
Ddwyl flynedd oferedd fu:—  
Dy garu, ddyn deg cirian,  
A'th golli yleni 'n lân!

8

12

16

Os er ysgorn, neu sénair,  
Y gwnant a mi, gwae fi, Fair!  
Dialedd, drwy fy ngwiddi,  
A ddel, Gwen, i'th dalcen di!  
Os gwra, ddyn wifg euraid,  
Yn dy blwyf wrth foddy blaid,—  
Dilyd, ni wna dy dylwyth,  
Ac yn iach, yt bellach bwyth!

20

Y DRYCH.

## CCXXVI.

Y DRYCH.

**N**I thybiais, ddewrdras ddirdra,  
 Na bae deg fwyneb, a da,  
 Oni syniais yn amlwg  
 Y drych,—a llyna un drwg!

Ym y dywed, o'r diwedd,  
**Y** Drych, nad wyf wych o wedd:  
 Melynu am ail Enid,  
 Y mae'r grudd, nid mawr y gwrid;  
 Gwydr yw'r grudd, gweid'r griddfan,  
 A chlais melynlliw achlan.—  
 Odid na ellid ellyn  
 O'r trwyn hir!—Pand truan hyb? 12  
 Ond diriaid fod llygaid llon  
 Yn dyllau terydr deillion,  
 A'r ffluwrch bengrech ledechwyrth,  
 Bob dyrnaid o'i said a syrth! 16

Mawr arnaf, naid direidi,  
 Y mae'r naill, ar fy marn i,  
 Ai bod y grudd yn brudd-frych,  
 Natur drwg, ai nad da'r drych.— 20  
 Os arnaf, drwy naws hirnwyl,  
 Y mae'r bai,—yn farw i bwyf!—

Os

Os ar y drych, brych o bryd,  
Y bu'r bai,—wb! o'r bywyd!

24

Lleuad las gron gwmpas graen,  
Llawn o hud, llun chedfaen.  
Bid freuddwyd, byd afrwydda',  
Breuder yw, a brawd i'r iâ:  
Hadlyd liw, hudol o dlws,  
Hudolion ai hadeilws.—  
Ffalfwr, hudolwr dulas,  
Fflam fo'r drych mingam meingas!

28

32

Ni'm gwnaeth neb yn wyneb-gryeh,  
Os gwiw coeliaw draw i'r drych,  
Ond y ferch fwyn o Wynedd.—  
Da y gŵyr ddifwyno gwedd!

## CCXXVII.

YN DANGOS I'R BARDD MENEIDDIO.

CURIODD anwadal galon,  
Cariad a wnaeth brad i'm bron!  
Gynt yr oeddwn, gwn gan-clwyf,  
Yn oed ieueingtid, a nwyf,  
Yn ddilesg, yn ddiddolur,  
Yn ddeiliad cariad y cur;

**Yn** ddenwr gwawd, yn ddinych,

**Yn** dda'r oed, ac yn ddewr wych !

8

**Yn** lluniwr berw oferwaith,

**Yn** llawen iawn, yn llawn iaith ;

**Yn** ddogn o bwynt, yn ddigardd,

**Yn** ddigri', yn heini 'n hardd ;

12

**Ac** weithian, mae'n fuan fár,

Edwi 'dd wyf,—adwedd afar !

Darfur rhyfig a'm digiawdd,

Darfur r corph,—mae d'arfer cawdd ;

16

Darfur 'n llwyr dersyn y llais,

A'r campau, dygn y cwypais ;

Darfur awen am wenferch,

Darfur son am darfwr ferch !

20

Ni chysyd ynof cof cerdd,

Gyngyd llawen ac angerdd,

Na son ddiddan am annun,

Na ferch byth, oni's eirch Bun !

## CCXXVIII.

AWDL O FOLAWD I DDEON BANGOR, YS EF  
HYWEL AB TUDUR AB EDNYFED FYCHAN.

**A**RGLWYDD o lawn swydd, un sud Mordeyrn  
A Dewi ynglad yr Hud,  
Cybi nefol ei olud,  
Cymdeithion Seimon a Sud.

Sain

Sain Sud un ffunud, ffyniwyd o genedl

Y Gwinau Dau-freuddwyd;

Sain Silin, Ffransis aelwyd,

Salm Sant Elien, gwr llen llwyd.

8

Teyrn llwyd, prophwyd o hil Bran, mae un gwr

Ym Mangor mewn gŵn pân;

Ty geirw galch teg, ei organ,

Tant côr, heb attynt ai cân.

12

Ni chân fy nhafawd wawd wenieithaidd,

Ni chair lliniodr wr yn ochr lluniaidd,

Ni chel i Hywel, loyw garuaidd lwybr,

O bu'r ddawn ewybr barddoniaidd.

16

Neirthiad a gefais, didrais dwy-draidd,

Ni'm gad gan ruad gad Gymröaidd,

Ni's erfyn o brudd, ac ni's arfaidd draw

Naw, o praw' lidiaw, Nêr preladaidd.

20

Neu'r gaiff y' Ngwynedd, hoywsedd hafaidd,

Neu'r gâr ai dieingl, nêr gwrdauaidd;

Nid byr fawl gwrawl a gýraidd ym Mon,

Naf beirdd yw'n 'Neon barddoniaidd.

24

Nid bas cyweithas gwr urddasaidd,

Neud bardd i neddair, ffyrf-air ffurfaidd;

Nid barn don yw hon, wr henaidd ym mryd,

Nid byd heb wendid pryd prydyddaidd.

G g

Nid

Nid byw, fal fy llyw gloywryw glew-wraidd;  
 Nen dan seren a dawn oes-wraidd:  
 Nid un gwalch hoywfalch hyfaidd Ilygeidsyw  
     Ac yw cyw y dryw, caeau a draidd.                         32

Nid un cl aer araith dyn clerwraidd,  
 Nid llwybr gwr ewybr yn garuaidd,  
 Nid un br yn mebyn mabaidd a hynaif,  
     Nid un gwenithgnaif a hyddaf Haid.                         36

Nid un gwin noddfin a mynydd-faidd,  
 Nid un y paun-gnu o blu, a blaidd,  
 Nid fel Bleddyf, ddyn diburoraidd ras,  
     Cân eiddilwas ferw Cynddelwaidd.                             40

Ni wyr cymraw llwyr Cymro llariaidd  
 Rhoddi i eirchiad yn Rhydderchaidd,  
 Dwysgel, eithr Hywel athrawaidd Ganon,  
     Naf Mon, gloyw Ddeon arglyddiaidd.

## CCXXIX.

AWDL FOLIANT I JEUAN O FON.

**N**EUD mai, neud erfai, dar-feirdd iraeth,  
 Neud meinwyrdd coedwyrdd, wýdd weuyddiaeth;  
 Neud meinwedd yw gan edn ganiadaeth hawdd,  
     Neud mi ai heurawdd, neud mau hiraeth!                 4

Neud er na chafwyf loywnwyf luniaeth  
 Newyddion roddion ym Mon, a maeth;  
 Neud eisiau heiliau, hael wasanaeth byd,  
     Neud heb anwylyd haelion alaeth!

Neud

Neud temlau, byrddau beirdd ysgafaeth ;  
 Nid teulu eirian teuluwriaeth :  
 Namyn hyn, Duw gwyn, gweinidogaeth ferch  
 Nad ymannerch merch, mawrchwant nid gwaeth !

Na welaf Jeuan, ddifan ddofaeth,  
 Na wyl yntau fi, rhi rhywogaeth !  
 Nid af, anwylaf, o'i alaeth, er braw,  
 Nid wyf hyf hebddaw, ddifraw ddofraeth ! 16

Gwyllt wyf, gwelwyf gwalyf maboliaeth,  
 Gwenwynwys ynof, gwin wasanaeth :  
 Gwedif gwydn i'm tryf tref tadogaeth braw,  
 O gyhoedd wylaw gywyddoliaeth ! 20

Gwrddgae yw'r llei mae, mi ai rhydraeth ;  
 Gwarae o feiddiant gwir Ofyddiaeth :  
 Gwir mai cryf llei tyf tafarnwriaeth hoed,  
 A gwydr egin coed,—gwiw diriogaeth ! 24

Gwelaf yn bènaf ei unbènaeth,  
 Gwalch o hil Lowdden,—gweilch helyddiaeth !  
 Gwared-feirdd ydyw, gwirod-faeth cerddawr,  
 Gwawr a garodd awr y gerddwriaeth ! 28

Gwas diog fyddaf i'm gweſdeiaeth,  
 Gwaſtad erbyniad yw'r aur-bènaeth :  
 Gwanwyn gwin ancwyn i fu, caeth fyddaf  
 Gauaf, cynhauaf, a haf hyfaeth !

Da cadwai awdur, deg cadweidiaeth;  
 Da a fyn i'm gnawd, di-ofn i'm gwnaeth :  
 Dur grwydr yw dôr brwydr ar dir breudraeth mor,  
 Dôr difraw ragor, Deifr warogaeth.      36

Difa ol eiriol arial pênaeth ;  
 Di-fedd pob rhai erfai rhydd luniaeth :  
 Dyfodiad, trwsiad treisiaeth, a gynnail  
 Defodau hyhael hail ehelaeth !      40

Difwl, difwgwl bendefigiaeth,  
 Diball, dyn arall nid un wriaeth ;  
 Difai dôr erfai, dewr arfaeth drud chwyrn,  
 Difâr eur-deyrn, a dwfn wrdæaeth.      44

Da sygylarf gwyr lyr filwriaeth ;—  
 Difygylodd fi,—da fugeiliaeth !  
*Dwbled ym rym rwymedigaeth lluryg,*  
 Diblyg, mad edmyg yw'r mau dadmaeth !

## CCXXX.

DUCHAN I RYS MEIGEN, YR HWN A SYRTHIODD  
 YN FARW PAN AI CANOED D. AB GWILYM  
 YN EI WYDD, AM I RYS GANU YN WARTHUS  
 IDDO YN GYFF-CLER YN LLYS LLEWELYN  
 O EMLYN.

**C**ERBYD lledynfyd, llydansfai y fydd,  
 Nid un-swydd a Gwalchmai ;  
 Cwn pob part ei cyfarthai,  
 Cymmyredd, na cherdd ni chai.

Carben

Carben Rhys Meigen magai ddigofaint,  
Ddu geufab, lle byddai;

Carwden ci a rodiai,

Carodyn cerdd meiddlyn mai.

8

Cariad lliw rhuddiad yn llei rhoddai bres,

Nes cyffes ni's caffai;

Cerdd wermod a ddattodai;

Carn-áp claf, ni wnaf a wnai.

12

Cerdd-dlwad, brynhugcnawd hacnai basdynwas

Baw ystynwefl afgai;—

Can-mil chwil a ymchwelai,

Cau was gorflwng rhwng pob rhai:

16

Carp trwsgl, cwyn cwrwgl, can-càrai o'i lawdr

Hen leidrynn go fawai!

Cyfraith fudriaith a fedrai,

Coeg rüwr bas, tòrwr tai.

20

Gwas cas coesfrith, chwith chwythleidr lletpai gwan;

Gwyn ei fydd ai crogai!

Gwasg dasg dysgl-draul cawl cowlai;

Gwàr gwrcath, gwydn chwilcath chwai.

24

Cras enau geiriau ni ragorai riain;

Y truthain ai traethai;

Croefanaeth croyw a soniai,

Crys anhardd taer flawdfardd tai.

Cyfrwys diawen cwys, cyd ceisiai gywrdd

A gwobr, ni's gallai;

Cyfryw damwain, cyfrwy dimai,

Cyfrif ef bob cyfryw fai.

32

Gwir eilgorph reidus, nid gwrol Gai Hir

Hwyr ym mrwydr y safai;

Gweren foegnen a fughnai,

Gorwag groenyn lledrynn llai.

36

Gwilliad anwaftad wesdai, llifedig

A llaw fudr a daftai

Gwellaif diawl, gwaes lle delai!

Gwallawiawdr llwfr, cloddiwr clai.

40

Clasaf anllataf llatai clafesau,

Yn arfau anerfai;

Ci sietyn yw'r cas attai;

Coes gwylan craig, treiglwraig trai.

44

Cecrwawd, ci cardlawd cecyrdrai, cwthrsfigl

Hir dreigleſt-figl hwyrdrai;

Cafn latys ei nam flottai,

Cafn rhisg gysegrwisg a fai.

48

Gwirawd o waddawd a weddai i'r pryd

Anaergryf oen oergrai:

Gwall ball, bell rhwysg cocys ciciai;

Gwyllt byllt hyllt hoen garw troen trai.

Gwaith

Gwaith ymgeiniaith a ganai i bawb,

Heb wybod beth a fyddai :

Gwythen llygoden geudai ;

Gwaetha' llo bawa' lle bai.

56

Glythlyd gwefl esgud gwiw floesgai gan gwrw,

Poen chwidwrw' pan chwdai ;

Gwr a ddettyd gardottai,

Garw blu, ni bu gwr-âb lai.

60

Cau reidus bwysdus, bosdai a'i dafod

O Deifi hyd Fenai ;

Cör oediog, neb ni's credai,

Cwr adain heb nain, heb nai.

64

Rhys Meigen ! gwden dan gedynn grogwîdd

Fydd dy ddihenydd, hynaiif erddyrrn ;

Rhysiedig a dig y dyrn ei ddannedd,

Rhysedd mehinwledd, wydnwedd wadnwyrn. 68

Rhygyn a syn gogoeg gegyrn rhwth-fol,

Rhuol, rhwd heol, nid rhyw têyrn :

Rhyglfn cynnefin cynhiawfyrn brŷnig,

Rhyfig ar faeddgig, nid ar feddgyrn.

72

Rhuthrai wêr, a mîr mawr esgyrn ceudawd,

Rhythgnawd cyn diawd, myn Cyndeyrn !

Rhysedd yw'r cynyw cneyrn ben gnawdfer,

Rhefr goch, gloch y gler, galchwær gilchwyrn.

Rhediad dau lygad di-lugyrn chwilcath,  
 Rhys goegfrys gigfrath fapgath fepgyrn :  
 Euog drwm lleuog drem llewyrn wysdnlwyt  
 Anwiw ffriw heb ffrwyth, golwyth gelyn. 80

Rhwydd lodr anheodr yn heiyrn rhwym-gnawd  
 Yn grin o gyfawd groen ac esgyrn !  
 Anwr yn sawdwr ansedbyn yn rhaid  
 Amnaid delw danbaid, nid ail Dinbyrn ! 84

Er na wypud llud llawdr gachfyrn osgrynn  
 Nag awdl, nag englyn lleidrddyn lledrddyrn ;  
 Gwddw' anfyberw cherw chwyrn ag afrised  
 Y gwyddiad yfed gwaddod tefyrn.

---

## CCXXXI.

ARWYRAIN LLEWELYN AB GWILYM FYCHAN,  
 O EMLYN, A'R CRYNGAE YN NYFED YS-  
 WAIN; EWYTHR AC ATHRO Y BARDD—  
 GWR CYFARWYDD AR FESURAU Y DDWY  
 GERDD.

**L** LYFR dwned Dyd fed, dyfyn ar windai  
 I randir Llewelyn ;  
 Llannerch, aed annerch pob dyn,  
 Lle twymlys llu, at Emlyn !

Llyn

Llyn i barc Emlyn, camlas hyd Teifi,

A'r tefyrn ym mhob-plas;

Lludedd gerdd, lladdiad ei gas,

Lle bo'r orddod, llwybr urddas.

8

Llwybr urddas bar bras yn bwrw bryn eglur

O glais Lloegr a Phrydyn;

Llei del yr hollfyd a dyn,

Llaw hael, at enw Llewelyn!

12

Llewelyn ai myn o 'mynni, a grym,

Llawen-fab Gwilym, erddrym wrddri!

Llai cymmr̄awdd cawdd yn coddi na chaeth,

Llywodraeth a wnaeth, a maeth i mi.

16

Llorf llwyth, o dylwyth Edweli y traidd,

Llariaidd, brawdw̄aidd byd Bryderi:—

Llafuriawdd berthawdd i borthi digeirdd;

Llys ymlyn y beirdd, lle heirdd yw hi!

20

Lle y gnawd gwasgawd, a gwisgi ddillad,

Llety anghaead, waftad wfeldi:

Lle cynnefin gwin, a gweini heilgyrn,

Lle chwyrn llwybr tefyrn, lle beirw Teifi.

24

Lle dichwerw, aeferw o eryfi bryd;

Llei chwery esbyd byd heb oedi;

Lle maith, yn llawnwaith yn llenwi buelin,

Lle mac fuddwin llym i feddwi.

Lle

Lle o'th nerth, daccw firth ydd â fi drachefn,

Lle anarloeſdrefn llanw aur-lesdri :

Llys erwyr a wnaeth llu seiri yn falch,

Lliwglaser yn lasgalch, llugyrn losgi. 32

Lle mae gwin Ffraigc, faner bali, dodrefn

Llefñ geirlyfr eosn, ag aur leſtri:

Llawna' diana' daioni mŷnud

Lluniaeth ffraeth, ffrwyth dud glud glodfori.

Llywiawdr, ymerawdr meiri hyd Elfed

Llyw yw ar Ddyfed, llawer ddofi;

Llwybreiddwlad, gariad Gwri wallt-euryr,

Llewelyn drawsfyn a â droſli. 40

Llonglwyth i dylwyth, hyd Wyli a draidd,

Llariaidd brawdwraidd, ail Bryderi;

Llathrlaw osb euraw ysberi wëyll,

Llid Pyll, arf dridryll, arfod Rodri. 44

Llinon-gadr baladr Beli y'nghyngaws,

Llwyrnaws llyr hoywdraws, llew wrhydri;

Llawen-grair a'n pair yn peri llwyddfoes,

Llawenydd a roes, a moes i mi. 48

Llewelyn derwyn i dori llinon,

Llawfron y dynion, a'u daioni,

Llwydda, na threia, Un-a-thri, rhagllaw,

Llwyddaw dawn iddaw,—Duw i'w noddî!

## CCXXXII.

AWDL FARWNAD I LEWELYN AB GWILYM  
FYCHAN.

**D**YFED a siomed, o symud ei mawredd,  
Am eryr bro yr Hud ;—

Doe wiwdymp yn dywedud,  
Hy-ddawn fodd, a heddyw 'n fud !

4

Cyn hyn Llewelyn olud tiriogaeth  
Ty rhagof ni's caeud ;  
Agwrdd wéydd y gerdd oeddud,  
Agor i mi, y gwr mud !

8

Gwawr nef a llawr, neud llef alltud yw hon !  
Hyn oedd ddygn na's clywud ;  
Gwae fi, geli bob golud,  
Gwael fy nghyflwr am wr mud !

12

Pryd glwys, prudd dadwys prydud, praff awdur,  
Proffwyd aur balch-syth drud ;  
Prif dda-wawd, prawf ddywedud—  
Prydydd ieithydd, na fydd fud !

16

Fy ngheinllyw di-fyw, Deifr helcud baham  
(Bwhwman deigr neud glud)  
Fy nghanllaw, i'm gadawud ?  
Fy nghâr am aur, fy ngharw mud !

Pendefig

Pendefig, gwledig gwlad yr Hud ū dwsn,

Ys difai i'm dysgud,

Pob meistrorwydd a wyddud,

Poenwyd fi er pan wyd fud !

24

Neud dwsn yw fy neigr, nid di-fud fy llef

Am fy llyw cadarnddrud;

Nid diboen na'm attebud,

Nid hawdd ymadrawdd a mud !

28

Gwae fi fod elwglo, a'i glud ni ballai,

Heb allu dywedud !—

Gwn ofal dalm nad oeddud

Fy ngawr air mawr am wr mud !

32

Gwae fi, o ddwyn ail brwyn brenhinoedd ! llai

Llywodraeth y bobloedd !

Lles tyrfaf, llias torfoedd,

Llawen, gorawen gwr oedd !

36

Gwae fi, Crist Celi ! caled yw rhyfig,

Ond rhy-fawr i'm cosbed !

(Gwymp oeddym oll cyn colled)

Gwympo crair holl gampau cred ?

40

Gwae fi, weled trwydded drwg

Neuaddau milwr twr teg,

Annawn oes, un yn ysgig,

Ar llall, do gwall, yn dy gwag !

Gwae

[ 461 ]

Gwae fi, Crist celi! calon doll yw'r fau,  
Wyl fyfyr am ddygn-goll;  
Campus eirf, cwmpas arfoll,  
Cwympo Nudd y campau'n oll!

48

Gwae fyfi fy thi, rhoi darpar ar Dduw,  
Ddwyn cadarn-walch cerddgar;  
Nid rhodd gwyl, neud rhwydd galar,  
Nad rhydd ym gerydd am Gâr!

52

Dihareb yw hon, dywirir ym mro,  
“ A laddo a lleddir.”—  
Diben o hwn a dybir,  
Di baid, gwae! a Duw boed gwir!

56

A wnel argae, a gwae, a gwall Dêau  
A gaiff ddial guall;  
A wnel drwg, dreigl wg angall,  
A'r llaw, ef a ery'r llall.

60

Nid diofal ffurff-dâl ffer  
I'r gelyn a wnel galar;—  
A laddo ddyn a'i loyw-ddur,  
I luddias hoedl, fo leddir.

64

Heilbrŷn flodeuyn diwyd, a dderyw  
I ddiwedd cadernyd;  
Llwyr yr aeth, cyngaeth cyngyd,  
Haearn a chof barn y byd!

Gwr ydoedd Llewelyn, gwir ganu prudd,

Cyn rhoi pridd i'w ddeutu;

Pwynt rhyfel, heb ymgelu,—

Penrhaith ar Ddyfed faith fu.

72

Lles bychan, buan yw bod yn rhull-falch

Ar hollfyd, fal ffurf-rhod;

Llew syberw, lloes wybod,

Llas ag arf glas gorff y glod!

76

Gwr, nid gwas a lás o loes archoll dur,

A diriaid fu'r dygn-goll!

Gwrawl hawl mewn helm drwydol,

Gair oer am y goraig oll!

80

Gwael-fyrn gwawl defyrn, gwyly defawd gwaith,

Gwaeth bellach fyfyrdawd!

Gwae'r cedyrn gwag, a'u ciwdawd,

Gwegru gwyr gwedi gwawr gwawd!

84

Llithr-ddagrau byd mau bod chweg, och allel

A chylllell faeliereg!—

Llawer och doft ar ofteg,

Llathr erdyn, lladd teyrn teg!

88

Salw a thost am ior cost-rith,

Selerwin bwrdd-drin beirdd-dreth;

Cwmpas reddf campus rodd-faeth,

Cwympo gyd campau byd byth!

Llaw

Llaw olchwawg farchawwg Llewelyn fo'th llâs

I'th lys deg yn Emlyn!—

Llai yw'r dysg, medd llawer dyn,

Llafr i'th ol llyfr a thelyn.

96

Pand truan oerwan am eur-was yw hyn,

Honni mawr alanas!

Cair arddelw cyfan urddas,

Cyrdd a glyw ewyn llyw cyn llâs.

100

Cyflawnder fu ef, cyfundeb ceirdd aur,

Cerddwriaeth doethineb;

Cywirdant pob cywirdeb,

Corf clod,—nid un wybod neb!

104

Os marw f' ewythr, ys mawr o ryfig,

Aur aerfa Cymru fawr!—

Nad oeddwn, ei nai diddawr,

Nad af y'ngwyllt—Duw fy ngwawr!

108

Wylais lle gwelais lle gwely f arglwydd,

Ond oedd fawrglwy' hynny?

Gair atteb? Wyf gár ytty,—

Gwr da doeth, agor dy Dy!

112

Gwae'r nai a garai, ac a ery gweled

(Gaelod cof a'm deffry)

Y llys fraith yn arloes fry,

Ar llysdeyrn yn arloesdy!

Llys gwin ag emys, ddigàmoedd gyllid  
 O'th golli, ai gwnaddoedd ;—  
 Llys naf aur, lles niferoedd ;—  
 Llyw lles, pe byw,—llys pawb oedd !      112

Dall fydd byd, dull gwyd, gwedy dwyn llygad  
 Oedd i Loegr a Chymry :—  
 Dwg i'th wledd, ni'm gomeddy,  
 Dôr gwyr, da freyr Duw fry !

Truan, ac eirian a garo dadl,  
 Aed i Landudoch heno :—  
 Doethineb, neud aeth yno,  
 Diwid grair, dan dywod gro !      120

Och ! Och ! y Ddol Goch gwedi gwyl barchus,  
 Am dy berchen anwyl ;—  
 Och ! wedi 'r ddwy och, ddi-wyl,  
 Och ! pe nid och — Pwy nid wyl !      124

Och ! ddwyn Llewelyn ddoeth a ddyweda  
 A ddoded o'i gyfoeth :—  
 Och rydd a roddaf dranoeth !  
 Och beunydd ! ei ddydd a ddoeth !

## CCXXXIII.

COF ANGHARAD HAEL O FUALLT, GWRAIG  
JEUAN LLWYD.

D<sup>I</sup>DYR deigr deifr a adasaef o'm drem  
Am drymed ym gof-gael  
Dodiad hoyw Angharad Hael  
Dan ddaear,—duon ddwyael !

4

Aelaw yw nad byw, buail win addfed  
Awenyddfeirdd adfail ;  
Aelaw ar waywsyw wiwsail,  
Aelaw fu o'i hoyqlaw hail !

8

Heilwin fu, medd llu lleufer, cain Indeg,  
Cyn undydd breuolder ;  
Hoedl dangnef neb ond nef Ner,  
Hudol yw'r hoedl i lawer !

12

Llawer bron am hon ym Mhènardd a hyllt,  
Ail Efyllt, wiw lwyshardd :  
Llefain yw berf ofer-fardd ;  
Llwyr wae ni chwarae, ni chwardd !

16

Ni chwardd cywir-fardd cywirfad, cwyn uthr  
Can euthyw Angharad ;  
Neu thŷr 'y mron, eithr 'y mrad,  
Neud llif geirw ; neud llef girad !

H h

Rhy

Rhy irad ddygiad ddigudd fu orfod

(Drem fwyar-falch wrmrugg,

Rhieiniriad fun, rhànodd fudd!)

Rhwymo derw rh'om a'i deurudd!

24

Deurudd-las, feinwas wyl yn wael er Gwen,

Aur ganwyll mewn urael,

Ddarfod dyfod, dwfn ddeigr-gael,

Derfyn hir diweirfun hael!

28

Haelaf, digrifaf goreu-fun y' Nghaer

Fu Angharad feinllun! —

Hoen ffysg dda ddysg, nid oedd un,

Huan 'wybr, a hi nebun!

36

Pwy nad am aur fun, mor fyr ei hoedldydd,

Hidl-ddeigr yn oedd Rhagfyr?

Pall radfaeth pwyll ireid-fyr,

Pefr nith haul, pa fron ni thŷr!

36

Gorhoffder eurner arnad, Dduw ddofydd!

Yma yw 'ngherydd am Angharad!

Gyflawned y rhoest gyfluniad diwael,

O dìawn gyflawn i gael, wr hael rhad!

Gan yt sýnu, bu bwyl waftad ei dwyn

Yn rhy-ebrywydd frwyn, yn rhy-brudd frad;

Gorddugost, rhydost rhediad ei hoedldydd,

Gwyr ei charennnydd, y Dofydd Dad!

Gares gweilch eurfeilch eurfad, ym ys dig,  
 Gorwyr i Gynfrig, gorf brig bragad;  
 Gwawr hoen, a gohroen Eigt gariad Uthr;  
 Goruthr yn un rhuthr fu fanrhreithiad. 48

Gorfre bron hoywdon chediad Gwyndraeth,  
 Gŵyr ei brodyr maeth alaeth eiliad;  
 Gwrygiant urdduniant, urddoniad facwy,  
 Gorugodd Lowy, gwreigiaidd leuad. 52

Gweddeiddgar gymmar geimiad, y'ngarthan  
 Gwiw awchdan Jeuan, cyflasan cad;  
 Gwaetgoel saffwy, rhwyf rhwym gwlaid, a'i gafael,  
 Gwawdgael llwyd gun hael, lledw gynheiliad.

Gwrthwyneb galon garthiniad gytbar,  
 Gwrddgar, gwingar ddôr, gwen-gerdd uriad;  
 Gofalus fron, llech gafaeliad, a'm cawdd,  
 I mi a neidiawdd o'i mynediad ! 60

Goleu-ddyn a'i hŷn o hád bonedd-faith;  
 Goluddiai wagiaith, gŵyl ddiwygiad:  
 Gwaisg i'm clwyfawdd, cawdd coddiad i'm galwer;  
 Gwelir ar lawer galar liwiad ! 64

Gwenynnen addien, a wyddiad ei dawn,  
 Gwawr Garedigiawn, garw ei dygiad !  
 Gwrm-ael, fun arael, fain irad,— nid gwiw  
 Gwawr Eigt unlliw, ar y gaer wenllad !

Gwaifg i'm clwyfawdd cawdd coddiad, i'm bron ddelit,  
 Gwedd eiry frisg wisg wellt, gwawr Fueilt fad !  
 Gweddig argywedd, ddeigr-gawad a'm gwlych,  
 Gwyrdd'y ngrudd a chrych, fawr-nych farwnad !  
 Gwenwyn ym ei chwyn, nychiad i'm ystlys,  
 Gwanas gywirlys gŵn *ysgarlad* !  
 Gwaith drwg i'r olwg hir wylad y'nghaeth —  
 Gwaith cyfing hiraeth Cof Angharad !

---

## CCXXXIV.

MARWNAD RHYDDERCH AB JEUAN LLWYD  
 O'R GOGERDDAN.

**D**OE clywais, mi geisiais gel,  
 Dair och ar lethr-dir uchel : 4  
 Ni seddyliwn, gwn gan-och,  
 Y rhoe syth wr rhyw fath och !  
 Ni bu i'n gwlaid, rhoddiad rhydd,  
 Na llif cwyn, na llef cynnydd,  
 Na meingorn uwch llethr mangoed,  
 Na chloch uwch na'r och a roed ! 8  
 Pa dwrwf yw hwn, pryderoch ?  
 Pefr loes ! Pwy a roes yr och ? —  
 Llewelyn, o 'syddyn serch,  
 A rodde hon am Rydderch  
 Fychan, gerllaw ei lân lys ; 12  
 Ffydd-frawd Rhydderch ddifftodd-frys !  
 Och Emlyn, ei dyddyn dig !  
 Galaeth mammaeth am emig !

Oeh

Och ! gwr a fai'n awch garu

Ei Gár o fawr alar fu !

Ar drydydd och, gloch y glyn,

Oll yw alar Llewelyn !

20

Pan guddiwyd, syn freuddwyd serch,

Gwin roddiad genau Rydderch

Darfú, gwn i'n dierfir,

Ben Deheubarth wen yn wir !

24

Darfú'r oes dirfawr o fedd,

Darfú daearu dewredd !

Gorwyn alarch y' ngwarchae,

Gorwedd mewn maenfedd y mae !

28

Natur o boen, nid hwy'r bedd,

Syth drud-falch, na saith droedfedd ! —

Pregeth ryfedd oedd weddu

Dan hyn o dywerchyn du,

32

Gwybodau, synhwyrau serch,

Gwmpas rodd, gampus Rydderch !

A'i giwdawd, digollwawd gall,

A'i gryf-gorph gwyn dignif-gall,

36

A'i gampau, chwedl doniau dawn,

A'i lwyddiant, a'i oleu-ddawn,

A'i ras gyweithas ieithydd,

A'i glod—Och ! ddyfod ei ddydd !

40

Trwst oedd, oer trist, ddaearu

Trugarog o farchog fu ! —

Trugaredd am symlwedd serch,

A roddo Duw i Rydderch !

## CCXXXV.

MARWNAD A WNAETH D. AB GWILYM PAN  
GLYWOODD CHWEDL ANWIR AM FARW  
O'I GYFAILL MADOG BENFRAS Y BARDD.

**R**HIDYLL hudolaidd rhydwn—  
Rhyw fydd ar ei hyd yw hwn !

Y macwy llawen heno,  
Hyfryd ei fywyd a fo,  
Breuddwyd aruthr ebrwyddarw,  
A dru yforu yn farw.

Dan amgen awen ewybr,  
Pefr orgraft oleu-braff lwybr,  
Am Fadawg, fardd-lef efell,  
Benfras, ni bu awdlwas well !  
Bu ddewr hy, ni bydd yr hawg,  
Ormail mydr, wr mal Madawg,

O fedru talm o fydroedd  
O gerdd dda, ac arwydd oedd,  
O ddwyf gwbl gerdd a ddyf gaid,  
O ddigrifwch flwch, a phlaid;  
O gariad, yn anad neb,  
O ddoeth enw, o ddoethineb !

Deng-yn ym mlwyddyn ym oedd  
Dwyn Madawg, dawn ym ydoedd !  
Uthr yw gwayw athro gwyr,  
Disgybl o'r beirdd nid esgyr !

4

8

12

16

20

Pell

- Pell eglur benadur bwyll,  
Paun da-ddadl, pand oedd ddiidwyll? 24  
Cad taradr, ceidwad tirion,  
Canwyr y synwyr a'r son!  
Cwplws caniadgerdd Merddin,  
Cwpl porthoedd, golygoedd gwin; 28  
A thampr o ddewis mis mai,  
A thrwmplos y gerdd, a'i thrimplai;  
A chôr y ferch, a'i chariad,  
Coprys cerdd, a chiprys cad. 32  
Pefr organ, degan digeirdd,  
Pênaeth barddoniaeth y beirdd!
- Dihoyw-fro beirdd, dihyfryd,  
Di-gwydd y bydd y byd! 36  
Diaml o aur ni's talai,  
Di-orddail fydd manddail mai;  
Di-gerdd eos befr-dlos bach,  
Dwf acses deigr difoefach: 40  
Dibarch fydd bedw ni's édwyn,  
Da beth oedd, diobaith yn!  
Cwpl ewybr, capel awen,  
Copr pawb wrthaw, gwaglaw gwen: 44  
Gwladaidd, oedd gwledydd eiddyw,  
Wb i fyd! na bai ef byw!  
Gwae fardd lu gwiw ofer-lef—  
Gydâ Duw y gadwyd ef!

## CCXXXVI.

MARWNAD GRUFFYDD AB ADDA AB DAFYDD  
 Y BARDD, A LAS YN NOLGELLAU; YR HWN  
 A GANODD O GYLCH B. A. 1390.

**R**HAGOR mawr gaer mur gwyngalch,  
 Lle bu berllanwýdd llu balch,

Bod yn galw ïs dyfal-wýdd

Eos yn nos, ac yn nydd! —

Cethledd-lais edn, coeth loywlef,

Cain nyth, megis cyw o nef:

Eurwawd-lef ar fedw loyw-faingc,

Orlais goeth ar irlas gaingc!

Gwedi del, gwawd a'i deilym,

Gwyllt feuthydd, llamhidydd llym;

O ddwyfraul gwawd i ddistryw,

A bollt bedryollt bedw-ryw.

Cyd bai llawn dawn d'awenydd,

O ber-ffrwyth gweddeidd-lwyth gwýdd,

Ni bu cerdd fydr, dihydr-hoed,

Heb loyw degan blodeu-good.

Powys, wlad ffaethlwys ffrwythlawn,

Pér heilgyrn, pefr defyrn dawn,

A oedd berllan gyfannedd

Cyn lladd doethwas a glas gledd!

Bellach i mae, gwae gweddwdawd,

Bowys wýdd heb eos wawd:

Adlaw beirdd awdl heb urddas

A ydyw hon, cofion cas.

Oes awch trymoch er's tri-mis,  
Och! ni bu och na bai is!  
Am gyffwrdd, llew agwrdd llid,  
Awch arf yn lle ni cherid!—

28

Gruffydd, gerddber aderyn,  
Fab Adda, difeia' dyn!  
Pob dyn disalw ai galwai  
Pendefig mirein-frig mai,  
Ac organ, dra diddan draidd,  
A gwawr eos garuaidd;  
Gwenynen clod barodwir,  
Gwanwyn tost Gwenwynwyn dir  
Gruffydd ab Adda'b Dafydd  
Y'nghôr Dolgellau y'nghudd!—

32

36

Dyrys fu ei gâr ei daraw,  
Dewr o lid, a dur i'w law!  
Arf a roes, eirioes orofn,  
Ar fy mrawd, gleddyfawd ddofn;  
Drwy fanwallt gwalch o falch-lin,  
Och fi! ddaed oedd ei fin!  
Trawiad un lladdiad a llif,  
Tòriad hagr trwy iad dignif:  
Troi awch y cledd, pand truan,  
Trwy felyn flew dyn glew glân?  
Dig wyf o'r lladdiad i'm gwydd,  
Deu-ddryll, ond oedd wlaeiddrwydd?—  
Deurudd loyw angel melyn,  
Dwred aur, deryw y dyn!

40

44

48

## CCXXXVII.

MARWNAD RHYS AB TUDUR, TELYNOR.

**T**E BYG yw Gwynedd meddir,  
 Trwy naws gwyll truan os gwir,  
 I grwth, a chloch, dwy och dŷn,  
 O thalbynoedd a thelyn. 4  
 Y crwth, lle bo'r mesur cry',  
 Carodd osod cerdd Jesu:  
 Chwerw sydd o'i dydd, a'i dau,  
 A'i dŷniad ar ei dañnau. 8  
 Y delyn o'r aur deulu,  
 Dydd a nos, fal eos fu,  
 Heb ddwylaw, gŵyr addaw gwedd,  
 Heb *fiwfig* cerdd, heb fysedd: 12  
 Er noddwaith, er ei naddwŷdd,  
 Anniddan, yn f'amcan, fydd.

Pob cloch plygain, damwain dig,  
 O glôs y gwyr eglwyfig, 16  
 O thŷr, heb nidr ei thidraff,  
 Na thaſawd, proſfrwydawd praff;  
 Dyn ni châr, ariar oror,  
 Ei chân rhwng llettring a chôr: 20  
 Felly mawl a ddyly medd,  
 Em y gwin, y mae Gwynedd  
 Heb gyn Mon, heb gân mynuch,  
 Heb glain eglwys Dduw, heb glych; Heb

- Heb law, Duw naf! heb dafawd,  
Heb gerdd dant, heb ffyniant fflawd;  
Heb wledd, heb gyfanneddrwydd,  
Heb Rys ior hael, heb ras rhwydd ; 28  
Heb oleubryd, heb loywbrim,  
Heb ddawn, heb urddas, heb ddim,  
Heb ddiwyd, mwy mordwy mawr,  
O Risiart, eryr oeslawr ! 32  
Bryd naid, biler euraid bâr,  
Frenhin, gwnaeth Eingl yn fraenar :  
Pand oedd eryrawl mawl Mon,  
Ei loywgamp olygon? 36  
Peris ei gof ym ofal,  
Pôr chweg,—pand oedd deg ei dàl?  
Pand oedd ddoeth, wingoeth iawngangc,  
Ei ffiw gar bron teulu Ffraingc ? 40  
Pand oedd ddigrif, a disalch,  
Pwynt Elffin, rhoes win, Rhys walch?  
Pand oedd wag, modd dinag mau,  
Gwynedd o'r eryr gwinau? 44  
Am Rhys, fab dihareb darf,!  
Tad aer ochr Tudur crychfarf;  
Ceidwad gwiw-fab, gwae fyf,  
Kurwr ceirw'r Yryri. 48  
Ni bydd y' Ngwynedd, gwedd gwyd,  
Dan gwyr, Duw a'n gweryd!  
Na nerth, na chariad i ni,  
Na gwleddoedd, nag arglwyddi!

Na chynyd heb wych angerdd,  
 Na chân ymlyniad, na cherdd,  
 Na cheifio glân rianedd,  
 Na charu merch, na chair medd ; 56  
 Nag oedi gwen i gadw gwŷdd,  
 Nag adar y mân goedydd,  
 Na bron yn llawen, na brig,  
 Na diddan neb ond eiddig !  
 Gwynedd, fro annedd freiniawl,  
 Gwrendy hyn, a mŷn fy mawl ;  
 A llyma 'nghred, win-ged wedd  
 Wyth-liw enw, i'th law, Wynedd,— 64  
 Gan gwrlid, gwn alarloes,  
 Nych a thwng, na chai i'th oes  
 A gyllwyn, aer ugein-llef,  
 Eurfawl ior, aer fal es !

## CCXXXVIII.

VR YSBRYD.

**D**YWSULGWAITH, dewis wylgamp,  
 Brynhawn hwyr, loyw-lwyr lamp,  
 Fal yr oeddwyn ar weddfyd  
 Mewn eglwys, baradwys bryd,  
 Gwiw ddeall, yn gweddiaw 4  
 Ar Dduw nef, a'i urddau naw,  
 Clown y ddaear yn barawd  
 Yn crynu, cyn gwenu gwawd.—

Gofynais

Gofynais, drud adlais dro  
Byth i ddyn, beth oedd yno.

“ Yn enw Mab yr Aberth,  
A’r Glân Ysbryd, cyngyd certh !—  
Beth sydd isod yn godech  
Yn y llawr dan gŵr y llech ?  
Ai byw, ai marw, garw ei gân,  
Ai gŵr a glywai’n geran ?—  
Os dyn wyd dianwadal,  
Drwg yw dy wedd, sylwedd fâl !”

Ysbryd marw, garw gawdd  
Bryd tybus, a’m hattebawdd !

“ Aros yr wyf mewn oerni,  
Yn ddrwg fy sud mewn cryd cri:  
Afraid it’, wr cyflwr cu,  
Annwyfawl, fy nyfalu.—  
Bum ieuangc ddidrange ddedryd,  
A balch ym mhob lle’n y byd ;  
A hynod yn y glod glau,  
Filwr taith, fal ’r wyt tithau.—  
Gwelais ym wallt, cwnfallt cu,  
Gwinwyddawl ferch gwineuddu,  
A llygaid cain burain bas  
Amlwg, a golwg gwiwlas,  
A thafawd mewn iaith ddifai,  
A balchder mewn amser mai :—

Gwelais

12

16

20

24

28

32

- Gwelais y ceid, gwiwlwys cain,  
Yr haf gusanu rhiaint, 36  
A rhodio mewn anrhymedd,  
A gweled merched, a medd.—  
O'r diwedd gorfu 'm dewi,  
Mawr fy most,—marw fum i!— 40  
Treiliais sy ngwallt, fal alltud,  
Dan y ddaear syddar fud;  
Darfu 'nghnawd, eurwawd oerwas,  
Pregeth wyf i'r plwyf a'r plas! 44  
Pregeth oedd piau'r gwaith hwn;  
Pwy a wyddiad pwy oeddwn?—  
Darfu fy nhrwyn, a'm hwyneb,  
Mud iawn wyf, ni'm edwyn neb! 48  
Nid oes na llygad na dau,  
Eithr yn ball, aeth yn byllau;  
Nag aelgeth, nag un gulcamp,  
Domlyd briddlyd luddlyd lamp! 52  
Pan weler ymhllith cerrig  
F'esgyrn yn gegyrn heb gig,  
Taith i ddyn, tithau a ddaw  
I'r ddaear i'th arddwyaw; 56  
A Duw a ro, diau raid  
Yno 'th ddwyn, Nef i'th Enaid!—  
A gâr trugaredd heddiw,  
I farw byd, lydlyd liw!"

## CCXXXIX.

I LUN CRIST A'R APOSTOLION.

**D**A y lluniwyd, dull iawnwedd,  
Dwyfron Mab Duw byw a'n medd!  
Rhoed yn lew mewn *tabl* newydd,  
Eilun wawr ar loywion wýdd ; 4  
Er dangos i'w eurglos ef  
Y deuddeg oll, a'r dioddef.  
Grafsus yw ar groes y sydd  
Y dioddeses Duw Ddofydd ! 8

Da lluniwyd Jesu lwyd Ion,  
O ddyfsg *abl*, a'i ddyfgyblion :  
Tyfiad agwrdd, twf digabl,  
Triarddeg,—pand teg y *tabl* ! 12  
Duw cun ydyw y canawl,  
Delw fwyn, da dylau fawl ;  
A'r deuddeg, llawen-deg llu,  
A roswyd yngylch'r Jesu.— 16  
Chwech o ran ar bob hanner,  
Deuan' oll amgylch Duw ner :  
Ar yr hanner, muner mwyn,  
Dëau iddo, Duw addwyn, 20  
Mae Pedr,—da y gŵyr edrych,  
Ac Jeuan, wiw amcan wych ;  
A Phylip, oreu-wib ras,  
Gwyndroed yw, a gwiw Andras ;

Jago

- Jago hael hoywgae hylwydd,  
A Sain Simon, roddion rwydd.—  
Lliw aur, ar y llaw arall  
I'r Arglwydd, cain hylwydd call,      28  
Y mae Pawl, weddawl wiwdioeth,  
A Thomas, gyweithas goeth ;  
Mathew a bair im' wythwawd,  
Bartholomeus weddus wawd;      32  
Moethus liw Matheias lân,  
A'r ddau Jago ddiogan ;  
Sain Sud, o fewn *sens* hoywdeg,—  
Llyna'ntwy yn lluniau teg !      36  
Llawn o rad ynt, pellynt pwyll,  
Llei doded mewn lliw didwyl.
- Y ffrystyr dyn y storiedeg  
Y dydd a roed i'r deuddeg,      40  
I gerdded byd gydag ef,  
Cain ddiddan cyn ei ddioddef.—  
Gwedi'r loes ar y groes grôg,  
A gafas Crist ar gyfog ;      44  
A'i farw ni bu oferedd.  
Hefyd ag o'r byd i'r bedd,  
Pan gyfodes Duw Jesu,  
Ein gwir gâr o'r ddaear ddu,  
Dug yn ei blaidd, nid rhaid rhwys,      48  
Y deuddeg anrhyydeddus.—  
Mab Mair yw'r gair o gariad,  
Goresgyn dyddyn ei Dad !

## CCXL.

## RHINWEDDAU EIN JACHAWDWWR.

**C**REDAF i Naf y Nefoedd,  
Credo gwiw, caredig oedd !  
Duw a'n ceidw rhag diried-chwaen;  
Down y blaid, a Duw'n y blaen !      4  
Rhoed o'i nerth, bybyr-werth Bôr,  
Rhag angen unrhyw gyngor,  
I'w foliannu'n gu gywair,  
Jesu a gad o'r fad Fair !—      8  
Jawn i bawb, ar bob awgrym,  
Foliannu Duw o flaen dim:  
Da yw Jesu dewisiad,  
A da oedd ei fam a'i dad ;      12  
Gorau tad, llathr di-athrist,  
O dadau cred oedd dad Crist :  
Gwerin nef a'n eartreso !  
Gorau un mam ei fam fo.—      16  
Gwarant fydd i bob gwirair,  
Gorau un mab yw Mab Mair ;  
Gorau merch, dôn aur goron,  
Cywiraf harddaf fu hon.      20

Da fu ddwyn, deddf ddaioni,  
Gwr o nef yn gâr i ni :  
Hwn fu ddewis yr Israel,  
Hen fu, ac ieuangc, a hael.

Ganed o'i fod, er dioddef,  
Yn Ddyn yn, ac yn Dduw Nef!

Gwnaeth Jesu ner o'i geraint  
Swrn yn Ebystyl a Saint; 28

Gwnaeth bader, ac offeren,  
Gwnaeth oriau, a llyfrau llên;

Rhoes gred i'r bobl gyffredin,  
Rhoes i'n plith gwenith a gwin:

Rhoes ei gorff, heb ddim fforfed,  
Ar bren croes i brynu cred.

Deugain awr, deg ogonedd  
Hael Jesu, y bu'n y bedd! 36

Gwedi cyfodi o'n cár,  
Igyrchu pawb o garchar,

Ac yn ol ei farwolaeth,  
I nef fry yn fyw yr aeth. 40

Lle dywetter, medd Sain Sieron,  
Croes Duw ar enw Crist Jon;

Lle ni ddaw, cyffrydiaw ffirwyth,  
Na diawl, nag un o'i dylwyth. 44

Gair lles yw doedyd Jesu;  
Gorau un gair gan Fair fu

Arfer o alw'r eurfab,  
Ac ar bob gair Mair ei Mab!— 48

Gair cariad yw o'r gadair,  
A'r Mab Rhad a gad o'r gair:

Duw

Duw yw'r gair, dioer gariad,  
 A'r gair yw Duw, a'r gwir Dad!  
 Duw fo'n porth, a'n cynhorthwy,  
 Amen, ac nid rhaid yn mwy!

52

## CCXLI.

AWDL AR ANEDIGAETH A DIODDEFAINT  
 EIN JACHAWDWWR.

**O**ES-braff wyd Jesu Ysbryd,—gwiw Ddofydd,  
 Goddefaist fawr benyd,  
 Archoll arf erchyll wryd,  
 Ar bren croes, dros bum-oes Byd! 4

Y Byd a glybu dy wybodus gael  
 O Riain feinael ddiwareus;  
 Gwedi d'eni, di *Deus*, yn fore  
 I'lh alwent o'u lle *Domine Dominus!* 8

Diddan dri brenhin anrhymeddus coeth,  
 A ddoeth i'r cyfoeth, yn wyr cofus;  
 Dygan' dair anrheg, diwgus roddi  
 O ryd Mair a Thi, aur mŷr a thus. 12

Gwriad, a Mab Rhad prydus, ac Ysbryd,  
 Gwir llyw i ieched gwawr llewychus:  
 Gwae fi fy Nuw Tri! ond trahaus i neb  
 Gwerthu dy wyneb, gwyrrth daionus?

Ynfydrwydd Suddas, bu anfedrus iawn

Dy roi i estrawn, dirwy astrus :

Gormodd fu gwaith rhodd a rhus anoddau,

Gwyro d'aelodau, gwawr dyledus !

Eisteddodd arnat uftus, cardottai

O fab i flotai fu Beilatus :

Duw ddoeth a'i noeth ddiwenicithus don

Juddewón, lladron rhy dwyllodrus ! 24

Aeth naw i'th rwymaw yn orthrȳmus bryd

Er prynu penyd ar bren *pinus* ;

Pan welsom drosom dy rasus *bassawn*

Pa nad ystyriwn poen dofturus ! 28

Dy draed yn llawn gwaed, nid gweddus 'y nghof,

Dy ddwylo erof, Duw, dolurus ;

Arwyddion angau i'th arweiddus dàl,

A gloes ar wyal, a glasu'r wëus ! 32

A'th rwymiad creulon yn orthrȳmus gaeth

Mawr lefain a wnaeth Mair wylofus! —

Eifoes ar y Groes, gralus fu'r diwedd

Dy ddiangc o'r Byd, medd Matheus. 36

A gwedy hynny, o'th glwy' heinus trwm

Dy alw *Sanctum* a ddyly *Sanctus* :

O'th gawdd, pwynt annawdd, paud dawnus fuom

Dy ddyfod attom, Duw dioddefus ?

## CCXLII.

BUCHEDD A DIODDEFAINT EIN JACHAWDWR.

**P**WY'r gorau piau'r goron,  
 Y gwr a'i friw gar ei fron:  
 Crist nefol freiniol frenhin,  
 A'i bur gorff yw'r bara'r gwin! 4  
 Arglwydd yr holl arglwyddi,  
 A thad a nerth, wyd i ni:  
 Hwn a ddylem ei henwi,  
 O'n iaith rwydd, yn Un-a-thri— 8  
 Tad, a Mab, ym mhob aberth,  
 Ac Ysbryd cywirbryd certh.  
 Diammau, mae gorau gwr,  
 A da oedd ei Fedyddiwr, 12  
 Da forwyn, diwair arab,  
 A fu yn dy fagu, Fab,  
 Mewn gofal ynial enyd,  
 Cyn y loes dros bum-oes byd! 16  
 A Suddas, er na's haedda,  
 Am ei werthu fu ar fai:  
 Suddas ydoedd anraswr  
 Pan wertha'r hawddgara' gwr.— 20  
 Juddewon a wnaethon' oll  
 Amherchi ei bum-archoll:  
 Rhoi am y tâl rhwymiad dig,  
 Gwmpas o ddrain yn gan-pig; 24  
 A gwaedu pob pigoden,  
 A briwo ais Mab Mair wen;

A'i dýnu gwedi einioes,  
Yn graff oddiar y groes !— 28  
Ac am Grifft y bu driftedd,  
A roed heb oed yn y bedd;  
Ac eilwaith pedwar gelyn  
Fu yno'n gwilio Duw gwyn; 32  
Er hyn (o Fair yr henyw,)  
O'i fedd y cododd yn fyw.—  
A ninnau pawb yn unnod,  
Llawen syth y gallwn fod ! 36  
Llawen fu i lu'n y wlad  
Mor gadarn mawr ei godiad;  
Gweled nerth, golud i ni,  
Ein Duw gwyn yn digoni ! 40

Mi archa'r Uchel Geli,  
Llei purodd ef nef i ni ;  
Archwn i'r Tad, ceidwad eu  
Rasol, a gelwir Jesu,  
Dwyn, dan y digllon ddioddef, 44  
Dan ei nawdd f'enaid i nef !

## CCXLIII.

## ENGLYN I HYDERU AR DDUW.

DUW'N Tad, Duw'n ceidwad, Duw'n cynnydd,  
Duw'n gwbl, Duw'n gobaith tragywydd !  
Duw'n lluniaeth, Duw'n llawenydd ;  
Duw, Duw! ni weddiwn bob dydd !

MAWL

## CCXLIV.

MAWL AM BRYNEDIGAETH DYNOL ANIAN.

**D**A fu'r Drindod, heb dlodi,  
 A wnaeth Nef a Byd i ni;  
 Da fu'r Tad, yn anad neb,  
 Roi Anna ddiwair wyneb: 4  
 Da fu Anna, dwf uniawn,  
 Ddwyn Mair, morwyn ddinam iawn;  
 Da fu Fair, ddiwair eiriawl,  
 Ddwyn Duw i ddifwyno diawl. 8  
 Da fu Dduw'r Dofydd oroen,  
 Ar groes ddwyn pum-oes o'u poen:—  
 Da gwnel Mab Mair, air addef,  
 Ein dwyn oll, bob dyn, i Nef!

---

## CCXLV.

CYFADDEFIAD Y BARDD O'I GAMWEDDAU.

**T**RUGAROG Frenhin,  
 Wyt Tri cyffredin,  
 Ac Un cyntefin,— 4  
 Dewin diwad!  
 Atteb a draethaf,  
 Attad y trosaf,  
 I ti cyffesaf,  
 Naf nefol-wlad!

I i 4

Ac

Ac i Fair addef

Tangnafedd dangnef,

Ac i holl Saint Nef,—

Nifer difrad:

12

A'm holl fyfyrdawd,

A'm holl hyawdlwawd,

Ac a'm holl geudawd,

Barawd bwriad

16

Canys gwn, yn wir,

Mewn byd anghywir

Y' nghyflwr anwir,

Dihir dehad,

20

Fy mod yn awdur,

Fy Nuw bènadur,

Yn fawr bechadur

O natur nad!—

24

O air anniwyd,

A meddwl dybryd,

A gweithred hefyd

I gyd a gad:—

28

Cenfigen, balchder,

Rhyfig, creulonter,

Gwenwyn, tra-digter,

Fy Ner neirthiad!—

Cybyddiaeth,

Cybyddiaeth, traïs, twyll,

Cynghorddyn crybwyll,

Chwant rhithiau amhwyll,

Cymmwyll drychiad ;

36

Camgerdded, ceisio,

Gogaru, tybio,

Meddylio yno,

Tro trwy fwriad !

40

Clod orwag wawdwl,

Cenfigenu'n bwl,

A chelu'r meddwl,

Fwgwl fagiad !

44

Meddwdod, diwyndeb,

Methiant, glythineb,

Godineb, cudeb,

Cadarn ledrad.

48

Traha, camfalchedd,

Diogi, llefgedd,

Maswedd aniaawnwedd,—

Moes anynad !

52

Coelio breuddwydion,

A chyfareddion ;

Rhuddu gwaed gwirion,—

Anudon nad !

Gorwag feddyliau,

Cellweirus gredau,

Oferion lyfau,—

Geiriau girad !

60

Gweithio gwaith diau,

Gwadu gorchmynau

Suliau a gwyliau,—

Gwael y feiliad !

64

Cymryd dros gyngor

Bwyd amhryd ragor,

Mifiliau cytgor

Por perffeithiad :

68

Dirmygù heb dawl,

O chwant corphorawl,

Gwasanaeth dwysawl

Duw deddfawl-dad !

72

Bod yn aflenw,

Gogau'n absen,

Sarhau meibion llên,

O'r hen raddiad :

76

Gofleg anghymmwys

Ym mhlas yr eglwys;

Bod yn anghyfrwys,

Ddwys ddeusyfiad.—

Tòri gorchmynau,  
Ac iawn gynneddfau,  
A gair diammau  
Duw diymwad!—

84

Hynny, Duw, y sydd,  
Rhag dirfawr gerydd,  
Edifar beunydd,—  
Llywydd llead!

88

Drwy nerth, a phorthair,  
A lles i'm cyfair,  
Dy fam lwyfgrair Fair,  
Fawr oleuad.

92

A bechais o'm nwyf,  
Am bechod mawr-glwyf,  
Ac am a bechwyf,—  
Rwyf ryfygiad!—

96

Cyn ysgar undawd  
Fy enaid a'm cnawd,  
A'm rhoi mewn beddrawd,  
Geudawd geidwad!—

100

A thòri buchedd,  
A chynawl orwedd,  
A chyfngwedd bedd,  
Bid ollyngiad!

A gorphen

- A gorphen diau,  
A gorphwys angau,  
A chau y genau  
Uchel ganiad ! 108
- A hynny oesaf,  
Fy Nuw goruchaf,  
I ti'r archaf, Naf  
Nef gynheiliad ! 112
- O gael fy rhyddhau  
Rhag caeth usfernau,  
A'm tynu o'u ffau  
I oesoedd disrad ! 116
- Er dy fuddiant oll,  
Mab Mair! a'th gyfrgoll,  
Er dy bum-archoll,  
Drydol! drydiad ! 120
- Er poenau trymder  
A gymraist Wener,  
Arfer dawn eur-ner,  
Er dyn arnad ! 124
- Er dy fawr drym-loes  
Yn prynu pum-oes,  
A'th cinioes ar groes,—  
Grasawl bryniad !

Er

Er dy farwolaeth,  
A'th ferthyrolaeth,  
A'th gladdedigaeth,  
Alaeth wyliad !

132

Er dy gyfodi,  
Yr Un Duw-a-thri !  
Er dy feedd celi,  
Gwesti gwaftad !

136

Rhyddha fi yn rhydd,  
Fy ngwyrthfawr Ddofydd !  
O'm pechawd beunydd,  
De ddwyfol-dad !

140

Cyn dwyn fy ysbryd,  
A'm lliw byw o'r byd,  
A'm rhoi mewn gweryd,  
Blegyd blygiad ;

144

A'm gadael yma,  
Buchedd dibara,  
A'm corph mewn gwyddfa  
*Terra toriad !*

148

A chael maddeuant  
O'm ysbrydawl haint,  
A chymmod a'r saint,  
Braint Brenhin-dad ;

A dychlais

A dychlais heddwch,  
 A llwyr ddigrifwch,  
 Ac edifeirwch;  
 Degwch dygiad! 156

A chymun fy Rhi,  
 A chymmwys weddi,  
 A chymmod a Thi—  
 Tri, trwy gariad! 160

A nerthoedd rhagllaw,  
 Cyn llwyr diwedd braw,  
 O weithred dwylaw,  
 Aelaw eiliad! 164

A diwedd obaith  
 Dwyfawl nefoliaeth,  
 A diwedd perffaith,—  
 Penrhaith pob rhad! 166

A'th nawdd, a'th wenblaid,  
 Rhag traes cythreuliaid,  
 A nef i'm henaid,  
 Wrth raid, o'th rad! 172

A rhwydd dangnhefedd  
 Drwy bren y fuchedd,  
 A rhan trugaredd  
 O'th wledd, a'th wlad!

Dy rad a'th gariad i'th gaerawg Nefoedd,  
 Blith nifer aberthawg,  
 A gaffwyf, perfffeith-nwyf ffawg,  
 Trwy gur Brenhin trugarawg !

180

Trugarog Frenhin,  
 Wyt Tri cyffredin,  
 Ac Un cyntefin,  
 Dewin diwad !

184

Atteb a draethaf,  
 Attad y trofaf,  
 I ti cyffesaf,  
 Naf nefol-wlad !

## CCXLVI.

MARWYSGAFYN Y BARDD—ENGLYNION A  
 GANT AR EI GLAF-WELY.

**O**FNI gwrthuni gwrthwyneb yr wyf;  
 Ofni'r awr i atteb!  
 Ofni hir drin ffolineb:  
 Ofni 'Nuw yn fwy na neb !

4

Duw celi meddi, maddau ym bechod,  
 A bechais ersdyddiau!—  
 Dydd ing yw diodde' angau,  
 'Y nydd i sydd yn neshau!

Byd

Byd ffyddlon dynion yw Duw, byd hyffordd,

Byd diffaith bod heb Dduw;

Byd oerddig bod heb Wir-dduw:—

Byd heb ddim yw bod heb Dduw!"

12

Fy einioes pan fo ar fyned o'r corph,

A gorphen fy ngweithred,

Na âd, f'Arglwydd cry-lwydd cred,

I'm gelyn gael mo'm gweled!

D I W E D D.

---

# Y CHWANEGIAD.

## I.

ARWYRAIN MORFUDD—YN YMBIL IDDI  
DOSTURIO.

’Y Mun gain, hoyw emen goeth,  
Y cyfan wyd o’m cyfoeth;  
Gorau meinir a garaf,  
Gwymp yw’th wên fal heulwen haf !      4  
Gwae o’m planed annedwydd,  
Weled erioed liw dy rudd !—  
Dy wyneb teg ei dônen,  
Wyth-lug-dydd, a’th lygaid, wen,      8  
A fu saeth yn fy ais i,  
A ’ngwanas,—gwae fy ngeni !  
Dy wddwg, amlwg emliw,  
Un herddyll wyd, hardd ei lliw,  
A’m troes yn brudd i’m lludd llwyr,      12  
Was anial, ac o’m synwyr !  
Dy ddwyfron, lliw berwdon balch,  
A’u canfod i’w pryd ceinfalch,  
Mawr ganfod rhyfeddod fu,      16  
’Mun fadiain, i’m ynfydu :  
A’th dâl, lliw manod baloedd,  
’Y ngwen wyl, ’y ngwenwyn oedd !

K k

Sigr

Segr o ddyn, siwgraidd enau,  
 Sant fy ffydd, cain Forfudd fau!—  
 Byroes, a'm ferch yn berwi,  
 'Y mun! a beraist i mi—  
 Na ladd dy fardd, na chwardd chwaith  
 Am ei gur, em gyweiriaith!  
 A thy'n y gwas a'th annerch,  
 A golwg hedd o fedd, ferch;  
 Par wared o'm caledi,  
 Ag un gair, er Mair, i mi!

24

28

## II.

MAWL I FORFUDD, A THRASERCH Y BARDD  
 AM DANI.

**P**RYDYDD i Forfudd, f'eurferch,  
 I'm oes wyf a mawr yw'm ferch:  
 Mi ai cerais i'm cerydd,  
 Hoyw-loer deg, er's lawer dydd; 4  
 Er yn fab, bryd cirian ferch,  
 Y trofais iddi'm traferch;  
 Gorne berw, ac o'i herwydd,  
 Yn ffål, ydd euthum o'm ffydd! 8  
 Llawer gwaith, er lliw ewyn,  
 Y cerddais, yn ddewrgais ddyn,  
 Hyd nos i'm hoed yn yffig,  
 Hyddred i'w gweled mewn gwig.—

Addoli

Addoli 'mun dan ddail mai,

A dirfaint cariad erfai ;

Adwaenwn, gwn yn gynnill,

Ei throedlam brysg ymmysg mil ;

16

Un yw a dyngwn ei nod,

Wych osgedd, wrth ei chysgod ;

A'i hadnabod, ddirfod ddadl,

Hoyw eneth, wrth ei hanadl.—

20

Cerdd eos a'm dangosai,

'Y mun bert, y man y bai ;

Gan hoywed glowyed mewn glyn,

O'i dòri caid 'r aderyn.

24

Un ydwyf, ban bwyl heb wen,

Afrywiog, heb fawr awen,

Ag ernych tost i'm gornwyf,

O flaen neb aflarew wyl,—

28

Heb gof heb ynof enaid,

Na rhith o'r synwyr fo rhaid :—

Gyda Gwen wy'n ddibenyd ;

Gwna hon fi 'n galon i gyd !

32

A'm càn yn rhedeg i'm cof

Yn winaidd awen ynof ;

A synwyr llwyr ar bob llaw,

Ebrwyddiaith, i'm llwybreiddiau ;

36

Ac ni ddaw im' awr lawen,

I'm bywyd, mewn byd heb Wen !

## III.

Y BREUDDWYD—AFLWYDDIANT AM GOLLI  
MORFUDD, A OEDD YN CAEL EI RHOI YN  
BRIOD I'R BWA BACH.

**A** Mi neithwyr, hwyr fy hynt,  
Mewn eithin rhag min noethwynt,  
Gorweddais, hunais unawr,  
Goris llwyn ar grys y llawr ; 4  
~~pale~~ Gwelwn ryw olwg aeles, *lightful*  
Gwelw afon, draw gerllaw 'r lle,  
A'i ffrydiau fal tònau Taf,  
Ornais, yn euro arnaf ; 8  
Geirw a gym teirw i'm taraw,  
Gyr o gan-cwm ; bum drwm draw.—  
Syrthiais yn y dòn serthwyllt,  
Swrth gwyp*i* grych serth a gwylt : 12  
Ymdrech a'r dòn greulon gref,  
Ymoerlais, a rhoi mawrlef ;  
Ymbil ar Grift, yn drift draw,  
Am nwyfiant im' i'w nofiau. 16

Llawer a phraff y trapherth,  
Lludd y nwyf, yn lladd y nerth :  
Llawer clraig yn yr aigion,  
Llu'r geirw draw'n briwiaw'm bron ; 20  
Gwelwn ddarfod y golau,  
A nos hyll arnai 'n neshau,

A'r gwynt yn daer ei gyntwrdd,  
 A llef gerth gan y llif gwrdd,  
 Ar fron y dòn ymdùnwn,  
 A baich o'r dyfroedd yn bwn;  
 Ac o'm anfodd yn foddi,  
 Y dydd oer fu'm diwedd i:

24

Yno 'n ol deffro 'n ael dydd,  
 O 'mhoen a gwŷn f' ymmennydd,  
 Ysturyais, nodais yn awr,

Y freuddwyd i'm afrwyddawr;      *hindered* 32  
 A gwn im' gaffael o'i gwedd,

Wr annoeth, y gwirionedd :—

Yr wyf i'm swydd er's blwyddyn,

Neu ddwy, yn meddwl am ddyn,

36

Ac nid nes i'm cyffes, *setief* ced,

Hoyw-dduw gŵyr hedd a gwared.—

Ni chwardd meinwen yleni,

Ni chair tâl o'i chariad hi;

40

O chyfgai 'r nos un gosod,

Mi wn p'le mŷnwn fy mod—

Mŷnwn fod gyda meinir,

Mewn lle a wnawn mewn llwyn i'r;

44

A chael y feinael fanwallt

Yn brysio troed i goed gallt,

Heb un-nag, yn troi beunydd

Gyda 'i gwas i goed gwŷdd.

Er canu, ac er cwynaw,  
 A gwanu 'mron gan 'y mraw,  
 Ni chaf Forfudd, och f'eurferch !  
 Na son wrth y fun fy serch.— 52  
 Arall fy'n chwenych irwen;  
 Un cyfoethog, heiniog hen: *persalia*  
 A gwen ai mŷn, henddyn hyll,  
 Abar dwrch, a bryd erchyll.— 56  
 Ac anfwyn geraint gwenferch  
 I'm lluddiaw sydd,—e'm lladd serch !

Y rhain o'u bron yw'r tōnau,  
 A'r lliss oedd drwm o'r cwm cau: *hutton* 60  
 Llyma 'r nosiaw fu draw'n drais,  
 A'r olwg oer a welais.—  
 Nofiedydd wyf, ynfydwr,  
 Yn dyn yn erbyn y dwr: 64  
 Rhodio 'r wyf ffwd yr ason,  
 A dyn a'i daith dan y dòn;  
 A llyma 'r modd y boddaf,  
 Eilpai'n ffrydiau tōnau Taf.

## IV.

I DIRIONWCH Y LLWYN—YN HIRAETHUS  
NAD OEDD MORFUDD YNO.

**M**ODDUS galanmai addwyn,  
Yn las a roes ddail ar lwyn,  
A hin-falch dymmor hoenfwyn,  
Yn wych ymlewych am lwyn; 4  
Gwifg-wyrdd yw dol, a gwafgwyn,  
A'r lliw yn wyrdd ar y llwyn;  
A choglef iach o wiglwyn,  
Ac adar llafar mewn llwyn:—  
Bore 'n dwyn ferch i'w erchwyn,  
Baun lles, fydd ar ben y llwyn;  
Gwawdlais mwyalch ar goedlwyn,  
Ac eos ar lios lwyn. 12  
Yma pand cel, er amwyn  
Mab a merch, yw llannerch llwyn?  
Eginawdd yma 'r gwanwyn,  
Yn wial dillyn-ddail llwyn, 16  
Yn goflaid ferch, yn gyflwyn,  
Gorlas lawr am gyrlwys lwyn:

Dofwyd y gauaf difwyn,  
A thes a wnaeth les i lwyn: 20  
Gwae afiach, o rhaid achwyn,  
Gwae lef doluriawg i'w lwyn!—  
Gwŷnu ynof mae gwenwyn,  
Gwŷn ferch, i'm llannerch a'm llwyn:—  
K k 4 Gweirlawd,

Gweirlawd, a than frig irlwyn  
Yw 'nghartref, cell ystref llwyn.

Gwae fi! am wendor forwyn,  
Gwall yw na's caf dan frig llwyn—  
Morfudd oedd gynt em eirfwyn,  
Mwys oedd yn llysoedd y llwyn :  
Ac yman, cyd bo gwanwyn,  
Bun ni ddaw gerllaw i'r llwyn,  
I'r dail, er mawr adolwyn,  
Ni chaf hi 'leni dan lwyn!

28

32

Mae 'r haf yn dymmor hyfwyn,  
Mireinfriw da'i liw hyd lwyn ;  
Ag ebrwydd gwaebryd annwyn,  
Y ffy o'm llety, a'm llwyn.  
Mae achos yma i achwyn,  
Mac 'm llais yn boendrwym i'm llwyn :—  
Meudwy, heb un a'm edwyn,  
Yn dwyn ei loes wyf dan lwyn.

36

40

## V.

ARWYRAIN AY CELDY — HYFRYDWCH BOD EFO  
MORFUDD YNO.

**M**AE adail manddail i mi,  
Llannerch ymmysg y llwyni ;  
Celdy dan frig coed cildwyn,  
Cywair y lle, caer y llwyn ;

Clas

- Clâs y pryd y diddan,  
Clôs oed dydd, mewn glaswîdd glân;  
Dan frig bedw, yn le dedwydd,  
Dien a gwîmp dan y gwîdd. 8
- Dyna fan i wendon ferch  
Wtresa 'nghudd y traferch,  
A gwenu 'ngolwg gweunydd,  
A chlywed cân gwiwlan gwîdd; 12
- Ac aros y nos yn iach,  
Ym môr celfa, mewn cilfach  
Gyda 'i bardd, a gado byd  
I'r Bwa 'n gwatwor bywyd. 16
- O chaf wen, dan bren a brig,  
I geudod yn y goedwig,  
Llyna fardd trallon ei fin,  
Llew'r oes, yn dwyn lloer iesin; 20
- Lluyddwr, treisiwr traferch,  
Llyfwr gwefus melus merch:  
Teimlwr, a phaltalwr fydd  
Em wênawg dan y manwîdd; 24
- Teimlwr bol, gwibiol gwiwber,  
Teimlwr coes bun eirioes bêr;  
Teimlwr ffolen ail Enid,  
A gwen wêb lawen, heb lid.— 28
- Ac ucho, a'i phig awchus,  
Bronfraith aur arraith, ni sus,  
Yn canu 'n diddanu dyn,  
Jaith addwymp, yn ei thyddyn.

Pand

Pand hardd gyda bardd y bydd  
 Y mai irfwyn, a Morfudd?—  
 Bardd coedlwyn yn gorllwyn gwawd,  
 A mwynder i'w gymhendawd ; 36  
 A'i ferch, i'w ordderch curddyn,  
 Yn llawn fal y dwr mewn llyn :  
 A'i wely 'n y Celdy cain,  
 A'i rewydd gyda 'i rian; 40  
 A'i fyd dibenyd beunydd  
 Bydd gan ddyn wenlan dan wýdd :  
 A rhwydded Gwen yn rhoddi,  
 I'w gwych fardd, ei chorph hardd hi.

---

## VI.

MAWL I'R CLÔS NEU'R DEILDY—GWAHODD  
 MORFUDD YNO.

CLOS a gefais, clas gwiw-fardd,  
 Coedbill hoyw caued-bell hardd;  
 Clasgell dan dew-frig glasgoed,  
 Clôs yn nhör llwyn, cudd-lwyn coed ; 4  
 Man ucho 'mhell mewn achel,  
 Mewn y llwyn coed, man llawn cel;  
 Mwyn-fan i fardd a mein-ferch,  
 Meudwyfan, plas eirian ferch. 8  
 Mwyn ar gryndwyn gwyrandardd,  
 'Y myd yw'r man hyfryd hardd :—

Yno'r

Yno'r awn, yn yr yniai,  
 Forfudd deg ysplennydd dàl ;  
 Mae adar gwlad baradwys,  
 A'u tón glaer, ar y twyn glwys,  
 A'n cydgaingc yn gwau coedgerdd,  
 Hyd y coed yn hudo cerdd ;  
 Mae cog, annifiog ei nad,  
 I'n sirio y mae'n siarad,  
 Ceiliog mwyalch, a balchiaith,  
 A min yn son iesin iaith,  
 A gwàwd llinosod mewn gwig,  
 A bronfraith ffaeth ar brenfrig.

Awn Forfudd yno, f'eurferch !  
 I'r llwyn cel, plas argel serch :  
 Cawn sedd liw càn i'n 'syddyn,  
 Cain wiail, a glasddail glyn ;  
 Cawn wely fry'nghoed y fron  
 Wiwloer, o'r cynddail irion.

Cariad yw'n swydd, rhwydd i'n rhan,  
 Iawn garu yn y gwyran :—  
 O'th ga' nghariad i'm adail,  
 Tra bo'r haf, nid âf o'r dail.

12

16

20

24

28

## VII.

Y GASEG EIRA—TRWSTANEIDDWCH Y BARDD  
YN MYNED I YMWELED A MORFUDD.

**G**WAE fardd oferddyfsg edlym,  
Afrwydded fu'r dynged ym!  
Ym min nos, a mi'n nawfswyllt,  
Ar gyrch dros y bryndir gwylt,  
Yn dyfod o dafarn gwin,  
Lle arosai lloer iefin,  
Ag eiry yn anferth gerynt,  
Yn flina gŷr o flaen gwynt;  
Lluwch ar fre, a godre gallt,  
A brig yn dwyn barugwallt;  
A dall bardd, gwn ni chwarddai,  
O gwnae dan lwyn mwyn ym mai.—

4

8

12

Bryfio i'm ffordd yn brysur,  
Brys ymlyngwn, neud gwn gur;  
A draw ni welwn y drwg,  
A gwelwed tir i'm golwg,  
Onid oeddwn, neidiwn i,  
Yn y dolur yn delwi!—  
Caseg Eiry a'm câs gurawdd,  
Yn hwyr ni's gwelid yn hawdd;  
Tôri fy nghrimp, cael chwimp chwith,  
Yn folldaidd—llyna felldith!  
Syrthio dan siarad ferthedd,  
Y dulw mawr—diawl a'i medd!

16

20

Boncyff

- Boncyff ar fardd yn bencwd,  
 Brawd ffydd hen gybydd a'i gwd ;  
 Yn belen wen, bilain oedd —  
 Annoethwas a'i rhywnaethoedd ! — 28
- Gorcheft Eiddig i'm gwarchae,  
 Anniddan y man y mae ;  
 Torth ynfyd, taerwaith anfoes,  
 Twr y carl yn tòri coes ; 32
- Pill o liw gorwyn peilliad,  
 Pwmp gwyn ar y bryn heb raid ;  
 Post oer, anhapused oedd  
 Rhodio 'n y man yr ydoedd ! 36
- Cronell a wnaeth y crinwas,  
 Cyff draw yn dygwyddaw gwas ;  
 Celfaint yn lluddias culffordd,  
 Cywely ffwl yn cloi ffordd ; 40
- Twmpath taeog yn glogwyn,  
 Tyn waed o draed, ac o drwyn ;  
 Sôb yn dymcwyddaw pobun,  
 Siol arth, rhy atgas ei lun ; 44
- Tin cythraul — bid haul a'i tawdd,  
 Twrra — bid crog ai tyrawdd !  
 Oerfel i'r taeog melyn,  
 Annoetha' hwrdd, a wnaeth hyn ! 48
- Och ! o'r ffwdan i'm annerch,  
 Yn tòri trwyn er mwyn merch !

## VIII.

DUCHAN I EIDDIG, SEF Y BWA BACH, AM  
BRIODI MORFUDD.

**Y** Ferch a fum i'w herchi,  
Gwrhæodd o'i hanfodd hi :  
Pand truan, penyd trioch,  
Ei bod yn briod a broch ? 4  
Ag i oeryn ei gwra ;  
A'i rhoi i wr unrhyw'r iâ ;  
Rhoi'r ferch rhyddo a'r erchwyn ;  
Rhoi'r goddol i ffyl y ffyn ! 8  
I ddiaiil, er ei goddoli,  
A gâr hon ddim o'i gwr hi !  
Gorau gwaith am y gwr gwag,  
Ei laindio ger ei lindag, 12  
O'r lle'r oedd gyda lliw'r od.  
I dýnu da wydenod.  
Delw gidws, da le gwyden,  
Da le'r paff ar dule'r pren ! 16  
Del i minnau, geiriau gwir,  
Dwyn gwraig y dyn a grogir !  
O gwnaeth, gyhyraeth gerynt,  
Briodas ag oerwas gynt, 20  
Ysgared, hoen blaned haf,  
A'i gwr oer, liw gwawr araf.

Anfoned

- Anfoned Lluned a'i llaw,  
Haul ei gwedd, helig iddaw: 24  
A'i dwyn fal ei hadwaenir,  
A'i droi'n hêd am ei drwyn hir.  
Os gwriog ni ysgarwn,  
Ruddiau haul, ryddi a hwn: 28  
Dillaith drwg drwy alaeth dro,  
Yr awr hyn, ar wr honno.  
Mawr-daer yw 'mryd ar awen,  
Melen ei gwallt, moliannu gwen: 32  
Rheged, a minnau rtheガaf,  
Rhegi'r gwr, a'm rheg a gaf!  
Gwr dirfin, gwryd oerfel,  
Ein gelyn ni'n gelain êl; 36  
A gêñ y gwr gan ei gi,  
A'i gorffh êl i Gaerffili;  
Angau i hwn, iangwr hyll,  
A'i neidrwydd êl yn waedryll; 40  
Dwr ai bawdd, neu dòri' ben,  
Yn symwth Jesu amen!

## IX.

I FORFUDD—Y BARDD MEWN HENAINT YN  
DWYN I GOF FAL Y BU GYNT.

**Y** Fun alaw-lun liwlwys,  
Morfudd bryd goleuddydd glwys!  
Mawr yw fy nghân am danad,  
Y ferch a welir yn fad.—

A mi neithwyr, hwyr bu hyn,  
 Yn d'aros, liwbryd erwyn,  
 Yn y man lle'i caid annerch  
 Rh'om gyntaf fis haf o'n serch,  
 Syllwn, ac edrychwn dro,  
 I'm amgylch, ac i'm ymgo'—  
 Cyntaf dan gel pan welais  
 Dy lun, a chlywed dy lais ; 12  
 Yr oedd ein llwyn ar ei fwyn fange,  
 Yn wiall, ac yn ieuangé,  
 Ac uwch ben y fedwen fau,  
 Bregus nid oedd y brigau ; 16  
 Yn nwyfus, ac yn hafaidd,  
 A gwryg ieuengctyd i'w gwraidd,  
 Teml oedd ir, ty aml ei ddail,  
 Tyddyn dan gapan tew ddail, 20  
 Twr gwych capan-grych pengrwn,  
 A chryf ei gangau, a chrwn ;  
 Ag adar, a'u dysgeidiaeth,  
 Accw'n y ffriad a'u can ffraeth.— 24  
 Mwyalchen, i'n bedwen bêr,  
 A'n doniai a chân dyner ;  
 Gwyddost i'n llwyn mwyn ym mai  
 Yn firain e lafarai ; 28  
 Y nos caid eos i'n dail,  
 Yn fywus, ag iaith siwail ;  
 A ninnau yn iawn annerch  
 Ei salm, ar gynghanedd serch.—

Aethus

Aethus yw'r henaint weithian  
 Yn dal meth ar y dail mân,  
 A'r cyff crinfrig yn trigaw  
 Dan auafnych, a gwlych gwlaw :      36  
 Oedran sy'n gadarn arno,  
 A dug y llosgwynt ei do ;  
 A mwy nid balch mwyalchen,  
 Ag eurwe bwngc ar ei ben ;      40  
 Nag eos ni wna gywydd,  
 Ar ei bwys, rhy oer y bydd.

Mae cof ynof o'm ynni,  
 A'm ferch, oedd wenferch, i ti ;      44  
 A'm cerydd mawr i'm cariad,  
 Ac ni'th gawn yn llawn benllad.  
 Hir oedio 'm ferch a'm rhydawdd,  
 A byw o hyd ni bu hawdd,      48  
 Dan fy swydd lawer blwyddyn,  
 Gorfod bod hebod er hyn :  
 A maith yw 'm dolur i'm iad,  
 A dunych bron am danad ;  
 A heiniais i'm anhunedd :  
 Imi ar bâr y mae'r bedd !      52

## X.

## MAWL I FERCH.

**Y** Ferch wen fawr ei chynnydd,  
 O liw a'r dawn, olau'r dydd;  
 Tegan y wlad i'th adwyd,  
